

**CELL MEUDWY**

SEF

**GWEITHIAU A BYWGRAPHIAD,**

**ELLIS OWEN, F.S.A.**

**CEFN-Y-MEUSYDD**

Welsh National Library of America

at

Brigham Young University

Provo, Utah

From Griff Roberts

Call Welsh  
No. 891.661

Acc. **771**  
No. \_\_\_\_\_

Ow2c  
**1877**

4.  
Owen Roberts

Unionville

Missouri

Feb. 7. 1895.







ELLIS OWEN, F.S.A.

CEFNYMEUSYDD.

Welsh  
891.661  
OW 2C  
1877

# CELL MEUDWY,

SEF GWEITHIAU

## BARDDONOL A RHYDDIEITHOL

✓ 1789-1868.  
ELLIS OWEN, F. A. S.  
CEFNEMEUSYDD,

Un nghyda Bywographiad a Darlun o'r Abodwr.

---

WEDI EI GASGLU

Robert Isaac  
1813-1905  
GAN R. J. JONES, (ALLTUD FIFION.)

---

TREMADOG:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWDYD GAN R. I. JONES.

—  
1877.





CYMRWYSIAD Y RHAN GYNTAF

# CELL MEUDWY,

YN CYNWYS

COFIANT, TRAETHODAU, &c.

---

Y RHAN GYNTAF.


---

# CYNNWYSIAD Y RHAN GYNTAF.

	TUDAL.
Annerchiad ... ..	iii
Cofiant ... ..	1
Ellis Owen—Fel Dyn, a Gwladgarwr .. ..	10
— Fel Llenor, a Beirniad .. ..	13
— Fel Bardd .. ..	27
— Fel Cristion .. ..	30
Bedd-argraph Ellis Owen, Ysw. .. ..	34
Cymdeithas Lenyddol Cefnymeusydd (gan Cynhaiarn) ..	35
TRAETHODAU, HYNAFIAETHAU, &c.	
Golygfa o ben Moel y Gest .. ..	43
Yr Esgob Humphreys ... ..	52
Nodiadau ar Owen Gruffydd, Llanystumdwy ... ..	58
Dafydd y Garreg Wen ... ..	60
Ellis Wynn o Lasynys ... ..	63
Cofiant Dewi Wynn ... ..	64
Pwy sydd Gymro? ... ..	68
Y Gwanwyn 1860 ... ..	70
Beth yw Cymdeithas? ... ..	72
Annerchiad yn Nghyfarfod Clynnog ... ..	75
Beth yw gwir Wybodaeth? ... ..	79
Barddoniaeth y Cymry ... ..	80
Sylw ar ddechreuad y Feibl Gymdeithas yn Eifionydd... ..	82
Yr Ysgol Sabbothol .. ..	84

## ERRATA.

Darllener, *Mr. Pugh ac eraill*, yn lle Mr. Llwyd. tudal. 4.  
 Darllener, *Saith o Chwiorydd*, yn lle Pump. tudal. 5.

 Y mae y Gofgolofn y crybwyllir am dani yn tudalen 9, wedi cael ei gosod i fynu.

## ANNERCHIAD.

---

Wrth ystyried mor lleied o fywgraphiadau sy'n ymddangos ar ol ein Beirdd a'n henwogion Cymreig, ac mor ychydig o'u gweithiau barddonol a grynhoir yn llyfrau i'w trosglwyddo i'r oes a ddel mewn cydmariaeth i eiddo'r Saeson, a'r diofalwch ac sydd wedi meddianu ein cenedl yn yr oesau diweddaraf, er cymaint eu cyfleuserau mewn cydmariaeth i'r oesau blaenorol, ac oeddynt mor ofalus am groniclo gweithiau Beirdd eu hoes, er cymaint yr anfanteision y llafurient danynt.

Wrth edrych ar bethau yn yr olwg yma, tybiwn ei bod yn llawn bryd diwygio yn hyn o beth, fel dyledswydd orphwysedig arnom ni fel cenedl, a'n rhwymau cenedlaethol i'r oes a ddel, i drosglwyddo iddynt ar gof a chadw, hanes a gweithiau cewri ein hoes.

Hyn, ynghydag ymsyniad o deilyngdod uchel gwrthddrych ein cofiant, ac awdwr Barddoniaeth

y llyfr hwn a'n cymhellodd i ymgymeryd â'r gwaith o ddwyn allan y gyfrol fechan sydd o'ch blaen. Ni's gallwn ymaflyd mewn gwaith mwy difyrus, oherwydd dau beth,—Teimpladau cynes boreu oes—wedi ein magu ar y terfyn â'n gilydd ; cof am y parch a ddangosid iddo gan bawb, ynghyda'r syniadau uchel a goledewn am ELLIS OWEN, fel fy athraw Barddonol, ynghyda'r perarogl sydd i'w enw drwy Gymru benbaladr.

Bu amryw bethau yn achosi tipyn o annibendod yn nygiad y gwaith hwn allan, na bydd yn un dyddordeb ei grybwyll.

Dylem gydnabod ein diolchgarwch i nifer o'i ddisgyblion, a charedigion ein gwrthddrych am eu cynnorthwy, yn gystal ac i'w Nith, Mrs. Williams, Cefnymeusydd, a'i phriod, y Parch. W. Williams.

Ymdrechwyd i roddi darluniad teg o'r Llenor, y Bardd, a'r Hynafiaethydd; a detholwyd rhyw ychydig ddarnau Rhyddieithol o'i eiddo,—ond ni's gellid yn ol maintioli y llyfr roddi ond ychydig o honynt, yn unig fel *specimen* o'i ddull byr a synwyrllawn o ysgrifenu, ac amcan nodedig ei ysgrifeniadau bob amser i dderchafu moes a chrefydd.

Am ei ohebiaethau rhwng Beirdd, Llenorion, Dysgedigion, a Boneddigion ei oes, gellid gwneyd rhes o gyfrolau o honynt; felly ofer ceisio dechreu gwneyd detholiad o'r cyfryw yma. Canodd Eben Fardd iddo yn fyrfyr pan ar ymweliad âg ef yn Rhag. 18, 1848,—

Fy anwyl Eifionydd, a'i moesol GEFNYMEUSYDD,  
Ynt enwau wnaent danwydd i 'wenydd yn wir ;  
CEFNYMEUSYDD mae iasiau, a than drwy 'ngwythenau,  
O'th gofio a'r fanau Eifionydd.

Y mae un peth nodedig yn ei gasgliad Barddonol, ei fod wedi ei grynhoi yn fanwl, a'i barottoi i'r wasg mewn ysgriflyfr destlus, gan ddyddio (*date*) pob cyfansoddiad wrth yr amser ei gwnaed, yr hyn sydd yn esponiad ar deimladau y Bardd, a'r amgylchiadau dan ba rai yr ysgrifennai hwynt. Yr ydym yn tybied y byddant yn y wedd yma yn llawer mwy difyr i'w darllen na'r hen ddull o ddosranu Cywyddau, Awdlau, Pryddestau, Englynion, Penillion, Emynau, &c., gyda eu gilydd, gan fod amrywiaeth bob amser yn cadw darllen rhag bod yn "flinder i'r cnawd."

Buasai yn dda genym pe syrthiasai y casgliad hwn o lyfryn i well dwylaw, a than ofal

amgenach golygydd. Ond nid oes genym ond gollwng y gwaith fel y mae i ddwyllaw y darllenydd, gan ddisgwyl y bydd, er ei hcll ddiffygion, yn well na bod hebdo; a chan obeithio y bydd yn rhyw gofgolofn i'r oes a ddel, o un a haeddodd dderbyn anrhydedd gan ei genedl.

Y gorphwysa

Eich ffyddlon gydwladwr,

R. I. JONES, (ALLTUD EIFION.)

O.Y.—Dylem gydnabod cynorthwy amryw o'i ddisgyblion, megys Cynhaiarn, Mr. Edward Roberts, Pencyflog, Mr. Rice Williams, Garnedd Hir, Mr. Robert Evans, Pentre'rfelin, y diweddar Fardd Treflys, a Nicander; ac hefyd ei Nith, Mrs. Williams, Cefnymeusydd, am ddefnyddiau o'r ysgrifeniadau, &c.

## COFIANT, &c.

---

UN o'r goruchwylion anhawddaf ei wneuthur yn gywir, teg, a chyflawn, ac ar yr un pryd yn ddyddorol i'r darlennydd, ydyw ysgrifenu Cofiant; ac yn enwedig dynu allan Fywgraphiad teilwng o wrthddrych yn llenwi cynifer o gymeriadau gwladol a llenyddol, ag un sydd a fynom âg ef yn y rhagdraethawd hwn. Cawn y byd a'r wasg weithiau yn ddistaw hyd ar ol dyddiau rhai gwrthddrychau, a'r ddiareb, "O myni glod bid farw," yn briodol iddynt. Ond nid felly ELLIS OWEN, Cefnymeusydd. Yr ydoedd yr edmygedd a'r parch a fynwesid am dano, ac a delid iddo yn gyffredinol drwy gydol ei oes hirfaith, ddihalog, a disglær, yn tynu allan deimlad parchus am ei Enw gan bawb a'i hadwaenai, drwy ystod ei oes. Ni thybiwn yn oreu wneyd rhyw draethawd hirfaith, na gweithio nodiadau meithion o'n heiddo ein hunain arno, gan fod genym gynifer o ysgrifau o'i eiddo ef ei hun am fanylion ei enedigaeth, ei achau, a boreu ei oes, ynghyda llythyrau oddiwrth amryw lenorion a chyfeillion o'i eiddo, ac ddyru a ddisgrifiad o hono yn llawn gwell nag a allwn ni ei grynhoi yn hyn o gofiant

Ganed Ellis Owen yn y flwyddyn 1789, yn Nghefnymeusydd, plwyf Ynyscynhaiarn, ger Tremadog, Cwmwd Eifionydd, sir Gaernarfon, lle bu fyw yn ddidor hyd ddydd ei farwol-aeth, sef am 79 o flynyddoedd.

Rhodddwn yma adysgrif o'i eiddo, dyddiedig yn y flwyddyn 1862, yn cofnodi manylion adeg ei enedigaeth :—

*“ Ellis, son of Owen Ellis, of Cefnymeusydd Isa', by Ann his wife, was baptized April 3rd.*

“ The above is a true copy taken out of the Register Book of Baptisms for the Parish of Ynyscynhaiarn, year 1789.”

Ysgrifennodd fy nhad, yr Owen Ellis uchod, yr hyn a ganlyn yn Meibl Teuluaid Cefnymeusydd.

*“ Ellis, the son of Owen Ellis and Anne Thomas, his wife, was born March the 3rd, between 11 and 12 at night, 1789, and the 5th day of the moon's age.”*

“ Y mae'n ymddangos i mi gael fy ngeni nos Fawrth, rhwng 11 a 12, yr 31ain o fis Mawrth, 1789 ; a bedyddiwyd fi y Gwener canlynol, y 3ydd o Ebrill (Gwasanaeth y Garawys,) gan y Parch. Robert Anwyl, A.B., o Fraich y Saint, Person Crugaeth ; bu farw y flwyddyn hon ; a daeth ar ei ol y Parch. David Ellis, A.M. ; Bardd enwog a chasglydd achau.

Hyn a 'sgrifenyd y 25ain o Fawrth, 1862, genyf fi, Ellis Owen, a byddaf yn 73 oed, os byw nos Lun nesaf.

ELLIS OWEN.”

Mae'n ymddangos y bwriadai gwrthddrych ein cofiant ysgrifenu hanes ei fywyd, fel y gwelir oddiwrth y crynhodeb isod ysgrifennodd yn y flwyddyn 1858, yr hwn a argraphwyd yma allan o'i law-ysgrif ef ei hun.

## ELLIS OWEN

“ A aned yn Nghefnymeusydd, plwyf Ynyscynhaiarn, sir Gaernarfon, 31ain o Fawrth, 1789, ac ydoedd fab Owen fab



Ellis Owen o'r un lle: mam ei dad oedd Margaret Prichard, o'r Tymawr, Treflys, ferch Richard Williams, o deulu Caerwynweh, Meirionydd. Ei fam oedd Anne Thomas, (yr hon a anwyd yn Nhyhwnt-i'r-bwlch, Hydref y 3ydd, 1748, ac a fu farw ddydd Sul, y 19eg o Ragfyr, 1841, wedi byw 93 o flwyddi, dau fis ac un diwrnod,) ferch Thomas Rolant o Duhwnt-i'r-bwlch, fab Richard, fab Thomas, fab Richard, fab Gwenric (neu Kenrick) o'r Dre'newydd, sir Drefaldwyn. Brodyr i'w fam oedd y Parchedig John Thomas, A.C., Prif Athraw Ysgol Beaumaris, a'r Parch. Richard Thomas, G.C., a fu farw yn Rhuthun,— (*Gwel Williams's Eminent Welshmen.*) Mam ei fam ydoedd Jane, ferch John Griffith, o Duhwnt-i'r-bwlch, ger Porthmadog, fab Griffith Owen, o'r Fronoleu, fab Robert, fab Hugh, fab Reinallt, o'r Frongoch, wrth y Bala. Griffith Owen, o'r Fronoleu, oedd gefnder i Richard Humphreys, Ysw., Hendref, Penrhyndeudraeth, tad yr Esgob Humphreys, o Fangor.

Ysgrifennodd Ellis Owen Draethodau i'r gwahanol Gyhoeddiadau—yr hen Seren Gomer, y Drysorfa, y Gwyl-iedydd, y Gwladgarwr, y Traethodydd, y Brython, &c., &c. Bu yn gohebu ar Hynafiaeth gydag amryw o'r Hynafiaethwyr goreu yn yr oes; yn mysg ereill Professor Wray. Ysgrifennodd gopi o 120 o dudalenau o farddoniaeth gaeth a rhydd, yr hwn sydd yn ei lawysgrifen. Cyfansoddodd dros 30 o Feddergryff, y rhai ydynt i'w gweled mewn cymaint a hyny o Fynwentydd; yn mysg ereill, ar Ieuan Lleyrn, Ieuan Glangeirionydd, a Robert ab Gwilym Ddu. Bu yn ysgrifenydd i amryw Gymdeithasau, sef Cymdeithas Eifionydd er Cospi Drwgweithredwyr, am 40 mlynedd!

Cymdeithas y Biblau yn Nhremadog a'i hamgylchoedd, am 26 mlynedd; ac yn Gadeirydd i'r un Gymdeithas hyd ddiwedd ei oes; Cymdeithas Ysgolion Sabbothol sir Gaernarfon am 10 mlynedd; a Chymdeithas Ysgolion Sabbothol Eifionydd am 34 mlynedd. Bu yn Arolygwr Ysgol Sabbothol y Brynmelyn am 45 mlynedd! Bu Cymdeithas Lenyddol yn Nghefnymeusydd o dan ei olygiaeth am 11 o flynyddoedd. Bu yn gydfeirniad âg Ieuan Glangeirionydd yn Eisteddfod y Gordofigion, Lle'rpwll, Mehefin 1840. Yr oedd yn un o'r Ysgrifenyddion anrhydeddus yn Eisteddfod Madog, 1851. Gwasanaethodd swyddi Plwyfol fwy na 20 mlynedd, sef Pencwnstable, Warden, *Overseer* y Tylodion, a'r Ffordd fawr, Collector, Guardian, &c. Yr oedd yn gyfaill i Dewi Wyn er pan oeddynt yn yr Ysgol, hyd ddydd ei farwolaeth; felly hefyd i Robert ab Gwilym Ddu, yr hwn oedd gâr iddo; a'r Cywydd olaf a gyfansoddodd, oedd i "Annerch ei gâr a'i gyfaill barddonol" o Gefnymeusydd.\* Bu gydag ef o dro i dro 72 neu ragor o Feirdd a Phrydyddion yn Nghefnymeusydd." [Hyd yma yr ysgrif.]

Yn yr Amaethdy cyfrifol uchod, sef Cefnymeusydd y trigai ei henafiaid ers oesoedd, y rhai oeddynt o waedoliaeth barchus. Bu yn yr ysgol yn gyntaf yn Eglwys Penmorfa, (yr hon sydd tua milltir o bellder o Gefnymeusydd,) ac a gedwid gan un Mr. Llwyd (hen Offeiriad allan o le). Ei gydysgolorion oedd-ynt, ymhlith eraill, yr anfarwol Dewi Wyn, Griffith Parri, Llundain, John Thomas, Penfforddwen, Isaac Morrrys, Pentyreh. Yna symudwyd ef i'r ysgol i'r Amwythig, lle y dysgodd yr iaith Saesonaeg yn dda, yr hon a goleddodd ar hyd ei oes. Yr oedd ei dad, Owen Ellis, yn hynod o barchus a

\* Gwel tu dal. 137 o'r Ail Ran.

charuaidd fel cymydog a gwladwr, ac yn orselog fel Eglwyswr. Dywedir iddo ef ac Owen Ifan,\* o Dyddyniolyn, (dau gymydog, dau Warden a pherthynasau,) fyned ar eu traed i Fangor, at yr Esgob i erfyn am wasanaeth bob Sul yn Eglwys eu plwyf; a phan ddeallasant mai esgus y Person oedd, fod dwfr yn ei hamgylchu ar droiau, adeiladodd y ddau, ar eu cost eu hunain, dramwyfa i fyned i'r Eglwys, a elwir hyd heddyw, "Sarn yr Ynys."

Yr ydoedd mam Ellis Owen hefyd yn wraig o gynheddfau cryfion, o dymer dawel a phwyllog, yn sefyll yn uchel ymhlith gwragedd rhinweddol ei hoes; a diameu fod Modryb Ann Thomas, Cefnymeusydd, fel ei gelwid,† wedi gadael delw moesoldeb, rhinwedd, a chrefydd ar ei mab Ellis (yr hwn a drigodd gyda'i fam hyd ei bedd) drwy ei holl oes hir,—efe oedd "unig fab ei fam."

Yr oedd i Ellis Owen bump o chwiorydd, y rhai a briodasant oll âg Amaethwyr cyfrifol.

Ni bu efe erioed yn briod; a'i reswm dros hyny ydoedd, rhag tramgwyddo ei hen Fam barchus; er y byddai yn wastad yn arfaethu gwneuthur hyny yn y dyfodol.

Yr ydoedd rhywbeth henafol a rhamantus yn yr olygfa ar yr hen Dŷ, a'i safle ar bonc uwchlaw llwyni o goed yn arolygu Pentre'rfelin, Llynystumllyn, a Threflys, ac yn ngolwg Eglwys Ynyscynhaiarn, ae Eglwys Treflys, a rhan helaeth o gulfor Aberteifi, Castell Harlech, a Bryniau sir

---

\* Yr ydoedd yr Owen Ifan uchod yn Hendaidd i Gyhoeddwr, a chasglydd y llyfr hwn.

† Hyd o fewn ryw ddeugain mlynedd yn ol, gelwid y gwragedd ar ol eu cyfenw gwryfol, ac nid yn ol *surname* eu gwŷr, fel yn bresenol.

Feirionydd, a Moelygest. Yn mae Cefnymeusydd yn lle tawel neillduedig, hynod o briodol i Fardd, a Llenor, o chwaeth Ellis Owen.

Fel Amaethwr, yr ydoedd yn llygadog wrth brynu a gwerthu; diwyd a deffrous tuhwnt i'r cyffredin, ac yn hynod o lwyddianus yn ei drafnidiaeth; oherwydd manylder a chynildeb ei ddull gyda phob peth, yr oedd yn y cylch hwn fel ymhob cyfeiriad arall, yn nodedig am uniondeb ei ymddygiad, a manylder ei gyfrifon. Yn amaethiad y tir, yr ydoedd o'r dosparth uchaf; a'i holl dyddyn mor ddestlus a chryno fel y gellid arfer yr hen air "fel pin yn y papyr," am yr oll yr ymdriniai âg ef i mewn ac allan. Felly casglodd lawer o gyfoeth, yr hwn a ddefnyddiai yn ei le; tra yn wrthwynebol i'r eithaf i bob math o wastraff, yr ydoedd yn mwynhau da y byd hwn yn ei holl gyssylltiadau personol, teuluaidd, a chyfeillachol, mewn cymedroldeb. Nis gwyddom am neb yn "arfer y byd heb ei gymarfer" yn well. Edrychid i fynu arno gan ei holl gymydogion, o ran ei wybodaeth, ei gallineb, ei gyfiawnder diwyrni, ei haelioni, a'i garedigrwydd, ac fel cymydog cymwynasgar.

### C E F N Y M E U S Y D D.

Ail adeiladwyd yr Amaethdy gan Ellis Owen, yn balasdy bychan a chyfleus, yn y flwyddyn 1843. Yr ydoedd wedi trefnu yr hen dŷ fel Ceginau a thŷ croes, i'r adeilad newydd, yr hwn sydd yn gwynebu y de-ddwyrain gogyfer a Moel y Gest; fel y canodd Eben Fardd wrth godi, pan lettyodd yno:

" Moel y Gest yn ymyl gaf  
Yn y gwydyr pan godaf,

A choryn hardd ei charn hi,  
 Yn chwilgar uwch y weilgi,  
 Eglur dŵr yn gwylio'r dôn,  
 Rhag i'w nawf rygnu Eifion, &c.

Gwel BRYTHON, Cyf. Ail, td. 96.

Yr ydoedd math o ystafell yn yr hen dŷ, a elwid y  
 "Penucha'," yr hon a drefnodd efe yn ystafell i gynal  
 "Cymdeithas Eifionydd," a fodolai yno am ll o flynyddau.  
 Megys y canodd un o'r Beirdd,—

Cartref hoffus y Prydyddion,  
 Nawddle hyfryd i Lenorion,  
 Enw sydd yn anwyl beunydd  
 Ydyw enw Cefnymeusydd.

Enw sydd yn gysegredig,  
 Enw gofir yn barchedig  
 Tra fo enw i Eifionydd,  
 Cofir enw Cefnymeusydd.

Yma ceir pob gwenau siriol,  
 Cân, a chroeso yn wastadol ;  
 Paradwys hoff i egwan Brydydd  
 Geir o amgylch Cefnymeusydd.

Yr oedd ganddo awdurdod mawr ar ei weision a'i law-forwyn-  
 ion ; ac etto yr oeddynt yn ei barchu ac yn ufuddhau iddo  
 gyda'r parodrwydd siriolaf ; cymerai lawer o drafferth i'w  
 haddysgu, ac ni byddai odid i was na morwyn ymadael o Gefn-  
 ymeusydd heb gael copi o'r Ysgrythyr Lân i fyned i'w canlyn.  
 Byddai'r gweision yn aros yno fel rheol, am lawer o flynydd-  
 oedd. Bu ei hen hwsmon yno yn was am y tymor maith o  
 yn agos i 57ain mlynedd, fel y gwelir wrth y nodyn canlynol  
 a gafwyd ymhlith ei ysgrifau :—

“Bu farw yn Nghefnymeusydd, gerllaw Tremadog, ar yr 8fed o Awst, 1844, yn ei 80 mlwydd oed, Rhobert William. Yr ydoedd yn ddyn cryf, yn Gristion diragrith, a bu was gonest a ffyddlon namyn tri mis 57 o flynyddoedd gydag Ellis Owen a'i deulu yn y lle uchod! Yr ydoedd yn aelod gyda'r Trefnyddion Calfinaidd er's tua 45 o flynyddoedd. Pwy a aeth drwy ei daith grefyddol yn fwy diboen i bawb? Y'mha le y gwelir gwas mor onest a ffyddlon yn gwneuthur y gwasanaeth megys i'r Arglwydd, ac nid i ddynion? Yr oedd ef yn addurn i'r alwedigaeth isel yr oedd ynddi; ac ymddygodd yn ei le mor deilwng o Gofadail a neb o enwogion daear:—bu farw yn dawel a thangnefeddus.”

Byddai Ellis Owen yn hynod o dyner gyda'r creaduriaid direswm; ni's gallai oddef bod yn agos pan gymerid bywyd unrhyw greadur; ac ni oddefai i neb arfer creulondeb attynt, byddent fel yn ei adnabod pan y gwelent ef.

Wedi treulio oes hirfaith o namyn un, pedwar ugain o flwyddi heb fod ei nerth ond ychydig mewn cydmariaeth, “o boen a blinder” iddo, bu farw am ddau o'r gloch prydnhawn ddydd Llun, y 27ain o Ionawr, 1868. Yr oedd yn ddiarhebol o dda ei iechyd hyd y tair blynedd olaf o'i oes, pan y cwynai yn fynych gan boen yn ei ben. Yr oedd yn alluog i gyflawni ei holl swyddi hyd o fewn chwech wythnos i'w farwolaeth. Ei afiechyd ydoedd Enynfa y gwddf-bibellau (*Bronchitis*), yr hwn a godai yn enynfa i'w ymenydd. Yr ydoedd yn ei lawn wybodaeth, ac yn amheu agoshad ei ymddattodiad. Dywedai y nos Sadwrn cyn ei farwolaeth:—

Nos Sadwrn a osodwyd—yn derfyn;

Darfu'r wythnos gafwyd;

Yr olaf ar a welwyd,—

Ai olaf un welaf wyd?

Yr oedd ganddo Gi bychan a ffyddlon, yr hwn ni symudai oddiar ei obenydd tra bu yn glaf; a cheffid mawr drafferth i neb weini iddo gan y ci, oddieithr ei Nith, Mrs. Williams:

byddai yn rhaid ei droi allan pan ddeuai'r Meddyg yno. Disgwyliid ei fod yn well nos Sadwrn; cododd ar ei eistedd, galwodd am gael ei eillio, ac am ei bibell, ond methodd a chynnal; dywedai am symyd rhai o'r dodrefn oedd yn yr ystafell, fel y gallai weled yr angylion ag y tybiai ydoedd yn ehedeg ar y pared. Boreu Llun, galwai yn floesg ar ei Nith, a cheisiai farddoni ei brofiad, gan ddywedyd,—

“Yr wyf yn methu credu,  
A methu anghredu yn Nghrist.”

Ac ychwanegai,—ond ni's gallesid ei ddeall; wedi hyny, hunodd mewn math o lewyg esmwyth, a'r wreichionen fywiol a gymerodd ei ehedfan i fyd yr ysbrydoedd!

Trefnasai ei gladdedigaeth, gan ddymuno i'w fynweso! gyfaill y diweddar Nicander i weinyddu ar yr achlysur; ond lluddiwyd ef gan afiechyd. Gorchymynasai gael ei gario ar elor, ac nid ei gludo, ac na wisgai neb alarwisgoedd yn ei angladd.

Felly claddwyd ef ar ddydd Gwener, y 31ain o Ion. 1868, yn mynwent Ynysecynhaiarn, mewn lle a ddewisodd ef ei hun yn ei fywyd, ar y llaw aswy i'r rhodfa, oddeutu deg llath oddiwrth ddrws yr Eglwys. Disgwyliir gweled cyn hir, Gofgolofn deilwng o hono wedi ei gosod i fynu.

Bellach nyni a ymdrechwn roddi darluniad byr o hono,—

FEL DYN A GWLADGARWR,  
FEL LLENOR A BEIRNIAD.  
FEL BARD D A CHRISTION.

Wrth wneuthur hyny, nid ydys ond cofnodi rhyw grynhodeb bychan o'i ragoriaethau, fel y nodau mwyaf arbenig yn nheithi ei oes, neu brif llinellau (*outlines*) ei gymeriad diargyhoedd, a'i dalentau disglaer.

## ELLIS OWEN FEL DYN, A GWLADGARWR.

Yr oedd Ellis Owen, o ran ei berson, yn lluniaidd, tal, a grymus o gorpholaeth; ei wisg a'i osodiad yn dra boneddigaidd, ac yn nodedig o lanwaith, trefnus, a gweddaidd bob amser; ac o ran dull corfforol yn fwy hardd na'r cyffredin o ddynion ei oes. Ni buasai yn bosibl i ddyn dieithr wrth ei weled mewn ffair neu farchnad, neu gyfarfod cyhoeddus, beidio gofyn i'r nesaf atto, "Pwy, attolwg, yw y boneddwr golygus acw?" Yr oedd ei wynebpryd fel yr eiddo Ustus neu Seneddwr, yn llawn o argoelion dealltwriaeth dwfn a myfyrgar; trwyn lled gribog, talcen mawr a llydan, a genau penderfynol. Yr oedd ei lygaid yn leision, a'i edrychiad yn graff a llym; ond pan fyddai yn gwenu, yr oedd ei lygaid yn serenu fel gemau yn ei ben.

Yr oedd ei law-ysgrifen yn lled fân ac yn fechan, mor hardd ac unffurf ac amlwg a *choperplate*. Fel yr oedd yn heneiddio yr oedd ei law-ysgrifen yn myned yn dlysach ac yn fanach. Yr ydoedd yn ysgolhaig o'r dosparth hwnw a "Yfai win da afon dysg," drwy gynorthwyon sylw. Sugnai wybodaeth oddiwrth bob peth. Dywedai, iddo gael addysg yn aml gan blant o dair hyd yn ddeg oed.

Yr oedd ei safle yn y gymydogoeth yr oedd yn byw ynddi, a sefyllfa addysg yn y cyfnod, yn ei osod o angenrheidrwydd fel oracl y rhan hŏno o'r wlad yn yr adeg hynny; fel ac yr ydoedd yn rhyw gynghorwr cyffredinol yn ei ardal, i bawb, a fyddai mewn petrusder neu amheuaeth, ynghylch matterion pwysig o natur deuluaidd neu blwyfol. Gallai fod hyn, yn nghydag oes ddifreulyd o ran moesoldeb, a'i sefyllfa feudwyaidd yn Nghefnymeusydd, wedi peri iddo ymddangos i rai, fel yn mynwesu ychydig o'r peth a elwir *Hunanoldeb*; ond



os ydoedd yn esgusodol yn neb, gellid yn hawdd edrych heibio iddo yn ngwrthddrych ein cofiant.

Yr ydoedd cyfiawnder anhyblyg ei fuchedd, a sirioldeb a mwyneidd-dra ei dymer, yn ei wneuthur yn wrthddrych hoffder a pharch anrhydeddus pawb a'i hadwaenai.

Yr oedd yn meddu cryn allu mewn gwawdiaith (*Sarcasm*). Pan ymwelodd cyfaill âg ef i weled ei dŷ newydd, dywedai, "Nid oes yma ddim yn eisiau, Mr. Owen, ond *un* peth" Attebai yntau yn uniongyrchol, "Ai y *peth hwnn*, ag y cawsoch chwi ormod ddwywaith o hono?" Yr oedd ei gyfaill wedi bod yn *briod ddwywaith*. Cafodd yntau y pwyth adref, pan yn cyfarfod â hen wreigan o'r pentref yn dyfod allan o'r Eglwys, wedi ei chysylltu mewn glân briodas â'i *phedwerydd* gŵr, gofynai iddi yn bur sarug, "Pa faint o wŷr a wna'ch tro chwi, Betti?" hithau a'i hattebai'n ddigofus, "*un*, pe buasai'n para."

Yr oedd gwraig i *Efarm* gyfagos ag a fyddai yn lled hoff o fod oddicartref, yn myned heibio i rodfa'r bardd, yr hwn oedd yn eistedd ac yn mwynhau ei bibell; dywedai wrtho, "Mr. Owen, yr ydych yn edrych yn ddedwydd,—nid oes arnoch eisiau dim ond *gwraig*." I'r hyn yr attebai, "Pan fyddaf fi yn meddwl am hyny, mi a gymeraf *ddwy*; un i warchod gartref, a'r llall i fyned i "*visits*." Teimlodd y wraig yr ergyd, ac aeth ymaith.

Yr oedd ei dynerwch at anifeiliaid direswm, ac adar asgellog, yn ddiarhebol; byddai'r adar fel yn ei adnabod: dywedai am y Brain fod yn rhaid i'r rhai hynv gael bwyd. Ysgrifennodd sylwadau i'r Brython yn y flwyddyn 1860, (y rhai a adar-graphwyd yn nghorph y llyfr hwn,) yn nodi yr amser yr ymwelai y wennol a'r Gôg â Chefnymeusydd, am dymhorau.

Byddai ei dda corniog yn ymgasglu atto gan swyn ei lais soniarus wrthynt Ni's gallai oddef fod yn ngolwg, nac yn nghlyw, ei anifeiliaid pan yn cael eu dyspaddu, neu eu lladd gan y cigydd.

Yr oedd gair da,—gair mawr ac uchel iddo gan bawb yn gyffredinol. Yr oedd hynodion ei ragoroldeb yn ei gywiredd a'i fanyldra, a phrydlondeb ei holl ymdrafodaeth—yn ddyn i'w air yn mhob ystyr o'r ymadrodd. Yr oedd yn hollol ddiweniaith a didderbyn-wyneb. Ni wnai fawr mwyach â neb y caffai allan ffalsder ynddo mewn un modd; ond y didwyll a fyddai ei gyfaill mynwesol. Yr oedd ei symledd gwastadol, ei bresenoldeb meddwl, a'i sirioldeb, yn peri i ddyn deimlo ei hun yn ymserchu ynddo fel cyfaill. Yr ydoedd ymhell o fod yn ddrwg-dybus; ond coleddai farn dyner am aml un, yr hyn a drodd weithiau yn siomedigaeth chwerw iddo. Yr oedd pwyll a gochelgarwch, yn ei gadw rhag syrthio i amryfusedd, y gallasai rhai o'i safle ef fyned iddynt. Dyn yn caru heddwch a thangufedd ymhob cylch y troai ynddo ydoedd. Bu yn Warden Eglwysig yn Eglwys ei blwyf am flynyddoedd lawer; ac y mae yn debyg ei fod ymhlith goreuon yr oes fel y cyfryw. Ei ymffrost ydoedd, bod yn llond ei swyddi. Cadwai y claddfeydd yn ddestlus. Codai y cerig beddau ag a orchuddid gan ddaiar â glaswellt, ne's y byddai preswyl ddistaw y meirw fel gardd ganddo. Ail adeiladodd yn yr ystyr hon feddgolofn y Telynor a'r Cerddor enwog "*Dafydd y Gareg Wen*." Efe a ysgrifennai bron bob peth cyssylltiedig â phlwyf Ynyscynhaiarn, am ddeugain mlynedd canol ei oes, fel y gwelir yn Nghist Llan y plwyf hwnw.

Nid oedd neb yn y cyffiniau y pryd hwnw yn alluog i

ysgrifenu Ewyllysiau, gwneyd *Inventories*, Cyttundebau, &c. ond efe; canys nid oedd yr ardal wedi ei bendithio â chyfreithwyr y pryd hyny. A byddai pob helyntion teuluaidd a ymddiriedid i'w gyfrinach, yn gladdedig yn ei fynwes.

Un tro pan ddeallodd gwraig barchus (i'r hon yr oedd yn gyfaill mawr,) ei fod wedi ysgrifenu Ewyllys ei gŵr, yn awyddus i wybod ei chynwysiad hi, a'i gwahoddoddi dde; ac yn bur gyfeillgar, gofynodd iddo a wnaef un ffafr â hi, sef adrodd pa beth a wnaethai ei gŵr iddi yn ei ewyllys? Dywedodd yntau wrthi, "A ellwch chwi gadw *secret*?" "O dear me, gallaf," oedd yr ateb, gan ddisgwyl cael gwybod. Dywedodd yntau, er mawr siomedigaeth iddi, "Gallaf finau hefyd."

Bu am lawer o flynyddoedd yn arolygu y Pwysau a'r Mesurau dros y sir yn Marchnad Tremadog; yr oedd ei onestrwydd, ei fanylder, a'i ofal, yn ddjarhebol yn hyn o waith.

Ni's gellir yn hawdd fesur nac amzryffred y dylanwad anuniongyrchol a gariodd bywyd dichlynaidd, ymddygiad boneddigaidd, a chywirdeb dihoced; gwrthddrych ein cofiant *fel dyn*, ar yr holl wlad o'i amgylch.

#### ELLIS OWEN FEL LLENOR A BEIRNIAD.

Yn y cylch hwn gellir edrych arno yn un o brif wŷr ei oes a'i genhedlaeth; ac yn hyn efallai y cynwysa ei ragoroldeb mwyaf. Y mae Cwmwd Eifionydd wedi bod er's oesau yn nodedig am ei gwŷr athrylithgar; ond ar rai golygiadau, ELLIS OWEN ydoedd y mwyaf nodedig o holl blant ei hathrylith, a'i llenorion.

Yr oedd yn hynafiaethydd, ac yn achyddwr anghydmarol.

Nid oedd dim cysylltiedig â hynafiaethau ei wlad, ac achyddiaeth ei genedl, nad ydoedd yn hyspys o hono, neu fe'i chwiliai allan. Hen ffyrdd Rhufeinig,—hen gestyll,—hen balasau,—hen deuluoedd,—hen ryfeloedd â'r Saeson a'r Normaniaid,—maesydd ein brwydrau,—a phrawfion hynafiaethol, yr oeddynt ganddo megys ar flaenau ei fysedd, fel o anian yn ogystal a thrwy astudiaeth. Yr ydoedd grym ei gof, yn fantais fawr iddo yn y gangen hon.

Fel y gwelir wrth y nodyn a ganlyn, yr ydoedd wedi ei ethol yn aelod o Gymdeithas Hynafiaethol Freiniol Prydain Fawr, neu yn F.S.A.; ond yr ydoedd ei ysbryd wedi ehedeg ymaith, erbyn i'r hyspysiad gyrhaedd Cefny-meusydd.

*Somerset House,*

*Friday, 24th January, 1868.*

Sir,—As Secretary of this Society, I have to announce to you, that in a meeting held here last evening, you were duly elected a Fellow, &c. &c.

I hope that you may be able to attend some early meeting of the Society, and be admitted a Fellow.

I am, Sir,

Yours faithfully,

C. WRIGHT WATSON.

Ellis Owen, Esq.

Bu yn gohebu â phrif Hynafiaethwyr yr oes, megys y Professor Wray, Parch. John Jones, A.M., Periglor, Llanllyfni, yn nghyda lluwys ereill. Yr oedd ef mor fanwl ac mor amrywiol yn y maes llenyddol, fel yr ydoedd yn anhawdd gwybod i ba gangen neillduol y perthynai fwyaf. Yr oedd ei gof yn nodedig o gywir a gafaelgar. Adroddai ddarnau o hen farddoniaeth am oriau, pan yn nghwmni ei

hoff gyfeillion Barddonol. Anaml y gwelid neb a henaint yn effeithio mor lleied ar ei gof a'i ddeall; yr oeddynt yn blaguro, ac yn dirfion ac iraidd yn ei henaint ef.

Nis gwyddom am neb, hen na diweddar, o fewn cylch ein hadnabyddiaeth, a chymeryd ei sefyllfa a'i amgylchiadau o feudwyaeth i ystyriaeth. yn meddu ar y fath awydd i ddwyn dynion ieuaine i fynu, ac i feithrin talent yn eraill; na neb yn fwy parod i hyfforddi yr ieuane a welai yn llafurio am wybodaeth dan anfanteision; ac ni byddai dim yn rhoddi mwy o foddhad iddo, na phan glywai am y cyfryw rai wedi llwyddo ac ymddyrchafu mewn dysgeidiaeth, neu sefyllfaoedd yn y byd. A gwelodd lawer ag y bu ef yn eu hyfforddi mewn gwahanol ganghenau o wybodaeth, wedi dyfod yn addurn i'w gwlad, ac yn ddynion pwysicaf Cymru.

Mae'n ddiamau nad oedd yr un amaethdy yn Nghymru, o ddyddiau Ifor Hael hyd yn awr, ag y bu cynifer o Feirdd a Llenorion yr oes yn ei fynychu a CHEFNYSYDD, am ysbaid o driugain mlynedd; na lle ag y bu mwy o ymdrafodaeth ar Hynafiaeth, Barddoniaeth, Rhesymeg, Darlleniaeth, Gramadeg, Ieithyddiaeth, Beirniadaeth, a phob *aeth* arall ynddo. Yr ydoedd "Cell Meudwy" wedi myned yn air teuluaidd am dano. Dywedai Nicander "fod Cefnysydd yn fath o *Halfway-House* i Lenyddion Cymru; nad oes odid i lenor na bardd o ddim nôd yn y dywysogaeth, na bu yn Nghefnysydd ar ei dro, yn ymweled âg Ellis Owen, ac yn cael ei groesawu ganddo. Bu mwy o dalent yn y tŷ enwog hwn, am yr haner can mlynedd diweddaf, nag odid i dŷ yn Nghymru, oddigerth tŷ Carnhuanawe."

Bob amser y mynychid Cefnysydd gan gyfaill, er maint fyddai ei ddyledswyddau amaethyddol, rhoddai y Bardd

bob peth heibio i fwynhau ei gyfeillach naill ai gyda'i gettyn yn yr hen gongl fawr, neu yn ei Efrogfa, yn Nghadair yr Esgob Humphreys.\*

Ond mawredd diarebol Ellis Owen fel Llenor, ydoedd ei lafur ymroddgar, diwyd, a ffyddlon, a'i wasanaeth pwysig gyda'r Ysgol Sul; fel y gellir dywedyd mai efe ydoedd ei thad yn Lley'n ac Eifionydd. Gwnaeth fwy na nemawr un tuag at wellhau a diwyllio darllenyddiaeth Gymraeg.

Gwasanaethodd yn nghyfarfodydd Ysgolion y Methodistiaid Calфинаidd, Lley'n ac Eifionydd, am dros ddeugain mlynedd, fel Llywydd ac Ysgrifenydd: yn y Cyfarfodydd hyn, byddai ei ragoriaethau fel trefnwr a rheolwr yn cael eu dadblygu. Cyfeiriad ei sylwadau a fyddai yn benaf at seinio, sillebu, a darllen yn gywir, yn ol rheolau'r iaith Gymraeg.

Cymaint ydoedd ei awydd am gael bechgyn ieuainge ei ardal, ac ereill i fynwesu llenyddiaeth, i ddadblygu eu meddyliau, ac i amlygu eu talentau fel y sefydlodd Gymdeithas Lenyddol yn ei dŷ tua'r flwyddyn 1845. Ac yr ydoedd aelodau yr unrhyw yn cael edrych arnynt ganddo fel ei blant. A diamau fod lluaws o honynt yn fyw etto, a barchant ei enw, ac a anwylant ei goffadwriaeth fel y cyfryw; pa rai sydd yn ddyledus iddo am ei gyfarwyddiadau cywir a phriodol, a'r rhai a dreuliasant nosweithiau difyr ag adeiladol yn ystafell y Gymdeithas, gyda'u hathraw teilwng a pharchus.

---

\* Y mae'r hen gadair nodedig hon yn Nghefnymeusydd etto, yr hon a ddaeth i feddiant Mr. Owen, o'r Gesail-gyfarch, lle y trigai yr Esgob yn y flwyddyn 1689, ag yntau yn berthynas iddo mewn llinell union. Gwel tudal. 3.

Rhodddwn yma ddyfyniad o lythyr yr enwog Eben Fardd atto, pan ei derbyniwyd yn Aelod Mygedol o'r Gymdeithas.

CLYNNOG, Chwef. 19, 1852.

Fy enwog, ac anwyl Gyfaill,

Ni bum falchach o ddim erioed, nag o fy nerbyniad yn aelod o "Gymdeithas Lenyddol Cefnymeusydd." Y mae rhyw iâs hyd at wadnau fy nhraed, wrth feddwl fy mod wedi fy nhrwyddedu yn gymmrawd o frawdoliaeth mor anrhydeddus, a chanmoladwy, yn ei gorchwylion a'i gweithrediadau: nid oes genyf amser ar hyn o bryd i wrando ar ddwndwr yr Awen ar yr achlysur, ond pan gaf hamdden, tarawaf i lawr ei hymson rhodresgar a balch hithau.

Yr wyf yn dra rhwymedig i chwi hefyd am ddatgan eich boddhad caredig i fy appwyntiad i'r Ysgol; os caf fyw yn rhagor, ymdrechaf i ryngu bodd pawb, mewn ffordd onest a di dwyll a di ddiogi; yr wyf yn ystyried nad oes bellach ond rhyw *bwt* bach o fy oes heb ei dreulio, a da genyf gael rhoddi hynny i Dduw ac i *Eifionydd*, "fy anwyl Eifionydd!" Yr wyf yn ddigon parod bob amser i ddywedyd wrth yr hen *Eifonwyson* clodfawr, "lle y cleddir chwi y cleddir finau!" A phwy a wyr na fydd fy *medd* etto yn *Eifionydd*! ac na chaf wneyd cynyg am areithio unwaith neu ddwy yn Ngoruwch-Ystafell Cefnymeusydd, gyda fy hoff gyfeillion newydd-frawdoleddig.

Cefais lythyr pur garedig oddiwrth ein cyfaill y Parch. Morris Williams, (Nicander,) ychydig ddyddiau yn ol.

Mae eich penill i'r Briodas yn dlws a ffraeth a chynwysfawr, ac nid oes eisiau, na modd cael, dim yn angen, feddylw'n.

Gyda diolchgarweh llon i'r *Gymdeithas*, a chofion caredig at Mr. Thos. Jones,\* a chwithau eich hun yn bendifaddeu.

Ydwyf, anwyl Gyfaill,

Yr eiddoch, drwof oll,

Yn wir ostyngedig a diolchgar,

EBEN FARDD.

Ellis Owen, Ysw., Cefnymeusydd.

---

\* Y Parch. Thos. Jones, Eisteddfa, gynt o Gefnymeusydd Ucha', un o ddisgyblion cyntaf y Gymdeithas.

Gwnai un o'i ddysgyblion, y diweddar Mr. R. Roberts, (Bardd Treflys,) y sylw canlynol ar Mr. Owen fel Athraw y Gymdeithas,—

“Traddodai ein hathraw Ellis Owen, lawer o ddarnau barddonol, ag oeddynt yn cynwys yr arabedd mwyaf galluog a doeth ; ac hefyd lawer o areithiau gwreiddiol ac athronyddol, ne's ein synnu at ei athrylith a'i allu meddyliol. Byddai ei ymgais bob amser i gael pawb at bynciau teilwng, ac i ymgadw oddiwrth bob arferion llygredig ; a chefnogai bob symudiad, a fyddai a thuedd ynddo i wellhau moesau dynion.”

Cyfarfyddai y Gymdeithas hon yn bythefnosol yn Nghefnymeusydd yn ystod y gauaf, a rhoddid hi heibio yn misoedd yr haf. Yr ydoedd Nicander ac Eben Fardd yn aelodau Mygedol o honi ; ac y mae llawer o'u gohebiaethau talentog, ar gof a chadw yn Nghefnymeusydd.

Dywedai y diweddar Fardd Treflys yn un o'i Englynion, (ac yntau yn aelod selog o honi) am y Gymdeithas,—

“ Hynod yw mewn amrywiaeth,—yn fuddiol  
I foddio pob archwaeth ;  
Hon a fydd yn llawn o faeth,  
I gadw pob dysgeidiaeth.”

FEL BEIRNIAD, yr ydoedd yn graff, yn fanwl, a diduedd. Yr oedd eangder ei wybodaeth lenyddol, a chywirdeb dilyn ei chwaeth, yn ei dra-chymwyso at feirniadu. Yr ydoedd yn un o feirniaid Awdl y Gadair yn Eisteddfod y Gordofigion, Llerpwl, pan enillodd Eben Fardd ar Job : Ieuan Glan Geirionydd oedd y beirniad arall. Bu yn gyd-feirniad âg Ab Ithel yn Eisteddfod Daleithiol Beddgelert, yn 1860. Cynygiwyd iddo droiau, fod yn un o feirniaid yr Eisteddfod Genedlaethol, ac mewn Eisteddfodau diweddarach, ond gwrthododd. Yr oedd ei barch i Eisteddfodau, wedi darfod i raddau



er Eisteddfod Madog, 1851, pan y tramgwyddwyd ef gan gyfeillion twyllodrus. Ni's gwyddom iddo ymgystadlu mewn Eisteddfod erioed; gan nad oedd ganddo ef, fel llawer eraill, ymddiried y dygid pethau yn mlaen bob amser, yn deg a chywir. Byddai llawys o Feirdd yn anfon am ei farn ef ar eu cynnyrchion, cyn eu hanfon i'r Wasg, neu i'r gystadleuaeth; hyd yn nod Nicander, Eben Fardd, ac ereill.

Byddai yn llawen ganddo roddi pob cyfarwyddyd i ddisgyblion yr awen, hen neu ieuanc, fel y gwelir oddiwrth y llythyr a ganlyn; yn yr hwn y mae'n rhoddi "gwers" ar gynghanedd, i ryw gyfaill hoffus iddo, ag na's gwyddom ar hyn o bryd pwy ydoedd.

CEFNYMEUSYDD,

*August 1st, 1821.*

My dear Friend,

I received your note of the 17th inst., and would be glad to find you well and comfortable, only I have but very little confidence in foretellers. I hope to hear about that time of the fulfilment of your prediction; not so much for the confirmation of your doctrine, as to realize my good wishes to an old friend. Certainly, this is an ingenious science, far superior to Hydrostatics or Hydraulics; \* \* \* \* \* may be thus sent to London many weeks before it is written!!! This is an "useful topic to enlarge" upon. But there is another subject so pleasing to yourself as to me, Poetry,—“Poetry is the glowing language of impassioned feeling, sometimes found in measured lines, and sometimes in Rhyme.” The Rules of Welsh Poetry commonly denominated the 24 Metres, are the standing rules to compose upon; and from these, derive all other Metres, such as *Carolau*, *Hymnau*, &c., which are called *Mesurau Rhyddion*, not being so much confined as the former.

To trace the establishment of the 24 Metres at Carmarthen by

Llawdden and D ab Edmund is unnecessary, when it is to be found already published. The Grammar of Robert Davies, Nantglyn, sufficiently explain their use and order.

I shall be much delighted to see your composition in your next, on any of the *Mesurau Rhyddion*, such as the following Emyn, which I shall here attempt as a specimen.

Yr haul a gyfyd, gwres a ddaw,  
Ac wedi draw fe fachlud ;  
Prysuero i'w le i godi bydd,  
O ddydd i ddydd ymsymud.

Y gwynt o'r dehau ar ei dro,  
Amgylcha i'r gogledd oerllyd,  
Yn ei gwmpasoedd symud sail,  
Ac yna ail ddychwelyd.

Yr holl afonydd, mawr a mân,  
Yr môr a redant ymaith ;  
O'r lle y daethant yno'r ânt,  
Fal hyn dychwelant eilwaith.

Felly o hyd y rhed ein hoes,  
Trallodion croes llawn adfyd,  
Gwagedd, a blinder, dyma fydd  
Tra paro dydd ein bywyd.

Yr hwn a gaffo Fab Duw'n rhan  
I'w ddydd, gaiff anian newydd :  
Er croesau'n byw, helbulus fydd,  
Caiff wynfydd wedi derfydd.

Canfyddwch acceniadau y pennillion hyn fel y canlyn :—  
Y llinell gyntaf yn 8 sill, yr ail yn 7, ac felly bob yn ail i'r diwedd. Y geiriau mewn llythyrenau Italaidd ydynt yn odli, sef *ddaw*, *draw*, *fachlud*, *ymsymud*. Nodais hwynt oll fel

y byddent i'w gweled trwy'r pennillion. Canant ar fesur y Salm,—

Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw, &c.

Hoff genyf fydd clywed oddiwrthych, cyn hir; lled iach yw pawb ffordd yma; yr un modd y teulu yma oll, dymunant eu cofio attoch yn un fryd a'ch diffuant hen gyfaill,

ELLIS OWEN.

O.Y.—Digrif genyf pe gallwn fod yn Eisteddfod Caernarfon; y mae'n debyg na oddef amgylchiadau i mi ddyfod: nês bywoliaeth na phleser.

Ple'r glust a ddigoner?

Na'r llygad, er a weler?

Drwg da o'i gamarfer.

Ibid.

Gwelir oddiwrth y llythyr a ganlyn gan Eben Fardd, y dybiaeth uchel oedd gan y Bardd o Glynnog am Ellis Owen fel Beirniad.

*Glynnog, Hyd, 15, 1845.*

Fy nhra-hoffus Gyfaill,

Ni's gallwn feddwl am neb mer gymhwys ar bob golygiad i mi gyflwyno fy *Awdl Gynhauaf* i'w sylw, cyn iddi oeri fel hyn, na'r *Bardd*, a'r *Beirniad*, a'r *Amaethydd*, o *Gefnymeusydd*; ofnaf fod ynddi gryn lawer o anmherffeithderau, a byddaf ddiolchgar iawn i chwi am sylw beirniadol byr arni; mae rhyw bethau, megys 8 sill weithiau yn asgell yr Englyn, neu ryw le arall, nad wyf awyddus iawn am eu newid; ond yr wyf yn teimlo fel un heb gael ei gyflawn foddio wrth ddau neu dri o bethau eraill ynddi.

Yr wyf yn meddwl yr adwaen ôl bysedd boneddigaidd Mr. E. O.

ar 'Owen Gruffydd,' yn y 'Traethodydd;' ac y mae yn sylw byr, *tlws* nodedig, debygaf. Mi a feddylw'n bod eich Englyn ar fedd *Dafydd y Gareg Wen* heb eisiau ei well. Cyfrifwn hi yn rhagorfraint gael rhyw chebiaeth fer a allech hyfforddio oddiwrthych. Maddeuwch i mi fy hyfdra yn gofyn cwestiynau.

Anwyl Syr,

Eich gostyngedig ac ufudd was,

EBENEZER THOMAS.

Ellis Owen, Ysw.,

Cefnymeusydd.

Rhodddwn engraifft o'i ddull synhwyr gall yn beirniadu. Esgusoder ni am roddi y feirniadaeth yma yn ei chrynswth.

#### BEIRNIADAETH BEDD-ARGRAPH DAFYDD IONAWR.

"Dyma 154 o Feddergryph ar Ddafydd Ionawr; wel, pa fodd y bernir pa un yw y teilyngaf? Rhaid ei fod yn ddifai o ran rheol, pa un bynag ai mesur caeth ai rhydd fyddo; canys y mae rheol i'r mwyaf rhydd, sef odliad a hydau; a pheth etto sydd angenrheidiol? Nid hawdd yw gwybod; gan fod Beddergryph gwahanol genhedlaethau yn amrywio cymmaint; a chymmaint o amrywiaeth hefyd gan feirdd yr un genedl. Dyma feddargraph Lladin Sir Thos. Parkins, y codymwr ystwythgryf:—

"Yr hen Barkins yma roddwyd  
I lawr, pan gan *amser* taflwyd;  
A'r codwm cyntaf teg a gafodd  
Ef erioed er maint godymodd;  
Ni allasai *amser* yntau,  
Ei yru o wynt heb gymmorth *angau*:  
Pob un arall ddarfu gwympe  
A'r un modd y gwna ef etto  
A'r ddau hyn pan gynta' codo!"

Dyma etto feddargraph y bardd enwog Shakespeare o'i gyfansoddiad ei hun :

“ Good friend, for Jesus' sake forbear  
To dig the dust enclosed here ;  
Blessed be the name that spare these stones,  
And cursed be he that moves my bones ”

Dyma un etto gan Mr. John Gay arno ei hunan :—

Life is a jest, and all things shew it ;  
I thought so once, but now I know it.

Dyma un arall a fwriadai Pope y bardd i Syr Isaac  
Newton :—

Nature and Nature's laws lay hid in night,  
God said, let Newton be, and all was light.

Hwyrach fod hyn yna yn ddigon i ddangos mor dra gwa-  
hanol ydyw beddergryph; ac hefyd mor anhawdd gosod un  
yn rheol i'w ddilyn; ond ystyriwn ychydig yn bresenol ar y  
rhai Cymreig; un yn gweithio teimlad o dosturi, megys

“ Gwael iawn wyf, o geilw neb—fi adref,  
Ni fedraf eu hatteb ;  
Mae dŷ, oer, lom, daiar wleb  
Trawsfynydd, tros fy wyneb.”

Un arall yn serchog fel hyn,

“ Y gŵr marw, 'e gâr morwyn  
Ddaear dy fedd er dy fwyn.”

Nid cymmaint o honynt sydd yn ysbrydoli celfyddyd y  
trangcedig; megys ailargraphiad Franklin. Gellir rhoddi rhai  
ffraeth; ond y rhai cyffredin, cenhedlaethol Cymreig hwyr-

ach ydyw y rhai moesol, a sobr, yn dangos yr hyn a ellir, o nodweddiad y marw mewn lle mor fychan. Ychydig oedd yn cael yr anrhydedd o englyn ar eu bedd, yr amser a aeth heibio, ond yn bresenol ychydig sydd heb gael; a hwyrach y byddant yn foddion parhaus i gynnal ein hiaith, heblaw tynu sylw y byw wrth rodio yn maysg y beddau. Ychydig iawn a gyfansoddodd Dewi Wyn; un ar Ddafydd Ddu, a hwnw yn gampus, yn newydd o ran dull; yn galw'r teimlad yn gyntaf; y gynghanedd yn dda, a newydd nodedig—dyma fo,

“O! fedd oer ein Dafydd Ddu,—Henadur  
A hynododd Gymru;  
Ewythr i feirdd,—Athraw fu,  
Cefn wrthynt i'w cyfnerthu.”

Robert ab Gwilym Ddu a gyfansoddodd lawer, yn dda iawn, ac yn bur debyg i'w gilydd; y cwbl bron ar osod i lawr yn y bedd, a'u hadgyfodi; weithiau adgyfodi yn unig, megys

“Yr Ion pan ddelo'r enyd—ar ddiwedd,  
O'r ddaear a'n cyfyd;  
Bydd dorau beddau y byd  
Ar un gair yn agoryd.”

Y mae amryw, megys pe bai'r marw yn llefaru o'r bedd i'r byw, gan dybied hyny yn effeithiol iawn, pryd y cyfrifir hyny yn afresymol gan eraill; y mae rhai yn ffraeth iawn, pryd y tybir gan eraill fod hyny mor amhriodol a chellwair ac ysmaldod, yn nghynhebrwng cyfoedion. Bellach beth yw y rheol neu y sylfaen i farnu; hyn yn sicr,—*nodweddiad y marw*, ac os gellir, *diwedd pob dyn*. Dyma'r mwyaf Cymreig beth bynag o'r Toddeidiau i Dafydd Ionawr.

Wele argraffiad, er gwiwfad gofion,  
Am ddyn hygarwedd—a mawredd Meirion.

Am loyw burddysg—am lyw y beirddion—  
 Y prif iach eilydd—prawf o uchelion  
 Doniau dysglaeriaf dynion—mor ryfedd !  
 Gwedi y mawredd, mae gyda meirwon ! !

A hwn wyf fi yn ei farnu yn oreu i'w roi ar y golofn, ac yn deilwng o'r wobr, pe dau cymaint; paham? Y mae'r gyng-hanedd yn esmwyth a naturiol; yn dechreu gyda'r un sain, ac yna ar y groes rywiog, yn diweddu yn deilwng. Dyma'r llinell gyntaf yn dyweyd beth yw'r golofn, y pedair nesaf (agos) nodweddiad Dafydd Ionawr—y diwedd yn galw sylw, beth fydd i'r dynion mwyaf,—cynygier ef etto : *Wele ar-graphiad*, dim yn erbyn hyna beth bynag; *er gwiwfad gofion*, nid-i'w ganmol; *am ddyn hygarwedd*, yn burion; *a mawredd Meirion*, campus; *am loyw burddysg*, digon da; *am lyw y beirddion*, da iawn; *y prif iach eilydd*, rhagorol; *prawf o uchelion doniau dysglaeriaf dynion*, gorgampus! gorphen yn glws, glws, ac ychydig o deimlad yn fwy na'r cyffredin. Oes dim etto i'w ddweyd? Oes,—cynghanedd *gyffredin* iawn sydd gan “Galarus,” *gwiwfad gofion*, *mawredd Meirion*, *burddysg beirddion*, &c.; ond y mae yn ddealladwy ac esmwyth a phriodol am Dafydd Ionawr.

Dyma Englyn etto, gan “Twrog,” a'r goreu yn fy marn i:

Yn y golofn hon gwelir.—urdduniant  
 I farddoniaeth gywir;  
 Arddeliad diwâd o wir  
 Athrylith byth na threulir.

Newydd, o feddwl a chynghanedd. Dyma un da etto gan “Meirionwr :—

Yn Iesu huna isod—ŵr o ddawn,  
 Bardd enwog “Y DRINDOD;”  
 A dedwydd engyl Duwdod,  
 Uwch y bedd sy'n chwenych bod.

Un barddonol iawn etto, gan un a gyfenwa "Gweithiwr :—"

Hwy na'i faen cof yn fynawr—y pery  
 Campwri'n prif Gerddawr ;  
 C'yd â'r Foel a'n Cader fawr \*  
 Fydd enw ein Dafydd Ionawr.

Un newydd a barddonol etto, gan "Disgybl Gobas ;"  
 dylasai fod Ossian yr ail :—

Tra mae ef yn trwm huno,—rhaiadrau  
 Yr Idris sy'n bloeddio,—  
 "Aeth f'awen dan grawen gro  
 Y diwrnod cauwyd arno."

Oni buasai y ddau Englyn olaf yn llawer gwell fel hyn?—

Hwy na *maen* cof na mynawr—y pery  
 Campwri'n *Bardd clodfawr*,  
 C'yd â'r Foel a'n Cader fawr  
 Fydd enw Dafydd Ionawr.

Tra mae *hwn* yn trwm huno—rhaiadrau  
 Yr Idris sy'n *rhuo*,  
 "Aeth f'awen dan grawen gro  
 Y diwrnod cauwyd arno."

Dyma Englyn da iawn etto, gan "Tysilio :"—

Gwel faen hoedd yn golofn hir,—da gysgod,  
 I gwsg bardd ein brodir ;  
 I bridd gwael aeth bardd y Gwir,—oedd benaf,  
 Dawnus, pereiddiaf; ei glod ni's priddir.

Yr ydwyf yn digaloni wrth feddwl gwneud sylw ar y cwbl.  
 Y mae'n ymddangos i mi yn ddigon amlwg, fod yr ail gysa-  
 tadleuaeth yn wellhad ar y cyntaf; a bod cyfartalwch y

---

\* Moel Offrwm a Chader Idris, y mae'n debyg.



rhai da wedi ychwanegu yn fawr. Nid wyf heb wneuthur sylw manwl o honynt oll, ond gobeithiaf y cydymdeimla y rhai na wneir sylw yma arnynt, o herwydd y meithder y chwyddid y sylwadau gofynol.”

ELLIS OWEN.

Wedi cyffwrdd ychydig fel hyn â'i ragoriaethau, a'i nodweddion fel Beirniad ; yn awr cymerwn fyr olwg ar

ELLIS OWEN FEL BARDD.

Y mae tynu darlun, neu roddi disgrifiad o Fardd, yn un o'r pethau anhawddaf; oblegyd y mae Awen yn ei changhenau mor amrywiol, ac yn ei hamlygiadau mor wahanol mewn personau yn nadblygiad eu gallu, fel y mae y naill yn disgleirio, yn y peth y mae arall yn ddiffygiol. Ceir rhai, fel Dafydd Ionawr, yn cysegru yr oll o'u talent farddonol i destynau ysgrythyrol. Ereill fel “John Jones, Glanygors,” yn gollwng yr awen i dueddau yr ysgafn a'r digrifol; ond ceir y lluwys yn rhywle yn y canol, rhwng y ddau eithafedd, ac etto yn amrywio yn eu chwaeth, eu darfelydd, a'u crebwyll. Ceir un yn gryf a nerthol ei gynghaneddion, fel Gronwy Owen a Dewi Wyn; ac ereill yn diws, ystwyth a swynol, fel Robert Davies, Nantglyn, Robert ab Gwilym Ddu, ac Emrys; ceir dosbarth arall yn fanwl a chywrain eu cynghaneddion, yn cyfansoddi oddiar deimlad, megys Ieuan Glan Geirionydd, Eben Fardd, ac eraill; ond yr ydoedd gwrthddrych ein cofiant yn hollol ar ei ben ei hun yn yr ystyr hwn. Manyltra, tlysni, ac eglurder barddoniaeth Ellis Owen sydd yn rhagori ar odid fardd diweddar.

Nid ydym yn gwybod pa mor foreu y dechreuodd gyfansoddi; ond gwyddis fod llenyddiaeth Gymraeg a Saes-

onog, yn bwngc ei efrydiaeth er yn fachgen. Y mae erthyglau o'i waith yn yr hen Seren Gomer, Gwyllydydd, &c., wedi ymddangos dros driugain mlynedd yn ol. Dyddiad "Cywydd y Bedd," sydd yn y gwaith hwn, ydyw 1822, sef pan ydoedd y Bardd tua 25ain oed. Nid rhyw awen barod iawn oedd ganddo fel rheol; eithr cymerai gryn drafferth i'w thynu allan.—byddai yn hynod o fanwl a chryno, a phob amser yn gofalu am gywirdeb, i drwch y blewyn, ymhob peth a ddeuai o'i law; etto byddai aml i ddwy linell ffraethbert yn dyfod allan, fel heb yn wybod iddo.

Pan ydoedd yn nghyfeillach yr anfarwol Dewi Wyn, yn Shop y Gaerwen, Pwllheli, un tro, dywedai Dewi, "Ni welais fawr linell o gynghanedd na's gallwn ei gwella." "Dyma ddwy linell a wnaethum I heddyw, nad oes le i'w gwella," meddai Ellis Owen,—

"Ede' wan ydyw einioes,  
Ofered yw—fyred oes."

Y mae hi fel hyn yn well o lawer, meddai Dewi,—

"Ede' *wawn* ydyw einioes,  
Ofer a *dim*—fyred oes."

Coelcerth o dân mawn hen ffasiwn a fyddai yn Nghefnymesydd, ac nid oedd y Bardd yn ffafriol i'r tân glo. Pan oedd cyfaill yn dangos mor ragorol oedd y tân glo, dywedai y Bardd yn y fan,—

"Gloywach, glanach na Glo  
Yw tân mawn—nid hwn mono."

Yr oedd Ellis Owen un diwrnod, (y flwyddyn y bu farw,) o flaen ei dŷ yn edrych yn astud ar fynwent Ynyseynhaiarn,

(yr hon a welai yn amlwg o Gefnymeusydd,) gofynai ei gyfaill iddo, ar ba beth yr ydoedd yn craffu? “Ar fynwent yr Ynys,” oedd yr ateb. Yna dywedai ei gyfaill, “dechreuais Englyn arni fel hyn, ac ni’s gallaf ei orphen,—

“Mor unig y mae’r Ynys—i’w gweled;  
Galar im’ a’i den gys.”

Ac meddai Ellis Owen yn ddifyfyr,—

“Ddû le, anghyfanedd lys  
I feirwon, a fy erys.”

Mor ffraeth yw ei feddargraph i’r Fenyw Gelwyddog; nid oes yn yr un iaith, ond odid, Englyn mwy llym a miniog na hwn,—

“D’wedodd a fedrodd tra fu,—o gelwydd,  
Gwyliwch ei dadebru,  
Neu hi ddywed, rwy’n credu,  
I bawb, mai’n y nef y bu.”

Yr oedd ei brif ragoriaethau yn mhurdeb ei awen. Dywedodd wrth gyfaill iddo nad ysgrifennodd linell erioed o farddoniaeth na rhyddiaeth, am oedd yn gofio, ag y byddai raid iddo gywilydd o honynt. Cyfansoddodd rai Englynion yn llawn o’r athroniaeth uchelaf, megys hwn,—

“Yn blentyn mae’r dyn ddechreu daith,—hwn ddaw  
Yn ddyn ar ei ymdaith;  
Ac os efe ga oes faith,  
Yn ol daw’n blentyn eilwaith.”

Gellid dethol ugeiniau o engreiffiau allan o’i waith; ond gan fod ei holl weithiau barddonol (o’r hyn lleiaf cymaint ag

a ewyllysiai ei gyhoeddi,) i'w cael yn yr Ail Ran o'r llyfr hwn, nid ymhelaethwn. Terfynwn ein sylwiadau arno fel *Bardd*, gyda dweyd fod ei feddylddrychau yn bur, ei destynau yn foesol, a'i farddoniaeth oll felly; a gellir dyweyd yn ddi-betrus na bu neb o'r Beirdd yn ystod y ganrif ddiweddaf, a roes fwy o fri mewn ystyr foesol, ar Farddas Gymraeg, nag Ellis Owen; ac na ddylanwadodd neb i buro Beirdd a Barddoniaeth Cymru, mewn ymddygiad ac ymadrodd yn fwy nag ef, gan belled ag yr oedd ei gyhoeddu'rwydd yn cyrhaedd. Ei amcan a'i ymdrech ydoedd llenwi y meddylddrith o *Fardd pur*, drwy gydol ei oes, a chyrrhaeddodd ei amcan.

#### ELLIS OWEN FEL CRISTION.

Y mae cryn amrywiaeth golygiadau yn yr oes hon am yr hyn a gyfansodda Gristion, neu am yr hyn a olygir wrth yr enw.

Yn nechreuad cyfnod llafur yr Apostolion, galwyd eu canlynwyr hwy, a disgyblion bedyddiedig y Groes yn "Gristionogion gyntaf yn Antiochia," sef y rhai oeddynt yn credu yn nhystiolaeth yr Apostolion am y "Dyn Crist Iesu," wedi eu disgyblu neu eu bedyddio i'w grefydd Ef, ac yn cyffesu y ffydd honno. O fewn y ganrif ddiweddaf hon, ceir syniadau eraill, lled chwithig i farn y tadau boreuol ar y pwngc. Ni edrychir ar ddyn yn "Gristion, neu Grefyddwr," oni bydd wedi ei alw neu ei argyhoeddi, fel y dywedir, o dan ddylanwad pregeth, neu ryw foddion eraill, ac ymuno â phlaid, drwy ddyfod yn aelod o ryw gyfundeb, a chofrestru ei enw yn nghymdeithas yr enwad; ac edrychir ar bawb yn "ddynion y byd," oni byddant yn gofrestredig felly, gan nad pa mor ddichlynaidd eu bywyd, neu lân eu buchedd, na diym-

wad eu llafur a'u defosiwn crefyddol y byddont. Ond cymer y rhai mwyaf goleuedig a diragfarn, olwg arall ar yr hyn a gyfansodda Gristion, sef ei dderbyniad i gorph Eglwys weledig Crist yn Sacrament y Bedydd, drwy ymgyfammodi â'r Drindod Sanctaidd; ac mai y dyn hwnw yw y Cristion, sy'n ateb i'r broffes a'r adduned a wnaeth pan ein corphorwyd i'w lân Eglwys Ef, "drwy ymladd yn wrol dan ei faner Ef, yn erbyn y byd, y cnawd, a'r cythraul, a pharhau yn filwr ffyddlon, ac yn was i Grist holl ddyddiau ei fywyd."

Yn hyn yr oedd Ellis Owen, debygem, yn ateb i'r llythyren. Yr ydoedd ganddo barch dihoced i bob peth crefyddol; ac er mor ddifrycheulyd ei fuchedd, byddai fel Moses yn "ofni ac yn crynu" wrth neshau at y tir cysegr-edig. Yr oedd ei feddwl uchel a pharchus am y Beibl, yn peri iddo ei arganmol, a phwyso ar eraill i'w ddarllen; cymhellai ar bawb, yr angenrheidrwydd am ei ddarllen yn ddealladwy, fel yr esponiad goreu arno.

Adroddai yn aml yr hyn a ddywedai yr hybarch Robert Jones, Rhosylan,—“Y byddai yn well ganddo geisio deall y Beibl heb gymorth *spectols* (Esboniadau) os gallai mewn un modd. Mynychai Wasanaeth yr Eglwys yn gyson yn moreu ei oes, ac ni welid ef byth yn cyfeillachu â neb pwy bynag, ond a fyddai fucheddol. Ymunodd ei fam â chyfundeb y Methodistiaid Calфинаidd, yn y Brynmelyn, un o'r capelau hynaf yn y rhan honno o'r wlad, lle y cyrchai Ellis Owen i'r odfa ddau o'r gloch: a phan gychwynwyd Ysgol Sul yn y lle; annogwyd Ellis Owen i fod yn Ysgrifenydd, gan ei fod o flaen y cyffredin o'i gyfoedion mewn dysg a galluoedd meddyliol. Yn fuan cafodd ei zel wresog dros addysg ysgrythyrol ei dadblygu. Cynlluniodd Undeb Ysgolion

Sabbothol Lleyrn ac Eifionydd, yr hon a drodd yn fendithiol i'r holl ardaloedd. Nid ystyrid Cyfarfodydd dau-fisol yr Ysgolion yn gyflawn heb ei bresenoldeb ef ynddynt. Byddai yr olwg bendefigaidd, syml, a goleubwyll arno yn creu ryw urddasoldeb ar y cyfarfodydd. Teithiodd i'r cyfarfodydd hyn, a chadwodd gyfrifon yr Undeb yn fanwl dros ddeugain mlynedd!

Dywedir mai yn y cylch teuluaidd y mae adnabod y Cristion ymarferol. Os ydoedd ymarweddiad diargyhoedd, gwastad, difwlch o "ymarfer duwioldeb" personol, yn nghyda disgyblaeth Gristionogol yn ei deulu, a chymell ymarferiadau o rinwedd, moes, a chrefydd ar ei holl dŷ, yn ddarlun o Gristion yn cŷflawni amodau ei fedydd, ac yn llenwi ei adduned a'i broffes, yr ydoedd Ellis Owen felly.

Ni bu Cefnymeusydd un amser heb allor deuluaidd ynddo; gan mor gartrefol ydoedd, ni chollodd, (yn ol ei dystiolaeth ei hun) ond ychydig iawn o droion yn hyn drwy ei oes er marwolaeth ei dad, heb ddarllen penod o'r Ysgrythyr Lân nos a boreu. Ei gynllun oedd, darllen y Beibl yn ol hen "Galendar" yr Eglwys, yn fanol, a'r hen Robert Williams, (yr hwsmon) yn myned i weddi, yr hon a fyddai yn fer ac i'r pwrpas:\* ar ol ei farw ef, cyflogai was a fyddai yn arfer gweddio yn gyhoeddus. Yr oedd yn dra gwrthwynebol i weddi hir. Yr oedd ganddo ben gwas unwaith, yn lled anniben hefo'i waith a'i bryd bwyd, ac yn rhy hir ganddo gyda'i weddi. Dywedai fod tri "*hir*" ar Domos,—Hir hefo'i bryd, hir hefo' waith, a hir hefo'i weddi."

Er mai i gapel y Brynmelyn, oherwydd ei gysylltiad âg

Ysgolion Sul y Methodistiaid, y cyrchai i addoli, ac er yr âi yn achlysurol i Eglwys y plwyf, nid oedd yn gallu tori allan i roddi ufudd-dod i'r gorchymyn olaf,—“Gwnewch hyn er cof am danaf;” a'i resymau dros hynny oeddynt, ei barch dwfn i bob peth crefyddol, a'r olwg gysegredig a gymerai ar wneyd proffes o grefydd Crist, a'i ofnau nad allai lenwi yn ymarferol y broffes a gymerai; ac hefyd argyhoeddiad ei feddwl o'r angenrheidrwydd anhebgorol sydd ar broffeswyr crefydd i fyw i fynu i'w proffes; yn nghyda sylwi ar ddrwg foes, a bywyd gwyrngam, twyllodrus a rhagrithiol, lluwaws o broffeswyr ag a fyddai a wnelai ef â hwynt. Yr ydoedd y pethau hyn yn “cloffi” gwrthddrych ein cofiant fel na's gallai ymuno “Ynghymmman y Saint” yn un man. Ond mewn canlyniad i rybudd gonest a roddai cyfaill o Glerigwr iddo, daeth yn mlaen i'r Cymun Sanctaidd yn Eglwys ei blwyf, gan fod egwyddorion boreu oes, ac esampl a zel ei dad yn parhau ar ei feddwl; ond oherwydd buchedd aflerwr rhai ag oedd yn “tori bara” gydag ef yno, ymneillduodd drachefn. Yn mhen enyd bwriodd ei goelbren gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, yn y Brynmelyn, lle buasai ei fam, yn aelod, a lle bu yntau yn llafurus ac ymroddgar gyda'r Ysgol Sul, drwy ei oes: ond buan y gwelodd fod llawer o honynt yno yn fyr o “iawn droedio at wirionedd yr efengyl,” (yr hyn ydoedd ei amcan mawr ef,) fel yr oerodd ei zel i raddau helaeth; ond etto, yr oedd yn ymarfer “duwioldeb gartref,” yn ystyr fanylaf y gair. Yr ydoedd yn ei flynyddoedd olaf yn addfedu fel y “ffigys i'r cynhauaf,” ac fel y “gwas hwnw yn disgwyl ei Arglwydd, fel pan ddelo a churo, yr agoro iddo yn ebrwydd.” Pwy a fedr ddarllen englynion “Pen fy mlwydd,” neu benillion “Methu Cysgu,” heb

ganfod fod meddwl y Bardd yn teimlo cymylau “glyn cysgod angau” yn taenu drosto?

Felly bu farw, fel y bu byw—yn dawel a phwyllog, gan wirioneddoli ymadrodd y prophwyd, “Ni frysia yr hwn a gredo.” Ac er na adawodd na gwraig na phlant i alaru ar ei ol, teimlai deiliaid yr Ysgolion Sul, disgyblion ei Gymdeithas, a phreswylwyr ei ardal, hiraeth galarus ar ei ol. A gallwn ddywedyd am dano yn ngeiriau ei fynwesol gyfaill, Ieuan Glan Geirionydd,—

“Mor ddedwydd yw y rhai drwy ffydd,  
 Sy'n myn'd o blith y byw;  
 Eu henwau'n perarogli sydd,  
 A'u hûn mor dawel yw.”

---

#### HIR A THODDAID

*A gyfansoddwyd gan Mr. John Williams, (Ioan Madog,) yn  
 Feddargraph i'r diweddar Ellis Owen, Ysw.,  
 buddugol yn Eisteddfod Madog, 1872.*

Diweddai harddwch a dedwydd hirddydd,  
 Y cyfiawn, moesol Fardd Cefnymeusydd;  
 I'n hiaith a'i hurddas bu'n addas noddydd,  
 Yn yspryd hynaws ei bert awenydd;  
 Rho'i luaws groesaw,—bu'n llaw a llywydd,  
 O fawr dda fwyniant i Feirdd Eifionydd,  
 Ffrwyth ei ddawn, faethlawn a fydd—oroesawl,  
 A'i fawl yn fythawl fel Hynafiaethydd.

---



A garlyn sydd engraifft cywir o law ysgrif.  
Mr Owen

(Cofrestrwyd Nov. 13<sup>th</sup> 1867

My dear Sir,

How can I apologize for asking you such a favor? I cannot, — but I have no one that I would wish to ask, and your position in society and your great influence would warrant a completion of my desire: — I made my Will the other day at the Port; and as it will be necessary to know my intention Immediately after my decease, will you be so, what (I cannot say) as to inform my Executrix Ann Thomas of this part of the Will?


"I desire to be buried at Brys church yard, and (as the distance is not great) that my body be carried there. I also desire that the Church service be read by the Rev. Mr. Morris Williams (Nicander) if he will attend my funeral: and that my body be laid in the grave by Members of the late Cefn-menydd Literary Society, and there left, nes y b'o myrwyntydd Cypri yn ymagos; di Chedyrn fynyddoedd yn neidio: It is my earnest wish that no person should wear mourning on account of my death."

That is a true Copy, with the Welsh sentence in Welsh: — Nicander, and the members all agreed to perform their part many years ago: —

With sincere respect, I beg leave to subscribe  
(dead or alive) myself Yours,  
Ellis Owen

en Griffith Esq

Cefn-coch



# CYMDEITHAS LENYDDOL CEFNYMEUSYDD.

---

AT OLYGYDD "CELL MEUDWY."

ANWYL SYR,

Gofynasoch i mi ysgrifenu ychydig adgofion am y diweddar ELLIS OWEN, yn benaf yn ei gysylltiad â "Chymdeithas Lenyddol Cefnymeusydd."

Pan dderbyniwyd fi yn Aelod o'r Gymdeithas y daethum gyntaf i gydnabyddiaeth â Mr. Owen. Yr oedd ef y pryd hwnw yn agos i ddeng mlwydd a thriugain oed, ond ni welid arwyddion henaint ar ei gorph na'i feddwl. Yr oedd y Gymdeithas yn nghanol ei dyddiau, ac yn ei llawn nerth. Yr oedd pump o'i sefydlwyr, heblaw Mr. Owen, yn parhau yn aelodau o honi, sef y Parch. T. Jones, Eisteddfa, Mr. John Jones, Braichysaint, Mr. Rice Williams, Garneddir, Mr. O. Jones, Tyddyniolyn, a'r diweddar Mr. Richard Roberts, (Bardd Treflys).

Ymddengys yn ol llyfr Cronicl y Gymdeithas iddi gael ei sefydlu yn y flwyddyn 1846. Nid llawer o fywyd llenyddol oedd yn Nghymru yn yr adeg hōno. Yr oedd y Cymdeithasau Cymreigyddol bron wedi darfod o'r tir; nid oedd un o'r Cymdeithasau Llenyddol a ddaethant mor lluosog ar ol hynny, wedi eu sefydlu. Ond y mae Cwmwd Eifionydd

yn enwog er dechreu y ganrif bresenol, a chyn hyny, yn mysg ardaloedd y Dywysogaeth, fel trigle rhai o brif awenyddion y genedl. Efallai mai i'w dylanwad hwy, ac i'w cynyrechion gorchestol, yr ydym yn ddyledus am y ffaith, fod nifer o'r gwŷr ieuainc yn y flwyddyn a nodwyd wedi ymffurfio yn gymdeithas, i'r dyben o ymarfer eu hunain, ac hyfforddi eu gilydd, mewn dysg, ac awen, a cherdd. Buont am ychydig amser yn cydgyfarfod yn Mhentrefelin; ond drwy garedigrwydd Mr. Owen, cafwyd ystafell fwy cyfleus yn Nghefnymeusydd, ac yno y cynaliwyd y gymdeithas, ac ef a fu ei llywydd hyd o fewn ychydig i adeg ei farwolaeth.

Nis gellir egluro amcan y gymdeithas yn well, na thrwy roddi y rheolau y penderfynwyd arnynt pan sefydlwyd hi, y rhai sydd fel y canlyn,—“Yn 1. Fod y gymdeithas yn gynwysedig o ddynion ieuainc athrylithgar, ac awyddus am wybodaeth.—2. Na bo derbyn neb yn aelod ond drwy dde-wisiad y mwyafrif o'r aelodau a dderbyniwyd.—3. Fod i bob aelod roddi darlith, nid dros chwarter awr, ar ryw destyn a benodir drwy gynghor a chydsyniad yn y cyfarfod blaenorol.—4. Fod y darlithiau ar bob canghen o wybodaeth, megys barddoniaeth, ieithyddiaeth, hanesyddiaeth, hynafiaeth, &c.—5. Fod y darlithiau i gael eu dywedyd, ac nid eu darllen, er eu hysgrifenu.—6. Fod Saesoneg i'w harfer yn gystal a Chymraeg, fel y barno y gymdeithas yn oreu.—7. Na dderbynir neb dieithriol i'r cyfarfod, ond drwy gydsyniad y mwyafrif o'r aelodau.—8. Y cenir unwaith ar ddiwedd pob cyfarfod.—9. Pob penderfyniad a wneir yn ystafell y gymdeithas gan y mwyafrif o'r aelodau, a fydd yn rheol hyd nes ei cyfnewidier.”

Yr ysgrifenydd yn nhymor cyntaf y gymdeithas oedd

Mr. Jones, Eisteddfa, (y pryd hwnw o Gefnymeusydd-uchaf) ac wedi hyny cyflawnwyd y swydd gan Mr. Edward Roberts, Pensyflog. Fel y crwbwyllwyd yn barod, llywydd y Gymdeithas, tra y parhaodd, ydoedd Mr. Owen. Efe yn wir oedd ei bywyd, oblegyd pa beth ond ei ofal, a'i nodded, a'i gar-edigrwydd ef a gadwodd anadl einioes ynnddi am gynifer o flynyddau?

Bob yn ail ddydd Mawrth, am ran fawr o'r flwyddyn, y byddem yn cyfarfod yn Nghefnymeusydd. Byddem bob amser yn cael gan Mr. Owen y croesawiad mwyaf gonest a chalonog. Wedi dyfod ynghyd—deg neu ddeuddeg o honom,—byddem yn myned i “ystafell y Gymdeithas.” Dechreuid y gweithrediadau drwy anerchiad gan y llywydd. Araeth fêr, gynwysfawr fyddem yn gael ganddo. Yn fynych byddai wedi bod ar bapyr cyn i ni ei chlywed, ond yn ol y rheol yr oedd y “Darlithiau i gael eu dywedyd, nid eu darllen, er eu hysgrifenu.” Ni bu Mr. Owen erioed yn areithydd mawr—fel y mae rhai yn cyfrif mawredd areithyddol. “Gŵr pwylllog, synhwyrol” ydoedd yn hytrach na “gŵr ymadroddus.” Nid oedd eisiau y rheol yn cyfyngu y “darlithiau” i chwarter awr er ei fwyn ef. Ni ddarfu iddo erioed draddodi araeth faith; yn wir, ni chyfansoddodd ddim maith yn ei fywyd. Nid yw y dernyn hwyaf o'i farddoniaeth dros wyth ugain llinell. Ni roddwyd iddo y ddawn a gyfranwyd yn helaeth i feddylwyr gweiniaid o'u cymharu âg ef i draddodi areithiau hir-wyntog, llawn o “chwyddedig eiriau gorwagedd,” ond gallai grynhoi sylwedd areithiau lawer i “ddarlith” fêr, a byddai yn fynych yn gwneud hyny. Byddai drwy ei sylwadau gwerthfawr, a'i adgofion difyrus, yn llwyddo i roddi cychwyniad da i'r cyfarfod.

Pan eisteddai ef cyfodem ninau, bob un yn ei dro. Weithiau yr un testyn fyddai genym oll; bryd arall byddai gan bob un ei “bwnc.” Byddai genym oll “ddarlith,” ac elem drwy y gorchwyl o’i thraddodi goreu gallem. Rhoddai y llywydd feirniadaeth ar ol pob araeth, a byddai ei sylwadau craff a charedig yn addysg ac yn galonddid i ni. Weithiau, ond nid yn fynych, areithio yn ddifyfyr fyddai ein gorchest; ambell dro, cyfansoddi penillion, ac yn achlysurol byddem yn cael dadl fywiog.

Ond rhaid i mi fod yn ofalus. Cyn cael ein derbyn yn aelodau, byddem yn arwyddo yr ardstiad canlynol,—“Yr ydwyf fi yn penderfynu ac yn ymrwymo cadw rheolau y gymdeithas; ac na bydd i mi hysbysu na chyhoeddi wrth neb *yr hyn a ymddiddenir* yn ystafell y gymdeithas, ac na bydd i mi yno arfer iaith isel, anfoesol, o duedd lygredig; ond y bydd i mi ymdrechu am leshad i mi fy hunan, yn gystal ag aelodau ereill y gymdeithas.” Yr wyf hyd yn hyn tu fewn i’r terfyn, ond yr wyf bron ar ei ymylon. Rhaid i’r hyn a “ymddiddenid” yn ein cyfarfodydd fod yn glöedig yn ein mynwesau. Pa beth a draethid genym yn ystod y ddwy awr a dreuliem yn ystafell ddirgel y gymdeithas; pa un a fyddem yn ymyraeth â materion ein cymydogion, neu yn dirgel lunio bradwriaeth yn erbyn Coron Prydain; pa un a fyddem, fel y tybid gan amryw ein bod, yn cael ein hyfforddi yn egwyddorion manylaf hen-lancyddiaeth,—y pethau hyn, a mil o ymboliadau eraill a wnaed yn ein cylch,—ni chânt eu hateb dros byth!

Unwaith yn y flwyddyn, ar ddydd Llun y Sulgwyn, yn fynychaf, y cynhelid ein huchel-wyl. Dyddiau o ddifyr, ymgom, a llawen chwedl oedd y rhai hyny. Treuliem ran o’n hamser

yn ystafell y gymdeithas, ond y rhan fwyaf o lawer tu allan i'r cysegr. Ni roddai dim fwy o hyfrydwch i Mr. Owen na chlywed ei ddysgyblion (fel yr hoffai ein galw) yn traethu ein helyntion, neu ddarllen traethawd, neu adrodd penill o'n gwaith ein hunain. Yn ein mysg, ac yn benaf o honom, yr oedd y cyfaill ffraeth a doniol a gollasom mor ddiweddar, Bardd Treflys,—un na fagodd hyd yn nod Eifionydd nemawr o'i ragorach fel llenor; ac ni fagodd gwlad erioed gyfaill mwy cywir, na chymydog mwy caredig. Ond yr hyn a wnai ein cynulliad mor ddifyrus ac adeiladol oedd clywed adgofion dyddorol, a chynghorion gwerthfawr, ein llywydd.

Ac yn ei gadair freichiau—cadair yr Esgob Humphreys—yr oedd ELLIS OWEN fwyaf o unman. Yr oedd ynddo gyfuniad o gymhwysderau i fod yn gyfaill dyddan; craffder neillduol, côf gafaelgar, a phrofiad hirfaith. Gwelodd lawer tro ar fyd, yn wleidyddol a llenyddol. Yr oedd dygwyddiadau cynhyrfus yr haner cyntaf o'r ganrif bresenol wedi cael llawer o'i sylw. Yr oedd wedi bod yn hir gydnabyddus âg enwogion llenyddiaeth Gymreig. Yr oedd rhai o honynt wedi bod yn gymydogion iddo, ac yn mysg ei gyfeillion penaf. Nis gall y rhai a'i clywsant anghofio mor hoff y byddai o sôn am danynt, yn neillduol am y prif-fardd o'r Gaerwen. Am ben hyn oll, yr oedd ei wybodaeth eang fel hynafiaethydd yn ei wneud yn gwmni dyddan. Yr oedd ganddo ystorfa helaeth o hanesion difyrus am Eifionydd; ei beirdd a'i cherddorion, ei hên dai, a'i hên deuluoedd, ac adroddai hwynt gyda blas. O dan y fath amgylchiadau, a chyda y fath athraw, ai gormod dweyd nad oedd yn Nghymru yn y dyddiau hyny neb yn treulio Llundain y Sulgwyn yn fwy difyrus a buddiol nag aelodau breintiedig “Cymdeithas Lenyddol Cefnymeusydd?”

Yr wyf yn ofni fy mod yn rhy faith wrth ysgrifenu fy adgofion am gymdeithas nad oedd efallai ddim yn neillduol ynddi ond ei pherthynas âg ELLIS OWEN. ' Ond yn ei chysylltiad âg ef yr oedd yn bwysig fel amlygiad o un o brif ragoriaethau ei gymeriad, sef ei awydd cryf, a'i ymdrech gwastadol i lesoli ieuencyd ei ardal. Y mae yr un ysbryd rhagorol i'w ganfod yn ei gysylltiad am yn agos i haner can mlynedd âg ysgol Sabbothol Brynmelyn. Bu yn noddwr i rai a ddaethant wedi hynny yn llenorion o radd uchel; a rhoddi gwŷr ieuaine ar ben y ffordd i gyrhaedd ac iawn ddefnyddio addysg oedd hyfrydwch ac anrhydedd ei fywyd.

Diamheu eich bod chwi yn y cofiant wedi sylwi ar ei athrylith fel Bardd, ac nid oes angen i mi geisio gwneud hynny. Efallai mai nid y chwi a fu yn gyfaill, na minau a fu yn ddysgybl iddo yw y cymhwysaf i amcanu penderfynu ei safle yn mysg llenorion ei genedl. Rhydd y wlad iddo ef, fel i bob awdwr, ei "briod wobr ei hun, yn ol ei lafur ei hun." Yr wyf yn credu y gwna y Gweithiau ddyrchafu y syniadau ag sydd eisoes yn uchel am dano, ac y gwneir cyfiawnder â'r destlusrwydd, y coethder, a'r cyfanrwydd ag sydd yn nodweddu ei holl gyfansoddiadau.

A ddarfu i chwi sylwi mor hoff ydoedd o ddewis testynau difrifol yn dwyn perthynas â diwedd einioes? Y mae rhan fawr o'i weithiau yn gynwysedig o feddergryph, ac englynion coffadwriaethol. Yr oedd ei awen, pa beth bynag fyddai y pwnc, yn myned yn ddiarwybod i sôn am farwol-aeth a'r bedd. Pwy a'i hadwaenai a fuasai yn dysgwyl hyn? Pe buasai ei gyfoeswyr a'i gyfeillion—Dewi Wyn, a Sion Wyn—y naill o dan effeithiau y pruddglwyf a gymylodd ei hwyrddydd, a'r llall o dan ddylanwad y



cystudd a'i caethiwodd i'w wely am ddegau o flynyddoedd—yn cyfansoddi ar destynau tebyg i'r rhai a ddewisodd ef, ni buasem yn synu. Ond ELLIS OWEN—yr iach ei gorph, a'r llon ei galon; un ag yr oedd bywiogrwydd ac yni yn nodweddu hyd yn nod ei henaint—pa gyfrif sydd i'w roddi dros fod ei awen ef, fel y dengys bron bob tudalen o'i weithiau, yn fwy cartrefol “yn nglyn cysgod angau,” nac yn unman arall? Bu'm yn meddwl y gallai fod a wnelai yr olygfa o'i breswylfod rywbeth â hyn. Nid oes yn Eifionydd fan mwy dymunol; ond wrth edrych oddiyno tua'r môr, yr unig beth, heblaw prydfertion natur, i dynu sylw ydyw Eglwys a mynwent Ynyscynhaiarn, lle y gorwedd henafiaid a llu o gyfeillion y Bardd. Ychydig i'r de-ddwyrain oddiyno gwelir Eglwys a mynwent Treflys. Gwyddom am ddylanwad golygfa ar y meddwl; a phwy a wŷr nad wrth edrych a myfyrio ar y manau cysegr-edig hyny y cynhyrfwyd ei awen i gyfansoddi y cywyddau a'r englynion effeithiol sydd yn gwneud i fynu gyfran mor helaeth o'i weithiau? Dywedai cyfaill wrtho ychydig cyn ei farwolaeth—“ Y mae genych le difyr yma; cewch weled y *train* yn myned heibio bob dydd;” ac meddai yntau, “ y mae yma le cyfleus iawn i mi gael golwg ar y cartref y byddaf ynddo yn bur fuan.”

A dyna'r hen gyfaill hoff o'r diwedd yn gorphwys yn y bedd y canodd gymaint iddo, oddifewn i'r fynwent y sylodd gymaint arni! Cludwyd ei weddillion yno, yn unol â'i delymuniad yn ei ewyllys ddiweddaf, gan rai o aelodau y Gymdeithas Lenyddol. Nid yw y chwithdod a deimlem ar ddydd ei gladdedigaeth wedi darfod etto. Y mae y rhai a fuont yn aelodau o'r gymdeithas, oll o'honynt, oddigerth dau neu dri,

“yn aros hyd yr awr hon,” a pha beth bynag a ddaw o’r Gweithiau, nis gall dim leihau eu parch hwy i’w hen athraw. Y mae yn awr yn Eifionydd, a’r wlad oddiamgylch, luaws o lenorion, nad oes dim yn fwy effeithiol i gyffwrdd teimladau tyneraf eu calon, ac i roddi iddynt yr adgofion mwyaf dymunol, na chrybwyll enw y bardd, yr hynafiaethwr, a’r athraw caredig, ELLIS OWEN, o Gefnymeusydd.


Yr eiddoch, &c.

T. JONES, (*Cynhaiarn.*)

*Porthmadog.*

---

Addawodd eraill o Aelodau y Gymdeithas, anfon eu oheb-iaethau, ond bu gorfod i ni fyned i’r wasg cyn eu dyfod i law.

 Y mae yn llawen genym gydnabod cynorthwy y Parch. Daniel Silvan Evans, yn nglŷn â golygiaeth yr Ail Ran o’r gwaith hwn.—GOL.

---

## PIGION O

### DRAETHODAU, HYNAFIAETHAU, &c.

---

#### GOLYGFA O BEN MOEL Y GEST.

BETH ydyw, ac yn mha le y mae honno? *Moel* yw mynydd isel, ond bryn uchel; yr hyn na fedd y Saeson yn eu *hill* na'u *mountain*. *Moel* a alwyd gan yr hynafiaid felly oherwydd ei thebygolrwydd i goryn hen ŵr heb wallt; felly, hithau, heb goed ond o gylch ei godre, tra yr ydoedd y nentydd a'r iseldir yn goëd anial, llawn o fleiddiau a nadr-oedd. Y trinwyr amaethyddol cyntaf a gynnygient ochrau y moelydd oherwydd eu bod yn ddigoed, ac y mae y cefnau i'w gweled hyd heddyw. Hir a maith y bu y coedydd heb eu harloesi; a *Snowdon Forest* yn deilwng o'r enw, yn lle fel y gwelir yn bresennol. *Moel y Gest*, hwyrach, oherwydd y gwasgiad sydd yn ei chanol, ac yn ei rhanu fel dwy foel; cestawg yw yr olwg arni, yn hytrach na chron na phigfain. Y lle mae, ydyw rhwng Porth Madog, Tre Madog, a Cric-caeth, yng nghwmmwd Eifionydd, sir Gaernarfon, rhan ym mhlwyf Ynyscynhaiarn, a rhan yn Nhreflys. Yr awyr ar ei phen sydd iach a dymunol, yn dyfod oddiar y môr ger llaw. Gellir cyrhaedd ei phen o'r ffordd fawr sydd o Dremadog i Bwllheli mewn awr gyda phleser.

“Ar brydnhawn-gwaith teg o haf hir felyn tesog,” yr 20fed o Orphenaf, 1847, cymerasom hynt i'w phen. Gydag

yspienddrych, syllasom at ogledd a dwyrain, de a gorllewin. Wrth graffu, daeth i'n cof yr hen amser gynt; y cyn-drigolion, eu traddodiadau, a'u hofergoelion; a theimlem awydd am weled dau neu dri yn mhob canrif er ys tair mil o flynyddau yn myned heibio i ni yn eu gwisgoedd arferol. Pa fath olwg oedd arnynt? Pa fodd yr oeddynt yn siarad? A oeddynt yn fawr iawn, ac yn greulawn yr olwg arnynt? Ond wrth ystyried ein bod yn myned i ganlyn holl luoedd yr oesoedd, teimlem alar prudd-glwyfus yn ein llenwi. fel nas gallem ond o braidd fwynhau y golygfeydd yn deilwng o ddyn byw yn ei fywyd ofer. Edrych er hyny a wnaem tua'r gogledd, a gwelem y mynyddau uchel, a dymunasem fod yn uwch, fel llawer un oedd ddigon uchel eisoes, ac mewn lle llawer mwy diberygl.

I'r gogledd-ddwyrain, gwelir Nan'mor, neu Nant-y-môr. Dacw lle yr oedd Dafydd Nanmor, a Rhys Goch Eryri, yn feirdd enwog ryw bryd o 1420 i 1460, ac yn ymddifyru gŵda'u cymydoges, "Gwen o'r Ddôl," boneddiges yn Nôl y Friog. Claddwyd y ddau yn Medd Gelert; ond pwy a wŷr yn mha le yno y mae eu beddau? Y mae yn debyg mai wrth yr Ywen, y ffordd yr eir i'r llan, lle mae beddau Hafod Garegog, y claddwyd Rhys Goch, neu Rhys Wynn, Yswain, fel y gelwid perchenog etifeddiaeth yr Hafod. Chwi hynafiaethwyr, cywilyddiwch, na ellwch ddangos beddau enwogion eu hoes; na sicrhau chwedl Gelert ychwaith! Gellwch ddangos y Gymwynas, sef y nant rhwng Aberglaslyn a'r pentref; oni bai yr hon, am a wyddom ni, mai Cymwynas i enweirwyr fuasai Bedd Gelert. "Cymwynas heb ddim cam enw," ydyw hi, beth bynag. Dyn byw! dacw ochrau Ffestiniog—dyna enw digrif: beth yw ei ystyr? Ffestiniog,

*Ffestinio*, neu bryuro oedd eisieu, os tros y mynyddau i'r Bala neu i'r Yspytty yr eid cyn y nos ; a mwy fyth a fyddai y brys os ym mlaen y llanw y croesid y Traeth Bach a'r Traeth Mawr i sir Gaernarfon, Nid oedd Mr. Madocks wedi ei eni pan y galwyd hi felly.

Yng Nghynfal, gerllaw Ffestiniog, yr oedd Huw Llwyd yn byw ; yr hwn y dywedai yr hen bobl (gallwn eu galw yn wirion bellach) y medrai godi cythreuliaid, a phob ystranciau bron. Hyn sy sier, beth bynag, un o'r dynion mwyaf gwybodus yn ei ardal, os nad yn ei oes, oedd Huw Llwyd. Bardd da ac ymdeithydd mawr ydoedd, fel y gellir casglu wrth ei Englyn :—

“ Yn Ffrainc yr yfais yn ffraeth—win lliwgar ;  
 Yn Lloegr, cawl odiaeth ;  
 Yn Høland, 'menyn helaeth,  
 Yn Nghymru, llymru a llaeth.”

Yr oedd ef yn gydoeswr â'r Archddiacon Prys, yr hwn a'i hebryngai i Faentwrog ; ac wrth ei gladdu yno a gyfansoddai yr englyn hwn :—

“ Pencampiau, doniau, a dynwyd—o'n tir,  
 Maentwrog yspeiliwyd ;  
 Ni chleddir, ac ni chladdwyd,  
 Fyth i'w llawr mo fath Huw Llwyd.”

Yr oeddynt yn byw o'r flwyddyn 1580 i 1620 ; Edmund Prys yn y Tÿ Dû, Maentwrog, a Huw Llwyd yng Nghynfal. Pwy a fuasai yn meddwl bod cardota y pryd hwnw, oni buasai i Edmund Prys ganu fel hyn —

“ Mal cardotwraig, draig drygair,  
 Ei chlod o gerdod a gair ;  
 Canmol yn braff wrth gaffael,  
 Bod o'i chof pan beidio â chael.”

A oes rhywbeth heblaw traddodiad yn dangos lle claddwyd y ddau uchod? Dywedai y diweddar John Roberts, Bryntirion, mewn englyn, fel hyn:—

“Eglwys Maentwrog greiglawr—a gél lwch  
 Ei gwiw lén Beriglawr;  
 Gwel, yno y mae Glain mawr  
 Ellain o dan yr allawr.”

Tebygid wrth yr englyn hwn, fod rhyw gofarwydd am Salmydd Cymru. Wfft i'w alluoedd gwawdieithol pan yn difrio mor llymdost Sion Philyp o Ardudwy!

Llechwedd iach iawn yw o Landecwyn i Drawsfynydd, neu ni fuasai Edward Ifan o Lenyrch yn 102 flwydd oed, ac Edmund Morgan yn 112, neu ragor. Dyna Dal y Sarnau yn gryn bentref o bob tu i'r ffordd o Faentwrog i Harlech—beth a ddywedir am dano? Ond mai Tal y Sarnau oedd yn croesi'r Traeth Bach ydyw, pan oedd pontbren unpren dros Borth y Gest! Dyna'r Glyn hefyd, yn nes i Harlech, dipyn i'r dwyrain o'r ffordd, am yr hwn y dywedir yn y “Bardd Cwsg; “Pan oedd hi yn llawer twymnach yng nghegin Glyn Cywarch nag ar ben Cader Idris.” Yn nes eto at Harlech, dyna fryn glas, y lle y mae y Las Ynys, lle yr oedd y Parch. Elis Wynn, LL.B., awdwr doniol y “Bardd Cwsg,” a phrydydd digon campus, yn byw tua 160 o flynyddau yn ol. Dyn anwyl! dyma Gastell Harlech wrth ein traed, i'r de-ddwyrain; wel, y mae ef yn edrych yn gryf, yn fawr, ac yn gyfanach nag odid un o gestyll Cymru. Yr oedd Elis Rowland y prydydd, yn byw yn Harlech oddeutu 1700. Byddai hynafiaethau Harlech, ei hymdrechiadau calonog, a'i dewrdra trwy yr oesoedd, yn ddigon o waith mis i ysgrifenydd llaw fer eu cofnodi; a byddai ymddyddan am danynt

yn ddigon difyrus nes gweled llygad *Phæbus* yn ysbio dros yr Aran y bore fory. Dyma englyn hynafiaeth enwau Harlech:—

“Amlwg *Caer Tanwg* wyt ti,—*Twr Bronwen*,  
 Yn toi'r bryn lle sefi;  
*Caer Collwyn*, ar glogwyni;  
 Hardd ar Lech—*Harlech* yw hi.”—E. O.

Yn nes i'r de, dacw Ddyffryn Ardudwy, neu *ar-dir-dwfr*. Y trwyn yn rhedeg i'r môr ydyw Mochres, lle yr oedd Sion Phylip y Bardd yn byw oddeutu 1580, ac yn ymryson âg Edmund Prys. Yr oedd yn byw yno Rhisiart a Gryffydd Phylip tua 1635. William Phylip oedd yn byw yn yr Hendref Fechan yn 1660, pan oedd Cromwel yn awdurdodi. Oddiwrth Fochres, yn ymestyn i'r gorllewin am un filldir ar hugain i'r môr, ar gyfer Cilan yn Lleyn, y mae Sarn Badrig, i'r de i'r hon yr oedd Cantref y Gwaelod, tiriogaeth Gwyddno Garanhir, a orlifwyd trwy esgeulusdra ceidwad y dyfr-ddorau, sef Seithenyn Feddw, tua'r flwyddyn 560; gwyliwn ddweyd anwiredd, a methu mil neu ddwy neu fwy o flynyddoedd! Gallwn ddyweyd hyn, beth bynag, canodd y Pateh. William Rees (Hiraethog,) yn gampus i Gantref y Gwaelod, a Dewi Wyn mor gampus, yn ei gywydd ar “Ymadawiad Cyfaill.” Fel hyn:—

“Heli yw'r lle, wele'r llyn,  
 Dwr diluw a do'r delyn:  
 Nid pysg yma'n gymmysg oedd,  
 Ond gwenyn, yd, a gwinoedd.”

Daew Leyn i'r gorllewin; a mynydd yr Eifl, neu Aflau, lliosog o afl—nid *rivals*, fel y tybia y Saeson eu bod, i fynydd-

oedd uchaf Eryri ! A dyma Gwmmwd Eifionydd y tu yma, yn cyrhaedd o Borth Madog i Abererch. Eiddionydd y gelwid ef gynt; felly y galwai Meigant ef yn 640 :—

“ Arllechwedd, Arfon, Eiddionydd,  
O flinedd eu hannedd i'r mynydd—  
A glyw.”

Ac felly hefyd y galwai Rhisierdyn ef ym “ Marwnad Hywel ab Gruffydd,” yn 1400:—

“ Eiddionydd dorf corf cariad—oedd Hywel.”

Y mae Eiddionydd i'w weled fel dyffryn coediog a ffrwythlawn ; ac wrth edrych ar ambell lwyn o goed, bryd arall fryn bychan, yna rhyw gilfach glêd, y mae yn dwyn y cof i feddwl am enwogion a anwyd ynddi, ac a symmudasant i barthau byd : a llawer, llawer ereill, heb ran na chyfran iddynt byth mwy o ddim oll a wneir dan haul ; yn llechu yn ddystaw, nes bo mynwentau yr Eryri yn ymagor, a'i chedyrn fynyddoedd yn neidio, a rhyw Ywen gysgodfawr yn wlawlen iddynt.

Draw yn y gorllewin, dacw y Plas Dû, lle y ganwyd John Owen, y bardd Lladinaidd campus ; a'r Esgob Evans,\* o Fangor, o 1701 hyd 1715, yna o Meath, yn Iwerddon. Yn nes yma, dacw y Gaerwen, lle y ganwyd ac y bu farw Dewi Wyn. Yn ymyl y mae Coedgae Dû, lle y magwyd y Parch. Richard Jones, wedi hyny o'r Wern. Yn nes i'r de, y mae y Bettws Fawr, lle y ganwyd Robert ab Gwilym Ddû. Ger llaw yr oedd Owen Gruffydd, prydydd Llanystumdwy, yn byw. I'r gogledd y mae Bryneinion ; yn agos yno y ganwyd Pedr Fardd. Yn y Suntur, nid yn mhell eto, y ganwyd Robert Jones, Rhos y Lan. I'r gogledd, yn Rhwng y

---

\* Hwn ydoedd yr Esgob diweddaf, o Gymro gwaed coch cyfa' a fu ar fainc Esgobol Bangor, hyd yma.



Ddwryd, yn mhlwyf Dolbenmaen, yr oedd y Parch. Thomas Elis, A.C., a ysgrifennodd hanes bywyd Owain Glyndyfrdwy, yn byw. Yn nes atom, y mae Cefn y Fan (Ystum Cegid,) lle yr oedd Owain Gwynedd yn byw, ac o'r lle y dywedir yr aeth Madog i'r môr.

Yn nes i'r dwyrain, dacw y Cleneneu, lle yr oedd Syr John Owen, yr ymladdwr dewr dros ei frenin yn amser Cromwel, yn byw. Yno y bu byw y Morysiaid enwog cyn Syr John; un o honynt, Syr William Morris, o Wlad yr Haf (*Somerset*), a drodd y fantol o blaid adferiad Charles yr Ail. Yn nes yma, dyna y Gesail Gyfarch, unwaith Castell Cyfarch, a Phenyfed; llosgwyd ef a Cefn y Fan gan Owain Glyndyfrdwy. Yna yr oedd Cadwaladr Cesail, bardd a boneddwr, yn byw tua 1620. Bu yr Esgob Humphreys, o Fangor, yn byw yma nes y symudodd i Henffordd. Crybwyllir yn "*Wynn's History of the Gwydir Family*," am helyntion dychrynlyd, ac ymladdfeydd creulawn, rhwng teulu Bron y Foel a'r Gesail. Yn nes i'r dwyrain, y mae Hendre' Hywel, lle yr oedd Meredydd ab Hywel, hynafiad teulu Gwydir, yn byw. Y braich tir acw, yn cyrhaedd o Lwyn y Mafon i Ben Ystumllyn, ydyw Pen tir y Gest, sef terfyn gorllewinol Tref y Gest. Pwy a w'yr yn mha le yr oedd "Blaid Rhudd" y Gest yn byw? Yn mha le yr oedd Gwely'r Prydyddion, neu Etifeddiaeth y Prydyddion, yr hon oedd yn Nhre'r Gest, yn y chweched flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Edward y Trydydd, sef y flwyddyn 1356? Ei feddianwyr oedd Ieuan Llwyd, Ieuan Chwith, ac Ieuan ab Adda ab Eingan. Wrth droed, ac ar ochr y Foel hon, y mae y Tyddynod Tu Hwnt i'r Bwlch, (lle genedigol y brodyr nodedig y Parch. John Thomas, A.C., a'r Parch. Richard

Thomas, G.C., ieithwyr, hynafiaethwyr, a beirdd) Llanerch, Penamser, a Bron y Foel. Yn yr olaf, yr oedd Syr Hywel y Fwyall yn byw, yr hwn a urddwyd am ei wroldeb, pan y cymerodd Ioan, brenin Ffrainc, yn garcharor yn ymladdfa Poitiers, yn y flwyddyn 1356, yr hwn hefyd y canwyd iddo,—

“Och ! am Hywel heb gelu,  
A'i fwyall, diball y bu,  
Yn erchyll ffrewyll i Ffrainc,  
Tro'i chwalfa trwy uchelfainc.”

Tybir ei gladdu yn Nghruccaeth, gan ei fod yn olygydd y castell, ac yn byw ynddo.

O tanom i'r gogledd, dyna hen bentref parchus Penmorfa, yn destyn cân—“*The Deserted Village.*” Y mae amryw o rai enwog yn eu dydd a'u cenhedlaeth wedi eu claddu yn y fynwent yna; ac y mae yna y beddergryff hynaf yn yr ardal oedd, heblaw ar y mynor gwyn hardd sydd yn yr eglwys yn gof am Syr John Owen. A welwch chwi i'r de, wrth ein traed, fel gerddi, y Morfa Bychan? Yr oedd y *sianel*, lle mae'r llongau yn myned ar hyd-ddi i Borth Madog, yn myned trwy ganol y Morfa Bychan chwech ugain mlynedd yn ol! Bu yn y Morfa Bychan, ac yn symyd i sir Feirionydd bryd arall, dân rhyfedd yn y flwyddyn 1693. Oddeutu y gwyliau yr ymddanghosodd, a llosgodd ar y 24ain o Ragfyr, ddâs o wair i Richard Davies, Erw Wen; un i Richard Griffith, Llechwedd Dû; ac un i Humphrey Owen, y Gareg Wen y Gest. Yn nos y 27ain, y llosgodd dâs o wair i John Philips, Ynys Lanfihangel, a dwy ddâs i John Griffith Owen, Cefn Trefor Fach, a dwy ddâs i Catherin Wiliam, Cefn Trefor

Fawr, ac un i Francis Evans, Glasfryn. Ar ol hyny, llosgwyd beudy, ac ynddo lawer o wair i Richard Davies, o'r Erw Wen. Bu effaith y tân yma mor niweidiol a gwenwynllyd ar dyddyn Sion Wyn dros dair blynedd, nes y byddai farw pob creadur a borai arno, yn gystal a'r adar a fwytaent ar hyd-âdo. Math o darth tanllyd ydoedd, ac yn codi o'r corsydd gwlybion tywodlyd yna yn y Morfa Bychan, ac yn croesi y Traeth i Ynys Llanfihangel, a Morfa Harlech, a glan y Traeth Bach. Yr ydoedd yn bur ddyeithrol, ac yn peri syndod. Rhyw fflam lās fechan ydoedd, hawdd ei diffodd, debygid; ac ni wnai niwed i'r sawl a fyddai yn ei chanol yn ymdrechu rhwystro y gwair ar dân. Yr oedd yn wahanol iawn yn ei natur i dân arall, a'r distryw a wnai fyddai yn y nos. Bu farw gwartheg, ceffylau, geifr, moch, &c., gan yr effaith a adawodd ar y ddaear; a pharhasant i farw felly am hir amser. O'r diwedd canfyddwyd fod swyn yn effeithio arno; a phan y gwelid y tân yn dechreu casglu at eu gilydd ac ennyn, cenid cyrn, curid tabyrddau, a saethid; a pharai y swyn a'r cynhwrf iddo ddyrchafu i'r awyr fel na wnai niwed. Ychydig golledion a gaed wedi cael hyn allan; ond bu yn ymddangos am gryn amser ar nos Sadyrnau a nos Suliau. Cred y bobl y pryd hyny oedd, mai y tyddynwr oedd yn byw yn Nhyddyn Sion Wyn, wedi cael ei droi allan, a felldithiodd neu a *witsiodd* y fan; a daliwyd ef i fyned ag ef o flaen Ustus; ond nid oedd yr un nes na Phenarth neu y Wern Fawr, yn sir Gaernarfon; ac wrth fyned ag ef, gorfu ar y *cwnstabiliaid* (Rowland Pritchard, yr Ynys Ddû, oedd un o honynt) lettya yn Llanystumdwy, a diangodd yntau trwy ffenestr y nos honno, ac nis gwelwyd ef mwy. Cyfrifai yr hanesydd Pennant iddo gael ei achosi gan haid o locust-

iaid a chwythwyd gan ystorm o'r gorllewin, a foddasant, ac a ddaethant i'r lan i'r Morfa Bychan.\*

Rhaid dyfod i lawr o ben Moel y Gest cyn y nos, a gadael 'golwg y llygaid, ac ymdaith yr enaid," a'r gwagedd pleserus hwn heibio ; a chofio'r penill,—

“ Yr holl uchelfrig dyrau, a'r llysoedd teg eu gwawr,  
A themlau'r difrifolion, ië, 'r feithgron ddaear fawr,  
Ac oll a'u hetifeddant, a doddant mewn un dydd,  
Mwy na ffug-adail breuddwyd, un rhith o'u hol ni bydd.”

---

## BYR GOFIANT AM YR

## ESGOB HUMPHREYS.

Amser yn ei yspaid diaros, sydd yn ein cludo ymaith at yr aneirif luoedd a aethant o'n blaen ; y mae'n werthfawr, oherwydd mae *un* ydyw, eithr yn fwy gwerthfawr oherwydd mae *un byr* ydyw. Y mae breuolder einioes yn ein galw i wneuthur yr hyn a wnelom a'n holl egni,—“ Canys nid oes na gwaith na dychymyg, na gwybodaeth, na doethineb yn y bedd, lle yr ydym ni bawb yn myned.” Er cymaint y gwahaniaeth o ran llafur a diwydrwydd sydd rhwng

---

\* Ysgrifenodd ein cydwladwr dysgedig Edward Llwyd hanes yr argoel rhyfeddol hwn yn y *Philosophical Transactions* yn fuan ar ol iddo ddigwydd. Crybwylla Mouffet, awdwr Ffrengig, am bla yn Lombardi, y flwyddyn 591, yr hwn a achoswyd gan locustiaid meirwon, y rhai a lygrasant yr awyr i'r fath raddau, fel y bu farw o hono ddim llai na phedwar ugain mil o ddynion ac anifeiliaid.

dynion yn y fuchedd hon, “ eto y mae'r doeth yn *marw* fel yr annoeth; onid i'r un *lle* yr â pawb? Y pethau sydd yr awr hon, yn y dyddiau a ddaw, a ollyngir oll dros gof.” Wrth ganfod cyflawniad o hyn, sef gŵr mor enwog a'r Esgob Humphreys, yn myned dros gof, ac na welsai yr ysgrifenydd braidd ddim ond crybwyll am ei enw yn Gymraeg, er ei fod yn Gymro! tueddwyd ef i ysgrifenu yr hyn a ganlyn.— Humphrey Humphreys a anwyd yn yr Hendref, Penrhyn-deudraeth, plwyf Llanfrothen, Meirionydd, y 24ain o Dachwedd, 1643, ac a fedyddiwyd y Sul canlynol, sef y 26ain o'r un mis, yn Eglwys Llanfrothen. Efe ydoedd fab hynaf ac etifedd Richard Humphreys, o'r Hendref, Penrhyn Deudraeth, boneddwr, a Margaret merch Robert Wynn, o Gesail Gyfarch, yn sir Gaernarfon, Ysw. Dygwyd ef i fynu rai blynyddoedd yn Ysgol Rad Croesoswallt, dan nawdd a gofal ei ewythr a'i dad bedydd, Humphrey Wynn, A.M., o Goleg y Drindod, Caergrawnt, Ficar ac Athraw y lle: oddiyno, ar farwolaeth ei ewythr, symudodd i Ysgol Bangor, Athraw pa un ydoedd Roger Williams, yn Chwefror 1665: anfonwyd ef oddiyno i Goleg Iesu, yn Rhydychain. Yn Hydref 1669, cymerodd y radd o A.B., a'r haf canlynol gwnaed ef yn Aelod Ysgolhaig (*Fellow*) o'r tŷ hwnw.

Yn Nhachwedd 1670, ordeiniwyd ef yn Ddiacon ac Offeiriad gan yr Esgob Morgan; yn Mangor, a'r un dydd rhoddwyd iddo Berigloriaeth Llanfrothen.

Ar y 12fed o Fehefin, 1672, graddiwyd ef yn A.M.; ac yn mis Awst canlynol, dewiswyd ef yn aelod o Goleg yr Iesu ar y 24ain o Dachwedd, yn yr un flwyddyn. Wedi rhoddi o hono i fynu Berigloriaeth Llanfrothen, gwnaed ef yn Berson Trawsfynydd. Yn Nhachwedd 1671, Dr. Humphrey

Lloyd, yr hwn a ddilynodd y Dr. Morgan yn Esgob Bangor, a'i cymerodd ef yn Gapelwr teuluaidd iddo.

Ar yr 16eg o Dachwedd 1680, pan oedd ef yn B.D., ac yn aelod o Goleg Iesu, ac yn Ganon Bangor, dyrchafwyd ef yn Ddeon yr Eglwys honno. Yn y flwyddyn 1682 cymerodd y radd o D.D.; ac yn 1689, dyrchafwyd ef i Esgobaeth Bangor, ac oddiyno yn y flwyddyn 1701, symudwyd ef i Henffordd, lle y bu farw ar yr 20fed o Dachwedd, 1712, yn y 64ain flwydd o'i oedran, a chladdwyd ef yn agos i allor yr Eglwys Gadeiriol honno.

Am ei briodas, ysgrifennodd yr Esgob Humphreys fel y canlyn, yn Lladin:—

“Humphrey Humphreys, Deon Eglwys Gadeiriol Bangor, âg Elizabeth Morgan, merch Robert Morgan, Esgob Bangor, a unwyd mewn priodas yn Eglwys plwyf Bodewryd, ar y 10fed o Fai, yn yr ail wythnos wedi gwyl Adgyfodiad ein Harglwydd.”

O'r briodas yma cafwyd dwy ferch, Anne a Margaret, am ba rai, a marwolaeth eu mam, yr ysgrifennodd fel y canlyn, yn Lladin:—

“Eu mam, och fi! a roddodd i fynu i farwolaeth angau anmhrydlawn, yn mis Chwefror, ac a gladdwyd yn mynwent St. Beuno, Penmorfa, ar y Sabboth, yn yr un mis, 1683, lle y mae yn ysgrifenedig yr argraph ganlynol:—

#### “YN DDIHALOG,

Er cof am Elizabeth, merch Robert Morgan, Esgob Bangor, a Gwraig Humphrey Humphreys, Deon yr un Eglwys, yr hon a anwyd y 7fed o Fawrth, 1661, wedi bywyd byr, a

dreuliwyd yn y modd mwyaf crefyddol, gan brysuero i anfarwoldeb, bu farw yn mis Chwefror, 1683, gan adael i'w holl gyfeillion esampl ragorol, a galar dwysaf

Gŵr a fynodd godi y gof-arwydd hon am wraig."

Yn Nghor yr Eglwys Gadeiriol yn Mangor, y mae'r argraph ganlynol yn Lladin,—

"Humphrey Humphreys, S. T. P., Proffeswr Duwinyddiaeth Sanctaidd. Hefyd, Esgob yr Eglwys yma, a barodd wneuthur hwn er cof am ei serchocaf a theilyngaf ferch Anne, yr hon trwy ddwyfol ffafr a genbedlwyd o'i wraig Elizabeth, merch i'r rhagenwol Esgob Robert, ar y 3ydd o fis Awst 1682, wedi ei haddurno âg ymddygiadau dymunol i'w ryfeddu, yn gystal a phrydferthwch personol, wedi ei chynysgaeddu oddiuchod â phob rhinwedd a gras; doeth goruwch ei blynyddau, ac yn hiraethu am bethau i neshau.

Efe a'i rhoddodd hi yn ol i Dduw ar *Calender* Ionawr 1699, nid heb ddiolchgarwch, yn gystal am hon a adawyd iddo mor hir—yn ac am ferch arall iddo, Margaret, yr hon sydd yn fyw."

Ar ei gof-arwydd yn Eglwys Henffordd y mae'r argraph Lladin canlynol:—

H. S. E.

HUMPHREY HUMPHREYS, PROFFESWR DUWINYDDIAETH  
DDWYFOL.

Yn gyntaf, Deon, B.A. 1680. }  
Wedi hynny Esgob, 1689. } BANGOR.

A symudwyd i Henffordd, B.A. 1701. Yna yn llawn o ddyddiau, ac yn aeddfed i'r nef.

Bu farw Tach. 20, 1712, yn 64 oed.

Anwyl ddarllenwyd, os byddi byw yn ol ei esiampl nis ofni farw.

Yr oedd yr Esgob Humphreys yn nodedig o ran ei fuchedd addas trwy ei holl fywyd; eithr yn y blynyddoedd olaf ei dduwioledeb ydoedd mor neillduol nas gwelid ond ychydig o'i gyffelyb. Ei brif nodweddiad ydoedd llareidd-dra; yr oedd ei wynebpryd fel pe dywedasai,—dyma dangnefeddwr,—nid oedd uchelfrydedd i'w ganfod ynddo, eithr hunan-ymwadiad a gostyngeddwrwyd; yr ydoedd yn noddwr a chefnogwr i athrylith, ac yn haelionus i bawb. Mr. Ellis Wynne wrth gyflwyno y llyfr “Rheolau Buchedd Sanctaidd” iddo, a'i hanerchai fel y canlyn,—“Canys er maint ei barch a'i groesaw yn Lloegr, (eisys yn ei ddeunawfed wisg,) nid yw ef eto ond dieithr yn Nghymru, ac ymdeithydd egwan ac ieuanc yn y mynydd-dir; eich swydd a'ch arfer chwithau yw derbyn y dieithr, noddi y gwan, a hyfforddi'r ieuanc. Hefyd gan mai neges hwn yw lles cyffredin y wlad, ni all, o ran hyny, na bo iddo groesaw genych chwi; drachefn, pan wyper wrth eich enw iddo gael croeso a chymeriad genych chwi, fe a fydd cymeradwyach gan y wlad, ac felly bydd lles yn gyffredinol.”

Ar symudiad yr Esgob Humphreys, o Fangor i Henffordd, y canodd Owen Gryffydd, Llanystumdwy,\* yr Eulynion canlynol:—

---

\* Yr oedd yr Esgob yn gyfaill a noddwr i Owen Gruffydd. Dywedir iddo roddi ardreth lle bychan gerllaw y Gesail i'r Bardd am ei oes; yr hwn a elwir Tyddyn Owen, hyd heddyw.



AR DESTYN, DRWG NEWYDD I'N GWLAD.

Gormod oer syndod i'r sir,—er niwed,  
 Yw'r newydd a glywir ;  
 Yn mhob ceg lle'i mynegir,  
 Byth a'i gas na botho gwir.

Newydd o Eifionydd i Fon,—niwed,  
 Newydd drwg i Feirion ;  
 Newydd cas heb nawdd cyson,—  
 Newydd swrth yn niwedd sôn.

Newydd annedwydd i ni,—o lewyg  
 Am lywydd haelioni ;  
 Dwyn perl glwys ein heglwysi,  
 Bura cred a bair y cri.

Dwyn gwellhad gariad goror,—dwyn Esgob,  
 Dwyn asgwrn cefn Bangor,  
 Dwyn lamp goreugamp grigor,  
 Dwyn ysgriniaeth cywaeth cor.

Mae prudd oer gystudd i Gastell—Cyfarch,  
 Fo'i cofir o'n rhybell,  
 Am bur Esgob aur asgell,  
 Byw ddysg iawn, heb addysg well.

Penmorfa brudd, prudd bob bron,—nych lewyg  
 Na chlywir clych Aaron,  
 A'i swn cysur sain cyson,  
 O nefol laeth lluniaeth llon.

Cystudd a cherydd, och oered—ias dygn  
 Os digwydâ y niwed,  
 Trwy'r Esgobaeth—rhygaeth rhed,  
 Och ! am ŵr gwych ymwared.

Dwyn mwynder, breuder a bri,—dawn llesol,  
 Dwyn llusern goleuni,  
 Dwyn olew di wan eli,  
 Da ti wellhau'n heneidiau ni.

Fy maddi rhof at Jehofah—yn ddygn,  
 Ddygir oddiyma  
 Ddysg y Bangor, por pura,  
 Ddysg, am y ddysg dda.

Yr ydoedd yr Esgob Humphreys yn haelionus, ac yn noddwr y tlodion, fel y prawf ei waith yn dwyn i fynu y Parch. Mr. Jones, Henffordd Fechan, yr hwn oedd fachgenyn tlawd, wrth Benmorfa, â'r Parch. Edw. Samuel, o Langan, yr hwn oedd fab i hen ŵr a elwid "Samol Cwt y Defaid," wrth Benmorfa: pan oedd yn byw yn Gesail Gyfarch y gwnaeth hyn. Yr ydoedd o gorpholaeth canolig, ac yn fwyn-aidd yr olwg arno, fel yr ymddengys wrth ddarlun o hono oedd yn ddiweddar yn y Gesail Gyfarch. Dywedir fod dwy gyfrol o'i law-ysgrifen yn llyfrgell yr Hengwrt. Bu fyw amryw flynyddau yn y Gesail, ac y mae ei eisteddle yn Eglwys Penmorfa, ac a elwir "Seat yr Esgob" hyd heddyw.

---

## NODIADAU AR OWEN GRUFFYDD,

### LLANYSTUMDWY.

Claddwyd Owen Gruffydd yn mynwent Llanystumdwy, 1730, yn 87 oed. Hen lanc ydoedd,—yr ydoedd yn byw wrtho ei hunan, mewn caban bychan, dan dalcen y lle a elwir Tymawr, gerllaw y fan a elwir Capel y Beirdd. Byddai yn arferol o fyned oddiamgylch i ofyn elusenau gwŷr mawr yr ardal; a byddent yn rhoddi iddo fwyd ac arian a dillad. Yr oedd ganddo goffr derw, yn yr hwn y cadwai ei fwyd; a byddai plant diriaid yn arfer torri i gaban yr hen fardd pan y byddai yn achlysurol oddicartref; yn ddamweiniol digwyddodd i glo y coffr dorri; yntau a aeth â'r clo i Efail Elias y Gof, (tad W. Elias, Plas y Glyn,) yr hwn oedd yn byw yn Ngefail Plas Hen, ac wrth fyned, canai fel y canlyn:—

At Elias neat ei law,  
 Sy'n weithiwr hylaw hwylus,  
 Rwy'n myn'd a'r clo i'w drwsio ar drot,  
 Rhag lladron gnot twyllodrus.

Megys gwair ar wlawog hin,  
 Ar ryfedd fin yr afon ;  
 Nid yw coffor heb ddim clo,  
 Ond lledrydd lle bo lladron.

Cyfrifid ef yn gyffredinol yn un tra moesawl gan ei gym-  
 ydogion. Yr oedd ef yn ddall flynyddoedd cyn ei farw ; yr  
 oedd un Wm. Elias yn byw y pryd hyny yn Mryn y Beddau,  
 am yr afon a thrigfan yr hen fardd ; a byddai yn arferol o  
 ddyfod ato ar y Suliau i ysgrifenu ei farddoniaeth, oblegyd  
 efe oedd Athraw Wm. Elias. Yr oedd ei waith, yn llaw-  
 ysgrif Wm. Elias, ar gael yn ddiweddar, ac adysgrif o ran o  
 hono gan John Thomas, Chwilog ; yr oedd ei holl waith yn  
 bum' llyfr, heblaw ei lyfr achyddiaeth, yr hwn a adysgrifen-  
 odd y Parch. Dafydd Ellis, A.C., gynt Person Cricciaeth.  
 Cyfrifid Owen Gruffydd yn ei amser yn un o'r beirdd goreu  
 yn ei oes. Y mae llawer o'i ddywediadau ar gael gan ardal-  
 wyr Eifionydd hyd heddyw ; megys y canai yn erbyn y drwg  
 arfer o redeg meirch, a wnaent y pryd hyny yn flynyddol, ar  
 ddydd Gwylmabsant Dolbenmaen,—

Gyru'r anifeiliaid gwirion,  
 I ferwi o chwys heb fawr achosion ;  
 'E fydd gruddfanau rhai'n ryw ddiwrnod  
 Yn dyst i'w poeni'n dosta pennod.

Un Margaret Cadwaladr, Ty'nlon, oedd yn gweinyddu  
 arno yn ei ddyddiau olaf, yr hon a adwaenai Robert ab  
 Gwilym Ddu. Cyfansoddodd O. G., Gywydd Marwnad

Hugh Morris. Dyma englyn a wnaeth Wm. Elias wrth edrych ar gladdu O. Gruffydd,—

Rhoi'r bardd mwyn cufardd mewn eist—o dderw  
 I'r ddaear yn athrist ;  
 Edrych yr wyf yn odrist,  
 Yn bruddaidd druanaid drist.

---

### ADGOFION AM DAFYDD Y GAREG WEN.

Y Gareg wen sydd dyddyn helaeth ar lan y môr, wrth Borth y Gest, gerllaw Porth Madog ; yno ganwyd Dafydd yn 1720. Mab ydoedd i Owen Humphrey, fab Humphrey, fab Humphrey Owen, oedd yn byw yno yn 1693, pan yr oedd y tân rhyfedd yn y Morfa Bychan. Ei fam ydoedd Gwen Roberts, Isallt, wrth droed Moel i Hedog. Dynes hardd ac enwog oedd Gwen, a chantores dda ; byddai wythnos yn y gwyliau yn Maes-y-neuadd, yn canu gyda'r tannau, a chyfansoddai bennill pryd y mynnai. Dyma un, wrth ddyfod adref o Isallt heibio i Gefn Cyfannedd :—

Mi fûm gynt yn myn'd yn hoel  
 I ochr Moel i Hedog,  
 Ac yrwan gyru'n ffest,  
 A thynu i'r Gest eithinog.

Bu iddi dri o wŷr ; yr olaf oedd Rowland Prichard, o Gadair Elwa. Gofynai yr Offeiriad. ar ol ei llwyddo wrth ddrws y llan, “ Wel, Gwen Roberts, pa sawl gŵr a fuasai yn ddigon genych ? ” “ Un, pe buasai yn para,” ebai Gwen. Cyfrifid Dafydd yn delynor campus, ac yn gyfansoddydd cywrain, ac mai efe a gyfansoddodd *Dafydd y Gareg Wen*,

*Codiad yr Ehedydd, Difyrwch Gwyr Cruccaeth, &c.* Nid oes gan yr ysgrifenydd ond rhoddi y peth a glywodd, mor fanwl ag y gall, poed gwir poed anwir. Dywedai y diweddar Lewis Robert, Maentwrog, mai *Conceit* Dafydd ydoedd, neu ei hoff alaw; ac mai tŷn Albanaid o'r enw *July Jott* oedd. Dywed ereill fod cefnder i Dafydd yn arddwr yn Roslin Castle, ac i Dafydd anfon y dŷn iddo; ac yno y galwyd hi yn *July Jott*. Chwilied y cywrain, a oedd y fath dŷn yn yr Alhan cyn yr amser hwnw? Clywais hefyd mai *Difyrwch Gwyr Criccaeth* oedd enw'r dŷn *Roslin Castle*, pan anfonodd Dafydd hi i'w gefnder. Canodd Ieuan Glan Geirionydd arni,—

“Fenyw fwyn, gwranddo gwyn,” &c.

Yr oedd Dafydd yn hysbys i Syr Walter Scott, yr hwn a ganodd bennillion,—“*The Dying Bard.*”

Air,—“Dafydd y Gareg Wen.” By Sir Walter Scott.

“The Welsh tradition bears that a Bard, on his death-bed, demanded his harp, and played the Air to which these verses are adapted, and requested it might be performed at his funeral.”—*Walter Scott.*

A allasai cefnder Dafydd ddim hysbysu yr hanes wedi marw Dafydd? Yr wyf fi yn cael fy nhueddu yn gryf i feddwl hyny. Dywedai Owen Owens, nai o fab brawd i Dafydd, iddo ddymuno chwareu ei *gonceit* ar y delyn cyn cychwyn âg ef i'w gladdu. Erbyn dyfod o'r dorf yn nghyd, nid oedd un a fedrai chwareu y delyn, ond medrai pawb bron ganu y dŷn; ac wedi dyfod â'i gorff i'r drws, canwyd hi gan y lluaws cyn cychwyn. Dywedir iddo fod yn delynor yn

Nant Eos. Byddai yn cadw nosweithiau llawen oddeutu ei gartref, yn fwy er ei foddio ei hun a'r ieuenctyd, nag i ddim anghymedroldeb.

Dywedir mai wrth ddyfod o hen Blas y Borth, tra yn gorphwys gyda'i delyn, wrth faen mawr (sydd yno eto,) y clywai yr ehedydd yn canu, ac mai hyny barodd gyfansoddi *Codiad yr Hedydd*: clywais hen ferch, Betti Robert, Cwr y Clwt, yn dyweyd iddi fod yn dawnsio pan yn eneth, ac yntau yn canu; ac y mae rhyw adgof genyf ei bod yn dywedyd mai dyn mawr hardd ydoedd.

Rhaid bellach ddyfod at "ddiwedd pob dyn."—Bu farw 1749, yn 29 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Ynyseynhaiarn, a'i frawd Owen Owens o Gefnymeusydd Uchaf, wrth ei ochr wedi hyny; gan mai careg arw a llun telyn ar ei chongl oedd arno, a'r ddaiar bron wedi ei chuddio, darfu i Elis Owen, un o'r Wardeiniaid, gyfansoddi y penillion canlynol gyda bwriad o roddi cof-adail arno,—

Pa le mae'r bysedd symudent fel swyn,  
I borthi chwaeth anian, mor fuan, mor fwyn;  
Mal "Codiad yr Hedydd," yn ufudd i nen,  
Neu sio'n hyfrydlon y dôn "Gareg Wen?"

Y bysedd symudent, ogleisient y glust,  
Sy' ddistaw a llonydd; ow! Dafydd, heb dyst  
Mai'n mynwent yr Ynys yr erys ei ran;  
P'le yno, dangoswch, os medrwech, y man.

Os drylliwyd y delyn, gostegodd y gân,  
Nis derfydd per anian, nis diffydd ei dân,  
A chofir am Ddafydd dieilfydd ei dant,  
Tra rhedo un afon yn Eifion mewn nant.

A gwnath Gof-adail iddo, drwy danysgrifiadau, yn y flwyddyn 1840, a darlun o delyn fawr arni, ac o dani fel y canlyn,—

## BEDD DAVID OWEN,

Neu, "*Ddafydd y Garreg Wen*,"

Y Telynor rhagorol,

A gladdwyd 1749,

Yn 29 oed.

Swynai'r fron, gwnai'n llon y llu,—â'i ganiad,

Oedd ogoniant Cymru ;

Dyma lle ca'dd ei gladdu ;

Heb ail o'i fath, Iubal fu.—E. O.

## ELLIS WYNNE O LASYNYS

Oedd fab Edward Wynne, fab Ellis, trydydd mab William Wynne, o'r Glyn Cywarch ; ei dad a briododd etifeddes y Lasynys. Urddwyd ef yn Ddiacon ac yn Offeiriad yr un dydd ; a thranoeth gwnaed ef yn Berson Llanfair. Y mae yn debyg iawn mai yn 1701 yr urddwyd ef, ac y cafodd Bersonoliaeth Llanfair, sef wedi hyspysu i'r Esgob Humphreys am ei symudiad i Henffordd. Yr oedd yn berson Llandanwg a Llanbedr hefyd. Tebygid ei fod oddeutu 30ain oed pan yr urddwyd ef ; a hwyrach mai yr Esgob Evans a roddodd Llandanwg a Llanbedr iddo. Rhoddodd argraphiad newydd o'r Llyfr Gweddi Cyffredin, ar ddymuniad y pedwar Esgob Cymreig, ac Esgob Henffordd. Y mwyaf neillduol yn ei oes ydoedd, nac un oes arall. Fel Bardd, yn nodedig,—“ Y Gwir yn erbyn y Byd,” a ddywedai. Yn ei lyfr a elwir y “Bardd Cwsg,” y mae ei ryddiaith yn farddonol a hedegog, a'i ddychymyg yn ddiderfyn ; enwai saith o gymdeithion sych-

edig,—Eurych, Gof, Lliwydd, Mwngloddwr, *Sweep*, Prydydd, ac Offeiriad, a ddaethai i bregethu sobrwydd, ac i ddangos ynddo ei hun wrthuned o beth yw meddwdod; a'r prydydd a aethai â'r maes ar bawb ond yr Offeiriad; a hwnw o barch i'w siaced a gawsai'r gair trechaf, ac felly troes y bardd y cwbl ar gân,—

“ O'r dynion p'le'r adwaenych, &c.”

Y mae ei benillion yn niwedd “Gweledigaeth Uffern,” yn rhagorol: ni ddarfu i, na Homer na Horace, na Virgil ragori arno; y mae ei iaith mor berffaith ag iaith Adda yn Eden! Nis gallai iaith ddynol am bethau ysprydol fod yn amgen,—pob *gair* yn gynwysfawr, yn hylithr a dychrynlyd; y mesur hefyd—*Calon Drom*, yn chwaethus; ei *glimax* goruwch rheol, yn dweyd mwy nac y gallai ymadrodd—yr oedd yn wir *genius*. Oherwydd ei iaith ddi-dderbyn-wyneb fel prydydd, y peidiodd a rhoddi ei enw wrth y Bardd Cwsg, a rhag llychwino ei wisg fel gŵr Eglwysig; ac y mae'n amlwg ddigon ei fod yn gydnabyddus â phawb, ac a phob peth oedd yn ei oes; yn gystal a hanesyddiaeth yr oesoedd blaenorol. Yn ei Emyn Cynhebrwng y mae'r pennill hwn,—

Na fyddwn anobeithiol drist  
Am neb yn Nghrist a hunant;  
Medd Paul—o'r corph maent gydag Ef  
Yng nghartref y gogoniant.

---

COFIANT DEWI WYN,  
(GAN GYMYDOG.)

Dafydd Owen oedd yr hynaf o ddau fab Owen Dafydd a Catherine, ei ail wraig, ac a anwyd yn y Gaerwen, plwyf Llan-



ystumdwy, Cwmwd Eifionydd, sir Gaernarfon, yn y flwyddyn 1785. Nid oedd dim yn nodedig yn neb o'i berthynasau, oddieithr ei fam; a thyfodd ef megys derwen fawr ar ganol gweunydd, ar ei ben ei hun. Anfonwyd ef i'r ysgolion cymydogoethol yn Mhenmorfa, Llanystumdwy, a Llangybi, &c., ac yn olaf i Fangor-îs-y-coed, gerllaw Gwrecsam. Dechreuai gyfansoddi yn dra ieuanc, pan oedd yn yr ysgol. Yr oedd ef a'i frawd yn feddylgar a difrif (rhagor plant) pan oeddynt yn yr ysgol. Ymhoffai yn fawr mewn barddoniaeth, a thebygid mai dyna oedd holl wrthddrych ei serch a'i fyfyrddod pan yn ieuanc. Ysgrifennai Dafydd Ionawr ato; ac ystyriai Dafydd Ddu, Eryri, a'i gymydog Robert ap Gwilym Ddu, yn ddoethaf o ddoethion byd. Gwyndaf Eryri hefyd a fyddai yn ymweled âg ef. Wedi lloffa gan Ddafydd Ddu a Robert ap Gwilym Ddu, a chwilio celloedd y gogynfeirdd, ymroddai i gyfansoddi; ac o dro i dro deuai Molawd Ynys Prydain, Awdl Amaethyddiaeth, Awdl Elusengarwch, &c. &c., i'r golwg. Siomwyd ef yn fawr fod Awdl Molawd Ynys Prydain yn *aîl* oreu; siomwyd ef yn fwy o lawer, wedi barnu ei Awdl Amaethyddiaeth yn *oreu* yn Eisteddfod Tremadog, (yn 1811,) na dderbyniodd byth mo'r Gwpan arian. Bron na ddywedasai pe b'ai angel o'r nef yn barddoni i'r bobl hyn, ni chai gyfiawnder ganddynt. Wedi hyny daeth Awdl Elusengarwch i'r ymgyrch, a gwrthodwyd hi!!! Beth oedd ei deimladau erbyn hyn, na wyped neb, ond a wybu Dewi, druan? Ymdrechai ddangos i Gymru iddo gael annghyfiawnder, a deuai Brytyn (gwrthwynebydd cryf) i ysgrifenu i'w erbyn; a chwerwid ei ysbryd ef i'r fath raddau nes y byddai yn annymunol crybwyll am na barddoniaeth nac Eisteddfod wrtho. Wedi hyny beirniadai Iwan

yn alluog ar ei farddoniaeth yn “Seren Gomer,” yr hyn a’i sorai wrth lenyddiaeth cystal a barddoniaeth Gymreig. O radd i radd diddyfnwyd ef oddiwrth ei hen duedd barddoni, a thramgwyddodd wrth amryw bersonau, hyd oni throwyd ei feddwl cryf i gasglu cyfoeth yn unig; a hyny a wnaeth gyda deheudra a medrusrwydd teilwng o hono ei hunan. O’r braidd y caid ganddo y pryd hyn, nac ymddiddan am, llawer llai gyfansoddi barddoniaeth,—“ffolineb oeddynt ganddo:” “ynfydrwydd o’r mwyaf: colli amser am beth diwerth, diwobrwy, a di-ddiolch am dano.” Fel hyn parhaodd nes myned yn gyfoethog iawn: ond cymerwyd ef yn wael gan ddolur gewynawl, yr hwn a gryfhaodd nes gorphen ei einioes lafurus, helbulus, a digysur.

O ran ei gyfansoddiad, dyn cryf ydoedd, oddeutu 5 troedfedd a 10 modfedd o daldrâ; a’i olwg ar y ddaear, a chryn-wâr ganddo, a hyny wedi ei fagu gan ei ogwyddiad fyfyrgar, a’i symudiad difrifddwys. Ei wedd oedd hynod o oleu lled-dro yn ei wyneb i un ochr; a’i drwyn yn codi yn ei flaen, a lled bant ynddo. Ei ben oedd felyn-grych. Llefarai yn gyflym, fel pe diangasai ei eiriau â rhyw lediaith; ac ambell i air, megys byd, a myn, a swniai fel *bid*, a *min*.

Cyfansoddodd lawer yn gaeth a rhydd, ac ystyried mor fuan y rhoddasai heibio farddoni. Cyhoeddwyd llawer o’i Emynau yn nghasgliad John R. Jones, o Ramoth, gydag ychydig gyfnewidiad yn yr aceniadau gan y perorydd enwog hwnw.

O ran ei alluoedd, yr oedd ei ddeall yn gryf anarferol. Mesurai bob cyfansoddiad bron ar amrantiad; a byddai ei sylwadau yn feirniadaeth dreiddgar, a phriodol i’w farn gref yr un mynyd. Yr oedd ef yn fwy dyn o lawer nag y gellid

meddwl wrth ei farddoniaeth. Gan fod ei feddyliau yn wreiddiol ar *bob* pwnc, byddai ei sylwadau yn *hollol* newyddion ar y testynau mwyaf dibwys a chyffredin. Cyfansoddai eiriau yn anianawl at y testyn a fyddai mewn sylw. Nid oedd ei chwaeth yn dda; lluchiai ei feddyliau mawrion yn ddigysylltiad. Esgeulus a phrysur ydoedd gyda phob peth; yn ei waith, yn ei wisgiad, ac yn ei ysgrifen.

Yn ei ymddygiad yr oedd yn gywir i'r eithaf; ond yn fanwl at eraill fel ato ei hun. Ei arwyddair oedd,—“Y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir;” ac o'r braidd y gellir meddwl ei fod bob amser yn cofio y ddihareb—“Llawer gwir drwg ei ddywedyd.” Garw oedd yn ei ymddiddanion, ond gwreiddiol a thra diragrith. Byddai ei alluoedd naturiol yn ei yru i eithafoedd weithiau, yn hytrach na'i egwyddor. Nid oedd chwerthin yn gorphwys yn naturiol arno; dywediadau ffraeth, ac ymadroddion dewisawl a'i cymhellant yn benaf i hyny. Anaml y cyfarfyddodd yn yr un person y fath helaethrwydd o amgyffrediadau cyntefig; a'r fath barodrwydd i'w darlunio mewn geiriau. Yr oedd yn rhyfeddol o ffraeth, ac yn dra pharod ei ateb. Buasai ei atebion ei *hunain*, pe y'i casglesid, bron cymaint a chrynodeb o ffraeth-eiriau y genedl gymydogol.

Yr oedd ei fam grefyddol yn aelod gyda'r Bedyddwyr er yn ieuanc. Bedyddiwyd ef yn ei salwech olaf; a chwynai yn ofnadwy “na buasai wedi ateb dyben ei greadigaeth; faint a allasai wneuthur o les gyda'r Ysgol Sabbothawl; a faint o fudd a phleser a gawsai ei hunan.” Dywedai'n aml iddo gamdreulio ei amser gyda phethau gweigion ac ofer; i Dduw ei roddi yn siampl o warth cyfoeth, ac ei fod yn gyndyn iawn i ateb y dyben yn hir, ond ei fod wedi llwyr ymroddi i wneyd *hyny* dros Dduw!

Byddai bob amser yn rhoddi yn helaeth at Gymdeithas y Beiblau, a'r Gymdeithas Genhadawl, (yn helaeth, meddaf, fel pobl eraill.) Nid oedd yn *ddim*, meddai ef; ac nad oedd rhoddi rhyw gardod fel i dylawd, yn deilwng o'i alw yn *rhoddi*, at achos yr Hwn a gyfranai mor helaeth iddo ef.

Yr oedd ei fywyd yn gynwysedig o dair rhan:—Yn gyntaf, Canlyn ei duedd farddonol, yn ymhoffi mewn darllain a chynfansoddi.—Yn ail, Yn casglu cyfoeth gyda diwydrwydd a chynilwch.—Yn drydydd, Yn ymboeni ac yn ymofidio oherwydd ei gamarferiad o'i amser, yn enwedig yn casglu cyfoeth. Cyffyrddasai y clêfyd gewynawl âg ef ddwywaith cyn y tro olaf; ond wrth wyllo ei frawd, yr hwn oedd Siopwr, yn Mhwillheli, ac a fu sâl am flynyddoedd cyn ei farwolaeth, ymaflodd ynddo yn fwy llym, a gorphenodd yn farwolaeth iddo, heb nemawr gyfnewidiad. Gwelid gwedd arall arno pan y codai ar ei benelin ar fwrdd wrth y gwely, a gofynai y gwas iddo, a fynai gyrchu meddyg, atebai, “Ni wna dim les i mi y rŵ'an ond gwaed Crist;” ac felly bu farw un o'r Cymry enwocaf yn ei oes; a hynodrwydd yn ei olwg, neillduolrwydd yn ei ymddyddanion, a pharodrwydd yn ei ymadroddion—yn nodweddiad anefelychadwy:—un felly oedd Dewi Wyn.\*

---

## P W Y S Y D D G Y M R O ?

(O'R BRYTHON.)

Pwy sydd Gymro, a phwy nad yw? sydd haws i'w ofyn

---

\* Rhoddodd Ellis Owen gynorthwy gwerthfawr i gyhoeddi Blodeu Arfon, sef gweithiau barddonol Dewi Wyn, fel y cydnebydd y Cyhoeddwr, y diweddar Mr. Edward Parry, Caerlleon, yn Rhagymadrodd y llyfr rhagorol hwnw, tudal. vii.

na'i ateb. "Cymro glân gloew," pa fath un ydyw? Ym-gymysgodd y genedl â llawer iawn o wahanol genedlaethau er amser cred; onid yw yn rhesymol meddwl iddynt ym-briodi â'r Rhufeiniaid; yn ysbaid y pedwar can mlynedd y buont yma? A phwy oedd llawer o'r Rhufeiniaid,—pob cenedl yn Ewrop. Ymbriododd y Cymry yn foreu â hil Hen-gist, ac â'r Gwyddelod; ac er amser Harri'r Seithfed yn fynych iawn â'r Saeson. Priododd llawer o Normaniaid William y Gorchfygwr âg etifeddesau yn Nghymru, ac y mae eu hiliogaeth yn dwyn eu henwau hyd beddyw. Yn amser Cromwel, priododd llawer iawn o'i swyddogion âg etifeddesau yn Nghymru, o ba rai yn y sir hon (Caernarfon,) yr oedd Garnons, Twisleton, &c. Priododd Ceidwaid cestyll (*Garrisons*) â'r Cymry; yr oedd yn Nghruccaeth er's chwech ugain mlynedd yn ol ddwy o'u disgynyddion, sef Gwen Hercules a Catrin Lodwig (*Ludovicus*). Gwaith anorphen fyddai manylu ar y cymysgedd, yn Ysgotiaid, Gwyddelod, a Saeson, a rhai Ffrancod.

Oni fyddwch yn ffeiddio yr ymdrech a wneir gan aml un brwdfrydig, i wneyd Cymry? Digon ganddynt os genir rhai o rieni Saesonig yn Nghymru; faint gwell yw Wilson, y Lluniedydd, a Dyer y Bardd? Nid oes amheuaeth, fel y crybwyllwyd, na chymysgwyd hwynt â nifer fawr o genhedlaethau, yn enwedig â Saeson, yn yr oesoedd diweddaf. Yr oedd ysgrifenydd y llinellau hyn yn ymddiddan â Syr John Kingston James, (diweddar Arglwydd Faer Dublin,) gofynai pa genedl oedd Syr John; atebai, "Cymro oedd y James; Cadben Whaler, fel y gwelwch wrth y *Coat of Arms*, ar lestr yn un gongl." "O ba ran o Gymru, syr," meddwn i, "nid wyf sier," atebai yntau, "meddwl yr wyf

mai rhwng Bangor a Chaernarfon.” Wm. Ackworth, Ysw.; yn bresenol, y Parch. William Ackworth, pan yn Nhremadog dros Gymdeithas y Beiblau, a ddywedai ar ol iddo ddychwelyd o Switserland, a bwriadu dyfol i Gymru, iddo ofyn i’w fam. “Paham yr wyf fi mor hoff o wledydd mynyddig?” Atebai hithau, “Oni wyddoch, William, mai un Dafis o Gymru oedd eich nain?” Dyna ddau Gymro o’r newydd i chwi; o’r hyn lleiaf, dyna’r gymysgfa yn cael ei phrofi. Gallwn brofi yr un peth yn Nghwmwd Eifionydd, ond ymogelaf yn bresenol, rhag y gall fod er tramgwydd.

O! na byddai i ryw hanesydd a henafiaethydd gyhoeddi llyfryn bychan, gan ddangos pwy oedd yn cyfaneddu yn Mon ac Arfon, bob dau can mlynedd o’r cyfrif Cristionogol. Gwyddom fel y diboblwyd rhanau o honynt trwy ryfelodd â’r Rhufeiniaid, Daniaid, Gwyddelod, Saeson; yn enwedig Tywysogion Cymru yn erbyn eu gilydd; ac fel y meddianid eilwaith eu lle gan ryw ymfudwyr o ardal arall, a hyny yn lled ddiweddar. Llauer iawn o drigolion Mon a symudasant yno o Arfon, a llauer o Feirion a ddaethant i Arfon. Gresyn na chaem lyfryn bychan, a’r canrifoedd gyferbyn. Cymeryd cynorthwy pawb a ysgrifenasant, a sylwadau yr awdwr yn gymysgedig; wel, pwy a’i casglai? Na cheid gan yr henafiaethydd cywrair Owen Jones, Manceinion, ymgymeryd â’r gwaith; neu yr hanesydd manylgraff Gwilym Lleyrn.

---

G W A N W Y N 1860.

Dyma Wanwyn eto, wedi gauaf 1860, a hir iawn y bu, yr eira ar y mynyddoedd o’r 21ain o Hydref, 1859, hyd

heddyw, y 25ain o Ebrill 1860 ! Dros chwe mis :—a gwelir ef bob dydd o'r *Gell* hon; ond symudwyd nifer mawr iawn o bob oedran yn ysbaid y gauaf hwn “i gell y ddaiargell ddû,” lle na welant ddim hyd alwad yr Archangel; ond yr ydym ni yn fyw heddyw, a'r Gôg yn dechreu canu :—

“Tymor hyfryd ydyw'r Gwanwyn,  
Gwelir gwych a'r gwael ar gychwyn ;  
Natur sydd yn ymadfywio,  
Aeth y rhew a'r gauaf heibio.”

Sonir am saith gysgadur; ond nis gwn i pa rai ydynt. Enwir y Gôg, y Wenol, Tinwen y Cerig (clochdar y cerig, (*wheat ear*.) y Nyddwr, y Neidr, y Falwoden, a'r Geneu Goeg) Y Dinwen y Cerig a ymddengys yn nechreu Ebrill; a'r Wenol yn yr ardal yma fel y canlyn, yn

1835 y 15 o Ebrill		1855 yr 21 o Ebrill
1836 y 24 o eto		1856 yr 17 o eto
1851 y 3 o eto		1857 y 18 o eto
1852 yr 20 o eto		1858 y 19 o eto
1853 y 12 o eto		1859 yr 20 o eto
1854 y 14 o eto		1860 yr 8 o eto

Y mae'r Wenol yn ymddangos ychydig yn wahanol, mewn gwahanol ardaloedd; ond ei hamser cyffredin yw, o'r 18fed i'r 24ain o Ebrill. Dywedir mai misoedd yr yd yw misoedd y Wenol.

Dyma gân y Wenol ar ei dyfodiad yma, gan yr hen bobl,—

Gwylfair gynta' yr euthym oddi yma,  
Yr amser honno 'roedd digon o yd,  
Gwyr a'u ffustiau, gwragedd a'u gograu  
Aethant ag ef oddiyma i gyd i gyd i gyd.

Dywedir fod y Wenol yn y gauaf yn Portugal, Ynysoedd Cape Verd, &c., &c.; ereill a ddywedant ei bod mewn cyflwr

o ddideimladrwydd yn cysgu mewn ogofau, &c. Y mae'r Gôg yn wahanol ei dyfodiad, rai blynyddau :—

Nid oes i mi ganu ond Ebrill a Mai,  
A haner Mehefin, chwi wyddoch bob rhai.

Cyn derbyn y cyfrif newydd y canwyd fel yna ; ni chofnodwn yr amser y dechreuodd ganu, ond y pedair blynedd hyn,

1855 y 19 o Ebrill		1857 yr 21 o Ebrill
1856 y 20 o eto		1858 y 19 o eto

“ Y cynta' man y cân côg, mewn mawnog yn y mynydd.”

Byddai y Gôg yn canu tua phedwar ugain a deg o flynyddoedd yn ol, ehwech wythnos cyn calanmai yn Llanystumdwy, meddai Robert William ; ond y mae cyfnewidiad yn y tymorau trwy'r oesau ; mis yw'r amser cynharaf i'r ysgrifenydd gofio, ond bu lawer gwaith o fewn wythnos i Galanmai. Gresyn na chaem ni draethawd ar y Gôg, ei natur, ei symudiad, a'r gwledydd y mae yn ymweled â hwynt, &c., &c. Dywedai William Jones, Pen y Bont, Llandegwynin gynt, na wyddai neb am y Gôg yn Awstralia, ond fod yno aderyn a elwid *Mopec* yn gwneyd rhyw sŵn, neu ysgrech darn debyg iddi.

---

### BETH YW CYMDEITHAS ? \*

Nid yw geiriau ond nodau i'w swnio, i hyspysu meddyliau, megys y mae arwyddiadau yn dangos swm a nifer i'r meddwl

---

\* Y rhan fwyaf o'r erthyglau byrion a ganlyn, ydynt grynodedb o areithiau a draddodai yr awdwr yn nghyfarfodydd y Gymdeithas. Lenyddol, yn Nghefnymeusyd d.



amgyffred. Hwyrach mai uid bob amser y mae yn briodol i'r drychfeddwl a ddeallir wrtho; ond eto deallir yr hyn y mae'n arwyddo. Gwyddom beth a feddylir wrth Gymdeithas, er nad yw'r gair efallai y goreu i arwyddo y meddwl a ddengys, er ei fod yn dda. Ei wreiddyn yw teithio, ymdeithio. Y blaenddodydd *cym*, sydd gyfystyr â *cy* a *cyf*; eithr yn cyfnewid oddiwrth y llythyren nesaf ato, er mwyn seingarwch, ac y mae *cy*, *cyf*, a *cym*, yn dynodi nerth yr hyn a grybwyllir, mewn unol gydweithrediad. Y mae'r gair Saesoneg gwreiddiol *social*, o'r hwn y ffurfir *society*, yn rhoddi drychfeddwl amlycach am Gymdeithas, gan ei fod yn arwyddo hyfrydwch a phleser yn y cydweithrediad.

Y mae'n hanfodol i gymdeithas i gyd-deithio, cydweithio, a chydweled. Rhaid i'w haelodau fod yn teithio yr un ffordd, ymdrechu yn yr un gwaith, gweled pethau fel eu gilydd; dyna yw ystyr cyflawn a chyfan ymdeithio yn nghyd. Gwyddis yn dda na's gall pob un deithio yr un modd, gweithio mor rymus, a gweled mor bell a'r llall; eto yr un yw eu cyfeiriad pe na chyrhaeddant byth ben eu taith, na gweled byth eu gwrthddrych. Cymerir yn ganiataol mai *un* yw cymdeithas yn mhob man, a than bob amgylchiadau, heb groesdynu, heb wrthwynebu na gwrthdroi; ond fel nad yw y deall yn berffaith, na'r syniadau yn oleu; nis gall y farn fod yn gywir yn y fuchedd hon. Wel, beth sydd a wnelo hyn â chymdeithas? Hyn, nid yw deall y goreu yn berffaith gyflawn, nid yw y syniadau mwyaf treiddgar ac uchel, heb beth tywyllwch; felly mae'n angenrheidiol, (nid hanfodol, cofiwn) fod mewn cymdeithas gydoddef âg amynedd; er fod yn y drychfeddwl cydoddef, neu oddef, radd o boen, ac mewn amynedd beidio a chwyno er teimlo, eto wrth ystyr.

ied ein hunain y maent yn rhesymol ac angenrheidiol gan bawb hunanymwadol. Nid oes a fyno hyn âg egwyddor cymdeithas, da neu ddrwg. Ond hyn sydd sier, ni saif un gymdeithas a fo a'i hegwyddor yn ddrwg, rhaid iddi fod yn sylfaenedig ar y diben y gosodwyd dyn ar y ddaear, sef i ogoneddu ei Greawdwr; os trwy ymchwiliad i natur ac anian,—os trwy olrhain egwyddorion a'r achos o honynt,—os trwy ymgoffhad i hynafiaethau,—os trwy ledneisio ymadroddiou yn beraidd i'r clyw, ac yn fuddiol i'r myfyrdod, da. Derbynir gwobr am y llafur i'r person ei hunan; caiff foddhad gwastadol, a budd beunyddiol, a chydwybod dawel. Gan fod genym hyder cryf fod y gymdeithas hon a'i hymestyniad at y nodau a grybwyllwyd, gogymaint yw'n cred y saif ac y llwydda. Y mae cymdeithas fel y *British Museum* yn gronfa o bob amrywiaeth gwerthfawrocaf a fedd y ddaear. Dyma ddaearyddiaeth, hydred a lledred pob lle, hinsawdd, trigolion, iaith ac arferion pob gwlad i gael eu dangos ynddi. Dyma hynafiaeth, sefydliad celfyddydau, cynydd a symudiadau cenhedlaethau. Dyma ddarluniad o effeithiau balchder, hunanoldeb, diogi, diwydrwydd, ffyddlondeb; cyfiawnder a gwybodaeth, i'w gweled a'u clywed. Dyma farddoniaeth yn addurno ei dychymygion heirdd a mawreddus, natur yn ei holl amgylchiadau o fabandod i fedd. Dyma beroriaeth yn rhinio natur amrai i dawelwch a boddineb. Dyma restru a threfnu ymadrodd yn gywir, yn hardd a rheolaidd, er mwyn mynu gwrandawriad y byddar, sylw y cibddall, ac ystyriaeth y cysglyd. Dyma ddefnyddio amser pan mewn meddiant o hono: paratoi hâd i dderbyn ffrwyth, iawn brisio pob peth peth yn ei werth priodol. Dyma wneyd dyn yn deilwng o ddiben ei Greawdwr; yn gysurus iddo ei hun, ac yn fuddiol i eraill; yn werthfawr yn ei oes, ac yn barod i farw.

---

## ANNERCHIAD YN NGHYFARFOD CLYNNOG.

Y mae amser yn werthfawr; am unwaith y mae; a'r unwaith hwnw am byth. Y mae'n anadferadwy hefyd. Y mae'n resynus ei dreulio yn ofer a difudd. Y mae'r munudau yr ydym ni yn dreulio yn nghyfarfod Clynnog mor werthfawr a'r rhai olaf yn angau; ond dyna'r pryd y mae llawer yn gweled gwerth amser gyntaf! Y mae amser ynddo ei hunan yn gydradd; ond y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng ei gyfleusderau. Y mae gwybodaeth yn dda,—ond y mae amser yn well; a'r amser cymeradwy a phriodol yw y goreu; ac y mae yma ugeiniau mewn meddiant o hono.—Amser ieuencyd, pryd y mae yr holl gynheddfau yn fywiog, y cof yn ystwyth a pharod i dderbyn argraph.—Y serch yn wresog, yr ewyllys yn awyddus, a'r gydwybod heb ei serio. Cyfrifa pawb, y cynil a'r llafurus, a gasglo ychydig gyfoeth erbyn henaint, yn gall a synhwyrol,—“Da i bawb cynildeb yw, a thad i gyfoeth ydyw,” ebe Ioan Tegid. Ond os dyry y dyn call ei holl feddwl ar gasglu cyfoeth, odid fawr gan fod ymarferiad yn myned yn ail natur, nad â'n gybydd enfawr cyn marw. Nid felly y mae gyda gwybodaeth ac addysg, y mae yn bleser a budd parhaus,—un rhan yn cynorthwyo i wneuthur rhan arall yn hawddach. Y mae ymarfer â deall yn rhoddi rhwyddineb i ddeall ac ymarfer; a pho mwyaf a ddeallir, hawsaf fydd deall y pethau mwyaf. Pwy all adrodd y budd a'r pleser a gaiff y rhai ieuainc hyn wrth ymgyrhaedd am wybodaeth?—y meddwl yn cael ei gadw mewn agwedd briodol ac ymofyngar, hyd nes cyrhaeddir canol oedran, pryd y cryfheir y deall, ac yr addfedir y farn. Ac mewn henaint, pan y bo'r cof yn pylu, mor ddifyrus fydd yr

adgofion a enillwyd y rhan gyntaf o'r oes; ac yn wir y mae llafur boreol amryw yma yn fwy o gysur iddynt yn bresenol nag aur nac arian. *Variety is the beauty of the world*, ebai rhyw un, sef amrywiaeth yw harddwch y byd. Y mae amrywiaeth yn angenrheidiol i natur, darllen, canu, areithio, ymddiddan, &c. Hefyd, y mae barn y prif feddygon yn dangos mai "*change of air and change of scenes*," yw y feddyginiaeth oreu at lawer o anhwylderau cyndyn. Wel dyma gyflawnder i'w cael, sef gyda'r Ysgol Sabbothol, a'r Cyfarfodydd Cystadleuol,—gwnawn yn fawr o honynt yn yr amser cymeradwy a phriodol; a chwanegwn un yn rhagor at y Trioedd Cymreig yn Nghyfarfod Clynnog, Sulgwyn 1862,—

#### TRI PHETH GWERTHFAWR.

Gwerthfawr yw Gwybodaeth.

Gwerthfawroch yw Amser.

Gwerthfawrocaf yw'r Amser Cymeradwy.

Prif ddirgelwch darllain yn addas a dealladwy, yw darllain yn y llais naturiol, heb efelychu na dynwared neb. Dengys teimlad anian i'r gwrandawyr gyffroadau naturiol a ddeilliant oddiwirth yr hyn a lefarir. Y mae gosod y pwyslais yn dangos prif ddiben y llefarwr, oherwydd y pwys a osodir ar y gair, neu'r geiriau a fyddo yn dwyn agosaf berthynas i'w fater; nid oes reol anffaeledig i ganfod y pwyslais yn mhob man, rhaid gadael hynny i ddeall ac ymchwiliad y darllenwr oddiwirth yr ymadroddion cylehynol; er fod yr attalnodaau yn gyfarwyddyd i ddarllain, eto gellir gwellhau llawer arnynt gyda'r deall. Dylai y llais hefyd amrywio yn ol natur y pethau a draethir; weithiau yn fwy cyflym a thanbaid; bryd arall yn arafaidd a phwysig. Y mae yn

angenrheidiol hefyd roddi gorphwysiadau, neu arosiad ar ol ymadroddion pwysig, fel y caffer amser i'w hystyried, a rhoddi iddynt y sylw difrifolaf; megys yn yr adnodau yma,— “Canys gosodir *ni oll* ger bron gorseddfaine Crist, canys y mae yn ysgrifenedig, Byw wyf fi, medd yr Arglwydd; *pob glin* a blyga i mi, a *phob tafod* a gyffesa i Dduw. Felly gan hyny pob un o honom drosto ei *hun* a rydd gyfrif i Dduw. (Gorphwysiad pwysig yma.) Am hyny na farnwn ein gilydd mwyach, ond barnwch hyn yn hytrach, na byddo i neb roddi tramgwydd i'w frawd, neu rwystr, canys Duw a ddwg *bob gweithred* i farn.” (Gorphwysiad eto.)

Gan fod y Beibl yn haeddu ystyriaeth pob dyn, nis gall ei iawn ystyried lai na deffro natur, a pheri gwahanol gyffroadau y meddwl i ymeffeithio ar y llais. Tristwch a galar a ddylai fod mewn llais athrist a chwynfanus, megys, “O na b'ai fy mhen yn *ddyfroedd*, a'm llygaid yn *ffynnon* o ddagrau, fel yr wylwn *ddydd a nos* am laddedigion merch fy mhobl! *Pa beth* a gymeraf yn dyst i ti? *beth* a gyffelybaf i ti, O ferch Jerusalem? *Beth a gystadlaf* â thi fel y'th ddiddanwyf, O Forwyn Merch Sion? O fy mab Absalom, fy mab, fy mab Absalom; O na buaswn farw drosot ti: Absalom, fy *mab, fy mab.*”

Pryder a ddylid swnio â llais gwan a chrynedig, megis, “*Pa beth a wnaf?* Canys y mae fy Arglwydd yn dwyn yr oruchwyliaeth oddiarnaf.”

Hyder, sierwydd, dewrdr, a sain ddiarswyd a dyrchafedig, megys, “Pwy a'n gwahana oddiwrth *gariad* Crist? Ai gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu enbydrwydd, neu gleddyf? Yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerwyr, trwy yr hwn a'n carodd ni.”

“Canys y mae'n ddiogel genyf na all nac angau, nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na meddianau, na phethau presenol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall ein gwahanu ni oddiwrth *gariad* Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd.”

Serch, a ddylid swnio yn araf, esmwyth, a gwanaid, — “Fy anwylyd sydd wyn a gwridog, yn rhagori ar ddeng mil.”

Llawenydd, yn fywiog, melus, ac eglur, megys, “Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr hōno, llawenhaed o'i phlegyd y nef, a chwi Apostolion santaidd a phrophwydi.”

Ofn, â llais llesg a chrynedig, megys, “Pwy wyt ti, Arglwydd? Beth a fyni di i mi ei wneuthur?”

Dyna yw dirgelwech darllain yn *amlwg*, sef dilyn y llais naturiol, heb nac un-doniaeth nac unrhyw swm anmherthynasol i'r ymadrodd a lefarir.

Awgrymiadau direol i'r deallus a'r ymchwilgar gellir swnio '*byth*' yn fyr mewn ffordd o gadarnhad, megys, “na, nid âf yno *byth*; ac yn hir hefyd, megys, “ni welaf *byth* mo hono.” Gellir hefyd ddyrchafu y llais fel i ddangos gwaeddi, mewn llawer o leoedd, megys, “A'r llef a ddywedodd, gwaedda. Yntau a ddywedodd, Beth a waeddaf? Pob cnawd sydd wellt, a'i holl odidowgrwydd fel blodeuyn y maes.”

“Arnoch chwi, wŷr, yr wyf fi yn galw; ac at feibion dynion y mae fy llais. Ha, ynfydion, deallwch gyfrwysder; a chwi wŷr anghall, byddwch o galon ddeallus. Ac ar y dydd diweddaf, y dydd mawr o'r wyl, y safodd yr Iesu, ac a lefodd, gan ddywedyd, Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed.”

Gellid ychwanegu amryw o gyfarwyddiadau; ond wedi'r cwbl, rhaid i'r darllenydd ddefnyddio ei farn a'i reswm ei hun.

## BETH YW GWYBODAETH. \*

Y mae llawer o bethau buddiol a gwerthfawr yn y byd yma, ond eu hiawn ddefnyddio mewn ystyriaeth briodol o'r yspaid byr y byddant yn ein meddiant. Y mae aur ac arian, a thiroedd, yn werthfawr; ond y mae peth sydd yn werthfawrocach, sef gwybodaeth: dyma'r peth sydd yn hynodi dyn, ac yn ei ddangos yn arglwydd y greadigaeth; y mae'r darganfyddiadau cywrain, a'r sefydliadau daionus a wnaed yn y triugain mlynedd diweddaf yn syndod i bob dyn ystyriol, ac yr oeddynt yn anamgyffredadwy i'r oesoedd blaenorol; ond y mae peth mwy gwerthfawr. Y gwerthfawrocaf ydyw *Gwir Wybodaeth*. Er cymaint a ddarganfyddwyd ni wyddir pa mor bell ydys oddiwrth berffeithrwydd eto; gwir wybodaeth sy berffaith, yn troi'r enaid, ac yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth i iachawdwriaeth.—Ac yn mha le y ceir hon? Yn y Beibl,—yr Ysgrythyr Lân. A dyma'r Llyfr y daethom yn nghyd yn Nhremadog heno i annog ein gilydd i'w ledaenu dros wyneb y greadigaeth—i bob dyn; a gwerthfawrocaf ydyw o'r holl lyfrau; y mae ei argraph yn annileadwy; y mae ei ddarllen yn lliniaru natur, ac yn lledneisio chwaeth. Pe na byddai dyn i barhau wedi'r fuchedd hon, y mae yn hwn yr athrawiaeth ragoraf i fyw yn ddedwydd; i fod yn dawel, sobr, a heddychlon,—nid yn talu sen am sen, ond yn gorchfygu drygioni trwy ddaioni; dilyn rheolau hwn a wna y dyn doethaf a dedwyddaf yn y byd. Onid trwy hwn “y daeth bywyd ac anllygredigaeth i oleuni? gogoniant yn y goruchaf i Dduw ydyw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da;”—hwn yw'r gair a'n barna yn y dydd olaf: ac y mae yn

---

\* Ymddengys mai crynodeb o araeth a draddodwyd mewn cyfarfod o'r Feibl Gymdeithas yw yr hyn a ganlyn.—GOL.

ein barnu trwy'r gydwybod yn ein hoes.—Pa mor hyfryd ydyw canfod cymaint sydd yn gweled ei werth, ac yn casglu mor haelionus yn yr ardaloedd hyn tuag at ei rod-di i'r byd? Yr ydym yn ystyried fod miloedd ar filoedd o sylfaenwyr a chefnogwyr yr achos wedi ei adael i'n dwylaw ni, ac y dylem ninâu fod â'n holl egni gydag ef, oherwydd—

Gado'r llawr wnawn gyda'r lleill,  
Yn llwyr a'u lle i ereill.

Y mae yma rai yn cofio dwy genhedlaeth a fuont fywiog a selog iawn gydag achos y Beibl, “heb ganddynt na rhan na chyfran byth mwy o ddim oll a wneir dan haul;” ond dyma ni heddyw, a dyma'n heddyw ninâu, ac addewid yr hwn a'i rhoddodd,—“Ni ddychwel ataf yn wâg, eithr efê a wna yr hyn a fynwyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid.”

---

### BARDDONIAETH Y CYMRY

Sydd yn deilwng o'i pharchu, nid yn unig gan y genedl weddilledig, ond gan holl ddysgedigion y byd; pe byddai ond oherwydd ei hynafiaeth. Dywed y *Trioedd* mai “Tri chyntefedigion Beirdd Ynys Prydain oeddynt *Plenydd*, *Alawon*, a *Gwron* ;” sef yw hyny, mai hwynt hwy a drefnynt farddoniaeth gyntaf â Rheolau; a dengys hyn fod barddoniaeth yn mhell cyn hyn gan y genedl. Yr oeddynt yn byw yn amser Dyfnwal Moel Mud, 450 o flynyddoedd cyn cred, tua'r un amser a Nehemiah. Yn amser Gruffydd ap Cynan, tua'r flwyddyn 1079, y graddiwyd y Beirdd yn dair gradd,—1. Pencerdd, swydd yr hwn oedd Bardd, yr hwn a brydyddai



am weithredoedd anrhydeddus tywysogion ac uchelwyr, cynnal cof achau a phriodasau.—2. Bardd Teulu, yr hwn a ganai bob digrifau a thestynau moesgar di ymbil; dyledswydd yr hwn oedd cadw yr iaith trwy ei hysgrifenu yn uniawn a chywir.—3. Clerfardd, yr hwn a ganai ymsenau, dynwaredu, a gwaradwyddo pan y byddai achos, a hyn a wnaï o dŷ i dŷ am ei fwyd, wedi cael o hono ei raddio; a gallasai ddywedyd am dano ei hunan, “Canu, &c.” Onid yw yn syndod y canai Llywarch Hen, 1300 o flynyddoedd i eleni ar fesur *Triban y Milwr*, yn marwnad Cynddylan, yn ddealladwy ddigon. Dyma Ieuan Brydydd Hir, y cyntaf, 400 mlynedd i eleni, sef y flwyddyn 1450, yn darlunio henaint fel pe buasai ddoe, os nad yn fwy campus. Pa beth bynag sydd yn cyfnewid, yr un yw anian er Adda, yn mhob oes a phob cenedlaeth; er y rhaid addef fod rhyw genhedlaethau yn rhagori yn eu cyfansoddiad,—eu talcenau yn llydain ac uchel yn eisteddle y deall, megys y Cancasiaid; eto y mae natur yn gyffelyb: rai prydiau y mae natur fel pe yr ymorchestai i ddwyn dyn perffaith; ond eithrad i'r rheol ydyw. Yr un yw natur yn mhob oes, a chyda phob cenedl. Ac er mor odidog yw dysg a hyfforddiant, *natur* yw'r brif reol; ei *dynwarded* a wna'r lluniedydd goreu; ei *ddangos* a wna'r Bardd cywreiniaf; darlunia'r Bardd campus, ryfel âg ymadroddion mor addas i'r testyn, hyd nes y dychrynir, fel pe gwelid yr olygfa, y clywid twrf, y gwelid tân. Darlunia y cread mewn iaith uchel farnedig, nes y tybid bod creu yn ymneidio i fodolaeth wrth ei orchymyn. Darlunia serch mor esmwyth a pheraidd fel pe b'ai fêl ar ei wefusau, megis y llinellau hyn,—

“Anwyldeb gwyneb geneth,  
Ni welai Bardd un ail beth,  
Faen neu berl o fewn y byd,  
Em yn ail i'm hanwylyd.”

Darlunia Bardd ddychryn mewn geiriau cryfion, hyfion, ac ofnadwy. Dengys hefyd hiraeth yn bruddglwyfus, cwynfanus a chwenychgar; a llyncir ei fyfyrdod gan wrthddrych ei serch. Pan berffeithia y b'o anian, mwyaf grymus y teimlir hi gan anian,—effaith pechod a'i pylodd, ac a'i seriodd; gras a maddeuant a'i dwg eto yn ol. (1858.)

---

### SYLW AR DDECHREUAD Y FEIBL GYMDEITHAS YN EIFIONYDD.

Y mae darganfyddiadau y tri chanrif diweddaf yn rhagori bron ar holl oesoedd y byd, mewn cywreindeb a phrysurdeb; ond y mae dechreu y ganrif hon yn tra ragori ar ddim a wnaed yn flaenorol,—hwylio a theithio gydag ager, argraphu hefyd. Ond o'r holl bethau mawrion a gwerthfawr a gafwyd, beth gymaint, mor werthfawr, a'r Gymdeithas yr ydym ni gyda hi heno? Y mae ei gweithrediadau bron yn annarluniadwy ac aneirif; ac y mae yn debyg iawn na welir yn gwbl ei heffeithiau hyd na byddo amser mwyach. Pe byddai ddiddanwch o henaint, beth allai fod yn fwy na chofio sefydliad y Feibl Gymdeithas, a'i gweled wedi llwyddo haner cant o flynyddoedd? Y pethau mawrion ac anhygoel a effeithiodd yn yr yspaid hwnw fydd yn ormod gwaith i'w chefnogwyr galluog ddangos i ni heno. Gan y dylem wneuthur yr hyn a wnelom â'n holl egni, bydd y sylwadau a wneir er mwyn deffroi ein zel a'n hawydd o'r newydd; oherwydd ni bydd na gwaith na dychymyg yn y bedd lle yr ydym ni yn myned; ac ni bydd i ni na rhan na chyfran byth mwy o ddim oll a wneir dan haul. Y mae sylfaenwyr y Gymdeithas hon bron oll yn eu beddau; i'e, y mae ei chefn-

ogwyr a'i phleidwyr yn yr ardal hon wedi rhoddi eu lle i eraill, a myned i ffordd yr holl ddaear, yr hon yr ydym ninau yn deithio, gan eu dilyn. Gadewch i ni am funud edrych pwy oedd gyda'r Gymdeithas hon ddeugain mlynedd yn ol : Mr. Morris Jones, y Parciau, oedd Gadeirydd ; y mae genyf areithiau campus yn llawn o zel a theimlad, (gan Mr. Owen Rees a John Elias,) yn ei chyfarfod blynyddol ; y maent "wedi marw yn llefaru eto" i'r byw. Wel, pwy oedd y Casglwyr ? pe galwem hwynt ni's atebai neb,—Owen Edwards ac Edward Owen, Harry Owen, Tyddyn-adi ; John Owen, Braichysaint ; Owen Williams, Tyddyn-sguboriau ; Evan Ellis, Hen Felin ; Dafydd Parry, Llwynymafon ; Owen Jones, Tyddyn-iolyn ; Edward Davies, Braich-y-ddinas ; Owen Williams, Blaen-y-pennant ; Thomas Roberts, Carthymorthin ; John Prichard, Garreg-wen ; Robert Roberts, Ystumllyn ; Griffith Parry ac Arthur Hughes, Penmorfa ; Robert Thomas, Tyddyn-cethin, a Richard Griffith, y Traian ; William Jones Penystumllyn, a John Owen, Hendre-ddu. Pa le y mae ei hysgrifenydd cyntaf, Mr. Seager ? Y mae yn llawen genyf weled un, ein hybarch Drysorydd yma heno, gwelodd ef y Gymdeithas yn ei mabandod ; maethodd hi, danghosodd hi, canmelodd hi, a gwelodd hi bron yn llawn 50 mlwydd oed. Breintwyd ef âg oes yn amser canolddydd diwygiadau ; a dymunem iddi barhau cyhyd ag yr ewyllysio ; ac fel y dywedai un gŵr ieuanc yn ddiweddar, na ddymunai amgen beddargraph, na "Gyda'r Feibl Gymdeithas a'r Ysgol Sabbothol, yr hyn a allodd hwn ete a'i gwnaeth." Byddai yn ddigon priodol i'n Parchedig Drysorydd.\*

Y mae'n anmhosibl peidio gweled, f'ed achos y Beibl yn

---

\* Y diweddar Barchedig John Jones, Tremadog.

cael ei gynorthwyo oddiuchod. Onid ydyw yr Hwn a rag-fynegodd i'w ddysgyblion y byddai i'r "Efengyl hon am y deyrnas gael ei phregethu trwy yr holl fyd er tystiolaeth i'r holl genhedloedd," o'i blaid, ac wedi cyflawni mewn rhan eisoes yn ein dyddiau ni.

Onid ydyw yn annogaeth gref, ac yn gysur dirfawr cael bod yn offerynau (pa mor wael bynag) i gyflawni y pethau gogoneddus sydd yn gysylltiedig â'r Beibl, sef dedwyddwch tymhorol a thragwyddol dynolryw.

Y mae'r ystyriaeth o freuolder a byrdra einioes, ac anwadalwch golud, yn galw arnom i wreuthur heddyw, "tra y gelwir hi heddyw," yr hyn a allom, dros y gymdeithas fel y galler dywedyd wrthym, "da was da a ffyddlon."

## YR YSGOL SABBOTHOL.

### *Annerchiad a draddodwyd mewn Cyfarfod Ysgolion.*

Yr achos o'r Cyfarfod hwn yw yr Ysgol Sabbathol; ei ddiben ydyw deffroi ein hystyriaethau i chwilio gyda pha faint o egni a zel y dylem fod yn ein gorchwyl gyda'r Ysgol; pa un ai gwaith da, llafur teilwng, yntau peth ysgafn a dibwys yw yr Ysgol Sabbathol? Barned pawb drosto ei hun. Ni a honwn yn hyf fod yr Ysgol Sabbathol yn *un*, os nid y benaf braint a gafodd cenedl y Cymry erioed, a'i bod yn ddyledswydd ar bob dyn fel dyngarwr, ar bob Cristion wrth ei broffes, ei chynorthwyo; a pha addysg bynag a roddir i'r genedl, y saif hon yn foddion crefyddol teilwng o'r Sabbath ar ei phen ei hun; ac y gall pawb sydd gyda hi fod yn sicr ei fod yn milwrio dan faner un sydd yn gorchfygu ac i orchfygu, nes y cyhoeddir—"aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef." Wyth mlynedd a

thriugain i eleni (1858) y sefydlwyd yr Ysgol Sabbothol gan Mr. Raikes, (Eglwyswr) yn Gloucester. Blinid ef gan anfoesgarwch plant y dref hōno, a chwynai wrth ryw rai. O! meddynt hwythau, pe gwelech hwynt ar y Sabboth; a hyn a barodd iddo yntau gyflogi rhai i gadw Ysgol ar y Sabboth; dechreu cropian yr ydoedd, chwi a welwch, pan sefydlwyd hi yn Nghymru. Cwynai Mr. Charles, o'r Bala, pan yn Llundain, y prinder o Feiblau oedd yn Nghymru, bu hyny yn achos i filoedd o genhedlaethau i gael y Beibl; a'r Ysgol Sabbothol a fu yn fam i Gymdeithas y Beiblau. Gwrthwynebid hi yn hir, ac yn rymus ar y dechreu gan rai o gydwybod; ond distawodd pawb yn raddol; daeth rhai i weled fod rhywbeth mwy nag a feddylasant yn y gorchymyn, "Ewch a *dysgwch* yr holl genhedloedd; ac mai rhydd yw gwneuthur *yn dda* ar y Sabbothau." Y mae ei diben yn uchel a gwerthfawr—dysgu y Beibl, hanes y Patrieirch a duwiolion y cynfyd, y barnedigaethau a'r gosp oedd bob amser yn dilyn pechu yn erbyn Duw—dangos fyred yw oes dyn ar y ddaear mewn cyffelybiaethau bywiog, megys lled llaw,—megys cysgod,—megys diddim, ac yn ei annog i wneuthur yr hyn a wnelai â'i holl egni; ac fod modd i bechadur euog, aflan, gael ei wared o drueni, a'i sancteiddio yn addas i gyd-drigo â'r Duw sanctaidd yn nef y nefoedd yn dragwyddol. Cododd hon alwad am lyfrau da i egluro y Beibl, megis Defodau yr Iuddewon, Daearyddiaeth y Beibl, y Perl Ysgrythyrol. Dysg yr Ysgol Sabbothol i ni iaith ein mam, a'i darllen yn eglur, heb un-doniaeth, nac unrhyw sŵn Seisnig a bonheddig arall; dengys natur yn berffaith yn ei gwahanol gyffroadau. Addysga hon foesau da sydd yn dwyn gyda hwynt fendithion amserol; ni oddef i neb dyngu na rhegu, meddwi na lladrata; y mae yn ffurfio nodweddiad i ddyn, na phrynai ein mynyddoedd mono pe byddent i gyd o aur! Y mae'n sancteiddio'r Sabboth, yn deilwng o ddydd yr Arglwydd, yn gweddio, yn canu, yn holi,

yn darllen meddwl yr Hollalluog am danom ein hunain yn y byd hwn, ac yn dragwyddol. Y mae yn gadael argraff esmwyth a thawel ar y meddwl, yn ei ledneisio; yn rhinweddu natur anwar, yn attal creulondeb at yr anifail diniwaid a direswm. A fedrwech chwi ddangos dynion ieuainc moesol, sobr, yn lles iddynt eu hunain, ac i'w hardal, heb fod gyda'r Ysgol Sabbothol? Ni a fedrwn ddangos ugeiniau yn marw yn anamserol, yn distrywio eu bywiolaethau, yn gywilydd i'w teuluoedd, yn ddirmygus gan eraill; ond ni buasant felly pe buasant gyda'r Ysgol Sabbothol. Erlidiodd hon o flaen ei goleuni, adar y nos ymaith o'n gwlad, Gwylmabsantau annuwiol, Priodasau cymhorth cywilyddus, nosweithiau llawen ac ofer, halogi'r Sabboth trwy chwareu tenis, adrodd Interlutiau, &c.

O! y fath gyfnewidiadau a gymerasant le yn ein gwlad trwy offerynoldeb yr Ysgolion Sabbothol yn yspaid yr haner can' mlyuedd a aethant heibio. Ein mynwentydd lle cuddid meirwon yr oesoedd, hyd ddydd bloedd yr archangel, yn gochion gan halogwyr Sabbothau, mor ddideimlad â'r anifeiliaid a ddifethir, yn chwareu uwch ben llwch eu cynoeswyr, ac efallai yn llefain y munud hwnw, "darfu'r haf, ac nid ydym ni gadwedig;" ac y deuant *hwythau* hefyd i'r lle poenus hwn. Chwalodd yr Ysgol Sabbothol y fath ryfyg, a gadawyd ei ddistawrwydd i'r bedd, ac i natur wasgaru ei blodau perarogl uwch y meirwon. Y mae yr Ysgol Sabbothol yn derbyn y genedl ar ei dyfodiad i'r byd, pa sefyllfa bynag, yn eu cynal yn nhrafferthion canol oes, trwy liniaru ac esmwytho gofal bywyd; yn cysuro mewn henaint, trwy ddwyn i'r cof ryw ran o adnod, pan hwyrach wedi dyrysu yn mhob peth arall.

Nis gellir enwi cymaint ag *un* yn cwyno wrth farw iddo wario ei amser yn ofer gyda'r Ysgol Sabbothol.

---

# CELL MEUDWY,

YN CYNWYS

BARDDONIAETH, ANNERCHIADAU, &c.

---

YR AIL RAN.

---

# CYNNWYSIAD YR AIL RAN.

## *Barddoniaeth.*

	TUDAL.
Cywydd y Bedd. ... ..	3
Englynion y Ddyllhuan ... ..	5
Y Tyddynwr ar Foreu Teg o Ebrill ... ..	6
Englynion a Gyfansoddwyd pan Glybuwyd Marw Dafydd Ddu ...	7
Cywydd Annerch Mr. John Parry, o'r Fferam Bailey, yn Mon ...	8
Englyn i'r Mêl Awen. Efelychiad o waith Quarles ... ..	10
Englynion i'r Ceiliog Bronfraith ... ..	12
Englynion i'r Tân. Rhan o'r Bennod gyntaf o'r Pregethwr ar Gân	13
Dydd a Nos ... ..	15
Cofiant William, ail Fab Howel Llwyd, Ysw., Llanfrothen ...	17
Cywydd y Daran ... ..	18
Molawd Eifionydd ... ..	19
Amser. (Ar Mesur Salm) ... ..	22
Amser. (Ar Sweet Home) ... ..	23
Englynion a Gyfansoddwyd yn Mynwent Ynyscynhaiarn ... ..	25
Englynion i Owen Owens, Bodnithoedd ... ..	27
Dychymmyg ... ..	28
Pennillion y Cartref ... ..	29
Cyffes y Clerwr ... ..	31
Englynion i'r Ddanodd, ac i'r Crane ... ..	32
Englynion i Waith Mwn Bron y Gadair. Alleiriad o Feddargraph Lladin a Chymraeg ... ..	33
Englynion i Haf a Gauaf Nos Sabboth Bedd-ergryff ... ..	34
Englynion ar wahanol Destynau ... ..	35
Etto ... ..	36
Etto ... ..	37
Pennillion Cof-adail Dafydd y Garreg Wen ... ..	38
ENGLYNION BEDDERGRYFF ... ..	39
Etto ... ..	40
Etto ... ..	41
Etto ... ..	42
Etto ... ..	43
Eito ... ..	44
Etto ... ..	45
Etto ... ..	46
Etto ... ..	47
Etto ... ..	48



	TUDAL.
Englynyon Beddergryff ... ..	49
Etto ... ..	50
Etto ... ..	51
Etto ... ..	52
Etto ... ..	53
Etto ... ..	54
Ar farwolaeth Mrs. Owen, Ymwlech ... ..	56
Yma ac yno. I'r Schooner <i>Marvel</i> ... ..	56
Englynyon i'r Parch. Edmund Prys. Y Dyddlyfr ... ..	57
Pennillion ar farwolaeth Owen Edwards, Ysw. ... ..	59
Englyn i hen Dref. Dylaith Lleyrn ... ..	61
Englynyon i Arfon ... ..	63
Englynyon Cwyn Henaint ... ..	64
Englynyon yr Ymfrost ... ..	66
Eto i'r Prydyddion. Te Deum y Dirwestwyr ... ..	67
Pennillion Dirwestol Yr Iachawdwr yn gostegu'r Dynhestl ... ..	68
Gorfoledd y Credadyn Pryderus Emyrnau .. ..	69
Diolchgarwch am Gynhauaf ... ..	70
Cwmp Meddwod. Taith yr Anialwch ... ..	71
Emyn y Plentyn Tlawd ... ..	72
Ymddiheurad Bardd Ar Adgyfodiad y Corff ... ..	73
I Ardd Eifion Caniad yr Henwr ... ..	74
Cofiant Jane Owen, Dwygir ... ..	80
Y Ddiod Gadarn. Englynyon Priodas William Owen â Gwen Evans ... ..	81
On Time: Written in Mrs. Jones, of Ynysgain's Album ... ..	84
Amser. Nos Sadwrn ... ..	85
Englynyon a ysgrifenydd ar Feibl y Forwyn. Y Noswaith ... ..	86
Y Nos Hon. God Save the Queen. Wrth fedd Cyfaill ... ..	87
Englynyon yr Hosanau Cochddu ... ..	88
Eto i'r Mis Rhagfyr, 1852. Englyn Cofnodawl ... ..	89
Pa Oes oedd hon? &c. Emyrn Nadolig ... ..	90
Y Pasc, 1853. Englyn ar Briodi Capt. G. Dedwith. Pennill ar Libanus ... ..	92
Pennill ar Gariad. Englynyon i Mr. John Thomas Jones ... ..	93
Pennillion ar ddalenau Beiblau wrth eu hanrhegu ... ..	94
I'r Noson. Y Tyddynwr i'r llanerch y Cleddid ei anifeiliaid ... ..	95
A Translation of Eben Fardd's Englyn. Englynyon i'r Cantorion... ..	97
Cywydd y Rhew ... ..	98
I Dywydd Gwlawog Cynhauaf Yd ... ..	99
Englynyon mewn Beibl a roddwyd i Dorothea M'Lean. I Gym- deithas Gynnorthwyol Tre' a Phorthmadog. Ochenaid am Mr. Robt. Lloyd, Ffestiniog ... ..	100
Pennillion i'w Canu ar Nos Calan 1856 ... ..	102

	TUDAL:
I'r Anrhydeddus Llwyd Mostyn. God Save the Queen ... ..	104
Englyn a anfonwyd i'm Chwaer Mary. Bugail Blaen y Pennant ...	105
Caernarfon ... ..	106
Y Dirwestwr ... ..	108
Englynion i Ffon a anfonodd Griffith Jones, Ysw. ... ..	109
Etto i Griffith Jones, Llaniestyn. Proest Gyfnewidiog. I'r Beibl ...	110
Y Bŷd. Oriol Ellis Owen, Ellis, Lle'rpwll ... ..	111
Yr Unig. Byrdra yr Oes. Yr Hen Unig ... ..	112
Yr Angeu. Ar ol Darllen Gwaith Dewi Wynn ... ..	113
Efelychiad o Farddoniaeth y Tyrciaid I'r Goedwig ... ..	114
I'r "Queen," Llestr Newydd Y Cyfaill Cywir. I Haf 1858.	
I Gell Meudwy ... ..	115
Pennillion.—Wedi clywed marw Mr. George Reynolds. Ar farwol- aeth Isaac Morris, Pentyrch. I'r Eira yn Rhagfyr, 1860.	
Englyn Morwriaethol i'r Beibl. Canmoliaeth. Marw ...	116
Englynion i Mr. Daniel Parry ... ..	117
I fy Noswyl. Iesu ... ..	118
Taith Bywyd. Ar Ddalen Beibl. I'r Flwyddyn Newydd, 1863 ...	119
I Henaint. Arall. Pan Glybuwyd Marw Ab Ithel ... ..	120
I Glynnog Fawr yn Arfon. I Charles Saunderson, y Bala ... ..	121
Alleiriad o Emyrn Brydnawnol ... ..	122
Emyrr Newydd ar "Aros Gyda Mi." I'r Album. Parod i Faddeu ...	123
Cofiant Mr. William Owen, Porth Madog ... ..	124
Beddargraff i William Owen. Y Marw ... ..	125
Emyrr Diolchgarwech am Gynhauaf 1865 ... ..	126
Canmoliaeth i Feddyg ... ..	127
I'r Angeu. Pen fy Mlwydd yn 76 ... ..	128
Pen fy Mlwydd yn 77 We di Cael y Gwlaw, Maihafin 1866.	
I fy Chwaer Elin. Pan Glybuwyd marw John Griffith ... ..	129
Ochenaid. Pen fy Mlwydd ... ..	130
Emyrr y Sacrament. Penillion Methu Cysgu ... ..	131
Olymadrodd yr Awdwr ... ..	135
<hr/>	
ANNECHYADAU Y BEIRDD I'R AWDWR, &c.	
Cywydd Annerch ... ..	138
Cwrdd Llun y Pasg ... ..	141
Cefn y Meusydd. Annerch at Llenorion Eifonydd ... ..	142
Annerchiad. Englyn i Gefn y Meusydd ... ..	144
Englynion ... ..	145
Ymweliad a Chefn y Meusydd ... ..	146

# Barddoniaeth.

---

## CY WYDD Y BEDD.

“Y TY RHAGDERFYNNEDIG I BOB DYN BYW.”—JOB.

---

————— “’Tis here all meet,  
The shiv’ring Icelfander, and sunburnt Moor ;  
Men of all climes, that never met before ;  
And of all creeds, the Jew, the Turk, the Christian.”  
BLAIR,

---

GADO’N awr rwysg a mawredd  
Y byd, i son am y Bedd :  
Annoeth a doeth yn unwedd  
Byddant yn oer bant y bedd.  
Holl uchafion, a bonedd,  
Gwaelion yn gyd-bydron bedd.  
Dewrion enwogion agwedd,  
Llwfyr a gwan bychan i’r bedd.  
Yr awdwyr uchelfrydedd,  
Symmudir, fwrir i fedd.  
Dyma fan olaf annedd  
Pob dyn byw ; pawb dan y bedd.

Dirfawr rif y dorf ryfedd  
 A gludwyd, fwriwyd i fedd.  
 Dynoliaeth deuai'n waeledd  
 O farw a bwrw i'r bedd.  
 Nid oes yno, dwys annedd,  
 Yn ddilyth air byth mewn bedd.  
 Dim ansyber oferedd  
 Yn 'stafell, oer babel bedd.  
 Nac afreidiol wag ffoledd  
 Yn bod yng ngwaelod y bedd.  
 Rhuadau ac anrhydedd  
 Y byd sy'n darfod mewn bedd.  
 Yma'n awr mae rhwysgfawredd  
 Ynfydion, beilchion, o'u bedd :  
 Anghyfiawnder a chwerwedd  
 Naill i'r llall a ball mewn bedd.  
 Dial am dwyll a chamwedd .  
 Daw fyth yr ail du i fedd.  
 Annuwiol ffol yn niwedd,  
 Ei wynfyd yw'r byd :—O ! 'r bedd.  
 Wedi bâr un drugaredd  
 Nid ä byth i'w dŷ y bedd.  
 Y mae man rhincian dannedd,  
 Iddo fyth pan ddaw o fedd ;  
 Mewn trueni diddiwedd,  
 Heb ddarfod yn bod, na bedd.  
 E ga'r cyfiawn uniawn-wedd  
 Wynfyd wedi byd a bedd.  
 Iddo ef bydd tangnefedd  
 A gorphwys o'i bwys mewn bedd ;  
 A'r enaid yn yr annedd  
 Ysrydol o farwol fedd ;  
 Yn y nefol orfoledd  
 Uwch adfyd, uwch byd a bedd.

## ENGLYNION

A achlysurwyd gan waedd y Ddyllhuan o hen Balas y Wern, oedd y pryd hyny yn anghyfanneddol, ac adfeiliedig : ac yn fuan gwedi darfu i Syr J. Huddart adeiladu rhan o hono, yr hon nid yw ond bechan ac isel wrth ydoedd yr hen adeilad. Yr Awdwr a ddeuai heibio o Farchnad Tremadog, yn Chwerwoer, 1823, pan gyssoddai yr Englynion canlynol.

Rhyfedd y diwedd sy'n d'od—i fawrion,  
 Oferedd yw mawrglod ;  
 Eu dirfawr Blasau'n darfod,  
 A hwythau mewn beddau'n bod.

Adfeilio, llithro i'r llawr,—O mor wir !  
 Y mae'r Wern uchelfawr ;  
 Yno nid oes am unawr,  
 Ond man anniddan yn awr.

Dallhuan a'i chân groch hi—a glywaf  
 Yn glau o'i ffenestri ;  
 Hw, hw ! falchedd foneddi !  
 Mae'n awr eich enwau mawr chwi ?

Cathod, ystlumod lamant—y muriau,  
 Mieri a dyfant  
 Yng nghelloedd y gwleddoedd glân,  
 Terfynodd ; nid hir fwyniant.

Y mawrion, na chymmerwch—siomedig  
 Symmudawl ddiddanwch ;  
 Yn fanol ymofynwch,  
 Anneddau o'r lloriau llwch.

Adeilad nid gwaith dwylo,—yn y nef,  
 Na wna fyth heneiddio :  
 Ni wel ond Saint fraint y fro,  
 Llawenydd y lle yno.

## Y TYDDYNWR AR FOREU TEG O EBRILL.

Pan godo'r boreu gyda'r dydd,  
 E glyw'r ehedydd treiddgar,  
 Yn pyncio cân goruwch ei ben,  
 Rhwng llawr a nen yn llafar.

Ac ar y brigyn wrth y llain  
 Clyw sain y bronfraith yntau ;  
 A'r ceiliog mwyalch pêr ei dant,  
 Gyweiriant am y gorau.

Ym mysg y byr-gyll ar y ddôl,  
 Y gwel o'i ol 'sgyfarnog ;  
 A chyda hyn rhy cwtyn wawch,  
 Yn llawn o awch y llwynog.

Ei wich a'i nad ar draws y llain,  
 Bair i'r graig lefain waeddi ;  
 Gan faint y trwst gwna'r adar mân,  
 Eu peraidd gân ddystewi.

Pan elo'r gwr ym mlaen i'r garth  
 I'r golwg ; a'r tARTH gilio,  
 Fe wel yr ŵyn ar ben maen draw,  
 Gryn wyth neu naw yn neidio.

Pan groeso'r amaeth eto'r ddôl,  
 A dod yn ol i'r meusydd ;  
 Afrifawl lu a wel yn glau,  
 Eginau fil ar gynnydd.

Pob un â gw lithyn ar ei ben,  
 Mân berlau nen dysgleiriant ;  
 Ar godiad haul a'i oleu cân,  
 Yn fuan y diflannant.

Pan dël yn ol hyd ael y nant  
 Rhy'r gog o geunant ganiad ;  
 Glochyddes haf! ar gwe-hwg hon,  
 Dyd pawb o'r bron wrandawiad.

A chanu corn a glyw ar fryn  
 Gyferbyn, mewn prysurdeb,  
 A'r cwn yn udo uwch y pant,  
 A chreigiau'r nant yn ateb.

Ar ol ei daith fel hyn yn deg  
 D'ai adeg boreu-fwydo,  
 Ar ffrwyth ei dir, ei fara a'i laeth,  
 Iachusawl faeth i'w foddio.

Mal hyn y bydd Tyddynwr gwyh  
 Yn edrych ar holl natur ;  
 Gan ymhyfrydu'n fodlon iawn,  
 Ag oes yn llawn o gysur.

A fu er Addaf yn yr ardd,  
 Diddanach Fardd-dyddynwr,  
 Yn llon, yn iach, a chryf bob dydd,  
 Yn ufudd i'w Greawdwr ?

1824.

## ENGLYNION

A GYFANSODDWDYD PAN GLYBUWYD MARW DAFYDD DDU

O ERYRI.

Dafydd ben eilydd ein iaith,—a'i gallu,  
 A gollodd, do, ymaith :  
 O'i wely y lletty llaith,  
 Ni ddaw'n ol, wiw ddyn, eilwaith.

Tra fu Ddafydd Ddu fe ddaeth—i'n dwylaw  
 Ni deilwng farddoniaeth;  
 Naturiol o foesol faeth,  
 Wir gywrain o ragoriaeth.

Oh! mawr a dirfawr y dydd—pan gollwyd  
 Pen, gallu awenydd;  
 Galar, mawr alar a rydd  
 Oesau dirfawr: nis derfydd.

I'n bron, i'n calon mae cur,—o gladdu  
 Goleu-ddawn Fardd eglur:  
 Pa reswm, angeu prysur,  
 I ti oedd boddi dawn bur?

Ni welir mwy er wylo—mewn einioes  
 Am un ennyd mo'no;  
 Hyn hefyd gyfyd i go'  
 A gyfyd fyth i'w gofio!

Ys mewn bedd mae'n anneddu,—trwy einioes,  
 Tra anian yn mydru,  
 Na'i deddf mewn dyn yn greddf,ufu,  
 Cof a fydd am Ddafydd Ddu.

Ebrill, 1822.

## C Y W Y D D

ANNERCH MR. JOHN PARRY, O'R FFERAM BAILEY, YM MON.

Y câr Siôn cywira' sydd  
 Gywir anwyl garennnydd;  
 Câr o waed, cywir ydych;  
 Cywir yw'r gwaed, carwr gwych:  
 Câr enwog mewn cywreinwaith;  
 A gâr wych wiw gywir waith:



Efe a brawf a fo brin,  
Ac a saif i gyssefin.

Deolwyd ef a'i deulu  
I Fon, a deoliad fu :  
Er eiddunir oddi yno  
Ni ddaw mwy, oni dd'ai Mon ;  
A phwy a ad wastadedd  
Ffwythlon Ynys Mon ys medd ?  
Ef yn son am ei Fon fydd ;  
Myfynnau am Eifionydd :  
Hawdded i ninnau heddyw  
Bawb yn ei fan, bob un fyw :  
Iddo Mon a ddymunwyf ;  
Bedd im' neu Eifion tra bwyf.

Hen Eifion, ein Hynafiaid  
Yn hon gynt, yn hen a gaid,  
Oreu gwyr, hwy ragorynt,  
Helaeth ei dysgeidiaeth gynt :  
Ennynai yn anianawl ;  
Gwybodaeth helaeth ei hawl :  
Ow ! i'r anian, oer ennyd,  
Gwall, o gwyn golli i gyd :  
Ni o'u hol yn wehilion  
Sal ; am danynt hwy yn son :  
Yn wir da na wŷyr y dyn  
Ei dylwyth fyddo'n dilyn !  
Myned heibio, am unwaith,  
Y mae'r dyn yma ar daith :  
Felly bydd, derfydd y doeth,  
Aml ei rin, mal yr annoeth :  
Ber yw einioes, brau ennyd ;  
Ffoledd a gwagedd i gyd.

Un yn ei ddydd bydd tra bo  
Beunydd yn ymgribino ;

Mwyfwy fydd e'n ymofyn,  
 Boed a fo, y byd a fyn !  
 Arall, a mwy anghall yw ;  
 Afradwr ofer ydyw :  
 Ymgais y llall heb amgen  
 Am enw a chlod ; bod yn ben :  
 Rhifo ei ffyrdd, rhy ofer  
 Ceisio, haws mesuro ser :  
 Deuant bob un, a diwedd  
 Eu ffyrdd fil, yw ffordd i fedd :  
 Yno y dewn nynti'n dau  
 O'n tудоedd fel ein tadau.

Tachwedd, 1825.

## E N G L Y N

Y LYFR A ELWIR "MEL AWEN," GWAITH PEDR FARDD,  
 LLERPWLL.

Dyma "Fêl" diammeu a fydd—iachus,  
 Er iechyd a chynnydd ;  
 Mêl y ffraeth Beroriaethydd,  
 O elfen yr Awen rydd.

1823.

## EFELYCHIAID O WAITH QUARLES,

BARDD SEISNIG A FLODEUODD YN Y 17fed GANRIF.

*"Fel blodeuyn y daw allan, ac y torrir ef ymaith."*

Ber iawn  
 Yw einioes dyn,  
 A honno oll yn llawn  
 Oferedd, gwagedd a phob gwên :  
 Er meithed ydoedd yn yr amser gynt,  
 Tri ugain mlwydd a deg yw'n hadeg 'nawr a'n hynt.

Och fi,  
 A beth yw hyn ?  
 Mae'n myned fel y lli,  
 Gan adael dôl a phant a bryn ;  
 Prysur yw gyrfa amser, rhed ei daith,  
 A phrin y gad in' dd'weyd ei fod yn fyr, neu'n faith.

Ein hoes  
 Yn dechreu bydd  
 Heb boen na chur na chroes,  
 Ond cysgu a chwareu ein dydd,  
 Un deng-mlwydd felly ä na ddaw yn ol,  
 Braidd tâl ei alw'n fyw, ond rhyw anadlu'n ffol.

Llawn fydd  
 Ein meddwl 'nawr  
 O gau freuddwydion rhydd  
 Am ryw ddedwyddyd, mwyn-fyd mawr,  
 Ond wedi deffro, yr oer gwyno gawn,  
 Wrth wel'd y siomiant fydd, yn lle llawenydd llawn.

Mor ddrwg  
 Yw cyflwr dyn,  
 Yn gaethwas i bob gwg ;  
 A'r oes ond bër i'r hwyaf un,  
 Yn ddrwg pan oreu, eto'n myn'd ar ffo,  
 A phob munudyn êl fyth mwy ni ddychwel o.

Yn awr  
 Olwynion yw  
 Ein dyddiau ar y llawr,  
 Yn troi'n ddisiom tra byddom byw :  
 Awrlais yw'n heinioes, pob anadliad sy  
 Yn dip di daw, nes taro o angeu ein tŷ.

Ar frys  
 Ein boreu bydd  
 Yn ganol dydd dilys,  
 A nos y daw, ymnesa dydd:—  
 Trwy raddau amser awn ym mlaen ar hynt,  
 Heb allu rhifo'n dyddiau gan mor fuan ynt.

Ni bydd  
 Ond byr barhau  
 I undyn yma sydd ;  
 A'n hamser heibio oll yn glau :  
 Rhifa dy ddyddiau sydd yn ffoi, O ddyn!  
 Os methu byddi di, rhif heddyw'r olaf un.

1825.

## I'R CEILIOG BRONFRAITH.

(MAWRTH, 1825.)

Henffych, y dir-wych aderyn,—pynciwr  
 Pencerdd craig a brigyn ;  
 Dy lais mwyn glywais mewn glyn ;  
 Deffrodd fi uwch y dyffryn.

Neidiodd fy ngwaed a'm nwydau—wrth sain,  
 Wrth swn dy d'rawiadau,  
 O drwyn rhyw glogwyn, yn glau  
 Ennynodd fy nawn innau.

Hwylus wiw felus fawlydd—yw'th ganiad  
 Ar doriad y dydd :  
 Minnau swrth fy mhen y sydd,  
 Rhyw arw gam oer rigymydd.

Rhigymydd na bydd o'i ben—un pennill ;  
 Yn poeni heb awen :  
 Tithau â nwyd teithi nen  
 I ddwyrudd y ddaearen.

Dod unwaith dy adenydd,—mi ganaf,  
 Gwnaf amgenach eilydd ;  
 Cei fwyn gân rywioglan rydd ;—  
 Wyf innau o Eifionydd.

## ENGLYNION I'R TAN

Yr elfen gref wrol-fyw—rydd echrys  
 Arw ddychryn a distryw :  
 Lleda, anniwall ydyw ;  
 A difa'r byd ; enbyd yw.

Pan greuwyd, lluniwyd holl anian—yn raddau  
 Hon roddwyd drwy'r cyfan :  
 A gwelir y gwaith gwiwlan  
 Oll sydd, mewn un dydd yn dân.

Pan duo, darfo haul dydd—roi llewyrch,  
 A'r lluoedd ysplennydd  
 Dirfawr ; y tân nis derfydd,  
 Yn ffwrn boeth yn uffern bydd.

1824.

RHAN O'R BENNOD GYNTAF O'R PREGETHWYR  
AR GANIAD.

Geiriau'r Pregethwr yma sydd,  
 A doeth-fab Dafydd hefyd ;  
 A brenin yng Nghaersalem fawr,  
 Ystyria'n awr mae'n dd'wedyd.

Gwagedd o wagedd, medd y gwr  
 Y sydd bregethwr addas ;  
 Gwagedd yw y cwbl oll i gyd  
 O fewn y byd a'i gwmpas.

Pa fudd i ddyn o'i lafur oll  
 Er mor ddigoll dan heulwen ?

Un genhedlaeth ymaith a ä,  
Daw arall, sai'r ddaearen.

Yr haul a gyfyd, gwres a ddaw,  
Ac wedi draw fe fachlud ;  
Prysuero i'w le codi bydd,  
O ddydd i ddydd ymsymmud.

Y gwynt o'r deheu ar ei dro  
Amgylcha'r gogledd oerllyd  
Yn ei gwmpasoedd, symmud sail,  
Ac yna ail ddychwelyd.

Yr holl afonydd mawr a mân,  
Tua'r môr a redant ymaith ;  
O'r lle y daethant yno'r ânt,  
Fel hyn dychwelant eilwaith.

Pob peth sydd yn llawn blinder croes,  
Ni all dyn mewn oes ei draethu ;  
Ni chaiff y llygad ddigon (gwir)  
O edrych, er hir syllu.

Ac ni ddigonir y glust chwaith,  
Mewn unrhyw iaith, â chlywed :  
Y peth a fu ryw bryd a fydd,  
Mewn oes y sydd i'w gweled.

Y peth a wnaed a wneir heb ball ;  
Ond pwy a all ei gofio ?  
Ac nid oes dim yn newydd dan  
Yr haul, boed man y byddo.

Oes dim y gellir d'weyd yn rhydd,  
Dyma beth newydd, edrych ?  
Bu eisoes, yr hen amser gynt,  
O flaen ein hynt yn fynych.

Nid oes goffa am bethau gynt,  
 'Nol iddynt fyned heibio :  
 Ac ni bydd coffa pethau ddaw  
 Gan oes fo draw i honno.

1825.

## D Y D D A N O S .

'Rhaid i mi weithio gwaith yr Hwn a'm hanfonodd, tra yr ydyw hi yn ddydd: y mae y nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio.'

O pa mor hyfryd ydyw'r *dydd*  
 I'r llygad sydd yn gweled ?  
 A deithio'r *nos* tramgwyddo wna ;  
 Aflwydda ef â'i ludded.

Dechreuad oes mor debyg fydd  
 I foreu *ddydd* yn gwawrio ;  
 A henaint anniddanus iawn  
 Yn salw i nawn *nos*wylio.

Os ym am weithio yn ein *dydd*,  
 A chyrhaedd ffydd a chariad,  
 Na ruswn awr, ni erys *nos* ;  
 Dechreunos daw echryniad.

O ! daliwn hyn i'n cof bob *dydd*,  
 Mai byr y bydd i barau ;  
 Fod nos ddu ddwys, pan gorphwys gawn,  
 Yn ymyl ; na wnawn ammau.

Ow na baem ddoethion, mewn gwir ffydd  
 Yn ystyr *dydd* ein diwedd !  
 Yr hwyaf ddydd ni fydd ef fawr ;  
 Hir fydd *nos* llawr a llygredd.

Nid ym i fyw ond am un *dydd*,  
 A hwnw sydd yn darfod ;  
 Os gweithio wnawn, 'nawr at ein gwaith,  
 Mae'r ddu-faith *nos* ar ddyfod.

Pwy wŷr deimladau y rhai sydd  
 A'u *dydd* hwy wedi dreulio  
 Yn ofer oll? annifyr yw,  
 Mewn *nos* anwiw ddibeidio.

I'r cyfiawn wedi gweithio'i *ddydd*,  
 Bryd hyny, bydd tangnefedd ;  
 A *nos* o orphwys o'i holl bwys  
 A'i lafur dwys, yw'r diwedd.

Mor deg a hyfryd boreu *ddydd*,  
 I'r hwn a fydd am weithio ;  
 Rhyw gadw gwyl a *nos*wyl wna,  
 Yr addas amser iddo.

Os treulio'n *dydd* yn ofer wnawn,  
 Edifarhawn :—er hyny  
 E fydd ry hwyr edifarhau  
 Y *nos* bo angau'n nesu.

Er bri, a pharch, a chyfoeth mawr  
 I'n *dydd* bob awr o hono,  
 Dynesa bedd, daw *nos* y byd  
 Diengyd i dŷ angho'.

Ni fedd na doeth na ffol ond *dydd*,  
 A hwnw sydd bresennol ;  
 A'r doeth a ystyr hyn mewn pryd  
 Cyn *nos* a byd trag'wyddol.



## C O F I A N T

WILLIAM, AIL FAB HOWEL LLWYD, YSW., TY OBRY, LLAN-  
FROTHEN, MEIRIONYDD :

A gladdwyd ym Mynwent Llandecwyn, Hydref 16, 1827, yn 25 mlwydd oed.

*“Dyn mewn anrhydedd nid erys.”*

O ! angau, diau nad oes—d’ochelyd,  
Chwalwr perchen einioes ;  
Dy lun ni welir :—dy loes  
A fwrw bawb o’r feroes.

Ni wna nerth na phrydferwch—dy attal  
Di, eto na thegwch ;  
Y gwrol llawn hawddgarwch,  
Yn llanc a roddi mewn llwch.

Yn llanc mwyn ieuanc a llon,—trywenaist  
Dirionwch gwlad Feirion ;  
O bryd ac o gryfder bron,  
Harddaf oedd ef o’r heirddion.

Yn dalach un o’i deulu—ni chafwyd,  
Ni chofir chwaith gladdu  
Ei fath :—pwy hefyd a fu ?  
Amyneddgar mwyneidd-gu.

Rhy fawr alar, O farwolaeth,—dygodd  
Degwch Penrhyn Deudraeth !  
Obry o Dŷ Obry :—daeth  
O’r herwydd ddirfawr hiraeth.

Hiraeth caeth a ddaeth ; ei ddwyn—o’i faenor  
I fynwent Llandecwyn ;  
Afar ! Och ! ofer achwyn ;  
Ni cheir er galar na chwyn.

I'w dad mae'n alar bob dydd,—i'w frodyr  
 Anhyfrydwch beunydd ;  
 Rhyw chwithdod a syndod sydd  
 O'i fyned, yn Eifionydd.

Ym mhob man gwiwlan y gwelwyd—William  
 Wele yma gollwyd ;  
 Hyn o gof ini gafwyd  
*Y lle y bu* William Llwyd.

Tachwedd, 1827.

C Y W Y D D Y D A R A N .

Beth sydd o fynydd i fôr  
 Yn gawrio dros ein goror ?  
 Dychryndod ! uwch y rhardir  
 Mae twrf a chynhwrf och hir ;  
 Llamu, holli, a llemain  
 Mae'r mellt o'r cymyl i'r main :  
 Rhwad pell o gell y gwynt,  
 Trystio mae'r creigiau trostynt :  
 Mynyddau, bryniau ein bro  
 Sy'n ateb y sw'n eto.

Onid duwiau sy'n tywallt  
 Marian dros geulan eu gallt ?  
 Ai carlam meirch y curlaw  
 Ar gallestr, nef restr ry fraw ;  
 Peiriant nen, lluchiwr cenllysg,  
 Echryn pell sy'n dychryn pysg ;  
 Rheieidr Sadwrn yn rhuaw,  
 Neu drwst afonydd Iau draw ;  
 Niagar nef yn agor nant,  
 Cynhwrf cerrig y ceunant ;  
 Rhuthroedd y bydoedd o bell  
 I'r eigion o ryw wagell ;  
 Neu foliant y milfloedd ;  
 Ai cras a chryf *fâs* nef oedd ?

Ochenaïd, neu wawch anian  
 Ar drengu; bloedd g'oedd y gwan.  
 Tebyrdd Caergwdion, tybiaf,  
 Am blaid yn neiliaid eu Naf:  
 Abred sydd ym mol wybren,  
 Neu mae'r byd yma ar ben.  
 O'u brodir engyl bradwyllt  
 Yn gwau pelenau tân gwyllt,  
 Trwy oror tir awyrawl,  
 Sy o hyd, ac eisieu hawl.  
 Gawr d——l am agoryd (oedd  
 Dros nifwl) drws y nefoedd:  
 Neu, certh byrth uffern yn cau  
 A nâd erwin y dorau.

Ofer ddych'mygion afiach;  
 Llef yr Ion yw'r llafar iach;  
 Duw ydyw yn dywedyd  
 Ar g'oedd wrth bobloedd y byd:  
 "Ydwyf ben yr elfenau,  
 Ac wyf yn agor, yn cau,  
 A gallaf a fynaf fi,  
 Wyf ddylid fy addoli."

Chwerwoer, 1831.

## MOLAWD EIFIONYDD (EIDDIONYDD).

Ym mha le mae dyfroedd gloywon,  
 Pysg yn chwarae ym mhob afon;  
 Coedwig lawn yn cadw eu glenydd?  
 Yn fy anwyl hen *Eifionydd*.

Ym mha le mae dolydd ffrwythlon,  
 Ag o'u deutu gelltydd gwylltion?  
 Iach y bryniau uwch y bronydd;  
 Yn fy anwyl hen *Eifionydd*.

Ym mha le ceir yn ehelaeth  
 Natur yn ei holl amrywiaeth ;  
 Nant a dyffryn moel a mynydd ?  
 Yn fy anwyl hen *Eifionydd*.

Nid yw hon fel crasboeth India,  
 Nac yn rhewllyd fel Siberia :  
 Nid oes lafa, tân o foelydd,  
 Yn fy anwyl hen *Eifionydd*.

Nid oes yma fleiddiau'n rhwygo ;  
 Seirff, na phryfed yn gwenwyno ;  
 Na rhyw flinion wŷr aflonydd,  
 Yn fy anwyl hen *Eifionydd*.

Ym mha le mae gwir gyfeillion,  
 Pur o feddwl, pur o galon,  
 Mwyn, diniwed, yn byw'n llonydd ?  
 Yn fy anwyl hen *Eifionydd*.

Ym mha le mae gwych gymdeithion,  
 Doeth a buddiol ymddiddanion ;  
 Fil o galon fel eu gilydd ?  
 Yn fy anwyl hen *Eifionydd*.

Ym mha le drwy gyrau daear  
 Y mae glân enethod hawddgar,  
 Serchog, siriol, blodau gwledydd ?  
 Yn fy anwyl hen *Eifionydd*.

Ym mha le y mae Prydyddion  
 Nad oes ail i'r dewisolion ?  
 E drig awen yn dragywydd,  
 Fyw o anian, yn *Eifionydd*.

Ym mha le mae môr a llongau  
 Arno'n chwarae ; haul i'w hwyliau ;

Myn'd a d'od yn groes i'w gilydd?  
De ar fin i dir *Eifionydd*.

Ym mha le dymunwn drigo,  
Ac heb symmud fyth oddi yno?  
Nid mewn plasau nac mewn trefydd,  
O fy enaid! yn *Eifionydd*.

Pe cawn bobman a'u pleserau;  
Myrdd a myrdd o amrywiaethau;  
Hiraeth fyddai arnaf beunydd  
O fy anwyl hen *Eifionydd*.

Dýma'r man y'm ganed ynddo;  
Ac o'm bodd nid af o hono:  
O! mi garaf y magwrydd,  
Yn fy anwyl hen *Eifionydd*.

Beth yn unlle sydd a'm blina  
Ond y meddwl myn'd oddi yma?  
Wel os rhaid fy nghladdu ryw-ddydd,  
Hyn ofynaf yn *Eifionydd*.

Caned prif-feirdd ddyrys awdlau,  
Rhai i Fon neu unrhyw fanau;  
Canaf finnau bennill beunydd  
I fy anwyl hen *Eifionydd*.

Y mae gan y Beirdd destunau,  
Hyn a'r llall, a chant o bethau;  
Minnau gym'raf destun newydd;  
I fy anwyl hen *Eifionydd*.

Ow na fedrwn fel y Beirddion  
Wneyd cywyddau ac englynion!  
E ddai fil yn ddihefelydd,  
Na fu fwynach yn f' *Eifionydd*.

Mi derfyna'r mesur penrhydd,  
 Rhag, os wyf anfedrus fydrydd,  
 Imi roi i'r beirddion g'wilydd  
 Yn fy anwyl hen *Eifionydd*.

1833,

## AMSER.

(M E S U R S A L M .)

Cwyno yr wyf, ond wyf yn ffol,  
 Ac nid ar ol y pleser ;  
 Na chwaith na nerth na thegwch pryd,  
 Na phethau'r byd, ond *Amser* ?

Os cefais nerth a chlod a pharch,  
 Caf hefyd arch ar fyrder ;  
 Fy nghur sy am na chaf fy nghais,  
 Yr hyn a gollais, *Amser* ?

Pa les i mi yw palas mawr,  
 A byw mewn dirfawr wychder ;  
 Ac yn y diwedd fod yn ol,  
 Wrth dreulio'n ffol fy *Amser* ?

Pe medrwn ieithoedd pobloedd pell,  
 Heb neb yn well ei ffraethder ;  
 Doethineb byd i gyd yn grwn,  
 Beth dalai hwn heb *Amser* ?

Pe gwyddwn rif y ser bob un,  
 Eu lliw, eu llun, a'u pellder ;  
 Gwell gwybodaeth a mwy braint  
 Ystyried maint fy *Amser*.

'R wy'n goddef cam, medd hwn a'r llall  
 Pa beth ? Ai dall cyfiawnder ?

Na, byr y bydd, daw bore i ben  
Y gwelir dyben *Amser*.

Y truan bach, mae troion byd,  
Mor ynfyd, hefyd ofer,  
Yn dwyn dy feddwl : beth a wnai ?  
Nid byth y cai di *Amser*.

Pwy mor ffol a dd'weda y byd,  
Sydd i mi o hyd yn flinder,  
Ni fydd hyd dy fyd di fawr ;  
Oes genyt awr o *Amser* ?

Difyrwch a phleserau byd,  
O'u cael i gyd i'w harfer,  
Pa beth a dalant, wagedd mawr ?  
Rhyw funud awr yw *Amser*.

'D yw oes y byd ond yspaid bach,  
Rhyw leiach yw o lawer  
Yr oes a roed i ddyn i fyw,  
A hynny yw ei *Amser*.

Poenofi hwnt gagen-for mawr  
Mewn chwerw ddirfawr drymder  
Y mae rhyw dorf ; a'u hechryn gri  
Yw, " Gwae ni golli *Amser*."

Ni fyddaf faith, ni chanaf fi,  
Rhag bod i ti yn flinder ;  
A phe bai y gân yn fwyn  
Ni fynaf ddwyn dy *Amser*.

1829.

## AMSER.

(A R S W E E T H O M E .)

Ow, Ow, na chawn ddechrau y blwyddau heb loes ;  
Cael eto un cynnyg, ail fenthyg fy oes :

Llawenydd ieuenctyd, dydd hyfryd oedd hwn :  
Ei haul a fachludodd, do, giliodd da gwn.

Aeth, aeth amser, aeth,

Mae syndod o herwydd mor ebrwydd yr aeth.

Pa les i mi gwynfan, anniddan iawn yw ;  
Yr heli pe'r wylwn tra byddwn i byw ;  
Ni byddai nac adfyd, na phenyd ond ffol ;  
Ni ellir o amser ei adfer yn ol.

Aeth, aeth amser, aeth,

Mae syndod o herwydd mor ebrwydd yr aeth.

Pe cawn bob anrhydedd a mawredd i mi,  
Yr holl uchel swyddau, a'r enwau'n ddiri' ;  
Cyflawnder trysorau, holl berlau y byd,  
I'w cynnyg am amser, gwag ofer i gyd.

Aeth, aeth amser, aeth,

Mae syndod o herwydd mor ebrwydd yr aeth.

Mae amser diflino'n ymdeithio y dydd,  
A'r nos yr un ffunud yn symmud y sydd ;  
Yn ddystaw, yn ddifri', heb sylwi nes ä  
Ef heibio i'r ynfyd a'r diwyd wr da.

Aeth, aeth amser, aeth,

Mae syndod o herwydd mor ebrwydd yr aeth.

Fel doe pan êl heibio a llithro yn llwyr,  
Ni welir fyth eto mo hono ef mwy ;  
Rhyw unwaith am unwaith yw'r ymdaith a ry ;  
Er mawrion derfysgoedd, weithredoedd ni thry.

Aeth, aeth amser, aeth,

Mae syndod o herwydd mor ebrwydd yr aeth.

Rhyw ddiwedd i amser ar fyrder a fydd,  
A heibio'r gre'digaeth fawr helaeth yn rhydd :



Yr heulwen a ddua, a llithra o'u lle  
 Y ser o'n gorsafau, planedau y ne'.  
 Aeth, aeth amser, aeth,  
 Mae syndod o herwydd mor ebrwydd yr aeth.

Bydd miloedd yn llefain, gan ochain, "Gwae ni"  
 Am amser, coll-ddynion, bydd creulon eu cri:  
 Difedur, diderfyn y llynclyn eu lle;  
 Diobaith ymwarded, na noddod na ne'.  
 Aeth, aeth amser, aeth,  
 Mae syndod o herwydd mor ebrwydd yr aeth.

Yn llawen mewn gwynfyd, ä bywyd o'r bedd,  
 Yn ddysglaer ac amlwg eu golwg a'u gwedd:  
 Bydd myrdd o fyrddiynau o boenau y byd,  
 Ac amser terfynol; trag'wyddol i gyd.  
 Aeth, aeth amser, aeth,  
 Mae syndod o herwydd mor ebrwydd yr aeth.

1830.

## ENGLYNION

A GYSSODDWDYD YM MYNWENT YNYS CYNHAIARN.

Feirwon blwyfolion filoedd,—mae yr oes,  
 A'r ymryson, bobloedd?  
 Y gwyn a'r achwyn mawr oedd,  
 A siarad ofer-siroedd?

Ai ofer genych fawr gwynion,—a cham  
 A chymmaint helbulon?  
 Och waedd hir y fuchedd hon!  
 Ai oferedd yw, feirwon?

Ai nid yw'r dreth yn dyfetha,—difrod  
 Ofer, esgeulusdra?  
 Ai'n deg â chyfrifon da,  
 Gwir onest pawb geir yna?

O feirwon ddyinion, ymddiddenwch,—mawr  
 Yma yw'r dyryswch !  
 Och ! unwaith pam na chwynwch  
 O dŷ llawr, aerod y llwch ?

Deuwch ; yn wŷr diduedd—mewn bywyd  
 Ni buoch, yw'r gwiredd :  
 Rhowch yn awr, rhowch i fawredd  
 Y blaen, tan faen y tyn fedd.

Tydi y gwan, d'wed y gwir—diduedd ;  
 Dywed heddyw'n gywir ;  
 Nid y ffol a ganmolir  
 Yma'n hwy, dan y maen hir.

Ai cydradd pob gradd mewn gro—diystyr,  
 A dystaw'n gorphwyso ?  
 Ai dinerth, didrafferth dro ?  
 Hynod yw pawb yn huno !

Ow fudion gwaelion ! gwelwyd—ar ddyinion  
 Radd unwaith o'ch arswyd :  
 Y gwr mawr unawr enwyd,  
 Y pena' oedd ; pa un wyd ?

Gwagedd, oferedd, feirwon,—yw'n terfysg,  
 Ein twrf, a'n hymryson ;  
 Ein gorthrech, a'n hymdrech hon,  
 Ein cynhwrf, a'n hamcanion.


Dedwydd ydych diodid,—heb chwennydh  
 Ychwaneg o ryddid :  
 Heb gynhen, fall hen, na llid,  
 Heb gyfoeth, heb y gofid.

Cysgwch yn y llwch yn'llu ;—y bywyd  
 Bawaidd hwn a ddarfu :

Ei ddiwerth ymdrafferthu  
Nid yw boen : ennyd y bu.

Minnau a wnafl am ennyd—ryw ddidwyll  
Rwydd adrodd hynt bywyd :  
Yna i'r bedd minnau o'r byd  
I'r unfan a rhyw ynfyd !

1827.

 Edliwiau y cyssoddydd i'r meirwon y pleidgarweh a'r derbyn  
wyneb, y cwyno a'r tuchan o herwydd y dreth ; y cam gyfrif a  
roddai rhai *Overseers*, &c., yr hyn oll a glywsai ac a welsai yn  
eu mysg pan yn ieuanc : llawer o ba rai a gladdesid y pryd y  
canwyd yr Englynion.

## ENGLYNION.

OWEN OWENS, Bodnithoedd, yn Lleyn, wedi gweled o hono Englyn-  
ion Cofiant William Llwyd, Tŷ Obry, a anfonai nifer o Englynion  
i gwyno breudra bywyd a byrdra oes : yn ateb iddynt ysgrif-  
enwyd y rhai canlynol.

“ Be it so, for I submit, his doom is fair,  
That dust I am, and shall to dust return,  
Mortality my sentence, and be earth  
Insensible ; how glad would lay me down  
As in my mother's lap ; there I should rest  
And sleep secure. MILTON.

Ofer, ac ofer i gyd—yw galar ;  
Ac wylo sydd ynfyd ;  
Rhagderfyn, rhwyg daearfyd,  
Y bedd ; a chartref y byd.

Marw ydym ; ymwaredu—nid oes fodd,  
Nid oes fan heb drengu :  
Tra fo'r byd sai'r ddedryd ddu :  
Ior ydoedd yn bwriadu.

Ys gwell yw ci byw, bach,—na llew marw,  
Llai ymyro grwgnach ;

Pa'r gewri, pwy ragorach?  
Pwy na ni, penau ein ach!

Dau gâr, a diau gwrawl;—dau ydym,  
Dau o waed llinachawl;  
Dau yn un dw' anianawl,  
Dau gâr o feirdd, dau gâr fawl.

Dedwyddyd yn hyd ein hoes,—bodloni;  
Bid lawen ein heinioes;  
Boed oferedd, bid fyr-oes,  
Dyna y rhan, Duw in' a'i rhoes.

Mwynhau wnawn (a chawn wech oes)—a feddom  
Yn fuddiol drwy'n heinioes;  
Na hyfrydion afrad-oes;  
Byw difai, bywyd o foes.

1827 neu 1828.

### D Y C H Y M M Y G .

Beth sydd yn llofruddio, lle gallo, i gyd?  
Mae'n dial, yn raddol, holl bobol y byd;  
Yn llechu, yn llonydd, mewn gellytydd o goed;  
Yn gwylio, yn ddirgel, ar ryfel erioed;  
Mewn llongau, maen'n hwylio, yn llithio pob llaw;  
Yng nghanol magnelau, a drylliau, o draw:  
Mae'n erchyll, yn greulon, a digllon bob dydd;  
Yn lladd, ac yn llosgi; yn boddi ni bydd:  
Mae'n llywio holl gylchau planedau y nen;  
Yn lledu tywyllwch yn llwch, fal y llen:  
Mae'n goleu pob planed a lunied i les;  
'D yw'r heulwen ddim hebddo, ni rydd iddo wres.  
A dyma'r rhyfeddod orhynod er hyn,  
Mae 'ng nghanol gelynyon, ellyllon, mewn llyn:  
Er bod mewn diwaelod bwll hynod a llawn,  
Mae'n llawen a siriol, hynodol, un iawn.

Ni bu yn y nefoedd, na'r bydoedd ar ben,  
 Mae 'ng nghanol angylion, anwylion y nen ;  
 Yn uffern ni chafwyd ; ni welwyd un waith  
 O fewn rhan o'r cread, mewn geiriad nac iaith.  
 Chwi feirddion rhagoraf, a doethaf eu dawn,  
 Chwi heriaf i'w ddangos yn agos, yn iawn :—  
 'Nychymmyg deonglwch, os medrwch, i mi ;  
 O chwithig mae'n debyg, peth tebyg i ti.

1828.

## PENNILLION Y CARTREF.

(AR AULD LANG SYNE.)

Os rhaid ymado o fy ngwlad,  
 A thŷ fy nhad yn hir :  
 Gobeithiaf dd'od yn iach ddifrad  
 Yn ol at gariad gwir.

BYRDON. { Fy nghartref fydd er lle na llan  
 Yr hoffa' man o hyd :  
 Anwylaf a difyraf fan  
 O bedair rhan y byd.

Wrth ganu'n iach i Gymru wen  
 Na wn i orphen oes  
 Pa fodd ; pa fan is haul y nen,  
 Mor lem a mawr y loes.  
 Fy nghartref, &c.

Os myn'd a raid er gwaeth a gwell  
 Ym mhell, ym mhell am hynt ;  
 Nid ä o'm cof mewn un man pell  
 Y gell lle bŷm i gynt.  
 Fy nghartref, &c.

Er croesi'r Alps neu'r Andes faith,  
 A chlywed iaith na wn,  
 Mi gofia'm cartref lawer gwaith ;  
 A'm hanwyl iaith yn hwn.  
 Fy nghartref, &c.

Er hwylio maith eang-for mawr  
 I bellder dirfawr byd ;  
 Ehed y cof yn ol un awr,  
 Er gwaeddfawr fôr i gyd.  
 Fy nghartref, &c.

Pob nant a dyffryn, bryn a bro  
 O'm genedigol wlad,  
 A garaf; cadwaf fyth mewn co',  
 Ond O! am dŷ fy nhad.  
 Fy nghartref, &c.

Er cael anrhydedd, hedd o hyd,  
 A chyfoeth, llon-fyd llawn ;  
 Melusach cofio bryd a phryd  
 Y gwynfyd gynt a gawn.  
 Fy nghartref, &c.

Pan siomer fi gan hwn a'r llall,  
 A deall beth yw dyn ;  
 Mi gofiaf ffyddlon rai di-ball ;  
 A phur er gwall na gwŷn.  
 Fy nghartref, &c.

Pan bwyf ym mhell dan boen neu glwy',  
 Heb genyf mwy ddim mam,  
 O! fel yr hyllt fy mron yn ddwy ;  
 Yn wael pan bwy'n cael cam.  
 Fy nghartref, &c.

Mewn gorthrymderau, boenau byd,  
 A phob anhyfryd hynt ;  
 Bydd ddifyr genyf lawer pryd  
 Adgofio'm bywyd gynt.  
 Fy nghartref, &c.

Pan d'of yn ol, yn ol yn iach,  
 O ! 'r hen gyfeillach fydd :  
 " Pa fodd yr wyt, fy machgen bach ?"  
 A ddaw difyrach ddydd ?  
 Fy nghartref, &c.

Pan noso byw, dyneso bedd,  
 Y duedd a fydd d'od  
 Yn ol i dŷ fy Nhad mewn hedd ;  
 A'r bedd bydd yntau'n bod.  
 Fy nghartref, &c.

## CYFFES Y CLERWR.

Canu yr ydwyf am fy rhaid ;  
 O moeswch damaid imi :  
 Ei gael yr wyf o gell i gell,  
 Neu byddai'n well im' dewi.

Gwnaf gân i'r drwg a chân i'r da,  
 A phwy a wna fy meio ?  
 Y ddawn wael ro'f i ddynol ryw ;  
 'R wy'n ceisio byw a boddio.

Os gwerthu 'r wyf fy eiddo'n rhad  
 I bawb drwy'r wlad a'i pryno ;  
 Pwy fyth a wertha sothach gwael,  
 Pe medrai gael ei goelio ?

Mae'n flin iawn gweithio mewn ffos clawdd ;  
 Nid yw'n anhawdd fy rhwystro :

A thra bo ffyliaid yn y byd  
Mi gaf o hyd fy ngwrando.

I lan a thre', neu rywle'r af,  
Rhyw ganu wnafl ddigonedd :  
Prin iawn yw genyf, ond am dro  
Hyn ranaf o wirionedd.

1833.

## ENGLYNION I'R DDANNODD.

Poenofi mae'm pen afiach,—nodedig,  
Am nad ydwyf fantach !  
Neu od awn ddyn dannedd iach,  
Mi ganwn yn amgenach.

O ! na chawn ganu'n iach i—y ddannodd !  
Ddwned ddi-dosturi :  
Yn nhrwyn hwch boed o'm rhan i,  
Y dury'n brwnt heb dori.

O ! ddolur, dy gur digwyn—a gorwyllt  
A'm gyrodd i achwyn ;  
Yr alwad o droi'r *olwyn*\*  
Nid yw ddim gwaeth na dy ddwyn.

1828.

## I'R CRANC.

Y Crane a'i grafanc ryfedd—a gydia.  
Yn gadarn â'i fysedd :  
Coesau, crafangau a fedd,  
A diweiniaid ewinedd.

Y cropiwr olwg grepach,—o redwr  
Odid ei fuanach :

\* Treadmill.



Cwmanog, heglog hwglach ;  
Tywarchen, crogen y crach.

Mewn creigiau, holltau heilltion—y moroedd  
Y mae, a'r gwaelodion :  
Rhed bob ffordd, dyfn-ffordd y dôn,  
Ar ogwydd, cop yr eigion.

### I DWLL MWN BRON Y GADAIR.

Drws ogof, dyrys eigion,—anhoff yw ;  
A hen ffau ellyllon :  
Sefwn hwnt o'r ddu-safn hon,  
Gorddrws Ffesiwfiws Eifion.

Sawr sylphwr, a'r dwr oer du—a godir  
O geudod y fagddu :  
Agerddau y pair gorddu  
I lawr a darawai lu.

Gwareder fi o'r gwerydau,—daear,  
A'i duon fwndyllau ;  
A phoed na welwyf y ffau  
Bythol, na'i hyllion bethau.

1826.

### ALLEIRIAD O FEDDARGRAFF LLADIN SYR T. PARKINS,

AWDWR TRAETHAWD A ELWID Y "GELFYDDYD O GODYMU."

Yma gan amser hen Barkins a daflwyd,  
Y codwm teg cyntaf erioed iddo roddwyd ;  
Ac amser nis gall'sai ychwaith heb help angau  
Ei yru fyth allan o wynt y mae'n ddiau :  
Pawb ereill a gwympodd, a'r ddau yna eto  
A drecha'r un modd pan gyntaf y codo.

## A R A L L .

Yr hen Barkins yma roddwyd  
 I lawr, gan amser pan y'i tafliwyd ;  
 A'r codwm cyntaf teg a gafodd  
 Ef erioed, er maint godymodd.  
 Ni fedrasai amser yntau  
 Ei yru o wynt heb gymhorth angau :  
 Pob un arall ddarfu gwympto ;  
 A'r un modd y gwna ef eto  
 I'r ddau hyn, pan gynta' codo' !

## ENGLYNION AR WAHANOL DESTUNAU.

## HAF A GAUAF.

O auaf i haf o hyd,—yr ysir  
 Oes y dyn, hir-fywyd ;  
 O haf i auaf hefyd,  
 Ysa i ben oes y byd.

## NOS SABBATH.

Sabbath at Sabbath o'm hoes heibio,—dydd  
 Ar ol dydd sy'n cilio ;  
 Daw'r olaf wrth hir dreulio,  
 Diweddaf un dydd i fod.

## B E D D E R G R Y F F .

## BEDDARGRAFF AR WILIAM.

Ar lef angel nef y naid—Wiliam  
 O'i wely daear-laid ;  
 I blith yr arfarwol blaid,  
 Ac unir corff ac enaid.

## AR UN A FUASAI FARW O'R DARFODEDIGAETH.

O'r bywyd nychlyd hwn aeth,—awr derfyn,  
 O'r darfodedigaeth :  
 Mawr elw a fydd marwolaeth  
 I hwn y dwthwn y daeth.

## AR HEN FORWR.

Hwyliais y môr mawr heli,—hir einioes  
 Ar wyneb y weilgi ;  
 Wrth angor o fôr 'r wyf fi,  
 Yn y fynwent tan feini.

## AR LONGWR.

Hwyliodd y dyfn-for heli,—a deuodd  
 I dawel angori ;  
 O fawrion beryglon ri',  
 O foroedd dan fieri.

## AR LONG-LYWYDD.

Hin-gylchoedd, moroedd mawrion—a hwyliodd  
 Yn hylaw ac eon :  
 Ond gyrwynt yr hynt fawr hon  
 A'i moriodd at y meirwon.

## AR FENYW GELWYDDOG.

Dywedodd a fedrodd tra fu—o gelwydd ;  
 Gwiliwch ei dadebru ;  
 Neu hi ddywed, 'r'wy'n credu,  
 I bawb, mai'n y nef y bu.

## CYFIEITHIAD.

She lied, and lied in all her life ;  
 To lies was always prone and rife :  
 Awake her not, or she will say,  
 " In heaven I was, when I was away."

AR MR. JONES, ABERCAIN.

Braidd ei fath i'w briddo fydd :  
Anfynych yn Eifionydd.

AR WILLIAM ROBERTS, YNYS CARREG AETHNEN.

Galar drwy'r ardal a roes,  
Ddyn anwyl, ddwyn ei einioes.

AR ROBERT ROBERTS (ROBYN DDU YR AIL), TRAWSFYNYDD.

Tra saif enw Trawsfynydd,  
Ei enw yn fawr iawn a fydd.

AR MORRIS WILLIAMS, YSGUBOR GOCH.

Nodedig hynod ydoedd :  
Mawr, rhy fawr mor foreu oedd.

AR ROWLAND THOMAS, TU HWNT I'R BWLCH.

Awn i bridd, ydym bridd brau,  
O'n tудоedd fel ein tadau.

AR DEWI WYN.

Dyma fedd, diwedd Dewi—Wyn Eifion,  
Ofydd y barddoni ;  
Arwraidd Fardd Eryri,  
Ac amen ei hawen hi !

Gwreiddiol, a nerthol yn wyrthiau—uchel,  
Ei wychion feddyliau ;  
A pharod ei hoff eiriau ;  
Priodol, gwrol i'w gwau.

Tlysau a gemau digymmysg—mynodd,  
A mwnai pob addysg ;


Adroddai yn hydryddysg :  
Bardd oedd ef i'r beirdd o ddysg.

Tra bo na Chymro, na chân,—na mydru  
Iawn ymadrodd anian,  
Prawf o'i waith, puraf weithian,  
A'i awen deg ennyn dân.

Un gof neu golofn gelfydd—o feini,  
Neu fynor na dderfydd,  
O fawr faint, un ofer fydd :  
Cof i hwn cyf awenydd.

Dihalog, dan glog y glyn—mewn gwir-ffydd,  
Mae'n gorphwys ei lwchyn,  
Hyd ei adgodiad gwedyn  
O lwch, yn arfarwol Wyn.

1841.

 Wedi marw o Dewi Wyn anfonwyd y llinellau canlynol i newydd-  
iadur Caernarfon gan ysgrifenydd y llinellau yma :—“ Died,  
after a long and protracted illness, in the afternoon of Sunday,  
the 17th inst., David Owen, Esq., of Gaerwen, in this County,  
or Dewi Wyn o Eifion: a great genius; the most celebrated  
Bard that Wales produced since the time of Taliesin.

“ Nodedig hynod ydoedd :  
Pa un o'i fath? Penaf oedd.”

AR MRS. JONES, DRUGGIST, TREMADOG, A'I BABAN BACH.

Dyma fan baban na bu—un eilun  
Anwylach i'w gladdu ;  
Gyda'i fam, y gein-fam gu,  
Yn y llwch yma'n llechu.

Mor hynod drwm yr hunant,—yn gorwedd,  
Un gair ni ddywedant ;  
A goleu dydd nis gwelant :  
Aros dros hir nos a wnânt.

Daw boreu goleu ; gwelant—eu gilydd ;  
 O'u gwely cyfodant :  
 Ac yna i ogoniant  
 Ar frys o'r Ynys \* yr ânt.

1841.


AR MRS. ANWYL A'I MERCH, YN LLERPWL.

Tirionaf dwy trwy Wynedd,—mam a'i merch ;  
 Yma maent yn gorwedd ;  
 Yn feirwon, heb o fawredd  
 Ond eu hyd o fyd yn fedd !

AR DDAFYDD Y GARREG WEN

Swyn ei delyn fwyn a fu—yn lloni  
 Holl anian o'i deutu :  
 Ni bydd dawn yn y bedd du,  
 Na gwyneb neb yn gwenu.  
 Swynai'r fron, gwnai'n llon y llu—â'i ganiad,  
 Oedd ogoniant Cymru :  
 Dyma lle ca'dd ei gladdu ;  
 Heb ail o'i fath, Jubal fu.

Mai, 1845.

 Gwnaed Beddadail a Thelyn arni, a cherfiwyd yr englyn olaf o'r ddau uchod is law iddi : drwy ymdrech yr ysgrifenydd, a chynnorthwy tansgrifwyr, gellir canfod bedd Dafydd y Garreg Wen, y telynor campus, ym Mynwent Ynys Cynhaiarn.

PENNILLION AR YR UN TESTUN,

*Pan y bwriedid gwneyd Cofadail arno ym Mynwent Ynys Cynhaiarn.*

Pa le y mae'r bysedd symmudent fel swyn,  
 I borthi chwaeth anian, mor fuan, mor fwyn ;  
 Mal " Codiad yr Hedydd" yn ufydd i nen,  
 Neu sio'n hyfrydlon y dôn " Garreg Wen ?"

\* Ynys Cynhaiarn,

Y bysedd symmudent, ogleisiant y glust,  
 Sy'n ddystaw a llonydd ; ow ! Dafydd heb dyst  
 Mae'n Monwent yr Ynys yr erys ei ran :  
 P'le yno dangoswch, os medrwch, y man.

Os drylliwyd y delyn, gostegwyd y gân,  
 Nis derfydd pêr anian, nis diffydd ei dân ;  
 A chofir am Dafydd dieilfydd ei dant  
 Tra rhedo un afon yn Eifion mewn nant.

I JOHN WILLIAMS, YSW., MEDDYG,

*Ty Newydd, Llanystumdwy, ac yntau yn fyw !*

Bedd Meddyg, tra byddai moddion,—drechai  
 Drachwant Angeu creulon ;  
 A gofir oesau'n gyfion,  
 Dair oes hir wedi'r oes hon.

Galen ei oes y'i gwelwyd ;—dynoliaeth  
 Dan wylo pan gollwyd ;  
 A'i gwedd wiw a'i lliw yn llwyd,  
 Oedd fud pan amddifadwyd.

Damwain oedd ei godymu,—annedwydd ;  
 E naid ef i fynu  
 A'r Angeu dewr, yr ing du,  
 A'i drachwant fyth wna drechu.

Y dydd olaf o 1844.

AR R. WILLIAMS, Y GILFACH, LLANFIHANGEL Y PENNANT.

Bedd Cristion union, anwyl ;—a gwresog  
 Ei ras yn ei orchwyl :  
 A'i yspryd mewn hyfryd hwyl,  
 Yn brysio i Nef breswyl.

AR ELIN, MERCH DAFYDD MORRIS, CERFIEDYDD, ARDUDWY,  
MEIRION,

Ar Elin ei ferch er wylo,—dyfal  
I Dafydd fu cerfio  
Ar ei bedd, i rybuddio,  
Lle daw'r gwrid i'r llaid a'r gro.

I DR. PRING, ORGANYDD, BANGOR.

Organydd ei ddydd oedd ef,—yn c'weirio  
Carol, cerub oslef;  
I fyn'd i Gôr ein Ior nef,  
Yn organydd Côr gwiw-nef.

AR GYBYDD.

A gafodd ef o bethau byd,  
Fe'u clodd i gyd i'w gadu  
I rai ereill ar ei ol  
(Fel yntau'n ffol) i'w taenu.

AR MISS CATHERINE PRICHARD, PORTH MADOG,

*Yr hon a fu farw o'r Darfodedigaeth.*

Er cri rhieni, hynod,—er curio  
Ceraint, a chydnabod;  
Gwywai gwedd, mewn bedd mae'n bod  
Rosyn y ddaear isod.

Ni erbyd yn ddiau yr angau yr un;  
Y lanaf, dirionaf, yr harddaf ei hun:  
Y fwyaf crefyddol, brydweddol ei bron,  
Neu b'asai, un hynod, y beddrod heb hon.

AR HUGH EVANS, MEILLIONEN, BEDD GELERT.

Ar ei draed, wr dirodres,—yr elai  
Ar alwad a neges:  
Un oedd i luoedd fu les:  
Ow'r fonwent ar ei fynwes!



Ow! huno porth anghenawg,—ow! nosi  
 Cymmwynaswr enwawg;  
 A mudo iawn gymmydawg;  
 Ail i hwn ni welir rhawg.

Yn Llenyrch na Meillionen—ni welwn  
 Ail i Hugh mewn angen:  
 Yn gymhorth, iawn borth, yn ben,  
 Hael oeswr, am elusen.

Er rhinwedd mewn bedd mae'n bod,—un ydoedd  
 Hynodawl mewn trallod;  
 Cymmwynasgar a pharod;  
 Iddo glŷn hyd heddyw glod.

AR GRIFFITH EVANS, HAFOD RUFFYDD, BEDD GELERT.

Darfu dydd Gruffydd, a gro—Bedd Gelert,  
 Er galar, sydd arno:  
 Newidir ef pan neidio  
 Y Wyddfa fel y llama llo!

Y Wyddfa neidia, newidir—Gruffydd;  
 Ei gorff adgyfodir;  
 I'r gwynfyd hyfryd a hir,  
 Neu i boen na ddybenir.

AR SAMUEL GRIFFITH, SADDLER, TREMADOG.

Os gwrol, nerthol ddyn iach—iawn ydwyt,  
 Neu odid neb harddach;  
 Pond yw rhyfedd? y bedd bach  
 Yma gynnwys d' amgenach!

AR WM. OWEN, MASNACHYDD, TREMADOG, YM MHENMORFA.

Cywirach yn masnachu—na Wiliam  
 Ni welwyd yng Nghymru:  
 Os yn Nef mae'n cartrefu,  
 Rhagorach fasnach ni fu.

## AR GRIFFITH ELLIS, YM MYNWENT YNYS CYNHAIARN.

Mynyddau, bryniau ein bro—a neidiant  
 Yn adeg y cyffro,  
 Yn rhydd daw Gruffydd o'r gro :  
 Dydd hynod ei ddihuno !

## AR MAURICE JONES, PARCIAU, CRUCAITH.

Un gonest teg ac union,— yn perchen  
 Parch a chyfoeth ddigon,  
 Oedd y gwr sydd goris hon  
 Mor wael, ym mblith marwolion !

## ARALL.

Teilwng wir barch y talai—bawb i hwn,  
 Bob un a'i hadwaenai ;  
 Uniawn oedd : un na weddai  
 Mewn bedd a llygredd gael llai.

Gwir iawn brawf sydd ger ein bron,—ac edrych  
 C, aradd ydyw'r meirwon ;  
 Un agwedd fydd enwogion  
 A'r gwr y sydd goris hon.

Duw didwyll a'i dywedai,—“Pridd yw dyn,”  
 Mai i'r pridd dychwelai :  
 Hyn a brawf ; hwn a brofai :  
 Fel hwn y profwn bob rhai.

*(Yr olaf a argraffwyd ar ei fedd.)*

Y didwyll Dduw dywedai,—“Pridd yw dyn,”  
 Mai i'r pridd dychwelai ;  
 Hyn a brawf ; hwn a brofai :  
 Fel hwn y profwn bob rhai.

## AR IEUAN LLEYN, YM MYNWENT BRYNCROES.

Tra bo Lleyrn a dyn adwaeno—fedrus  
 Iawn fydriad y Cymro,  
 Y ceir Ieuan fardd mewn co':  
 A mawl addas mil iddo.

## AR DOROTHY JONES, GLAN Y MORFA, YN NHREFLYS.

Daw gwys i Dreflys ryw dro,—hon eilw  
 Anwylion Crist ato ;  
 I'r Nef lân, o'r graian gro,  
 A'u gwedd yn debyg iddo.

## AR O. ROBERTS, TWLL Y CAE, YNYS CYNHAIARN.

Pob amrantiad ac anadliad  
 Yn symmudiad oes siomedig,  
 I ryw feddau, dygant chwithau,  
 Trwy funydau terfynedig.

AR WILLIAM A ROBERT WILLIAMS, Y GILFACH,  
LLANFIHANGEL Y PENNANT.

## AR WILLIAM.

O hyn allan yn holliach,—o'r Pennant,  
 A'r poenau'n y Gilfach ;  
 Gwyn ei fyd o'r bywyd bach ;  
 Mil o oesoedd melusach.

## AR Y DDAU.

Dydd y Farn gadarn pan godant,—frodyr  
 Hyfrydawl y Pennant :  
 Diogelach gilfach gant  
 Oes Iesu, ddewisasant.

## AR GARWR Y BYD.

Am y byd o hyd bu hwn,—a gafodd  
 O'i gyfoeth a welwn ;  
 Y bedd ar ei gorff yn bwn ;  
 Byth i'w enaid, boeth annwn.

1849.

## AR HENRY OWEN, DOLWGAN, YM MHENMORFA.

Unionach dyn ni anwyd,—amgenach,  
 Mwy gonest ni welwyd,  
 Mwy cywir, geirwir, garwyd,  
 Ni fu'n y llawr dan faen llwyd.

AR ANN ELLIS, YR *UNION*, TREMADOG.

Ni waeth heb gwyno weithian,—pawb yna,  
 Pob enw, gradd, ac oedran,  
 O fywyd a ddaw'n fuan ;  
 Mor'siwr, un gyflwr ag Ann.

Gorph. 1850.

## ARALL.

I'r Ynys daeth Ann o'r *Union*,—gwedi  
 Gadael pob helbulon  
 Anfelus a gofalon ;  
 I fynu hedd y fan hon.

## AR WR A GWRAIG.

Arddelasant, }  
 Gorchfygasant, } Hwyl yn Iesu.  
 A hunasant }

Adgyfodant }  
 Mewn gogoniant } Gyda'i deulu.  
 A didolant }

Arddelasant,  
Gobeithiasant, } Hwy yn Iesu.  
A hunasant

Adgyfodant  
I ogoniant } Gyda'i deulu.  
A didolant

AR FY CHWAER, MARY JONES, PEN Y BONT, LLAN-  
DEGWYNIN,

*A fu farw y 18fed o Fedi, 1851, yn ei 60fed flwydd.*

Cefn y Meusydd, yn Eifionydd,  
Hon i gynnydd yno'i ganwyd ;  
Mair ddewisodd ran na chollodd ;  
Ac a lwyddodd : yma'i claddwyd.

AR APOLONIA, YN YNYS CYNHAIARN.

Apolonia, O pa lanach—geneth  
O gant, na siriolach ?  
Heb un ail, neb anwylach,  
Sy'n annedd y bedd oer bach !

AR DDWY ENETH I O. JONES, GYNT O ESGAIR GAWR.

Dwy'n hynod anwahanel,—mewn un bedd,  
Mewn un byd ysprydol ;  
Ann a Sara'n ddwy siriol  
Mewn un Nef : a minnau'n ol.

AR RICHARD HUMPHREY RICHARDS, YSW., LLANFA R  
ISAF.

Doniawl oedd ; dyn ail iddo,—ni chofir,  
Ni chafwyd chwaith Gymro,  
Mor addwyn, â mawr eiddo ;  
Dyma fedd, ei ddiwedd o !

## AR WR A GWRAIG YN FFESTINIOG,

*A fuasent yn proffesu Crefydd, un 50, a'r llall 60 mlynedd.*

Yn eu bywyd un buant,—ar brif-ffordd,  
 Hir broffes a wnaethant :  
 Yn Iesu yr hunasant  
 A nef gydag Ef a gânt.

## UN ARALL, MEWN HUFYNT HER.

Arddelasant Grist, gorphwysant ;  
 A hunasant hwy yn Iesu :  
 Adgyfodant mewn gogoniant  
 A didolant gyda'i deulu.

Hunasant hwy yn Iesu ;—daw y dydd,  
 Duw a'u dwg i fynu,  
 Atø ef i gartrefu  
 I nef y nef ; cartref cu.

Mawrth, 1853.

## AR EVAN A MARGARET EVANS, PLAS LLANDECWYN.

Deuodd somiant, darfu llwyddiant ;  
 Nid hir fwyniant pan terfynodd :  
 Dau briodwyd, dau wahanwyd,  
 Ond dau unwyd yna tanodd.

Angeu blin, gerwin digariad,—achos  
 Ochain ac amddifad,  
 Ymaith a ddug fam a thad  
 O'u mwyniant a'u dymuniad.

1853.

A FWRIADWYD AR ELISABETH GRIFFITH, Y BRAICH,  
 LLANFIHANGEL Y PENNANT.

Ei llafur oedd yn Llyfr Ion ;—hi gofiai  
 Gyfoeth ei hanesion :

A'i ddedwydd addewidion  
Fu'n hyfryd o hyd i hon.

Geneth fu hon o gannoedd,—hi gofiai  
Brif gyfoeth yr oesoedd ;  
Gair Duw : O ragored oedd !  
Morwyn Naf, mawr yn nefoedd.

O anwyl, anwyl eneth !—hi heb lai  
Y Beibl oedd ei phobpeth :  
Oedd efo hwn yn ddifeth ;  
Ei phawb hi oedd, a'i phob peth.

1853.

Aeth hon yn eneth heini—o boenau  
Y byd a'i drueni :  
At Iesu Grist i oesi ;  
Ei air oedd ei phleser hi.

RICHARD ROBERTS, Ty Mawr.

## AR FASNACHWR.

Yn ei fasnach, ei unionach, un ni anwyd,  
Cymmwynasol, hael ragorol, wr a garwyd :  
Yn fardd celfydd, a hanesydd iawn i osod  
Maen i'w gofio : yma'n huro mae un hynod.

AR MRS. LLOYD, O BORTH MADOG,

*A fuasai farw o'r Darfodedigaeth.*

O'r bywyd nychlyd hwn aeth,—awr derfyn,  
O'r darfodedigaeth ;  
Pa ddiwedd, neu wedd, ni waeth ;  
A'r elw ym marwolaeth.

1856.

AR GOLOFN FYNOR YN EGLWYS TREFRIW, ER COF AM  
Y PARCH. EVAN EVANS.

Mawrygir y pen-Cymreigydd—enwog,  
Ieuan Glan Geirionydd :  
Tra bo Côr na Llenorydd,  
Ei enw yn fawr iawn a fydd.

AR GOF-GOLOFN DAFYDD IONAWR.

Dafydd Ionawr, mawr fydd Meirion—yn hir  
Iawn, herwydd ei meibion ;  
Y Bardd oedd fardd i feirddion,  
I goffhau ei fedd gaiff hon.

THE MARINER'S EPITAPH.

In diff'rent climes, on distant seas,  
He brav'd the storm, and hailed the breeze ;  
Death's hurricane at last did blow,  
And he was wrecked, and laid below.

1850.

AN EPITAPH FOR MR. ROOS, THE PORTRAIT  
PAINTER.

He painted life so well that Death  
Envied his art ;—withdrew his breath :  
Although with mortals here he lies,  
His Fame both Time and Death defies.

July, 1850.

AR MISS MARY GRIFFITH, CEFN COCH, YM MHENMORFA.

Er harddwch, tegwch, nid digon—rhinwedd,  
Na rhan cyfoethogion,  
Rhag ing hir, rhag angeu : hon  
Welir ym mhlith marwolion.



Mair anwyl ! mae'n merwino—y galon  
 Gwel'd y lle a'i chofio ;  
 A dwyn ei gwrid dan y gro :  
 Gelyn ni phaid ag wylo.

## AR DIC ABERDARON.

Ieithydd uwch ieithwyr wyth-iaith,—gwir, ydoedd,  
 Geiriadur pob talaith :  
 Aeth Angeu â'i bymtheng-iaith ;  
 Obry'n awr mae heb 'r un iaith.

## AR ROBERT AB GWILYM DDU, YN ABERERCH.

Y bedd lle gorwedd gwron—hynodol,  
 Iawn ; awdwr *Gardd Eifion* ;  
 Y Bardd fu fardd i feirddion  
 Oedd y gwr sydd goris hon.

## AR Y PARCH. JOHN JONES, TAL Y SARN.

Enwog Weinidog iawn ydoedd,—a'i enw  
 Yn anwyl gan filoedd ;  
 Yn dân ei lais doniawl ; oedd.  
 Fywyd ein cymmanfaoedd.

## AR Y PARCH. JOHN JONES, TREMADOG.

Selog a bywiog y bu—hir einioes  
 Yr Iawn yn bregethu :  
 O fwriad mewn cariad cu,  
 Dwyn ei oes dan iau Iesu.

Ebrill, 1859.

## AR Y PARCH. MR. PUGH, PERSON LLANFAIR.

Periglor pur i'w Eglwys,—hwn ydoedd  
 Yn Weinidog cymhwys :  
 Un cadarn â barn o bwys ;  
 Mewn gwir-ffydd y mae'n gorphwys.

Yn Llanfair e gair ar go',—a'i enw  
 Yn anwyl iawn eto,  
 Ar hanes, er ei huno :  
 I'w fedd anrhydedd a fo.

1859.

AR JANE ROBERTS, CEFN Y MEUSYDD.

Un gallach, fwynach, ni fu—na hon ; oedd  
 Yn addurn i Gy mru :  
 Am waith dyfal, gofalu,  
 Ei bath yn ei hoes ni bu.

Gorphenaf, 1860.

AR MRS. JONES, PEN Y BONT, LLANYSTUMDWY.

Dyma fedd gwraig rinweddol,—a'i doniau'n  
 Denu pawb i'w chanmol :  
 Pryd bydd ei heilfydd o'i hol,  
 Tybir, sydd anatebol.

Gorphenaf, 1860.

BEDDARGRAFF A'R GAIR SACRED AR Y BEDD YN  
RHUTHYN.


Dyma fedd, er dim a fo,—o gariad  
 Na agorwch mono :  
 Ei fedd ei hunan fyddo ;  
 A'i enw a'i ceidw mewn co'.

1859.

AR FEDD BRAWD A DWY CHWAER GYFOETHOG YN  
YR UN BEDD.

Er cyfoeth mawr, ac hefyd—anrhydedd,  
 Yn rhodio eu bywyd ;  
 O'u gogoniant gwag ennyd,  
 Dyma'u rhan fechan o fyd.

1859.

 Richard Roberts, Siop Crugan, Pwllheli, a'i ddwy chwaer,  
 Ann a Margaret, a gladdwyd yn Llanbedrog, oeddynt.

BEDDARGRAFF ARWERTHWR (*AUCTIONEER.*)

Myn'd, yn myn'd, yn myn'd, a mi—wedi myn'd,  
 Y mae'n awr y cyfri':  
 Gweddus i bawb yw gwaeddi—  
 "Myn'd, *yn* myn'd; AR fyn'd 'r wyf fi."

I WILLIAM EDWARDS, YSGEIFIOG.

Un â'i ddawn awenyddol—oedd beraidd  
 Barod anghymharol,  
 O eneniad anianol;  
 'Sgeifiog fydd enwog o'i ol.

I JOHN THOMAS, CHWILOG.

Dyma fedd, diwedd Bardd da,—ein Sion Wyn,  
 Sai'n Eifion ei goffa:  
 I Chwilog ni ddychwela  
 Ef, a gado'r Nef ni wna.

1861.

AR FERCH IEUANC RINWEDDOL.

Glanach na harddach na hon,—ni welwyd  
 Un ail o'r gwryfon:  
 Ow! daearu y dirion,—  
 Roi llaid ar lygaid mor lon!

Ionawr, 1862.

AR FERCH IEUANC DEG A DUWIOL.

Y lanaf un a luniwyd,  
 A fwriwyd yma i fedd:  
 Hi gyfyd yn brydferthach,  
 A mil hawddgarach gwedd.

BEDDARGRAFF GENETH IEUANC.

Yn oedran diniweidrwydd—y dygwyd  
 Y deg at ei Harglwydd:  
 Yno y wen yn ei wŷydd,  
 Yn ddiodid mae'n ddedwydd.

## AR BUMP O FUDANOD.

Y mud a'r byddar o'r beddau—glywant  
Galwad Ion ar Angau,  
Agor ei gedyrn ddorau  
Drwy'r byd ; wedi cy'd eu cau.

Gorph. 1872.

## AR LODES IEUANŶ, YM MHENMORFA.

Un serchog fywiog a fu,—un anwyl,  
Yn ennyn i'w charu  
Bob wyneb,—bawb i wenu,  
Sy'n annedd y dyfn-fedd du.


AR DAFYDD EVANS, O'R DDOLGOED, YNG NGHORIS,  
MEIRIONYDD.

Yma claddwyd un a barchwyd,  
Gywir garwyd, gwr rhagorol ;  
Ei rinweddau roent brawfiadau,  
A'i ddawn, diau, o ddyn duwiol.

1862.

## AR ELLIS OWEN ELLIS, Y DARLUNIEDYDD.

Bedd Arlunydd dihefelydd folir  
Oesau yn gyfiawn, a syn e gofir ;  
Ac yn ei *Oriel y Beirdd* y gwelir  
Anian, celfyddyd, a bryd ein brodir :  
Ei gywreinwaith goronir—amser maith ;  
Ein *gwlad* o'i fawr-waith, a'i *enw* glodforir.

 Yr ail oreu yn Eisteddfod Caernarfon, 1862 ; a'r goreu yn ol  
barn Nicander ac Eben Fardd.

## AR RICH. JONES, GYNT O BENABER, CRUCAITH,

*A gladdwyd Ion. 4ydd, 1863, yn Abney Park Cemetery,  
Llundain, yn 29 oed.*

Un da oedd o nodweddiad ;—un gonest  
Ac uniawn yn wastad ;

Cymro heb g'wilyddio 'i wlad ;  
A mawr oedd ei gymmeriad.

Anrhydedd i'w fedd a fo,—yr uniawn  
A'r anwyl fwyn Gymro  
O Eifionydd : a fyno  
Mwy ei gael, dyma ei go'.

## CYFIEITHIAD O'R UNRHYW.

A Welshman worthy of the name,  
Adding to his country's fame ;  
Quiet, modest, unassuming,  
Fair and upright in his dealing.

Sacred be the spot where he  
Rests in peace, from labour free ;  
In life faithful and sincere ;  
Born in Eivion, buried here.

## AR FEDD MERCH IEUANC, YM MYNWENT Y TAI DUON.

Er glaned, hardded oedd hi,—rhoed daear  
Y Tai Duon drosti :  
Cadw'r saint o'u braint a'u bri,  
Ni wna monwent na meini.\*

## AR FEDD DWY CHWAER, YM MYNWENT Y TAI DUON.

Dwy'n hynod anwahanol—yn y bedd,  
Yn y byd ysprydol :  
Heirdd eu gwedd, a hinweddol ;  
Ni fynai Nef un yn ol.

\* Darlleniad arall :—

Daw'r Iachawdwr i'w chodi  
I dir Nef o'n daear ni.

## I EDMUND EVANS, PREGETHWR GYDA'R WESLEYAID.

Cenad hedd : ei fedd wyf fi—yn Soar ;  
 Y mae'r Sant yn tewi :  
 I gannoedd y bu'n gweini ;  
 Gwaed y Groes i gyd ei gri.

## AR ROBERT PARRY

*(Tad Daniel Parry, Llanllyfni).*

Os nad aeth ef i'r nefoedd,  
 Nid ä neb : un da iawn oedd.

## I UN 90 MLWYDD OED.

Er hir oes, marw a raid,—er einioes  
 Yr hen Batriarchiaid :  
 Pawb yn byw, pob un a baid :  
 Gwahanu corff ac enaid.\*

## AR GRISTION ADFYDUS.

Y grasol, er ei groesau,—a'i fawrion  
 Nifeiriawl flinderau,  
 A gaiff ei beraidd goffhau  
 Yma isod am oesau.

## AR ROBERT JONES (ARCHENYDD), PORTH Y GEST.

Rhobert oedd ddjarhebol—yn ddyn mwyn,  
 Yn ddyn mawr corfforol,  
 A phrydydd : tra phriodol  
 Ei alw “ Un heb ail o'i ol.”

Mawr ei gorff, a mawr i gyd—o feddwl,  
 A'i fuddiol feddylfryd ;  
 Y bardd oedd ef, a hefyd  
 Y Cristion hyfrydlon fryd.

1865.

\* Darlenniad arall :—“ Y dyn, pa le bydd d'enaidd?”

## BEDDARGRAFF.

Pob enw a gradd, pawb yn y gro—dystaw'n  
 Diystyr orphwyso,  
 Hyd' alwad nef ddolefo,  
 "Dowch i gyd i fywyd fo."

AR MRS. JONES, PEN'RALLT, CAERNARFON.

Addfwynder ei thymmerau—fu effaith  
 Ei hoff ymddygiadau :  
 Yn ei bedd ei rhinweddau  
 Yn hir a gânt eu mawrhau.

AR MRS. MARY JONES, *MADOCK'S ARMS*, YN LLAN-  
 FROTHEN.

Un addfwyn o gynneddfau,—y miloedd  
 Molant ei rhinweddau :  
 Hi gaiff ei pheraidd goff hau  
 Yma isod am oesau.

AR MRS. GWEN OWEN, BATHAFARN, YNG NGHORIS.

O farw Gwen ! dirfawr gwyno !—un ydoedd  
 Nad oedd neb heb deimlo  
 Ei rhoi yng Nghoris goris gro,  
 Ac wed'yn yma'i gado.

BEDDARGRAFF I'R HWN Y PERTHYN.

Anrhydedd, mawredd, cymmeriad—uchaf,  
 Oedd ei wych nodweddiad ;  
 Yn enwog ddyn ; yn ynad ;  
 O les drwy ei oes i'w wlad.

BEDDARGRAFF.

Aeth pethau'r byd i gyd ag ef,  
 A cholli'r nef a wnaeth :  
 Cadd golled fwy na'r ddaear hon ;  
 Yr awron i b'le 'r aeth ?

## AR FARWOLAETH MRS. OWEN, YMWLCH.

Poen alaeth, pa un welwn—yn debyg?  
 Diobaith canfyddwn :  
 Y golled ! O ! pe gallwn  
 Ddweyd nid gwir, yn hir iawn hwn.

## ENGLYN

*A wnaed wrth gladdu Evan Evans (gynt o Dderwin Bach),  
 yn Llanfihangel y Pennant.*

Rhed i lawr Dwyfawr ar daith,—gwregysa  
 Graig Isallt a'i hymdaith ;  
 A mud fydd Ifan dro maith ;  
 Hyd alw i fywyd eilwaith.

## I EIRIADUR Y DR. O. PUGHE.

Geiriadur a mur yr Omeriaith,—llyfr  
 Llafurus orchestwaith :  
 Manylach, rhagorach gwaith,  
 Ni welir na hwn eilwaith.

1836.

## YMA AC YNO.

Yma yn einioes y mae newynu :  
 Yma dros 'chydig, am dro sychedu :  
 Yma egwyl oeraidd mae galaru ;  
 Yno llawn achos, iawn llawenychu ;  
 Yno di ball ddiwallu,—gwedi oes :  
 Yno twrf einioes wan yn terfynu.

YR SCHOONER *MARVEL* (RHYFEDDOD.)

“ Rhyfeddod ” hynod henwi—mor rhyfedd,  
 Mae rhyfeddod arni :  
 A llwyddiant diball iddi ;  
 Rhyfeddod hynod fydd hi.



Gormod rhyfeddod a fydd,—ei henw  
 Yn hynod drwy'r gwledydd,  
 Ro'i llawer, ond i'r llywydd,  
 Na dim; dyna drefn y dydd.

I'R PARCH. EDMUND PRYS, ARCHIAGON MEIR-  
 IONYDD.

Archdiacon Meirionydd,—diammheu  
 Rhoed yma fardd celfydd;  
 Oedd enwog, iawn Dduwinydd:  
 Heb ei fath, ni bu, a fydd?

Prif ieithydd, “ profai wyth-iaith,”—e garai  
 Y gywrain Gymreig-iaith:  
 Edmwnd Prys; gwyddys y gwaith  
 Genir, a genir ganwaith.

Tra cenedl Gymreig, tra canu,—Meirion,  
 A môr yn terfysgu;  
 Bydd cof per mewn llawer llu,  
 Ac amrith Salmydd Cymru.

Y dydd bydd Dafydd yn d'od—ac Edmwnd  
 Ei gydmar: cyfarfod  
 A wnânt, ac ail unant glod;  
 Y ddirfawr gân ddiddarfod.

I'R DYDDLIFR,

*A gyhoeddwyd yn y Wyddgrug yn 1837.*

Dyma lyfr, Dyddlyfr, un da  
 A geffir i hir goffa  
 Derbyniad, taliad, ond teg  
 Eu nodi mewn iawn adeg?  
 A gweddus iawn, gwyddys, yw  
 Cofrestr i gyd o'r cyfryw;

Ymorol rhag ymeiriau,  
 Un cyfrif, un dydd fydd dau.  
 Dengys â bys fel y bu  
 Gwed'yn ni ellir gwadu :  
 Pob dydd yn ei ddydd rydd o  
 Y diwrnod a roed arno.  
 Cofiedydd cyfa ydyw,  
 O'r hyn a wneir ; uniawn yw :  
 Dwg gofion yn deg hefyd  
 O'r mawrion, gwyhion i gyd :  
 Diddanus bob dydd ini  
 Gofion ein henwogion ni ;  
 Hoff edrych, byth ni phydrant,  
 Eu henwau geir oesau gant.

I dymmor ei ragor rydd  
 Oes arall ; yr amserydd ;  
 Sylwi wna'n hol-oesolion  
 Ar y sydd yn yr oes hon :  
 Diweddar ai cynnar caid  
 Y nwyfau gan hynafiaid :  
 Ai drud y farchnad ryw dro,  
 Neu sal iawn, isel hōno.  
 Ai isel iawn a sal oedd  
 I hel arian laweroedd ;  
 Oedd y dreth yn difetha ?  
 Achwyn o hyd dri chan ha'.

Hanesydd heb un eisiau ;  
 E geir hwn, hwn yn gwirhau ;  
 Cofion yr hen ddynion ddaw  
 Eu helynt gynt yn hwyliaw ;  
 Y byd da, oedd cyn bod hyn ;  
 Gryfed, ddedwydded oeddyn' :  
 Mai gwanach, salach rai sydd,  
 Gwaelion ; ond mwy dig'wilydd.

Hynafiaeth fydd hwn hefyd  
 O bell ; cyn diwedd y byd !  
 A syn fydd yr oes hòno  
 Yn llawn awch i'w ddarllen o ;  
 Beirniadu 'n bur hynodol,  
 A'n galw ni y gwaelion ol :  
 A fynant a wnânt a ni ;  
 Yn dawel y gwnawn dewi !  
 Eleni nyni'n iawn wŷr,  
 Soniwn am rai heb synwyr !

Gwelwn o ben bwygilydd  
 Mae'n fyr a difyr bob dydd ;  
 I brynu gwaith o'r bron gwell  
 Ni all agor un llogell.  
 Puraidd " ymwelydd " parod,  
 I rai sydd, neu fydd i fod,  
 A da i bawb ; diau bydd  
 Moliant hir i'r ymwelydd.

## P E N N I L L I O N ,

A achlysurwyd gan farwolaeth Owen Edwards, Ysw., Cefn Cynfarch,  
 (yn ddiweddar o'r Fron Oleu,) Trysorydd Cymdeithas Eifionydd,  
 er cospi Drwg-weithredwyr, yr hwn a gladdwyd yn Llangybi y  
 9fed o Dachwedd, 1831, yn 43 mlwydd oed.

*"Pa wr a fydd byw, ac ni wel farwolaeth?"*

Mor ffol yw blinderau, byr boenau y byd ;  
 Nid yw ein hamcanion ond gweigion i gyd !  
 Llawn siomiant yn symmud yw'n golud a'n gwedd ;  
 Rhyw derfysg anhyfryd yw'n bywyd i'n bedd.  
 Mawr, mawr ddydd ac awr,  
 Am byth adael tiroedd a lleoedd y llawr.

Ein cynhwrf a'n terfysg yn gymmysg ; ai gwir  
 Na phery ein gorthrech a'n hymdrech yn hir ?

Beth ddaw o ymryson fath fawrion ; beth fydd ?  
 Ai lle y fath dduwiau mewn beddau y bydd !

Mawr, mawr ddydd ac awr,

Am byth adael tiroedd a lleoedd y llawr.

Daw'n hymchwyydd a'n huchder, ein balchder i ben ;  
 Ni bydd wedi'n colli na sylwi na sen !

Na neb yn gofalu ryw fory be' fu,

Hwn yna sy'n gorwedd mewn daear, fedd du.

Mawr, &c.

Nid ydym i aros, hawdd dangos bob dydd,

Mae terfyn ein hamser ar fyrder a fydd :—

Rhy colli cyfeillion rybuddion di ball

Ein bod ninnau'n dilyn, naill un 'n ol y llall.

Mawr, &c.

Pa beth ddaeth o oesoedd, holl bobloedd y byd,

Y dewrion, y doethion, a'r gwychion i gyd ?

Ai nid yw anrhydedd, eu mawredd ddim mwy ?

A gollwyd eu graddau, a'u henwau mawr hwy ?

Mawr, &c.

Anrhydedd nid erys, mae'n hyspys yn hir,

I ddyn er ei ddoniau, ei deiau, a'i dir :

Er mynor golofnau, a beddau o barch,

Lle gollwng yn ango' yw'r amdo'n yr arch.

Mawr, &c.

I ganlyn holl luoedd yr oesoedd yr awn ;

A gado'n trigfanau, anneddau a wnawn

I ereill a ddeuant, na wyddant yn awr

Un radd am y siomiant sy'n llwyddiant y llawr !

Mawr, &c.

Ni erbyd, mae'n ddiau, yr angau yr un,  
 Y glanaf, tirionaf, na'r harddaf ei hun ;  
 Neu ni f'asai'n ddifri yng Nghybi yng nghudd  
 Mo Edwards, a chalon mewn bron mil yn brudd.  
 Mawr, &c.

1833.

## I H E N D R E F .

Amlwg, *Gaer Tanwg*, wyt ti,—*Tŷr Bronwen*,  
 Yn toi'r bryn lle sefi :  
 Caer Collwyn ar glogwyni ;  
 Hardd ar lech, HARLECH i'w hi.

## DYLAITH LLEYN.\*

Mae Lleyn heb ddim llawenydd ;  
 Fy mydriad yn farwnad fydd :  
 Cân o afar, cwynofain  
 Trwm, oer fydd, tra mawr ei faint ;  
 Cân olaf, cwyn a welir  
 Tra bo'n Aberdaron dir.

Bu Lewis wych:—ba les son—am William  
 Eilwaith a'i orchestion ?  
 Neu os eir i enwi Sion,  
 Ni cheir un o'i chywreinion !

Yn y llawr mae Ieuan Lleyn—yn ola',  
 Ei hanwylaf blentyn ;  
 Yna ffarwel, y delyn  
 A gloed ar helyg y glyn.

\* Anfonwyd yr Awdl uchod gan yr Awdwr at ei gâr Owen Owens, Bodnithoedd, yr hwn yng nghyd â châr iddo, Sion Owen, y Garddwr, o Benllyn, a ganasant ateb iddo ; a'r olaf a gyfansoddodd Gywydd Lleyn ar yr achlysur yn gampus.

Anniddan anian, unig,—yn edrych  
 Yn odrist grwydredig :  
 Mewn lle, bod, na thre' ni thrig ;  
 Alltudes neilltuedig.

Ow! Lleyn fud heb un llon Fardd,  
 Nac anian, na chân, na cherdd :  
 Machludodd, ymgiliodd gwir  
 Ddawn a phwyll o ddwyn i ffordd.  
 Ei meibion mawrion : am wedd  
 Yno ni chawn un ; na chwrdd  
 Gwr o ddysg ym mysg ei myrdd !

Ynfydrwydd o ben Carn Fadryn—edrych  
 At odre tref Nefyn,  
 Y moelydd, neu'r Maen Melyn ;  
 Lle gwag, lle llwyr-wag i'w Lleyn.

Aberdaron  
 A Llaneinion allwn enwi ;  
 Llanmihangel,  
 Eitha' tawel ! ni waeth tewi.  
 Mor anniddan  
 Yw Lleyn drwstan, â llen drosti.

Yn iach drefnus, a medrus ymadrodd ;  
 Y ddawn a'i goleu oddi yna giliodd :  
 Hon i'w meudwyaeth pan ymadawodd,  
 Mewn uchenaidd ddofn mwy ni achwynodd ;  
 Yn anwadol ni newidiodd—ei thaith ;  
 A'i nawdd wech eilwaith, fyth ni ddychwelodd.

Am y mawrion, cyfion y cofir  
 Eu henwau eilwaith ; hwy ni welir :  
 Y dynion doethaf, callaf collir,  
 “ Yn nyddiau angau ni ddiengir ;

Hwn a fedd fawredd a fwrir—heb ddim,  
A heb ddim, di-ddim y diweddir.

\* \* \* \* \*

Os gwir y gwelir i gyd—yn gyfan  
Gafodd ei ddywedyd ;  
Neu o ran : ar ryw ennyd  
Dangoser, profer mewn pryd.

Calan, 1841.

## I ARFON.

Gwae Arfon o'r son y sydd ;—dir gollod,  
Argyllaeth na dderfydd :  
Tan gwmwl trwm feddwl fydd  
Terfynau tir Eifionydd.

Enwogion, meibion ei maeth—a gollwyd,  
Gallu ei barddoniaeth :  
Ow ! attal ffrwd diluw fraeth  
Dynoddwr Duwinyddiaeth.

Och ! Arfon fu wech erfawr ;—am Dewi,  
Mud awen orchestfawr !  
Ys yw fud Elias fawr  
Darfu rhai mwy na dirfawr !!!

Gorchest bur natur yn hoedd—i r dynion  
Ro'i doniau yr oesoedd :  
Mwy penigamp unig oedd ;  
Eithriadau ei gweithredoedd.

Gwae Arfon o'r son oer sydd,—Eryri,  
Yr awrhon mal dolydd !  
Hynod yw :—ei henw a'i dydd  
A ddarfu ;—nid a dderfydd.

Maihafin, 1841.

O. Y. Yr Englynion uchod a gyfansoddwyd yn gyfeiriadol at y Bardd rhagorol Dewi Wyn o Eifion; a'r Pregethwr digyffelyb John Elias, o Fon, yr hwn a anwyd yn agos i derfyn Eifionydd, yng nghwr Lleyn. Yr ydoedd y ddau yn addurn i'w hoes, ac a fuasant feirw er's ychydig o amser yn ol.

## CWYN HENAINT :

NEU GYFFES FY MAM YN EI 92FED MLWYDD, 1840.

Gan Henaint ac anhunedd—mae'r oriau  
 Mor hirion ddiwedd :  
 Yn aros nos i orwedd ;  
 Ac oriau nos geir un wedd.

Fy ochain dan afiechyd—sy boenus  
 Beunydd, ac anhyfryd :  
 Methiant ac anesmwythyd  
 Yw fy hawl, fwyfwy o hyd.

Ar ddolur dolur yn dilyn—beunydd,  
 Rhyw boenau'n ail ennyn ;  
 Ac anwadal, gwn, wed'yn  
 Fydd ; gyda'r tywydd y tyn.

Ni welaf gan ryw niwlen ;—ni chlywaf  
 Uchel lais yn darllen :  
 A swn mawr sy yn 'y mhen,  
 Ar ddannedd yr Iorddonen !

Y nos os breuddwydio wnafl,—yr hiraeth  
 O'r herwydd ddaw arnaf !  
 A'r meirwon yr ymyraf,  
 Gwel'd rhai fu yn gu a gaf.

Y cof yn anghof hwn aeth,—ac enwau  
 Anwyl gydnabyddiaeth  
 Ni chofiaf, gwelaf, a gwaeth,  
 Henwaf bawb heb wahaniaeth.

Cof ydyw i'm cyfoedion—ymadael,  
 Mudodd fy nghyfeillion :



Oes arall sy, eu hwyrion :  
Ni adwaen bryd undyn bron.

Daeth yr awr a dieithr wyf,—ni wrendy  
Yr un dyn pan alwyf ;  
Adyn, diystyr ydwyf,  
Heb le ond monwent rhyw blwyf.


Fy mhlant gadawsant fi, do,—fy hunan  
Yn fy henaint ; cilio,  
Modd athrist ymddieithro ;  
Och aeth trwm, a chwith y tro !

Ni welaf mwy er wylo—mo honynt ;  
Hyny wy'n ddymuno  
Iddynt, nid byd a'i eiddo,  
Gras i fyw ; dwyn y groes fo.

Dyma fan heb ddiddanwch,—diammheu,  
Dyma annifyrwch ;  
Diferion pob difyrwch,  
Or-sychodd, lleibiodd y llwch.

Blino, oer-gwyno awr ac ennyd—yn  
Anniddan fy mywyd :  
O ! na chawn, na bawn mewn byd,  
O gwynfan yn y Gwynfyd.

Dydd Calan, 1840.

 Bu farw fy mam yn ei 94 mlwydd oed, ac ychydig cyn pen dwy flynedd wedi cyfansoddi'r Englynion uchod. Ymdrechwyd nid yn unig gadw ei chwynion ond ei geiriau ; a gorfu arni addef eu bod yn *wir* hollawl : er nad ymhoffai i'r cyfansoddydd ymyraeth â barddoni.

Ni cha bedd ei rhagorach byth.


## YR YMFFROST.

Cyrn gorn gafr nid af wyr dyn,—atolwg,  
 Talach wyf nag undyn ;  
 Dyma fi : dim i'w ofyn ;  
 A phwys ni roddaf ar ffyn.

Rhy ddifalch gan falch, gwn, fydd—fod yn ol,  
 Fod yn ail un prydydd :  
 Yn benaf, benaf beunydd,  
 Mwyfwy y son : myfi sydd.

Anfarwol, gwrol, o gewri—penaf ;  
 Heb boen 'r wy'n rhagori :  
 (Cryfion, mal mywion i mi)  
 Arwraidd Fardd Eryri.

1841.

 Gofynai Mr. Edward Parry, Caerlleon, a wnawn i adolygu gwaith Dewi Wyn; ac i'm hannog, dywedai y byddai i hyny anfarwoli fy enw. Er i mi addaw, anfonais y tri Englyn uchod iddo, i ddangos uchelfrydedd y meddwl.

Enbyd ac ynfyd, anferth,—er enw  
 Roi einioes yn bridwerth :  
 Barddoni yn bur ddinerth ;  
 Am enw gwael ro'i mwy na gwerth.

Prydydd difenydd wyf fi—a di enw,  
 Di anian barddoni :  
 Heb gymmaint a braint na bri ;  
 O'r diwedd bron ar dewi.

O.Y. Englynion fel y ddau uchod, heb un berthynas rhyngddynt, a gyfansoddid ryw bryd, oddi ar feddwl yn ddamweiniol, a gofid weithiau.

## I'R PRYDYDDION.

Dyma fardd, er dim a fo—dywedwch

Mai da ydyw wrtho :

Hyn a fydd yn ei foddio

Yn rhwydd, pe'n gelwydd o'i go'.

## TE DEUM Y DIRWESTWYR.

Hosanna! Hosanna! Ni seiniwn,

Yr Anthem a ganwn i gyd :

Mae'r gelyn, y gelyn ar gilio

Fu'n cwympo, trybestio trwy'r byd :

Adseinied ein bryniau, 'n mynyddoedd,

Fyddinoedd, sydd filoedd o faint ;

Y faner fuddugol a ddygwn,

Ymdrechwn, iawn brisiwn ein braint.

Cydseinied yr wybren odd uchod,

A'r ddaear deg isod ei gwawr ;

Y gelyn anfuddiol hen faeddwyd :

Gorchfygwyd, fe'i llethwyd i'r llawr :

Hosanna! Hosanna! cydseiniwn,

Clodforwn, ymunwn, Amen,

Mae Iubili sobrwydd yn dyfod :

Mae meddwdod yn barod ar ben.

1838.

## ARALL.

Mae buddugoliaeth fawr, clywch floeddio,

Gymry, dewch, Gymry, dewch ;

Ein mynyddau sy'n adseinio

Gymry, dewch, &c. ;

Y gelyn aed i lawr, i lawr,

I'r môr fel rhyw faen melin mawr :

O! dyma'r dydd, a dyma'r awr :

Gymry, dewch, &c.

## PENNILLION DIRWESTOL

ERBYN Y SEITHFED GYLCHWYL A GYNNELIR YN NHRE' A  
PHORTH MADOG, HYDREF 16, 1843.

*Ar y Mesur a elwir "WASHINGTON."*

Dyma fuddugoliaeth fawr;  
Dyma'r caerau'n d'od i lawr!  
Yma swm ei gwmp y sydd;  
Colli'r maes, a chario'r dydd,  
Dyma i sobrwydd Iubili;  
Heddyw sain Hosanna i ni:  
Häle', Haleliwia'n llef,  
Rhoddwn nes adseinio'r Nef.

Dyma gaerau meddwdod mawr,  
Gyda thwrf yn syrthio i lawr!  
Heddyw'r seithfed Gylchwyl sydd:  
Aed yn chwilfriw, wele'r dydd!  
Dyma i sobrwydd Iubili;  
Dyma sain Hosanna i ni:  
Haleliwia fyddo'n llef  
Nes adseinio Nef y Nef.

Hydref 10fed, 1843.

## YR IACHAWDWR YN GOSTEGU'R DYMHESTL.

Y gwyntoedd a ruthrent, gorwyga yr eigion,  
A'r tdnau ymgodant yn fryniau gorwynion;  
Deffrôdd y Gwardwr o'i gwsg, a llefarodd,  
Bu gosteg ar air; a'r 'storm a dawelodd.

Ionawr, 1844.

Cyfieithwyd ar ddymuniad J. H. Cotton, Deon Bangor.

## GORFOLEDD Y CREDADYN PRYDERUS.

*Ar y Dôn* "HYFRYD."

Os achubir ni o'r tân,  
 Os y'n gwneir yn berffaith lân,  
 Un ffurf â'i ddelw Ef:  
 O! hyn fydd yn rhyfedd,  
 Rhyfedd, rhyfedd, rhyfedd;  
 O! hyn fydd yn rhyfedd,  
 Ni yn addas yn y Nef.

Pan na flino pechod mwy,  
 Pryd na byddo poen na chlwy'  
 Yn hwy, nac unrhyw haint,  
 O! hyn fydd yn ddedwydd,  
 Dedwydd, dedwydd, dedwydd;  
 O! hyn fydd yn ddedwydd,  
 Oes hir yr Iesu a'i Saint.

Am eu caru, "Iddo Ef"  
 Cân y saint yn Nef y Nef,  
 Ac am eu golchi'n lân,  
 O! hyn fydd yn foliant,  
 Moliant, moliant, moliant;  
 O! hyn fydd yn foliant,  
 A gogoniant fydd y gân.

1832.

---

E M Y N A U .

Fy ngobaith dan bob croes  
 Yw'r Iawn, yr Iawn a roes  
 Ein Meichieu pur dan hoelion dur,  
 Ei lafur ef a'i loes.

Pan ddelo'r pryd daw'r saint yng nghyd  
 I wynfyd y nef wen,  
 Dadseinia 'u llef fel taran gref  
 Drwy nef y nef, "Boed iddo Ef  
 Y mawl a'r clod, Amen."

DOLCHGARWCH AM GYNHAUAF, AR AMRYW  
 FESURAU.

Rhyfeddwn bawb ac ofnwn Ef,  
 Penllywydd nef a daear ;  
 Gofalu am danom wnaeth mewn pryd :  
 O ! gwnaed ni i gyd yn ddiolchgar.

Er bygwth barn, trugaredd gu  
 Fu'n gwenu yn ei gwyneb ;  
 Ac ar ei phwys, O ! arwain Di  
 Ein calon i ddoethineb.

Tosturiol a thrugarog yw  
 Yr Arglwydd Dduw ; moliannwn :  
 Ein cadw a'n harbed a wnaeth Ef,  
 A gwranddo'n llef : diolchwn.

O ! ynfydrwydd ini rod-di  
 'N hamser gwerthfawr yn y byd,  
 I ddim, dim ond i'w glodfori  
 Ef, yr hwn sy'n haeddu o hyd :  
 Cynnal bywyd, rhoi cysuron,  
 Lloni â lluniaeth galon drist ;  
 Mwy na hyny, y mae'n rhoddi  
 Bywyd byth trwy Iesu Grist.

Duw, rhoddaist ini'n rhyfedd iawn,  
 Rhoi yn lle newyn gelloedd llawn :  
 Ond mwy, myrdd mwy a rod-daist Ti,  
 Rhoi einioes dros ein heinioes ni.

O ddydd i ddydd tra byddom byw,  
 Dysg er dy glod in' dd'od, O Dduw ;  
 Ac wrth fwynhau dy roddion rhad,  
 Dysg ini lefain Abba, Dad.

I'r Hwn sy'n rhoddi'n helaeth ein lluniaeth ar bob llaw,  
 Gan gadw'r barnau mawrion sydd chwerwon drymion draw ;  
 Y byddo clod diddiwedd (Duw yr amynedd mawr),  
 Gan bechaduriaid tlodion a llymion ar y llawr.

1838.

### CWYMP MEDDWDOD.

Er cwympto grymus wŷr i lawr,  
 E ddaeth ei amser yntau'n awr ;  
 O'r ddaear gwaed yn llefain sydd  
 Am ddial arno, dyma'r dydd ;  
 Na choded mwyach byth ei ben,  
 Fo'n llef nes yr adseinio'r nen,  
 Na choded mwy : ac yna cawn  
 Gydseinio buddugoliaeth lawn.  
 Ei fyrddiwn laddodd hwn, a mwy  
 Ro'i 'n archolledig dan eu clwy' :  
 Ond mewn un dydd y daeth ei farn,  
 O'r diwedd sethrir ef yn sarn ;  
 Ni chyfyd mwy, ei farnwr yw  
 Yr Arglwydd Hollalluog Dduw ;  
 Y nef sy'n llawen, ninnau'n syn,  
 Wrth edrych ar y pethau hyn.

### TAITH YR ANIALWCH.

'N ol teithio anialwch y byd,  
 Gelynyion mewn llid ar bob llaw ;  
 Rhyfeddir os gwelir ryw bryd,  
 Ni'n iach a diangol heb fraw :

## EMYN Y PLENTYN TYLAWD.

Ni seiniwn heb flinder na phoen,  
 Tu hwnt i bob gofid, mewn hedd ;  
 O! teilwng, O! teilwng yw'r Oen,  
 Gorchfygwr byd, uffern, a bedd.

## EMYN Y PLENTYN TLAWD.

Os ydwyf isel, dlawd, ddinerth,  
 Yr enaid gwerthfawr ynof  
 A bery wedi'r elo'r byd  
 A'i ing i gyd yn anghof.

Os wyf ddirmygus, gwael fy ngwedd,  
 Caf finnau'r bedd heb eiddo ;  
 Un llun a fyddaf yn y llawr,  
 A'r enwog mawr roir yno.

Darparu wnaeth rhagluniaeth lawn  
 I f' angen, cawn fy nghynnal :  
 Rhydd eto'n rhwydd ; fy Arglwydd i,  
 Un ydyw dianwadal.

Ni syrth un blewyn o fy mhen,  
 Heb Dduw o'r nen yn sylwi :  
 Yr un yw ar foreu a nawn,  
 Ystyriol, llawn tosturi.

Ni allaf gyfrif rhif pob rhodd  
 A ddaeth o'i fodd yn ddibaid :  
 Ond penaf rhodd cael Crist yn rhan,  
 Y fan i gadw f' enaid.

Ei foli wnaeth tra byddaf byw,  
 Fe wel, fe glyw'r trueiniaid ;  
 A'm hegwan lef a wrendy'm Ier  
 O ganol côr Seraphiaid.



## YMDDIHEURAD BARDD.

Teimlaf na feddaf foddion,—nag archwaeth,  
 Na gorchest prydyddion :  
 A heliwyf o wehilion  
 Fydd sal, fydd ry sal i'w son.

Meddwl rhyw feddwl a fu,—ail adrodd  
 Fo ledrad prydyddu :  
 Anaddas gyrghaneddu ;  
 Dyna gaf yn lle dawn gu.

Gosod rhyw ry ac eisiau ;—a methu  
 Cael ammeuthyn odlau ;  
 Dim newydd i gywydd gau,  
 A ganwyd gan ugeiniau.

Rhoi 'i hun yn wrthun, warthus,—ni wna doeth,  
 Neu un dyn gwybodus :  
 Rhoi 'i fyd ei waglyd us  
 Fydd asgen na fedd esgus.

Mydred y neb fo'n medru—o anian.  
 Yn uniawn fydryddu ;  
 Ac yn ddoeth : bid “ Gwyn neu Ddu,”  
 I filoedd i'w efelu.

Yr hyn a wnaŋ o'm rhan i,—nid canu,  
 Nid cynnyg barddoni ;  
 Ond gadael ei chael i chwi,  
 Yn dawel ; minnau dewi.

Mai 5med, 1845.

## AR ADGYFODIAD Y CORFF.

Dirgelwch o'r llwch a'r llaid—adgodi,  
 A i gydio â'r enaid,  
 Ni wŋyr cnawdol feidroliaid :  
 Credu'r Ior, Creawdwr, raid.

## I " ARDD ELFION ; "

*Sef Gwaith Barddonol R. ab Gwilym Ddu.*

Cyfarwydd fydd er cyfeirio—yr oes,  
 A'r oesoedd ddônt eto ;  
 Cyd a'r iaith y cedwir o :  
 Iawn ddernyn i'w haddurno.

## CANIAD YR HENWR.

Pwy yw'r hen wryn carpiog,  
 A dillad oll yn dyllog ;  
 Ae ar ei wyneb teneu wên,  
 Yn adyn hen annwydog ?

Cyffelyb yw i Ffrencyn,  
 Ag wyneb crychlyd melyn ;  
 Yn cario basged yn ddifraw  
 A nerth ei law wrth liny.

Mae'n ddigon hawdd ei foddio  
 Ar damaid heb ei dwymo ;  
 A chymmer letty, gwely gwael ;  
 Rhyw le i gael gorphwyso.

Ar dusw gwellt mewn beudy  
 Yn fynych bydd ei letty :  
 O ! gresyn na chai hen wr glân  
 Fyn'd at y tân, a gwely.

Na chwyner fymryn iddo,  
 Mae mwy na'r byd yn eiddo :

Mae'n *foddlon* : nid oes eisieu gwell,  
Na myn'd ym mhell i chwilio.

E gysg mor dawel, fodlon,  
A neb o'n boneddigion ;  
Heb iddo fraw, na gofid awr,  
Na phoen, na fawr ofalon.

O ddifrif, gyfoethogion,  
Ddymunech fod yn dlodion ?  
O ran yn byw am ronyn bach,  
Gael bod yn iach a boddlon !

Adwaenir Rhobert Morris  
Ar odre Cadair Idris,  
Yn Lleyrn a Mon, ac uchder Ial,  
Yn burion, a Llanberis.

Pererin Capel Garmon.  
A welir yn Nhreffynnon,  
Trwy Ddyffryn Clwyd fe ä heb fri,  
Gŵyr llawer, i Gaerlleon.

Yn siwr mae'n anamserol,  
Neu wedi d'rysu'n hollol :  
E gawsai groeso oes yn gynt,  
O daethai hynt yn deithiol.

Ai hwn yw'r Iuddew crwydrol,  
Sy'n teithio yn feunyddiol ?  
Ynte 'r Henwr yw o'r Coed  
Na welsai erioed y bobl ?

Mae'n debyg i ryw yspryd,  
Yn d'od o oesau'r cynfyd,,

I roddi tro o gylch y wlad,  
I'w chwilio, a dychwelyd!

Mae'n myn'd a d'od gan fwmian,  
A siarad wrtho 'i hunan;  
Ac weithiau bron na roddai floedd—  
“ 'Does dim fel 'r oedd yn unman!”

Nid oes na thai na thiroedd,  
Na llenyrch, na gwinllanoedd,  
Na môr, na mynydd; dim fel gynt,  
Ond gwlaw, a gwynt, a dyfroedd.

Ni welir o'n mynyddau  
Yn fuan ond carneddau;  
Hwy gludir ymaith oll i gyd  
I bellder byd yn llechau.

Ffyrdd geirwon Sir Feirionydd  
Ynt wastad fel afonydd:  
A'r môr yn llongau ar ei hyd,  
Fel pe bai i gyd yn goedydd.

Yn awr yn lle hwylbrenau  
Y gwelir ar y llongau  
(I gael eu hwylio'n union chwyrn)  
Ryw fath o gyrn simneiau.

Mae'r trefydd oll yn Saeson;  
A'r merched fel bon'ddigion:  
Os tynir draen, y leiaf hap  
A roir y' mhapyr n'wyddion.

Ym mhob sefyllfa dirion  
Mae palas gan y Saeson:  
Hwy biau'r dwr, y gwynt, a'r hin,  
Ein hiaith a ninnau'n union!

Mae'r Cymry, Ow! 'r trueiniaid,  
 Un fath a'r Gibeoniaid;  
 A'r salaf swydd ym mhob rhyw fan,  
 A'u tiroedd gan estroniaid.

Rhaid gwasgu'r glust a thewi,  
 A cheisio ymfoddloni:  
 "Y trechaf treisied" ym mhob man:  
 Beth gwell yw 'r gwan er gwaeddi?

Y mae cyfreithiau n'wyddion,  
 Taliadau i'r tylodion:  
 A gweithdai mawrion sydd i'w rhoi  
 Neu 'u gyra i droi olwynion.

Annheilwng enw elusen  
 Ar orfod rhoi rhag angen:  
 (Ni thâl mo'r curo gras a ffon)  
 Egwyddor hon sydd amgen.

Dyn byw! pob peth yn newydd,  
 Mewn aber, môr, a mynydd:—  
 Pe bai gonestrwydd i'w gael, gwn  
 Y byddai hwn yn newydd!

I frawd ni wiw ymddiried;  
 A chyfaill ni cheir weled:  
 Ac eiddo pwy yw hwn neu'r llall,  
 Oes pen a all amgyffred?

Ni ŵyr neb am Hynafiaid  
 Ond fel am Gynddiluwiaid:  
 Nac o'r pymtheg-llwyth, pwy y sydd,  
 Na phwy a fydd Omeriaid!

Ni soniant am eu tadau,  
 Am *ap*, nac *'rh* eu mamau;

Er bod arnynt, yn blino ceg,  
Gryn wyth neu ddeg o enwau !

Ni wyddant am hen bethau,  
Yn gestyll, ceirn, a muriau ;  
Nac am waith y Beirdd fu gynt,  
Na dim o hynt hen oesau.

Nid oes ond blaenau cymydd  
Ar fryniau Sir Feirionydd,  
Lle gwelir ambell Gymro glân  
Ar fin rhyw fân afonydd.

Maent wedi myn'd yn brinion,  
Neu braidd yn hanner Saeson !  
Yn Llundain, Llerpwll ; beth am hyn  
A ddywedwch, gynfrodorion ?

Dywedir mai mwy buddiol  
I Frydain ; ac afreidiol  
I ni yw cadw'n henw a'n hiaith,  
A'i fod yn waith gorchestol.

Er nad yw "wyn pob newydd"  
Y sydd ar led y gwledydd ;  
Y mae eithriadau, onid oes,  
Heb fod yn groes i grefydd ?

Mae addas Gymdeithasau  
Yn perthyn i bob parthau ;  
Yn rhodio'n lluoedd dref a llan,  
Yn wrol dan fanerau.

A modd i sobri meddwon  
A gafwyd : ond yw gyfion  
Cael dwyn y wlad o frad i fri,  
Yn debyg i Grist'nogion ?

Wel! wel! 'r wyf wedi blino ;  
 Yn chwennych cael gorphwyso ;  
 Heb geisio dim o'r byd a'i barch  
 Ond bedd, ac arch, ac amdo.

Mae hiraeth ar fy nghalon  
 Ar ol fy hen gyfoedion :  
 Un gonest, mwyn, caredig, hael,  
 Nid oes i'w gael yr awrhon.


Yr wyf yn awr yn foddlon  
 I'm claddu'ng Nghapel Garmon !  
 O boen a newidiadau byd,  
 Ymorwedd gyda meirwon.

Lle nad oes genfigenu,  
 Na neb yn croes ymddadlu :  
 Ond dystawrwydd tawel, syn,  
 A heddwch yn teyrnasu.

Heb neb yn cynnyg cwyno !  
 Yn dlawd, ac wedi blino :  
 Ond dyna'r unig fan i fod  
 I ddyn : heb dd'od oddi yno ?

Argreffwch yno Englyn,  
 I ddangos p'le rhoed corffyn  
 Hen wr, na welir mo'no hyd  
 Nes delo byd i'w derfyn.

Mawrth 6ed, 1843.

 Y ganiad flaenorol a achlysurwyd wrth weled hen wr o Gapel Garmon yn dyfod ar daith (fel yr arferai er's blynyddoedd), trwy Eifionydd, Lleyn, &c. Llettyai, bron bob amser, yn yr un lleoedd, sef y Wern, Llanfrothen, Meillionen, Cefn y Meusydd Isaf, Plas Du, Castellmarch, &c. Argraffwyd y gân yn y Cyhoeddiad a elwir y "Traethodydd."

Tachwedd 24, 1845.

## COFIANT JANE OWEN,

Merch Mr. JOHN OWEN, Dwygir, Amlwch, a Chatherine ei wraig;  
yr hon a fu farw yn y Fferam Bailey; ac a gladdwyd yn  
Nhrefdraeth, Chwefror, 1848, yn 19 mlwydd oed.

Dyn a *anwyd* yw 'n heinioes,  
A'i *farw* ef yw y fer oes.  
Rhyfedd, mwy rhyfedd mewn rhan  
Canfod, na phawb yn cwynfan;  
Dwyn un, na adwaenai neb  
Lanach hon, lonach wyneb:  
I Drefdraeth, ys aeth; y son  
A anafa hen Eifion.  
Sian anwyl, mae 'n syn yno!  
Dwyn y gwrid o dan y gro:  
Ei thegwch heb waethygu;  
Ei budd a'i dawn i'r bedd du!  
Agos (o flwydd) yn ugain,  
Ein gado wnaeth; gyda 'i nain.  
Nid anghofir yn hir hon;  
Gruddiau fydd ag arwyddion:  
Ei chofio fydd dra chyfiawn,  
Oedd o alluoedd yn llawn:  
Cofiai bennodau cyfan,  
Adnodau, a salmau; Sian.  
Wel! wel! yn Bethel bythoedd  
Ni dd'wed air! un ddiwyd oedd.  
Ow! yn bregeth ddi feth fod  
Hon a aeth, i enethod!  
Ei llais yw er eu llesâd  
"Ni wŷyr dyn ei ordeiniad."  
Pob rhyw, a gradd, plant Adda,  
Ië, morwyn wyl marw a wna.  
Awn ninnau ym mhen ennyd  
Fach, fach, at Jane bach o'r byd.



## Y DDIOD GADARN.

Y dewrion a archollodd ;	Y beddau anamserol,
A'r cedyrn rodd i lawr ;	O dewch, dangoswch chwi,
Y grymus rai a laddodd ;	Fod ynoch waed y nerthol
Gwnaeth alanasdra mawr :	Am ddial arni hi ;
O'i herwydd y bu llefain,	Y gweddwon a'r amddifaid,
O'i hachos golli gwaed,	Cydunwch bawb yn awr ;
Y miloedd yn wylofain	Mae cyfle i drueiniaid
Mewn dirmyg dan ei thraed.	Ymddial :—daeth ei hawr.
Ond henffych, henffych ddyfod	Brophwydi, gorfoleddwch,
Dydd mawr ei dial hi ;	Saint ac angylion glân ;
Dynoliaeth sydd mewn syndod	Y nef a'r ddaear, bloeddiwch,
Yn bloeddio Iubili.	Ac unweh yn y gân.

OWYN Y MEDDW A'I WAHODDIAD.	CWYN Y MEDDW A'I BENDERFYNIAD.
-----------------------------	--------------------------------

Yr ydwyf mewn caethiwed,	Yr wyf mewn gwarth a dirmyg.
A dirmyg llawer dydd ;	O dan gaethiwed mawr
Yr wyf mewn cyflwr caled ;	Anobaith ; yn annhebyg
O ! na bai 'nhraed yn rhydd :	Caf ond fy nhorï i lawr
Y meddwon yw 'nghyfeillion,	Yn feddwyn ffol anffuddiol,
A'u cyfaill hwythau, fi :	I bawb, ac im' fy hun ;
Ymadael ag ynyfydion	A'm cyflwr yn resynol,
A wnawn pe medrwn i :	Yn ddrwg fy lle a m llun.
O tyred yn Ddirwestwr,	O na, mi welaf nodded,
A bydd Ddirwestwr iawn ;—	Iach le i ochel loes ;
Cei goron y gorchfygwr ;	At ddirwest af : 'r wy'n myned.
A buddugoliaeth lawn.	Hyd pan derfyno f'oes.

Chwefror 14; 1850.

## ENGLYNION

Briodi WILLIAM OWEN, Ystum Cegid (Aelod o Gymdeithas Lenyddol Eiddionydd), â Gwen Evans, o'r Ddolgoed, Meirionydd, Gwener, y 19 o Hydref, 1849.

Er anifeiliaid gryn filoedd,—cariad.

Ceraint, a serch pobloedd ;

Adyn anniddan ydoedd

Yn ei gell ; ac unig oedd.

D'wedodd na fethodd yn un fan,—“ Nid da  
 Yw bod dyn ei hunan ;”  
 Ei Dduw'n rhwydd addawai'n rhan  
 Iddo un oedd o'i anian.

A rhodd wrth ei fodd a fu ;— uwch arian,  
 A cheraint a theulu ;  
 Ei gwyneb teg yn gwenu  
 Wna'r ddigllon galon yn gu.

Naturiaeth yn cyd-daro—â rheswm,  
 Ni rusement wrthbwysô  
 Y blinder fyr amser fo,  
 I'r mwyniant ry ymuno.

Y ddeddf oedd ddydd a fu—(a ordeiniwyd)  
 I'r dynion gydmaru ;  
 Er hedd ac ymgeledd gu,  
 Dau'n addas gyd-anneddu.

Mor addas fu ymarweddiad—Wiliam,  
 Wele, fel ei gyndad ;  
 Mal hwnw, â delw ei dad,  
 Mynodd a'i Wen ymuniad.

Gwyn ei fyd gyda Gwen fo—einioes hir ;  
 Un i son am dano ;  
 Oes hwn yn *batrwn* y bo  
 I Brydain a briodo.

“ Morwynion glân Meirionydd”—a welai  
 Wiliam yn ddieilfydd ;  
 A rhdoe o Ddolgoed i'w ddydd  
 Un fynai yn Eifionydd.

Henffych well iddo bellach,—a mwyniant  
 Ymunol gyfeillach ;  
 A hil aneiddil, iawn ach,  
 Yn gannoedd heb amgenach.

Mor eirwir ar dir a'i dad,—mor onest,  
 Mor anwyl nodweddiad ;  
 O'i enw, a'i les yn ei wlad ;  
 Fo William efo'i alwad.


Un o ddeg, ni wna ddigon ;—un o fil,  
 Un o fwy fo'r Porthmon !  
 A fago bendefigion ;  
 Ywain a'i lwyth o'i Wen lon.

Teg un ar bymtheg y bo—ei uthr lwyth,  
 Athrylithgar Gymro ;  
 Doed a ddel, oesau welo  
 Fyrddiwn o'i ach fawr ddawn o.

Ei arwyddair a roddwn,—a'i hanes,  
 A hwnw gyssegrwn ;  
 “Byd da wedi'r bywyd hwn”  
 A'r ennyd yr ymranwn !

Na bo Wynedd heb Oweniaid,—soniant  
 Am synwyr eu hendaidd ;  
 Mor union, cyfion y caid  
 Un (yn Nef) o'u hynafiaid.

Hydref 22ain, 1849.

 His father Henry Owen, Dolwgan, formerly of Tyddyn Adi, born at Cwm Mawr, was noted for his integrity, even in the Principality. He lived in those turbulent times when Napoleon Buonaparte waved the French Eagle over Europe; and when peace was restored; when almost all the local Banks failed; and at a time when the fluctuation of prices ruined hundreds;

yet he never failed, "but lived beloved, and died an honest man." Probably there was no man in the age in which he lived, who had the confidence of more, or deserved it better, than Henry Owen. The following Epitaph suited him.

Unionach dyn ni anwyd,—mwy gonest,  
 Amgenach ni welwyd;  
 Mwy cywir, geirwir, garwyd,  
 Ni fu'n y llawr dan faen llwyd.

Owen or Ywain is supposed to be derived from Ywen, the singular of Ywydd, or yew-tree, emblematically denoting constancy, being ever-green. Gwen, a prefix, as Gwenllian, or as white as linen, supposed to be very ancient; as Hendref Gwenllian in Merioneth, Cae Gwenllian in Eifionydd. Gwen also was noted in Catholic times, as Gwenfrewi, Winifred, being simply the feminine gender of white or *gwyn*. From the Fifteen Tribes of North Wales are descended most of the Landed proprietors and gentry. The poet would have Gwilym Ywain, the founder of an additional tribe (the sixteenth), and be the Hwfa ab Cynddelw of future ages.

June 6th, 1850.

### ON TIME:

WRITTEN IN MRS. JONES OF YNYSGAIN'S ALBUM.

Even such is Time, that takes on trust  
 Our youth, our joys, our all we have;  
 And pays us but with age and dust;  
 Who in the dark and silent grave,  
 When we have wander'd all our ways,  
 Shuts up the story of our days! \*

IN MISS JONES' SCRAP-BOOK.

Time was is past: thou canst not it recall:  
 Time is, thou hast; employ the portion small:  
 Time future is not; and may never be:  
 Time present is the only time for thee.

\* Sir Walter Raleigh, 1618.

## A M S E R .

Pa beth *ydyw Amser?* Rhyw yspaid a roed .  
 Rhwng dechreu di adechreu, yr hwn oedd erioed ;  
 A diwedd heb ddiwedd ; fyth byth i barhau :—  
 Mae iddo fesuriad : pwy ddirnad y ddau ?

Pa beth a *rodd Amser?* Rhoes gyfle teg iawn  
 I ddangos gorwychder, a dewrder, a dawn :—  
 Ac hefyd mai gwacach na gwagedd i gyd,  
 Yw'r cwbl, y cwbl, y cwbl yng nghyd !

Pa beth a *fu Amser?* Bu ddigon ei hyd  
 I gyrhaedd doethineb, na dderfydd cyhyd  
 A byth ; y byth bythoedd, oes oesoedd : hyn yw,  
 Rhoi heibio ddrygioni ; i ddyn ofni 'i Dduw.

Pa beth a *wnaeth Amser?* Anfonodd fil, mwy ;  
 I anghof, na wyddir p'l'e 'r oeddynt, na phwy :—  
 Os buont yn gyfion, neu drawsion am dro ;  
 Llwy'r gollwyd eu hammharch, eu cyfarch a'u co'.

Pa beth a *wna Amser?* Gyr bawb fel y bo  
 Yn farwol at filoedd yr oesoedd i ro :  
 A gad hwynt yn llonydd tra pery 'i oes ef ;  
 A'r pryd y gorfloeddir, " Ni bydd," gan y llef.

Beth *gawsom gan Amser?* Myfyrio beth fydd ;  
 A chael yn ysgrifen i'w darllen bob dydd,  
 Yr hyn fydd i chwithau, a minnau, a myrdd :—  
 Prysurwn, ystyriwn, a phwyswn ein ffyrdd.

Ionawr, 1846.

## I NOS SADWRN.

Nos Sadwrn a osodwyd—yn derfyn ;  
 Darfu 'r wythnos gafwyd :  
 Yn olaf, hon a welwyd,  
 Ai olaf un welaf wyd ?

ENGLYNION A YSGRIFENWYD AR DDALEN  
BEIBL Y FORWYN.

O'r Llyfrau, gorau i gyd—Llyfr Duw nef,  
Llafar dawn ei Ysryd :  
Wrth luoedd, bobloedd y byd,  
Duw didwyll yn dywedyd.

Rheol ragorol, gywrain ;—a hanes  
Hynod iawn i'w ddarllain ;  
Ac o ladd wŷr :—cledd o'i wain,  
I wahanu ein hunain !

Llun y ddeddf oedd yn greddf, —iawned oedd,  
Yn y dyn cyn pechu :  
A'r ddeddf foesol fanol fu ;  
Y rhad ras ry drwy Iesu.

Anhebgor drysor daear isod,—da  
I'r dyn o'i fabandod :  
Mewn henaint y mae'n hynod ;  
A da fyth ydyw ei fod.

Dyled pob un lle delo— 'n ddiesgus  
Ei ddysgu a'i gofio ;  
Na fydded anufuddion :  
Llyfr iawn yw : Llyfr ein Ion.

1850.

Y NOSWAITH.

Noson, a'r noson nesaf, yw heno  
I hōno fydd olaf ;  
Am farw y myfyriaf ;  
Heb law'r oes, i ba le 'r af?

Mawrth 23, 1851.

## Y NOS HON.

Noson, a'r noson nesaf,—yw heno  
 I hōno bydd olaf ;  
 I ben oes, O ! buan af,  
 Am farw mwy myfyriaf.

Erfyniaf, Ior, i f'enaïd—y bywyd  
 A bery yn ddibaid ;  
 A ffoledd buchedd a baid :  
 Oes hir hoff y Seraphiaid.

## GOD SAVE THE QUEEN.

Llwydd i Victoria lon,  
 A hir fo einioes hon ;  
                   Duw cadw hi.  
 Buddugol ar ei sedd  
 Y byddo hyd y bedd,  
 I'n llywio 'n hir mewn hedd :  
                   Duw cadw hi.

Y cadarn Ior, a'r nerth,  
 Chwal ei gelynion certh  
                   I'r llawr fel lli ;  
 Gorseddfainc Prydain Fawr  
 I'th ofal rhown yn awr,  
 Penllywydd nef a llawr,  
                   Amddiffyn hi.

1851.

## W R T H F E D D C Y F A I L L .

Pe pwysid holl fwynderau byd,  
 A'r croesau i gyd sydd ynddo ;  
 Pwy dd'wedai gwell yw byw fel fi  
 Na marw fel ti a'i ado ?

1851.

## ENGLYNION YR HOSANAU COCHDDU,

A rodd Mrs. GWEN OWEN, Ystum Cegid, i Ellis Owen, Cefn y  
Meusydd, 1852.

Teilwng, o galon talaf—â diolch;  
Dyled hoff sydd arnaf:  
Diolch i Wen Owen wnafr;  
Am ei 'Sanau mwy soniaf.

Sonir am y par hosanau—bob tro  
Y bo traed a choesau;  
A meilwng a chymmalau,  
A merch wen fal Gwen yn gwau.

Am gochddu ni bu, ac ni bydd—ei bath  
Yn bod yn Eifionydd:  
Yr enw i Feirionydd  
Am wau hosanau y sydd.

Bellach ni bydd fawr ballu,—neu ochain  
O achos pesychu,  
Yr anwyd, na darn rynu,  
Yng ngwisgiad y ddafad ddu.

A ddygwydd i'r meddygon—y caswir  
Eu coesau yn noethion?  
Iechyd i'r ferch hael-ferch hon,  
Feddyges fwy o ddigon!

Cadw 'r traed a'r gwaed a gaf—yn gynhes  
Gan Wen yn y gauaf;  
A'r gwanwyn nid oer gwynaf,  
Gwedi gwau'n tymmorau 'n haf.

Yr awen ni wna rewi,—wna barug  
Y boreu mo'i hoeri;  
Cynneu o hyd y cawn hi;  
Gwen addfwyn fydd gân iddi.



Nyddda'r holl gynghaneddion,—a gweua  
 Gywydd ac englynion,  
 Er ei chystal orchestion,  
 Gwen o hyd fydd y gân hon.

I'R MIS RHAGFYR, 1852.

Rhagfyr, annifyr iawn yw,—na welwyd  
 Un o'i ail, na'i gyfryw ;  
 Gwlaw oedd ddoe, a gwlaw heddyw ;  
 Pa hwyl fydd heb haul i fyw ?

Ein hafonydd ni fynant—eu terfyn,  
 Yn ei twrf ymledant ;  
 Ac i'r meusydd gormesant ;  
 A phwll yw pob dól a phant.

Pob nant a chornant yn chwyrnu,—er braw,  
 A brys mawr o'r ddeutu ;  
 Llifeiriant yn llefaru  
 Dan gwmwl dwl, dwl a du.

Y pontydd uwch y pantiau—a chwalwyd,  
 Dymchwelent yn ddarnau :  
 Nid dwthwn i wneyd teithiau,  
 Pan bo llif, cenllif yn cau.

Daeargryn cyn hyn fu, hynod—arwydd  
 A erys o gyfnod,  
 Ac oesau daear isod :  
 Terfynu, nesu i nod !

Ionawr, 1853.

ENGLYN COFNODAWL.

Mil, wyth gant, meddant i mi,—a deugain,  
 Deg a dwy o flwyddi,  
 Oedd oed Cred pan fu redli,  
 A llawr Brydain Fawr yn lli.

1852.

PA OES OEDD HON? A PHA AMSER Y, BU Y  
PETHAU ISOD?

Rhith-grefydd benrhydd na bu—un o'i bath,  
Na ni bydd: proffesu,  
Ac ar weithrediad gwadu;  
A brad yn lle cariad cu.

Mawr y swm ymrysonau,—a'r cynhwr',  
Hanner cant o bleidiau;  
Yr ethol, gwladwriaethau;  
Yw testyn y gelyn gau.

Pregethu pob brygawthen,—darlithio  
Lwythi pedeirolfen;  
I fagu cas genfiger,  
A lledu swydd llid a sen.

Gwiliwr nid ofergoelion—ond rhyddid!  
Treiddio i ddirgelion  
A challaidd ddwfn ddichellion,  
Y rhai sydd yn yr oes hon.

Llwyr fwyta, difa y defaid,—bagad.  
Y bugail yn fleiddiaid;  
Am y corff, a mwy y caid,  
Lluddo 'r wyn; lladd yr enaid.

Satan a'i Jesuitiaid—â'u bryd  
Y radychu 'n ddibaid;  
Chwilio, cyfrinio a raid  
I dylwyth yr hudoliaid.

1852.

EMYN NADOLIG..

(8 SILL. EDCM.)

Pa hynod ryfeddod mor fawr  
A synai angylion y nef?

Daeth Duwdod i ddyndod ! yn awr  
 Gogoniant a llwyddiant yw 'r llef.  
 Gwel'd Tad yr ysprydoedd, a byw,  
 Yn blentyn mewn enawd yn y byd ;  
 A dyn yn cael heddwch â Duw ;  
 Sydd syndod annhraethol i gyd.

Elohim tragwyddol â gair  
 Ddywedai y " bydded," a bu ;  
 A aned o Forwyn, o Fair ;  
 Creawdwr, Llywiawdwr pob llu ;  
 Rhyw ddyben anfeidrol o fawr,  
 Rhyw gynghor na welwyd ei ail,  
 Heddychu y nefoedd a'r llawr,  
 A chariad yn sylwedd a sail.

Mae ganddo freniniaeth o hedd,  
 Tangnefedd a chariad oll yw ;  
 Nid rhyfel â tharian a chledd,  
 E geidw ei elyn yn fyw :  
 Ei Yspryd, nid llu, ac nid nerth,  
 Orchfyga 'i elynion i lawr ;  
 Mae iddi ogoniant a gwerth,  
 Ym mhen y mynyddau mae'n awr.

Dadgenir yn anthem y Nef  
 Gan Sereiph, angylion, a saint,  
 Gogoniant fo byth iddo Ef  
 Ennillodd, a brynodd ein braint ;  
 Caed modd i wneyd aflan yn lân,  
 A ffordd i gael euog yn rhydd ;  
 Achubwyd pentewyn o'r tân ;  
 Y marw ga'dd fywyd a fydd.

Pan derfydd holl oesau y byd,  
 Pan rifir trefn amser i ben,

Y gân fydd ogoniant i gyd,  
 Yn oesau, oes oesoedd nef wen ;  
 Am achub a chadw, iachäu,  
 Sancteiddio yn addas i'r nef :  
 Y testun fydd byth i barhau—  
 “ O teilwng, O teilwng yw Ef ! ”

Y gallu a'r nerth fyddo 'n awr,  
 Gogoniant a mawredd a chlod,  
 I'r Hwn ddaeth o'r nefoedd i lawr,  
 Yn ben yn y nefoedd mae 'n bod :  
 Ei uno, ei eni, a'i Iawn ;  
 Gostyngiad, dyrchafiad drachefn :  
 Y Duwdod, y dyndod, y dawn,  
 Rhyfeddwn, edrychwn y drefn.

1852.

## Y PASC, 1853.

Am Oen Pasc yr holl genedloedd,  
 Cofio wneir yn Nef y nefoedd :  
 Gwyl a gedwir yn oes oesoedd  
 Am ei hachub gan fil miloedd.

## ENGLYN.

*Ar briodi Capt. Griffith Dedwith, ag Eliza Evans, Ty Mawr,  
 Tywyn, Meirionydd ; merch Ieuan Ebrill.*

Bo Gruffydd Dedwydd wr da ;—yn goron  
 I'w gwr bo Eliza :  
 Boed llwydd i'r ddau Ddedwydd, a  
 Nef yn ail, a fo 'n ola'.

Mawrth y 30, 1854.

## PENNILL AR LIBANUS. M. N.

Y syndod mwyaf sydd, a rhyfeddod fydd,  
 Y golchi 'n lân, y cadw o dân ; am hyn bydd cân :

Mae gobaith yn awr, ei werth pa mor fawr,  
 Fod moddion i farwolion fyw? Syndod yw  
 Dyn a Duw, rhyfedd yw; Iesu 'n marw, 'r aberth hwnw  
 Rodd i feirw fodd i fyw:—  
 Ei glodfori gaiff heb dewi  
 Wedi 'r heulwen fawr ddiffoddi:  
 Teilwng, teilwng yw.

Mai 1af, 1854.

### PENNILL AR GARIAD.

*Rhoddwyd yn destun i'r Gyndeithas Lenyddol, a dyma un  
 o honynt.*

Pa beth ydyw rhwymyn tangnefedd,  
 A'r hedd a fydd byth yn parhau?  
 Y mwyaf o'r grasau:—ni dderfydd,  
 A newydd fydd hwn heb wanhau?  
 Ond cariad: a chariad y Dawdod  
 Yn dyfod i gymmod â dyn,  
 Fydd testun gorfoledd mil filoedd  
 Yn anthem y nefoedd yn un.

Mawrth, 1855.

### ENGLYNION,

I Mr. JOHN THOMAS JONES, a aned yn Dynana, Llanystymdwy, ond  
 yn bresennol yn aros yn Lle'rpwll, yn Glerc mewn Banc.

Y Bardd *Gwyn* cyn hyn fu 'n hynod,—a'r *Du*,  
 Yn wir dau o Lewod:—  
 Ond y *Melyn* a fyn fod  
 Y trechaf o'r tri uchod.

Plwy' Llanystumdwy, pa le—trwy Wynedd  
 Tirionach? Hen gartre'  
 I nwyd barddoniaeth y ne',  
 A thra eglur ei thrigle.

Hen Eiddionydd awenawl—hoff ini,  
 A phwy na wna'th ganmawl?  
 Ar dy fron meibion y mawl  
 A ddygaist yn fuddugawl.

Maethaist, ymddygaist ddegau—o feirddion  
 Fu urddas i'r oesau :  
 Ti yw gwlad y caniadau,  
 Praw in' o hyd heb brinhau.

Y mae John o hon yn hanu,—wele  
 Hil Pymtheg-llwyth Cymru ;  
 Yn addas gynghaneddu ;  
 Mab Eifion o galon gu.

Ei wlad ef ni wad yn wir—er arian,  
 Neu er aur na rifir :  
 Hyd ei fedd y coleddir  
 Cof iawn hon, o ca fyw'n hir.

Llun y Pasc, 1855.

## YSGRIFENWYD AR DDALENAU BEIBLAU WRTH EU RHODDI.

Llusern nefol a'r ddaearol,  
 Llwybrau dynol, obry dywynodd ;  
 Iawn arweinia a'i dilyna  
 I Nef eithaf ; hon ni fethodd.

Cyfrol y dwyfol air doeth,—er synwyr  
 I resynus annoeth ;  
 Hon a gafwyd yn gyfoeth,  
 A goreu ceir nag aur coeth.

Dysg ddarllain yn gywrain ragorol ;  
 Dysg gofio'n dasg gyfan wastadol ;  
 Dysg fyw'n dda'n dasg feunyddiol ;  
 A phaid â dilyn y ffol.

## I'R NOSON.

Noson yw hon, un sy hynod,—olaf  
 Welir; pwy sy'n gwybod?  
 Mae un, olaf un i fod;  
 Diwedd oes, a dydd isod.

Y TYDDYNWR I'R LLANERCH Y CLEDDID EI  
 ANIFEILIAID.

Dyma gladdfa o'r ddystawa',  
 Y rhyfedda' er a fu;  
 Cedyrn, nerthol, bywiog, gwrol,  
 Oll yn llesol; yma'n llu:  
 Darfu 'u poenau, a'u gofidiau,  
 Eu blinderau yr un dydd:  
 Dim yn blino, na'u cystuddio,  
 Ne'u hanfoddio mwy ni fydd.  
 Anghyfiawnder a chreulonder,  
 Iddynt her a roddant hwy.  
 Beth a gawsant, beth a welsant,  
 Ni bydd yn eu meddiant mwy.

Nid oes hiraeth dwys o'u herwydd,  
 Nid oes aflwydd, ond yw syn?  
 Ni bydd cyfrif am a wnaethant,  
 Neu a haeddant, wedi hyn!  
 Yma'n llonydd y gorweddant,  
 Ac ni chodant fyth ychwaith:  
 Darfu'r penyd, dyma 'u dedryd,  
 A'u gwobr hefyd am eu gwaith.  
 Eu holl ofnau, dyoddefiadau  
 Yn eu dyddiau, hynod aeth:  
 Pa beth oeddynt yn eu helynt,  
 Mwy nid ydynt well na gwaeth'

Nid oes faen er coffa am danynt,  
 Pa oed oeddynt, pa hyd. aeth  
 Eu henw a'u hanes oll o gofres  
 Byd a'i rodres, eu byw draeth :  
 Ni chofrestrir dros yr oesoedd  
 Eu gweithredoedd yma a thraw ;  
 Ni bydd iddynt adgyfodi  
 Wedi 'u rhoddi gan y rhaw.  
 Eu tragwyddoldeb a dreuliasant ;  
 O buant, mwy ni byddant byth  
 Mewn llawenydd chwaith na galar  
 Yn y ddaear fyddar fyth.

Nid oes angel uwch eu beddrod  
 Yn gwarchod hyd ddiwrnod ddaw ;  
 A phan ddêl y floedd ar feirwon,  
 Yn eu bron ni bydd un braw :  
 Ac ni waeddant ar y creigiau,  
 Ar y tyrau, caerâu certh,  
 "Cuddiwch ni ;" ond byddant lonydd,  
 Er crynu mynydd yn nydd nerth.  
 O'r dim daetnant, i'r dim aethant,  
 Yno byddant : dyna'u bedd !  
 Heb ddim mwyniant, heb ddymuno ;  
 Dim yn rhwystro'u hun o hedd.

Y gormeswyr, ben-rhyfelwyr,  
 Milwyr, treiswyr, lawer tro,  
 O! na chaech chwi lechu yma,  
 Yn y gladdfa hon tan glo :  
 Gallech orfoleddu 'n angau,  
 A chwifio eich banerau 'n iawn,  
 Heb eich profi ddydd y cyfri'  
 Yn llofruddiaid, lleiddiaid llawn.  
 Er mor galed bydd *raid* myned,  
 At y dynged sy eto 'n d'od.:



A llwfrhau fel plentyn gwirion  
A wna glewion a fyn glod.

Chwi ffeilsion au athrawon,  
Bleiddiau blinion yn un blaid,  
Efol ragrithwyr, wag broffeswyr,  
Dyma'r lle, diammheu'r llaid  
I ymguddio wedi twyllo,  
Wedi blingo ; nid heb ladd:  
O ! na chaech chwi'r fynwent yma  
Sy i ragorach rhyw a gradd !  
Ond ! ond ! ond ! rhaid rhoddi cyfri',  
Rhaid i chwi gyfodi o fedd ;  
O ryw gladdfa, nid hon yma ;  
Lle mae'n huno llu mewn hedd.

Gorphenaf, 1854.

A TRANSLATION OF EBEN FARDD'S ENGLYN.\*

I'd forget the toil and strife  
Of this weary, troublous life,  
At Cefn Meusydd : I would be  
Happy for an age in thee :  
There kind Nature's face is smiling,  
In its thousand forms so charming.

ENGLYNION

Ar ymweliad y Cantorion ieuainc, campus, o Dremadog â Chyfarfod.  
Llenyddol Eiddionydd yng Nghefn y Meusydd, Hyddfref  
y 24, 1848.

Canasant nes cynhesu—yn llonwech.  
Holl anian o'u deutu ;  
Er yspryd bywyd y bu ;  
Nwyd wybren yn dadebru.

\* Anghofiwn am oes yng Nghefn y Meusydd.

Digymhar yn lliniaru—gofalon  
 Anfelus ; gwasgaru  
 Ofnau a gofidiau fu,  
 Flin aidd yn aflonyddu.

Nid tŷn fel Handel yw hi,—na Mozart  
 Yma sydd yn lloni ;  
 Ac nid côr yn clodfori :  
 Sain o Nef a'n syna ni.

Y nefol, foesol fiwsig—a'n swyna  
 Y seiniau plethedig ;  
 A dwylaw dyn dileu dig-  
 Ofaint i'w fan gyntefig.

Chwarau ar dannau er denu—nwydau  
 Niweidiol, a threchu  
 Y dyn oedd gyndyn, yn gu ;  
 Yr oen gwirion i garu.

Hawddamor i Gerddorion—gorenwog,  
 Riniodd Gwmmwd Eifion :  
 I filoedd y nefolion  
 Chwareant, lleisiant yn llon.

### CYWYDD Y RHEW.

Mae gerain ac ymguro,  
 A brys ar bawb yn ein bro :  
 Rhyfedd ar fysedd mil fod  
 Aml awch, a mêl uchod.  
 Gofyn gwell ar logellau  
 Na 'r diwrnod hir, dyrnaid hau :  
 Mynu gwaed mae min y gwynt  
 I'r wyneb ar ddwyrein-wynt.

Dwyn euog o dan awyr  
 A ddell i'w wydd; eiddil wŷr.  
 Brodor oer, brawd yw i'r ia,  
 Hael gywaeth, hil y gaua';  
 Gwydr o nef godre y nant  
 Disgleirwyn, dysglau ariant;  
 Clusttlysau ar gernau geillt,  
 Gorwynion y geirwon-eillt;  
 Mynor gwyn, manna'r gweunydd,  
 Wna'r nos ymddangos yn ddydd;  
 Sebon y golchyddion chwyrn,  
 A dwr wisg a dyr esgyrn;  
 I ddwyrudd y ddaearen,  
 Pob un oer, pibau y nen;  
 A grisial y graig resog,  
 Na chlyw gân uchel y gog;  
 Llathredig lawr llithradwy  
 Saer y main, y ser a mwy;  
 Palmant plant y deg plwy';  
 I bob un ei bibonwy;  
 Ysglawring yn dysgleirio  
 Na wel dyn ei waelod o;  
 Ewinrew yr hin a'r rhod:  
 Trecha' elyn trychwilod.  
 Gyr ei wyneb, gwr Ionawr,  
 Wele, lu yn wylo 'i lawr!

Tua 1848.

## I DYWYDD GWLAWOG GYNAUAF YD.

Haf a chynauaf hefyd—barhaodd  
 Er boreu y cynfyd,  
 Ac a fydd, tra bydd y byd,  
 A'i ddyddiau heb ddiweddyd.

MEWN BEIBL A RODDWYD I DOROTHEA  
M'LEAN.

Y Llyfr yw, oll o fwriad—dwyn y dyn  
Dan aden y Ceidwad ;  
A dwyn i heddwch â'i Dad,  
Y gelyn o'i wrthgiliad.

Llyfr Ion, llafar ei enau,—i ddynion ;  
Diddanwch yr oesau,  
I ddwyn i'r gwir ddyn o'r gau,  
A'i gynnal yn nig angau.

Allwedd, trugaredd agora—i'r truain,  
Trwy Iawn y Messia ;  
I ddyn yr hyn oll sy dda,  
A dedwyddyd had Adda.

1856.

I GYMDEITHAS GYNNORTHWYOL TRE' A  
PHORTH MADOG.

Hyfryd mewn iechyd ichwi—yw darbod  
Erbyn daw tylodi :  
Tra siriol fydd trysori,  
A chael eich echwyn i chwi.

DAW Y DRWG I'R AMLWG.

Er ei gelu i'r golwg  
Diau ryw dro, y daw'r drwg.

O hir ymlyn, i'r amlwg,  
Er oedi dro, y daw drwg.

OCHENAID AM MR. ROBT. LLOYD, FFESTINIOG.

Robert Llwyd fwriwyd at feirwon,—briw mawr  
Bery mwy i Feirion :  
Annifyr yw yn Eifion  
Golli Llwyd, oedd gall a llon.

Addfwynaf oedd o ddynion,—ei wyneb  
 Anwyl a serchoglon,  
 A'i ddenawl ymddiddanion,  
 I ni braidd sydd ger ein bron.

Un caredig, gostyngedig,  
 Yn nodedig hynod ydoedd ;  
 Y siriolaf, a'r llarieiddiaf,  
 Mwyna', isaf : un mewn oesoedd !

Ffestiniog enwog ini,—dy feibion  
 O febyd sy'n colli ;  
 Eu cof sai'n adgof i ni  
 O honynt wrth eu henwi.

Mor anwyl ym Meirionydd  
 Ei meibion, dynion eu dydd ;  
 Llwydiaid hynafiaid hwn oedd  
 Yno'n fawr ; o'u niferoedd  
 Cynfal, ddihafal hefyd,  
 Fydd mewn co' tra byddo byd.

Na chawsai, fuasai 'i fedd  
 Genym yn naear Gwynedd ;  
 Lle cawsem ddwys orphwyso,  
 Yno gael ei ddwyn i go',  
 Y Cymro glân ac anwyl,  
 Gyd ag ef gyd-gadw gwyl ;  
 Yn fud, heb neb yn y fan  
 Hynod, ond ef ei hunan ;  
 A ninnau, ar ben einioes,  
 Yn gweled oer dynged oes ;  
 A darllen ar ben y bedd  
 Ei enw, ei oed, a'i annedd ;  
 A'r englyn a ganlyn i'w gof,  
 Nodyn ing, nad ä'n anghof :

Os serch a chariad y sydd—i barhau,  
 E bery 'n dragywydd  
 Ei glod ar led y gwledydd,  
 Glân wr iawn o galon rydd.

Heddwch fo i'w lwch lechu,—er y twrf  
 A'r terfysg o'i ddeutu:  
 Hoffai ei lon galon gu  
 Heddwch ; mae yn ei haeddu.

Er gauaf na haf, o hyd,  
 Och alar, heb ddychwelyd  
 I'w artref bydd yn nydd neb,  
 I randir ei diriondeb.  
 Er wylo na chwyno chwaith,  
 Ni ddaw 'n ol, wiw ddyn, eilwaith,  
 O'i weryd i'w hen orawr,  
 Mwy na doe, un munud awr.

Ni waeth heb gwyno weithian,  
 Dyn i fedd, dyna y fan :  
 Yn rhyw le ; ni wŷr y wlad,  
 Na'r fonwent, ei derfyniad :  
 Yn Llundain ca'dd ei gladdu ;  
 Yn Ffestiniog bywiog bu :  
 Hyn o gof yno gafwyd,  
 Y lle y bu Robert Llwyd !

Rhagfyr, 1855.

### PENNILLION

I'W CANU NOS GALAN, 1856, YNG NGHYFARFOD LLENYDDOL  
 CEFN Y MEUSYDD.

(*Ar y Mesur*—“CREIGIAU LLANBERIS.”)

Y mae bywyd gwyh ac iechyd  
 Ini'n hyfryd iawn o hyd ;  
 Yn ddifyrweh a diddanweh,  
 Eang heddwch gawn yng nghyd :

A chawn eto gyd-obeithio,  
 Heb gwyno na gofidio fawr,  
 Ond mwynhau ein bywyd beunydd  
 Yma'n llonydd ar y llawr.

Blwyddyn newydd (boed yn ddedwydd)  
 Gaed, a llwydd fo herwydd hon :  
*Gobaith* ynddi a wna godi  
 Meddwl difri' llu yn llon ;  
 Ffynnon cysur, gynnal natur .  
 Dan bob dolur yw i'r dyn ;  
 Yn hwn cydia, nis gollynga,  
 Hyn yn angeu ynddo glŷn.

Balm yn ddiau i anhwylderau,  
 Hwyr a borau ini bydd ;  
 Ysbienddrych drwyddo i edrych,  
 Ini'n fynych hwn a fydd :  
 Pwy a'i prisia? Gwerthfawroca'  
 Ydyw o holl bethau byd ;  
 Mewn trallodau, cyfyngderau,  
 Hwn yw'r gorau un i gyd.


Gobaith ddarfu ddal i fyny,  
 Er ein llethu bron yn llwyr ;  
 Gobaith ddengys fel mynegfys  
 Y lle'r erys, llawer wŷr :  
 Y mae genym i ymgynnal,  
 Mor ddihafal yw o hyd ;  
 Eto flwyddyn delo i'n dilyn ;  
 Hwn i ganlyn hon i gyd.

Ymhyfrydwn, a dysgwyliwn,  
 Ni obeithiwn yn ddiball ;  
 A gwnawn hefyd ein dyledswydd,  
 Yna llwydd ga'r naill a'r llall :

Gwneyd iawn ddefnydd o'r flwyddyn newydd,  
 O ddydd i ddydd a fydd i ni,  
 I'w hir gofio wedi 'r elo  
 Heibio ei holl ddyddiau hi.

### I'R ANRHYDEDDUS LLWYD MOSTYN.

Rhodd o barch unawl rwydd i berchenog  
 Gwir wyddorion, gwr union gorenwog;  
 Iawn seneddwr, a gwladwr goludog:  
 Yn hir e ddyrchir ei enw ardderchog  
 Am ryddid; iawn, mawreddog—Llwyd Mostyn,  
 Un bâr i'w ddilyn yn bur ddihalog.

 Bwriadwyd hwn i'w roddi ar anrheg a wnaed iddo gan ei  
 Gydwladwyr.

### GOD SAVE THE QUEEN.

I'n hoff Frenines ni  
 Y byddo parch a bri  
                                 Ar hyd ei hoes.  
 Drwy holl deyrnasoedd byd  
 Mawryger hon o hyd;  
 A hedd a fo bob pryd  
                                 Ar hyd ei hoes.

Eneiniwyd hi yn iawn  
 A synwyr ac â dawn:  
                                 Hir oes i hon.  
 Dan ofal Nef y bo  
 Rhag brad nac un drwg dro,  
 Amen, poed felly fo:  
                                 Hir oes i hon.



## ENGLYN,

*A anfonwyd i'm chwaer Mari ar ei hir afiechyd.*

Iawn a doeth, hynodiaethol,—ydyw ffyrdd  
 Diffael Hollwybodol :  
 A gweddus i'r Tragwyddol  
 Yw gwneyd a dadwneyd yn ol.

## BUGAIL BLAEN Y PENNANT I'W GI PERO.

Ni fu well ei na Phero  
 Yn unlle 'rioed yn troedio ;  
 Fe ddeil lwdn yn ei nerth  
 Ar ochr serth heb syrthio.

Am addas godwm iddo  
 Mae'n gampus ; myn ei gwympo :  
 Ni bydd fawr ennyd yn ei droi,  
 Ac heb ei gnoi na'i rwygo.

A phenaf yw'r un ffunud  
 Am annos ; yn y munud  
 I ffwrdd ag e yn ddigon pell,  
 Nid oes ei well am symmud.

Nid rhaid mo'r hwïo, hwïo,—  
 Un parod iawn yw Pero ;  
 Raid dim ond gwaeddi, “ dal, dal draw ;”  
 A chodi llaw tuag ato.

Wrth hel y defaid dofion  
 Y bydd wrth fodd ei galon ;  
 Yn gwylio bylchau ym mhob clawdd,  
 A diau hawdd adwyon.

Os ânt o'r ffordd cyfartha,  
 A hel hwy yn eu hola' ;

Ni chânt o'u lle ond amser byr,  
Mae gyda gyr y gora'.

Yn agos at fy sodlau,  
Yn barod hwyr a borau ;  
Bydd wrth fy nghwt ar hyd y dydd  
Yn edrych fydd ei eisiau.

Hyd ochrau Moel i Hedog,  
Neu Lwytmor yn galonog,  
Efe a'm canlyn ar bob awr,  
Drwy dywydd mawr a gwlawog.

Mae'i gorff a'i goesau'n hirion,  
Yn ddu ond blaen ei gynffon ;  
A llygaid glas diniwaid sydd ;  
Ei glustiau fydd yn sythion.

Ni chym'rwn fuwch am dano;  
Yr oreu ga'dd ei godro ;  
Na wnawn, nac aur, nac arian chwaith,  
Purion, nid at waith Pero.

Caiff ran o'm tamaid, dyma  
I Feryn glwt o fara ;  
I draed y gwely y caiff dd'od  
Yn barod at y bora'.

Os cenais dipyn iddo,  
A rhywun yn fy ngwawdio ;  
Dymunwn iddo'n fugail fod,  
Ammharod heb fy Mhero.

Mawrth, 1856.

### CAERNARFON.:

Son am gwm, a dôl, a phant ;  
Ac hefyd nant ac afon :

O bob man mewn llan a lle  
Gwell gen'i dre' Gaernarfon.

Am Ynys Fôn hir son a sai',  
Meirionydd a'i morwynion :  
Ond y fan a garaf fi  
O hyd wyt ti, Gaernarfon.

Llanw a thrai y F'enai fawr  
Gofiant eu hawr yn gyfion ;  
Fel pe'r hoffent yn eu lle  
O ddeutu tre' Gaernarfon.

P'le mae'r llongau'n d'od yn llawn  
O rwygo'n iawn yr eigion ?  
O bob man o dan y nef,  
I ymyl tref Gaernarfon.

Cestyll, tyrau c bob gradd,  
Twmpathau'r wadd neu'r mywion,  
Ydynt oll i gyd yn awr  
Wrth gastell mawr Caernarfon.

Ym mha le mewn tref na gwlad  
Y ceir mor rhad ysgolion ?  
A chystal addysg mewn un lle  
Ag sydd yn nhre' Gaernarfon.

Dyry ffraeth athrawiaeth rydd  
Ei dewr Newyddiaduron,  
Enw i hon, tra enw'n bod :  
A phery clod Caernarfon.

Yma mae cyfreithwyr iawn,  
Yn meddu dawn a moddion ;  
A chyfiawnder yn eu bryd ;  
Awn atynt, hyd Gaernarfon.

Y rhaĩ claf ac afiach, dewch,  
 Ac yma cewch feddygon,  
 Gofalus, cywrain, medrus, mwyn,  
 I wrando cwyn Caernarfon.

Masnachwyr ynot ti a gawn,  
 Rhai gonest iawn ac union :  
 Ni bu Tyrus yn ei bri  
 Yn uwch na thi, Caernarfon.

Dynion mawr, a mawr eu gras,  
 Yn addas weinidogion ;  
 A'u gweithredoedd da heb ri'  
 Sydd ynot ti, Caernarfon.

Pe meddwn ddawn mi ganwn fwy  
 Yn deg, nid mwy na digon :  
 Pwy all beidio gwneuthur cam  
 Wrth ganu am Gaernarfon.

Chwefror, 1857.

Caer yn Arfon, son y sydd—am danat ;  
 Mae d'enw drwy'r gwledydd :  
 Nerthol, ragorol geurydd ;  
 A hyd ddiwedd byd y bydd.

### Y DIRWESTWR.

Rho'f anair i f'enw ; ni fyddaf yn feddw,  
 O gariad at gwrw, ar hwnw'n rhy hael :  
 Mae digon o ddiod, yn beraidd, yn barod  
 I mi bob diwrnod ; gwell gwirod i'w gael.

Yn feddwyn ni fyddaf ; nid gwirod a garaf,  
 Da rwystr, dirwestaf tra byddaf fi byw :  
 Hen eilun dielw i fyw ac i farw,  
 Yw gwirod neu gwrw ; di enw da yw.

Ffarwel iwch, gyfeillion, fo bur i'r gwlybyron,  
 O wyllys fy nghalon ; mae moddion i mi  
 Gael amgen cyfeillach, rhai gwrol rhagorach ;  
 Sydd fwynach, sy sobrach, a challach na chwi.

Chwefror, 1857.

## ENGLYNION

I Ffon a anfonodd GRIFFITH JONES, Ysw., Glyn Lledr, i ELLIS  
 OWEN, Cefn y Meusydd, 1856.

“ Henaint ni ddaw ei hunan,”—yn dilyn  
 Mae'i deulu anniddan ;  
 Y war grom mal gŵyr gryman ;  
 A mil o gamau mân, mân.

Llusgo, nid rhodio a rhedeg,—a'r traed  
 Yn trydanu'r gareg :  
 Oedi ar oedi yw'r adeg,  
 I hir daith yn ara' deg.

Na chawn nerth a chynnorthwy—i'm gafael,  
 Gofid bod heb dramwy ;  
 A'm trigfan mewn un man mwy,  
 Ansymmudol oes meudwy.

Dyma ffon, a hon yw hi,—un gollen,  
 Gallaf bwyso arni ;  
 Mae'n rhodd wrth fy modd i mi ;  
 Mewn henaint mi ä'n heini.

I'm dal a'm cynnal y caf—y rhodd hon,  
 A rhwydd hynt y cerddaf :  
 Nid i ffos ar nos yr af,  
 Y dwthwn yr ymdeithiaf.

Y naill wiw gyfaill a gofiodd—am y llall,  
 I'm llaw yr anfonodd  
 O'i gyfoeth mawr a gafodd,  
 Cofus ran, y cefais rodd.

Cofir yn hir, hir iawn, hon,—a Gruffydd  
 Y gwr hoff wnaï 'i hanfon :  
 Ac felly bydd cyfeillion  
 O serch, a bery'r oes hon.

Dymunaf, coeliaf o'm calon,—i Ruffydd  
 Orhoff bob cysuron  
 Sy ddaionus i ddynion,  
 Oes hoff, hir, heb eisieu ffon.

### I GRIFFITH JONES, LLANIESTYN, LLEYN.

Fel basgedwr a chawellwr,  
 Y mae'n eiliwr o'r manylaf ;  
 Ei blethiadau yn droadau  
 Yw coronau y cywreiniaf.

Ni fu 'rioed well cawellwr,—chwai, astud,  
 Na chystal basgedwr :  
 Pen y gamp hon yw y gwr,  
 Heb un ail, yn ben eiliwr.

Gorphenaf, 1858.

### PROEST GYFNEWIDIOG CHWEBAN I'R BEIBL.

Gair y Nef, goreu, i ni :—  
 Geiriau coeth y Duw doeth da ;  
 Am y sydd, a fydd, neu fu ;  
 Yn llwyr ym mhob man a lle ;  
 Amen oll yw ; y mae'n llw ;  
 Ef dysgwn, cadwn mewn co'.

Mawrth, 1858.

### I'R BEIBL.

Llusern fu i'r holl oesoedd,—yn arwain  
 Rhyw aneirif luoedd,  
 Drwy erwin flin ddryghinoedd  
 I fyw,—i fyw yn Nef, oedd.

Llewyrch fu i draed llawer,—i'w cadw  
 Rhag codwm i'r dyfnder :  
 A'u dwyn hefyd i nifer  
 Yn addas yn ninas Ner.

Rhagfyr, 1858.

### Y BYD.

Pa beth a dd'wedaf am y byd ?  
 Mai byw o hyd wyf ynddo :  
 Nis gwn beth eto ganddo gaf ;  
 Na phryd yr af o hono.

Ionawr, 1859.

### I ORIEL ELLIS OWEN ELLIS, LLE'RPWLL.

Pa bleser syber y sydd—fwy difyr ?  
 Dyfais y Lluniedydd :  
 Rhoi'r mawrion, dynion eu dydd  
 I'w gweled gyda'u gilydd.

Adnabod eu hwyneb—yn uniawn  
 A wneir ym mhen oesau :  
 Adwaenir hwynt a'u doniau,  
 A hir y cânt eu mawrhau.

Sylwi wna yr oloesolion,—edrych,  
 Adrodd eu gorchestion ;  
 Wrth syllu, synu a son  
 Ar eu doniau ceir dynion.

Ar eu pennau a'u hwyneb,  
 Yn eu lluniau y darllenir  
 Tueddiadau, naturiaethau ;  
 Uniawn nodau na newidir.

Yr Hanesydd, a'r Amserydd,  
 Hynafiaethydd ; hwy ni fethant ;

Wrth eu henwau, eu trigfanau ;  
Y dyddiadau hefyd ddodant.

Dyna gamp y doniau i gyd,—erchwyn  
Orchest y gelfyddyd,  
Fydd bob tro tra byddo byd,  
Un Ellis ein hanwylyd.

Yn addurn i'n hanneddau,—yn harddwch  
Yn urddo'n palasau,  
A'n newyddion neuaddau,  
Y bydd hon ; bawb yn boddhau.

A chyhyd a'r byd y bydd—i'w gweled  
Yn golofn y celfydd ;  
Hir einioes i'r awenydd—  
“ Cymry a fu, Cymry fydd.”

1858.

## YR UNIG.

I'r byd y dygwyd fi, do,—fy *hunan* ;  
Af fy *hunan* drwyddo ;  
A chofiaf tra caf y co'  
Fy *hunan* af o hono.

## BYRDRA YR OES.

Yn nyddiau ein blynyddoedd—faint ydynt  
Fu i'n tadau'n gannoedd ?  
Trigain a deg :—adeg oedd,  
Adeg i chwareu ydoedd.

## YR HEN UNIG.

Fy hunan yr wyf heno,—a heb neb  
A wna fy nghysuro :  
Un oeddwn cyn heneiddio  
A gawn—waeth heb ddwyn i go'.



## YR ANGEU.

Rhaid im' fyn'd er dim a fo  
 O'r golwg ; ni cheir gilio,  
 Na throi'n ol, na thrin awen,  
 Pan ddêl hyd bywyd i ben ;  
 Ni chymmer ddoibr na gwobrwy,  
 Er rhoi ein hoes awr yn hwy :  
 Gorfodwr, mor gryf ydyw,  
 A dry bawb o dir y byw ;  
 Pan geilw y pen-gelyn  
 (Rybudd dwys) i'r bedd ä dyn,  
 Ni wrendy ef ar undyn,  
 Efe gwrandawriad a fyn :  
 Y mae'n frenin gerwinol,  
 A'i air yn llw na eilw'n ol ;  
 Ymherawdwyr mawr ydynt  
 O'i flaen mal plu gwaen mewn gwynt.  
 Doethion ac ynfydion fydd  
 I'w golyn fel eu gilydd.  
 Diystyroddesturi,  
 A chroes, wylofain, a chri.  
 Ni wyddom a gawn heddyw,  
 Neu fyth dd'weyd ganddo fath yw :  
 Disymmwth, nid oes somiant,  
 Daw 'm mhob rhith i blith ei blant.

Ebrill, 1859.

## AR OL DARLLEN GWAITH DEWI WYN.

Dyma nerth cryf anferthol,—tywyniad  
 Doiau anghydmareol :  
 Na bu'r un neb ar ei ol  
 O raddau mor fawreddol.

## EFELYCHIAID O FARDDONIAETH Y TYRCIAID.

*I'r* byd hwn—ac *o'r* byd hwn  
 Pa nifer a ddaeth—ac a aethant?  
 Ac yn hwn—ac efo hwn  
 Pa galonau dewr a dorasant?  
*I'r* byd hwn—ac *o'r* byd hwn  
 Er penyd y dynion a ddaethant;  
 Llawen a fu mil yn hwn  
 Mewn galar trwm yr ymadawsant.  
 Iuddew, Pagan yma i hwn  
 Cristion a Mahomed a ddaethant;  
*I'r* byd hwn—ac *o'r* byd hwn  
 Yn wylo'n d'od, yn cysgu'r aethant.  
 Dammeg o'r dechreu ydyw hwn  
 A doethion y byd a'i hymchwiliant:  
 Pawb a ddaeth a aeth o hwn,  
 Pwy ddywed i ba le yr aethant?

## I'R GOEDWIG.

Hoff yw genyf mewn man unig,  
 Rodio lleoedd ansathredig,  
 Ym mhell o olwg pob dyn byw;  
 Lle felly ydyw'r goedwig.

Difyr genyf fod mewn man  
 Heb ond fy hunan unig,  
 O swm a golwg pob dyn byw;  
 Lle felly ydyw'r goedwig.

Yno pyncia'r fwyalch ber  
 Yn eilio i'w Ner un orig;  
 A'r fronfraith hefyd ar ryw bren  
 Yng nghanol nen y goedwig.

YR QUEEN, LLESTR NEWYDD Y CADBEN JOHN  
JONES, CEFN Y MEUSYDD.

Brenines, gawres, yn rhagori—hon  
Yn hanes y weilgi ;  
Gwraig Neifion yn llon uwch lli ;  
Mawr ei hawl, y môr heli.

1858.

## Y CYFAILL CYWIR.

Y mae Cyfaill a'm cofia—fi dra'r wyf  
Hyd yr awr ddiweddaf :  
Yn ffyddlon hwn, gwn, a gaf  
Yn dal i'r munud olaf.

A thrwy ing aruthr angau,—annelwig  
Niwlen drychiolaethau.  
A thrafod y cysgodau ;  
Pur o hyd hwn yn parhau.

Rho'f fy nghred, ymddiriedaf—i'w nodded,  
Ei nawdd a erfyniaf ;  
Rho'f arno 'mhwys ; gorphwys gaf ;  
A byth nid anobeithiaf.

1859.

## I HAF 1858.

Yr haf ffrwythlonaf yw 'leni—i'r maes  
Mae'r meusydd yn erddi ;  
Ein bryniau a'n mynyddau ni,  
Fel glan Taf, fal glyn Teifi.

## I GELL MEUDWY.

O Sul i Sul yn sal salach,—hynod  
Henaint digyfeillach  
Ddaeth i'm Cell ; ni chaf bellach,  
O r byd unrhyw bleser bach.

WEDI CLYWED MARW MR. GEORGE REYNOLDS,  
PENLLWYN.

Reynolds aeth o'i fer einioes,  
I hedd y ddiddiwedd oes.

AR FARWOLAETH ISAAC MORRIS, PENTYRCH,  
Deialwr a Rhifyddwr campus, dysgybl i Mr. R. HUGHES, y Pistyll.

Isaag Morris gymmerwyd—yn ddiau,  
Ei Ddeial gysgodwyd ;  
A'i Rifyddeg ryfeddwyd  
Sy'n awr yn llawr dan bridd llwyd.

I'R EIRA YN RHAGFYR, 1860.

Hulyn, gwyn wely'n gweunydd,—hen anian  
Yn huno yn llonydd  
Dano, nes y delo dydd  
Tawel ; a newid tywydd.

ENGLYN MORWRIAETHOL I'R BEIBL.

Llusern mewn tywyll oesoedd,—y cwmpawd  
Campus ar y moroedd ;  
Goleudy i'n gwlad ni oedd  
I Borth Naf ; *Berth* yn Nefoedd.

CANMOLIAETH.

Canmoliaeth yn faeth a fu  
I gannoedd gynfigenu ;  
I dri chant fwy ymdrechu  
Canmoliaeth yn faeth a fu.

MARW.

Dyna fydd ben am danom  
I gyd, er byw cyd y bôm.

I MR. DANIEL PARRY, YR OMNIBUS O LAN-  
LLYFNI I BORTH MADOG, 1860.

Daniel sydd un o'r dynion—a folir  
Gan filoedd yn gyfion :  
Yn ddibaid â llygaid llon  
Odiaethol i'r ymdeithion.

Dyn i'w le, yn dwyn ei lwyth—o ddegau'n  
Ddiogel ac esmwyth,  
Heb ddamwain, brad, nac adwyth,  
Un dyfal, cystal ac wyth.

Yn siriol bob amserau,— yn darbod  
Erbyn amgylchiadau :  
O'i fodd hwn yn ufuddhau,  
Yn gysson â'i negesau.

Gofalus, medrus, a mwyn,—i'r munud,  
O'r manau bo'n cychwyn ;  
Heb un och, neb yn achwyn,  
Mor dawel : Daniel sy'n dwyn.

Gwelir y nos yn golau—i lawer  
O lewyrch ei lampau :  
Ofer i hwn ei fawrhau ;  
O'r gyrwyr ef yw'r gorau.

Cofir, adwaenir dynion—yn eithaf  
A wnaethant orchestion :  
Rhagora ar y gwron  
Drwy y sir wedi'r oes hon.

I "FY NOSWYL," LLYFRYN TREBOR MAI,  
LLANRWST.

"Fy Noswyl" a gwyl wedi gwaith :—teilwng  
Y telir i'n mamiaith ;  
Arch osteg ei orchestwaith  
I gyd o rym i gadw'r iaith.

"Fy Noswyl" mewn hwyl fynwesor,—noson  
Mewn oesoedd a gofier ;  
Noson yw hon a sai'n her  
I ymswyn anghof amser.

"Fy Noswyl" na fo'n eisiau—mewn annedd,  
Mewn un o'n llyfrgellau ;  
Y ber ddawn, o bur ddoniau,  
Fyddo o hyd i foddhau.

Mesurau pob amseroedd,—caeth a rhydd,  
Coeth a rhad i'r bobloedd  
Tra bo'r iaith : ein Trebor oedd  
Aur delyn i'n hardaloedd.

IESU.

Mae'i enw'n berarogl y nefoedd ;  
A lleinw holl leoedd y llawr ;  
Ac ynddo mae bywyd pechadur,  
A'i gysur yn eglur yn awr.

Ei Enw bydd saint ac angylion  
Yn ganmol yn gysson i gyd,  
Er syrthio y sêr o'r ffurfafen,  
A dyfod i ben amser byd.

Yr Enw a gaiff ei glodfori,  
 A'i foli'n dragwyddol a fydd;  
 Mae'r Enw Gwaredwr yn felus,  
 A melus fwy melus a fydd.

## TAITH BYWYD.

“UNWAITH YN DDYN A DWYWAITH YN BLENTYN.”

Yn *blentyn* mae'r dyn ddechreu'r daith,—hwn ddaw  
 Yn *ddyn* ar ei ymdaith:  
 Ag os efe ga oes faith,  
 Yn ol daw'n *blentyn* eilwaith.

Ebrill 8fed, 1862.

AR DDALEN BEIBL A WNAED YN RHODD I  
FACHGENYN.

Y rhodd fynegodd i ni—fodd i gael  
 Fuddugoliaeth drwyddi;  
 A rhodd Ior i'w gwerthfori  
 Uweh aur byd, hefyd yw hi.

Awst, 1862.

## I'R FLWYDDYN NEWYDD, 1863.

Pwy wŷr, pa synwyr, be' sydd— i ddyfod  
 Oddi fewn y newydd?  
 Ba awdwr na gwybedydd  
 All ganfod i fod, a fydd?

I'r goleuni rhagluniaeth— a ddengys  
 Oedd i dd'od mewn arfaeth:  
 Os newydd, dim newydd wnaeth;  
 A baid yr hollwybodaeth?

Metha llwydd pob arwyddion—ond odid,  
 Nid ynt ond dych'mygion ;  
 O'r golwg mae'r dirgelion,  
 Eu man sydd ym mynwes Ion.

## I HENAINT.

Yn raddol, raddol, arwyddion—gefais  
 Er gofid i'm calon,  
 Dd'od henaint, yr haint oer hon,  
 A blaen y dyddiau blinion.

## ARALL.

Er y gwanwyn ar gynnydd,—neu ddiiddan  
 Ddyddiau haf ysplenydd ;  
 Henaint yw fe : henaint tydd  
 Yn boenus ; gwywo beunydd.

## PAN GLYBUWYD MARW AB ITHEL.

Ab Ithel fydd enw bythoedd—i'w gofio  
 'N gyfan mewn llyfrgelloedd ;  
 Iawn awdwr uniawn ydoedd ;  
 A diau llawn deall oedd.

Am Hynafiaeth, ac Ieithyddiaeth,  
 A Hanesiaeth ein hen oesau,  
 Pwy mor helaeth ei wybodaeth ?  
 Ei ragoriaeth ni ry geiriau.

Ef oedd benaeth ein llenyddiaeth,  
 O'i farwolaeth dirfawr alar :  
 Pryd ceir eto debyg iddo,  
 Er a ddeuo ar y ddaear ?



## I GLYNNOG FAWR YN ARFON.

Clynnog yn enwog iawn oedd,—a'i enw  
 Yn anwyl gan filoedd ;  
 Yn seren yr holl siroedd,  
 Y bu drwy Gymru ar g'oedd.

Machludodd, duodd, do, do,—gogoniant  
 Gwynedd yn ymado ;  
 A chaddug sy'n gorchuddio  
 Dros hon yr hyfrydlon fro.

Collodd, mae'n anhodd enwi,—ei Llenor  
 Llawnwych o uchel-fri ;  
 Collwyd gwên ei hawen hi,  
 Urddunwyd i farddoni.

Chwithdod yn dyfod, bob dydd—y cyfyd,  
 Cofio Eben\* beunydd : (\**Eben Fardd.*)  
 Môr o win, mawr awenydd,  
 Ei sain yn ddystaw y sydd.

Ef oedd Achydd, Hynafiaethydd,  
 A Hanesydd heb un eisiau:—  
 Prif-fardd campus, Beirniad craffus  
 Iawn; a medrus yn ein mydrau.

Mynwent Beuno gaiff ei chofio,  
 Yno'n huno mae un hynod,  
 A lafuriodd ac a lwyddodd,  
 A addurnodd ei ddiwrnod.

1863.

I CHARLES SAUNDERSON, Y BALA, NEU SIARL  
 WYN O BENLLYN.

Siarl Wyn o Benllyn y Bardd  
 A berchir tra cofir cerdd :

Mewn bedd o Wynedd:—mae'n wir  
 Ddwyn Pen hoff awen i ffordd:  
 Poed iddo; mae eto urdd  
 Wastad i'w ganiad pan gwrdd:  
 Gwynaf fu, ac un o fyrdd.

## ALLEIRIAD O EMYN BRYDNAWNOL.

(O'R SEISNEG.)

“Aros gyda ni; canys y mae hi yn hwyrhau, a'r dydd yn darfod.”

Bydd gyda mi, fy Nuw, fy Noddfa gref;  
 Ac wrthyf trugarhâ, a gwrando'm llef:  
 Pan metha pob cynnorthwy, yna Ti,  
 O Nerth y gweiniaid, aros gyda mi!

Yn brysur, darfod y mae'm dydd byr brau;  
 Llawenydd byd yn ddim ond pleser gau:  
 Cyfnewid, darfod pobpeth, ond Tydi'n  
 Anghyfnewidiol: O bydd gyda mi!

Mae arnaf eisieu'th gymhorth Di bob awr;  
 Beth ond dy ras ddyrysa'r temtiwr mawr?  
 Pwy fel Tydi i'm dal a'm harwain i  
 Trwy bob rhyw dywydd? aros gyda mi!

'D oes arnaf ofn un gelyn, chwaith na braw,  
 Na drwg, na chwerwder, a Thydi ger llaw.  
 Pa le mae colyn angeu, 'r bedd a'i fri?  
 Diogel byth a fyddaf gyda Thi.

O flaen fy llygaid dal dy Groes, a daw  
 Im' wawr o'r Nef, a chwal y t'wyllwch draw:  
 Bydd boreu'n agor, byd yn colli 'i fri;  
 I fyw a marw, O bydd gyda mi!

## EMYN NEWYDD AR "AROS GYDA MI."

(LUC XXIV. 29.)

Yn wyneb tentasiynau llym y byd,  
Ei boenau a'i flinderau oll yng nghyd;  
Ni feddaf nerth na noddfa ond Tydi;  
O aros, f' Arglwydd, aros gyda mi!

Hyderus fyddaf er na chad na llu,  
Nid ofnaf yng nglyn cysgod angeu du:  
Cysurus fyddaf ond dy gael, Tydi  
Y Cyfaill ffyddlon, aros gyda mi!

Buddugol fyddaf fi ar hyd fy oes,  
Wrth bwysu ar yr Iawn roed ar y Groes:  
Wrth fyw, wrth farw, yn y farn; Tydi  
Fy holl amddiffyn, aros gyda mi!

Pan glywo'r meirw floedd yr udgorn mawr;  
Wrth adgyfodi'm llwch o bridd y llawr,  
Ni cheisiaf neb yn unman ond Tydi;  
O aros, aros, aros gyda mi!

## I'R ALBUM.

Celfyddyd hyfryd yw hon—i nabod  
Wynebau cyfeillion;  
Eu gwir bryd a geir ger bron;  
Cyfyd am oesau'u cofion.

## PAROD I FADDEU.

"Eto ti ydwyt Dduw parod i faddeu."—NEH. ix. 17.

Fy nghysur bob amser, a'm hyder o hyd,  
Fy ngobaith yn unig tra bwyf yn y byd,  
Fod modd i gael maddeu fy meiau i mi;  
Mai *parod i faddeu*, O Dduw, ydwyt Ti.

Rho ffydd imi gredu i'r Iesu a roes  
 Ei Hunan yn aberth ac iawn ar y Groes,  
 I achub pechadur mor ammhur a mi :  
 Un *parod i faddeu*, O Dduw, ydwyt Ti.

Euogrwydd ac ofnau, anobaith brwnt cas,  
 Sydd am osod terfyn trugaredd a gras :  
 Er hyn mae gwawr gobaith, er mor wan i mi ;  
 Un *parod i faddeu*, O Dduw, ydwyt Ti.

Mae'r Enw mor anwyl ; 'r wy'n dysgwyl bob dydd  
 Gael maddeu fy mhechod ;—rhyfeddod a fydd :  
 Yn lle bod mewn poenau yr oesau di ri' ;  
 Un *parod i faddeu*, O Dduw, ydwyt Ti.

Chwefror 2fed, 1865.

### COFION AM WILLIAM OWEN, PORTH MADOG.

Ow ! Ow ! Ow ! William Owen  
 O'r byd ; ei einioes ar ben :  
 Yng nghanol oes ; loes i lu,  
 Y goleu-ddawn, ei gladdu ;—  
 Prif Gantor a Pherorydd,  
 Un cyflawn, oedd ddawn ei ddydd ;  
 Yn ei fedd ! Pa un a fu  
 Yn amgenach am ganu ?  
 Ys yw'n fud, heb sain o'i fedd ;  
 Dienaid yw ei annedd :  
 Enaid y gân, ei nwyd gu,  
 Gywilyddiwyd o'i gladdu :  
 Yr organ a'r bïan bêr  
 A'u tannau mwynion tyner :  
 A'i lais yn goglais gwagle ;  
 Yn awr y llawr yw eu lle.  
 Pa deimlad, profiad mwy prudd,  
 Yn gostwng oes dan gystudd ?

Porth Madog, mor enwog oedd,  
 Gollai un o'i galluoedd.  
 Penmorfa a ga hir go',  
 Fwyna' dyn, fyned yno  
 William; a phwy a welwn  
 O le a hawl ail i hwn?  
 Ow! O! am William Owen  
 Oesau'r byd, ys yw ar ben  
 Ei einioes;—rhy fer ennyd!  
 Rhy fer i barch ofer byd:  
 Gwagedd o wagedd, gwegi  
 Enbyd iawn yw'n bywyd ni.

1865.

## BEDDARGRAFF IDDO.

Prif Gantor a Pherorydd—a welwyd  
 William, yn ddieilfydd:  
 Un cyflawn oedd ddawn ei ddydd;  
 Y llenor yma'n llonydd.

Ei fedd a anrhydeddwn,—a'i enw  
 Yn anwyl a barchwn;  
 Ein Iubal dihafal hwn  
 A gafwyd; yn hir gofiwn.

Medi, 1865.

## Y MARW.

Efe a wŷyr mewn llai na diwrnod  
 Fwy na doethion byw'r byd isod;  
 Gwŷyr beth yw poen dychrynlyd angau;  
 A gwŷyr y dirgeledigaethau;  
 A beth yw bywyd wedi gado  
 Ei gorff mewn llygredd i falurio:  
 Fe wŷyr beth na wn i am dano  
 Tra bwyf byw, er maint y chwiliog.  
 Hir y byddwyf heb wybodaeth  
 A enniller trwy farwolaeth!

Gwell yw genyf fod heb wybod  
 Gan yr ofnau a'r dychryndod,  
 Wrth feddwl newid dwy sefyllfa;  
 Newid deu-fyd a'm dychryna:  
 'R wy'n caru byw, er maint helbulon;  
 'R wy'n ofni marw yn fy nghalon:  
 Bron na dd'wedwn 'n awr yn ddifri',  
 O na buaswn heb fy ngeni!  
 Rhag im' wybod er fy alaeth  
 Beth yw bywyd a marwolaeth:  
 Byw heb gorff sy ddeithr imi;  
 Pa le? Pa fodd? 'd oes ond dystewi!  
 Mae f' amgyffred gwan yn pallu,  
 Ac nid wyf ond ymbalfalu  
 Yn nyryswch tywyll anian,  
 Heb adnabod mo fy hunan.  
 Weithiau'n gnawd, ac weithiau'n yspryd;  
 Ofnadwy, rhyfedd o gymmysglyd:  
 Ond y mae'r marw mewn goleuni  
 A bar byth heb ddim tywyllni.

Gorphenaf 13, 1865.

### EMYN DIOLCHGARWCH AM GYNAUAF 1865.

Y meirw ni'th foliannant Di;  
 Ond dyma ni mewn bywyd;  
 Ac yn mwynhau dy roddion rhad,  
 O anwyl Dad! yn hyfryd.

Ti ro'ist yn rhagor dymmor da,  
 A phwy na wna dy gofio,  
 A'th foli o galon bur yn llawn,  
 Mae'n deilwng iawn, am dano?

Ar bwys dy drugareddau Di,  
 O dysg i ni dy ganmol;

Ac erfyn arnat yn ein dydd  
Am fywyd fydd dragwyddol.

Hydref y 3ydd, 1865.

## CANMOLIAETH I FEDDYG.

Meddyg heb ddiffyg, a ddyd,—ys clwyfus,  
Claf o bob afiechyd;  
O ochain berffaith iechyd:  
Dyna gamp doniau i gyd.

Ei uthradwy weithredoedd—â'i gyffyr  
A goffêir gan filoedd:  
Galen yn wir! Gwael iawn oedd  
I hwn asiwr ein hoesoedd.

Y gwyrthiau diau nid ynt,—hwn i'w oes  
Yw y nesaf atynt;  
Ni wyddom ni na weddynt  
Yr enwau gwyrthiau fel gynt.

Er y doniau trydanol,—a gwelliant  
Y gallu gwefreiddiol;  
Dwfr a thân, yn eu canol,  
Ofer, tra Robert ar ol.

Ei helaeth wybodaethau—a'u galwant  
I goledd pob clwyfau:  
Rhy brin, pe'n ddwsin neu ddau,  
Wedyn, i'w holl alwadau.

Gelyn, prif elyn yw fo—i'r angeu,  
A'r ingoedd lle byddo:  
Son a wna'r gwan am dano;  
I'r gwael bydd o hyd ar go'.

Ei alwad i'w wlad wna i'w le—fyned  
 Yn anfynych artre',  
 I ffordd y gwan ffordd ag e  
 Heb aros hwyr na bore.

Y bywiadur, be' ydyw?—ei ddoniau  
 Urddunant ddynolryw  
 Daioni oes: os dyn yw,  
 Cofrestr wneir byth o'r cyfryw.

Ofer ydyw, afreidiol,—a phob un,  
 A phawb yn ei ganmol;  
 Ni ruswn ei resu'n ol  
 Roberts y diarebol.

Ionawr, 1865.

PEN FY MLWYDD YN 76 OED.

Saith neg, chwech chwaneg rhowch chwi,—a gefais  
 Yn gyfan o flwyddi:  
 Anniddan fy oedran i,  
 Poen a henaint penwyni.

PEN FY MLWYDD,

MAWRTH YR 31FED, 1866, YN 77 O OED.

Cefais o flwyddau i'w cofio—saith neg,  
 A saith chwaneg eto:  
 Ofer a drwg! rhyw fyr dro;  
 A diengyd i angho'.

Yn fy oes mynych groesau—a gefais,  
 Gofid a blinderau:  
 Rhyw helynt fel gwynt yn gwau;  
 Anwadal gyfnewidiau.



Chwerwon helbulon bawlyd,—anhwylus,  
 Yn hela fy mywyd :  
 Yr hedd gaf oddiweddyd  
 Sy 'n y bedd o swm y byd.

## WEDI CAEL Y GWLAW, MAIHAFIN, 1866.


Wedi'r sychder, Ner a wnaeth—ein cofio,  
 Cafwyd gwlaw'n ehelaeth,  
 I'n lloni, er ein lluniaeth,  
 I ddyn ac anfail ddaeth.

## I'R ANGEU.

Bwrw arfau, nac ammodau,  
 Ni fyn angau : ef yn ingol  
 A orfoda holl hil Adda :  
 Pob un fwria, pawb yn farwol.

## I FY CHWAER ELIN YN YNYS CYNHAIARN.

Aeth Elin at ei theulu—i'r Ynys  
 Ryw ennyd i lechu :  
 Rhaid oedd ei hanrhydeddu  
 A bedd yn 'r ardal y bu.

 Dygwyd hi o Gaernarfon i'w chladdu ym medd ei gwr cyntaf.

PAN GLYBUWYD MARW JOHN GRIFFITH,  
 BETHESDA.

John Gruffydd, ei ddydd a ddaeth—i'w derfyn ;  
 Darfu ei wasanaeth ;  
 I fywyd iawn o fyd aeth :  
 Mawr ei elw, marwolaeth.

## OCHENAID

Am Mr. CHRISTOPHER MAUGHAM, a fu farw ar y 23ydd o  
Ragfyr, 1866.

Mae dychryn a syndod fod Maugham yn y beddrod :  
E ddarfu ei ddiwrnod, a hynod drwm hyn,  
Ynghanol ei degwch, ei nerth a'i brydferthwch,  
Ei ddawn a'i ddiddanwch : os soniwch, mae'n syn !

Mae natur yn teimlo o'r galon, ac wylo  
Y sydd wrth ei gofio, gofidio a fydd  
Ei fod yn Llanbeblig, mor ddystaw ac unig  
Yn hen fynwent Peblig ; nodedig y dydd.

Mae hiraeth am dano, pa fodd wrth ei gofio  
Y gallwn ni beidio ? ei briddo sy bron  
Yn ormod i'w gredu, a phrin 'r fym yn gallu :  
Ow na allem wadu ; er hyny 'r awr hon

Y bedd a'i dywyllwch a guddia'i hawddgarwch,  
Ac ef byth ni welwch, mae'n dristwch a droes  
Yn ddychryn a syndod fod Maugham yn ei feddrod,  
A'r byd iddo'n barod : Ow darfod ei oes !

Io nawr y 19, 1867.

## PEN FY MLWYDD YR 31FED O FAWRTH, 1867.

Saith neg, wyth chwaneg rhowch chwi,—a gefais  
Yn gyfan o flwyddi :  
Anniddan fy oedran i,  
Poen a henaint penwyni.

Er cryfder na chyfferi—ni chaf fyw,  
Nychaf, mwy rhaid imi  
Ddwyn rhyw boen a dyhoeni ;  
Dyna gaf tra fyddaf fi.

Ffarwel oes einioes anwyl—am a gaf,  
 Mwy gefais na'm dysgwyl;  
 Brysio yr wyf i'r breswyl,  
 Gwedi gwaith i gadw gwyl.

Gwyl heb un anhwyl, mewn hedd,—a gwedi  
 Gadael byd a'i wagedd:  
 Y fan y bydd fy annedd,  
 O dwrw byd ydyw'r bedd.

### EMYN Y SACRAMENT.

“Gwnewch hyn er côf am danaf.”—CRIST.

Adgoffa marwolaeth mor fawr,  
 Rhoi 'i fywyd i'r llawr yn ein lle  
 I brynu ein bywyd, a fydd  
 Dragywydd, o newydd yn Ne':  
 Mae'n gysur difesur ei faint,  
 Bydd hefyd i'r saint y'mhob oes,  
 Adgofio'r ymwarded a ddaeth  
 Drwy Grist a marwolaeth y groes.

Nis gall nac angylion na saint  
 Fyth ddatgan y fraint a'r mawr fri  
 A ddaeth trwy farwolaeth y groes;  
 Y loes a fu ar Galfari:  
 Nid *cofio* fydd byth gan ei blant,  
 Ei weled a gânt heb ddim llen;  
 Mewn meddiant o'i deyrnas y'nghyd:  
 A'r byd a'i holl oesau ar ben.

### PENNILLION METHU CYSGU.

'Rwyf yn methu'n lan a chysgu  
 Er ymdrechu ac ymdroi:  
 Er na blino na gorphwyso,  
 Mae hoff huno wedi ffoi.

Yn prydyddu, ac yn methu  
 Cynganeddu dim yn iawn :—  
 Yn breuddwydio er yn effro ;  
 'N gymysg heb na dysg na dawn.

Weithiau 'n adeiladu cestyll,  
 Rhai'n heb sefyll eisiau sail ;  
 Tynu lawr ac adeiladu,  
 Gwneyd a methu bob yn ail.

O na ddeuai Morpheus heibio,  
 I fy sio hyd nes awn  
 I lonyddwch a thawelwch,  
 Yna heddwch gwiw a gawn.

Ar derfynau bröydd angau,  
 Sy'n gysgodau oll i gyd ;  
 Heb ofalu na therfysgu,  
 Gwedi'r baeddu gyd a'r byd.

Gyd â meirwon, hen gyfeillion,  
 O'u tralodion heno 'n llu :—  
 Eu gwel'd fel 'r oeddynt yn eu helynt  
 Fel y byddent gynt yn gu.

Cawn gyfarfod hen gydnabod  
 Wedi darfod yma'u dydd,  
 Ac ymadael a'u holl groesau,  
 O bob rhwymau fyth yn rhydd.

Cawn freuddwydio'n esmwyth yno,  
 Dro, ac heb ddiuno 'n hir ;  
 Ac heb etto eisiau deffro,  
 'Chwaith na dod yn ol i dir.

Pe y medrwn, oesau gysgwn,  
 Hunwn ni ofalwn fawr,

Am y poenau a'r blinderau,  
Na chynlluniau plant y llawr.

Yn mro Hades yr ymrodiwn,  
Gydâ myrddiwn gaed, a mwy ;  
Ar hyd glenydd aur afonydd,  
Heb un groes, nych, loes, na chlwy'.

Beth yw'r achos, be' sy'n aros,  
Ac yn dangos nos fel dydd ?  
A'i go weiniaid yw'r gewynau ?  
Ydyw'r gwaed i'r traed yn rhydd ?

Ydyw bywyd am ddihengyd,  
Ymrwyf ennyd i ryw fan ;  
I ymguddio lle na fedro  
Angau ddringo a rhwygo'r rhan ?

Ydyw henaint mor resymol,  
A gwel'd na fydd yn effro fawr ;  
Y ceir digon fyth o gysgu,  
Pan yn llechu yn y llawr.

Yw'r gydwybod wedi deffro,  
Ac na fyn mo'r huno'n hwy ;  
Heb gael sierwydd am faddeuant,  
Bendant yn ei meddiant mwy ?

Ydyw gwaedd y colledigion,  
A'i hechrslon greulon gri,  
Yn fy nal yn effro'n llefain,  
Ac yn ochain Oh ! gwae ni ?

Ydyw'r cyfnewidiau hynod,  
Y sy'n bod yn synu'r byd,  
Yn werth sylw gan ysprydion  
Ynte gweigion y'nt i gyd ?

P'le mae'r helaeth fawr wybodaeth  
 Yn ei heithaf d'wedwch im' ?  
 Dod o'r diwedd wrth hir ganfod,  
 I wel'd ein bod heb wybod dim.

Dylem gofio'n lle ymchwyddo,  
 I ba le wrth rodio'r awn :  
 Yn fuan, buan y daw cyfnod,  
 Yna gwybod yno gawn.

Pe trwy ffydd y cawn ond golwg  
 Imi'n amlwg am y Ne';  
 Byddai'n ddigon—byddwn foddlon,  
 Ym mhob dull, a llun, a lle.

Pe y cawn I fod yn eiddo,  
 'Rhwn sydd yn y Nef yn Ben ;  
 Cwsg neu'n effro, byw neu'n farw,  
 Yn eiddo hwnw mwy Amen.

Tachwedd 27, 1867.

ELLIS OWEN.



## RHAGYMATRODD YN OLYMATRODD.\*



PWY a welodd Lyfr heb Ragymadrodd? A rhag bod hwn yn eithriad, dyma fo yn *niwedd* yr Ysgrif hon. I bwy, ac i ba beth, nis gwn. Yr hyn a achosodd ei ysgrifenu oedd pleser. Ysgrifenid rhyw ddarnau bryd yma a phryd arall, am *ddeng mlynedd a deugain*, ar gymhelliad neu drwy duedd; gan fod y rhan fwyaf o'r Cyfansoddiadau yma a thraw ar wasgar, meddyliwyd am eu crynhoi; a hyny a wnaed i gym-maint ag oedd heb fyned ar ddifancoll.

Wel pe'r aethant oll, pa waeth? Pa waeth hefyd? Er hyny buont yn ddiddanwech lawer tro i'r Ysgrifenydd; a hyny yn unig a'u cadwodd ar gof. Darnau byrion ydynt.

Yr oedd y Cyfansoddydd yn Ysgrifenydd i wyth o Gymdeithasau (i un o honynt am 42 o flynyddoedd); ac ysgrifenodd rif bron aneirif o Ewyllysiau, Traethodau ar Hynafiaeth, &c., &c. Pa ryfedd i'w Farddoniaeth fod mor fer? Er iddo ddarllen gwaith y beirdd hen a diweddar,

\* Rhoddai 'r Awdwr y dernyn hwn o dan y penawd uchod yn niwedd ei Ysgrif-lyfr.

(pymtheg a thriugain o'r rhai olaf a fu gydag ef yng Nghesu y Meusydd) yr oedd ei fod yn ofalus gyda'i alwedigaeth fel Amaethydd yn cymmeryd, bron, yr oll o'i amser, oddi eithr ychydig i ddarllen gwaith y Beirdd Seisnig, a llawer o Lyfrau eraill. Wel, hanes *bywyd* yw hyn yma, ac nid rhagymadrodd.

O'r goreu; a welwyd un erioed heb weled ei fywyd yn werth rhoi ei hanes? Pa beth yr ydych am wneyd a'r Ysgrif wedi'r cwbl? Dim ond ei adael i'r neb ni lafuriodd wrtho. Gan fod y Cyfansoddydd yn canfod pob peth yn wagedd, y mae bron ag anobeithio, a phoeni yn lle ymbleseru;—gweled eymmaint o le i'w ddiwygio mewn Cynganedd a Meddyl-ddrychau. Pe deuai rhywun a drefnai y Cyfansoddiadau eyn y flwyddyn 1900, hwyrach y byddai hyn yn rhywbeth ganddo.

Nid yw yr Awdwr yn cofio iddo ymgystadlu ond dwywaith, ar Dewi Wyn, &c.: ond Eryron Gwyllt Walia a orchfygodd: eithr dywedai Ioan Meirion wrthyf, ei fod ef a Gwallter Mechain yn methu penderfynu i ba un o'r ddau y rhoddid y wobr. Wel, beth a ddywedir etto? Gofyn esgusodiad a hynawsedd y darllenydd? Na dim yn debyg: os daw i law rhywun, barnant a dywedant fel y mynont am dano. Dyna ryddid iddynt; nage, y mae ganddynt hawl er pawb, a'u hawl a gânt yn ddirwgnach. A ydych am enw oddi wrtho? Ydwyf; a chaf hefyd. Pa fath? Nis gwn yn sicr, ac nis gwaeth genyf y chwaith.

ELLIS OWEN.



## ANNERCHIADAU Y BEIRDD I'R AWDWR, &amp;c.

R. Ab Gwilym Ddu, yn anfon yr Awen i gyfarch ei Gâr, a'i gyfaill Barddonol, Ellis Owen, Cefn y Meusydd, Mawrth 20fed, 1844.

Atolwg, dôs, at Elis,  
 Awen fwyn i'w weini fis ;  
 Cei groeso iawn rhadlawn rhydd,  
 Am oes yn Nghefn y Meusydd.  
 Derbyniad yn anad neb,  
 Gan haelder digynhildeb ;  
 A chei gerdd wen ar ben bys,  
 Law-law yn ei oleu-lys ;  
 Bri ofydd yw bro Eifion,  
 A rhandir beirdd heirdd yw hon ;  
 Pegwn aur—pwy a gawn is  
 Yn y gwaelod nag Elis ;  
 Da i weiniaid ei eni,  
 Ef er neb y'w 'n Ifor ni—  
 Cryf ei farn—y cryfaf fydd,  
 Os cryf un Ysgrifenydd.  
 Ceiff glod am ei wybodaeth,  
 Yn rheolau 'r ceingciau caeth ;  
 Dos ymlaen hyd ei Faenor,  
 O chwardd ef—a chûr y ddôr :  
 Arfer di burder dy barch,  
 Wrth gôf—mae 'n werth ei gyfarch.  
 Hyd ardd hwn rhodiwn yr hâf,  
 A gwerdd oedd fel gardd Addaf ;  
 Gwron beirdd, goreu 'n y byd,  
 Gwr hyfwyn yn gâr hefyd ;  
 Gwr yw maint Goronwy Mon,  
 O dda wraidd, hen Dderwyddon ;  
 Trwy lawn fodd y treuliwn fis,  
 I gadw gwyl gyd ag Elis.

Prif arwydd—fardd hardd yw hwn,  
 Geiriadur y'w a gredwn;  
 Beunydd ni chydfydd a chas,  
 I neb elo i'w Balas;  
 Dywed fy mod hynod haint,  
 Dros amser hanner henaint;  
 Heno ni feildaf anian,  
 Dawn cerdd na dewinio cân.  
 Dan len mae 'r Awen,—Ymrodd,  
 Y Mawrth oer a'i merthyrodd;  
 Am Elis yr ymholir,  
 Draw a son hyd yr oes hir;  
 O'i ol rhyfeddol a fydd,  
 Dawn awen a'i Dy-newydd;  
 Iechyd, mwneiddfyd mewn oes,  
 Boed yw ran bedair einioes;  
 Cefn y meusydd fydd tra fo,  
 Hyd Nef yn Haddef iddo.

## CYWYDD ANNERCH

I Ellis Owen, Cefn y Meusydd, Yswain; ar y gobaith o weled ei waith llenyddol yn dyfod allan.

“Syr anwyl,”—sy wirionedd  
 A red yn bur hyd ein bedd;  
 “Anwyl syr,”—ni welais i,  
 O gannoedd, er y'm geni,  
 Ddoethach na rhagorach gwr  
 O bêr ddawn fel barddonwr;  
 Athraw ar waith yr iaith rydd,  
 Anfethol hynafiaethydd;  
 Cywrain em coron ei oes,  
 Trysor in' tros hir einioes.

Gan ddyddiau blynyddau nÿch,  
 Gwywa llaw, 'e gyll llewyth,

Llawer bardd yn llwyr i ben :  
 Oes hir a wywa'i seren :  
 Ond seren eich awen chwi,  
 A'i holl asgen sy'n llosgi ;  
 Mewn disglaeriach cliriach clod,  
 Na'i chyndaith, yn eich hendod :  
 Mae'ch hen awen yn ieuange  
 O hoen a lliw, awen llange ;  
 Di-nych o hoen yw'ch dawn chwi,  
 Di boen iawn, dibenwynni :  
 Daw'n eiddi adnewyddol  
 Wyliau o nerth ol yn ol ;  
 Pob blwyddyn di wyn, heb dawl,  
 Ei hail-eni'n olynawl :  
 Daw i'w rhan, o'i haniau hi,  
 Adnewyddiad yn eiddi :  
 Ymnewyddu mae'n addien,  
 Mal eryr yn wybyr nen :  
 Mae sidell ei hasgell hi  
 Yn esgyn, awen wisgi,  
 Yn gydnerth hyd anterth dydd ;  
 Hi chwardd yn entrych hirddydd.

Llafur aur eich llyfr eres,  
 O'ch llaw fydd harddwch a lles,  
 I Gymru'n ddiballu byth ;  
 'E drig ef yn dragyfyth.  
 Ein trysor ni trwy oesoedd,  
 Gwythi cân, fydd eich gwaith c'oedd :  
 Tuedder rhwydd hynt iddo,  
 Ac eithaf hwyl i'ch gwaith fo.

Bywyd haf a byd difyr,  
 Eurawg ei werth, sydd i'r gwyr,  
 Sy'n trin â'r heiniar anian,  
 Cantre'n cêd—ac yn trin cân.  
 Ac haeddawl y cyhoeddir

Trylen waith awen a thir :  
 Eu gwair-frig sydd gerdd ddigoll,  
 A llyfr yw eu llafur oll ;  
 Eu tir, lle byddir yn byw,  
 E' dilediaith awdl ydyw ;  
 Cae dd'wedaf? *Cywydd* ydyw ;  
 Pob blodeuyn, *Englyn* yw ;  
 Maent hwy yn troi eu lloi llon  
 Yn hawdd yn gynghaneddion ;  
 Mad eu hynt yn medi a hau  
*Unodl union* ydlanau :  
 Prynu a gwerthu gwarthog  
 Am iawn-bris tâl,—mae'n *Broest* teg  
     Pêr yw Eifion i'r Prif-fardd,  
 A miwsig yw maes a gardd ;  
 Cerddori dyri i'r dyn,  
 Mae'r adar mir eu hedyn ;  
 Llinos falch a mwyalchen,  
 Pob adar llafar a llên,  
 Pyngciant, prydyddant iddo,  
 Heb nâg, lle bynag y bo :  
 Rhyw awdl fawr i'w hoedl a fydd,  
 Eu miwsig yng Nghefnmeusydd.  
     Fardd seinber, cymmer, o'm oân,  
 Res o f' hanes fy hunan :—  
 Byw'n gynnil, heb wan gwyniach,  
 Llawn o waith, ond llon a iach ;  
 Byw ar y dorth, heb air du,  
 Boddiog a digybyddu ;  
 Hyfrydol ddifradol fron,  
 Diochenaïd achwynion ;  
 Cym'ryd yn fwyn heb gwyno,  
 Afael y byd fel y bo ;  
 Mae'r byd yn well efelly,  
 Fe'i gwiriaf, haeraf e'n hy ;

Na rhyw ddal dial a dig ;  
 Ba nawdd yw byw anniddig ?  
 Plwyf hwylus, trefnus, ger traeth ;  
 Ba le fel y blwyfoliaeth ?  
 Ac mae llais pleidlais y plwyf  
 Yn rhoi'n fwyn yr hyn fynwyf,  
 Eu haelion roddion di-rus  
 Ynghwynion yr anghenus :  
 Gwneud pregeth. Mae'r dreth yn drom ;  
 Ni wella, gwnawn a allom.  
 Yna cywydd newydd wnafl,  
 Neu benillion, ban allaf ;  
 Gwed'yn ar fyr, llythyr llên,  
 Tlws, syw, at Elis Owen,  
 Od yw fudd, ydwyf eiddoch ;  
 A gwyech byth, ac iach y b'och.

Llanrhyddlad, Mon, Awst 19, 1867.

NICANDER.

### CWRDD LLUN Y PASG,

CYMDEITHAS LENYDDOL EIFIONYDD YN NGHEFN-  
MEUSYDD, 1852.

Ffineu a mhŵys ar GEFNMEUSYDD—ydwyf  
 Adeg ein Pasg newydd ;  
 Ac O ! na chawn ddawn o ddydd  
 I fyw ger ei fagwrydd !

*Llun y Pasg* cydymwasga—y BRODYR  
 I'r *Baradwys* yma ;  
 Och ! yn wir na chawn I Hâ',  
 Ynteu Wanwyn, hynt yna.

Areithiwch, gwelaf, wrth eich gilydd—cain  
 Y cenwch odl newydd ;  
 A cher llaw, eich ARLLYWYDD,  
 Athrawa 'n ddel, i'w throi 'n ddydd.

Mineu yma mewn ammod—wnaed a gwr  
 I wneyd gwaith, a'i ddarfod :  
 Yn nychu 'n fawr na chawn fod  
 Yna 'n Eilydd, neu 'n Aelod.

Ammor wiwdeg ! fy Mrodyr—i chwi oll  
 Ewch allan yn bybyr ;  
 Beiddiwch wawd, a byddwch Wyr  
 Oleuo fel Haul awyr.

O'ch CWRDD PASG, 'e geir gwasgu—y grawnwin  
 Hyd grinol wedd *Cymru* ;  
 Neu ynte ceir Ennaint cu  
 Dâ nôdd i'n hadnewyddu.

EBEN FARDD.

## CEFN Y MEUSYDD.

I Lys syw Elis Owen—y deuais  
 O'r diwedd yn llawen,  
 Palas hardd y *Bardd sy' Ben*  
 Lle têr yw, Llety 'r Awen.

Anghofiwn am oes yn Nghefnmeusydd—boen  
 Y bÿd drwg aflonydd ;  
 Wyneb Anian dan wên beunydd,  
 Yn aml iawn ei swyn o mlaen sydd.

Mai 17, 1844.

EBEN FARDD.

## ANNERCH AT LENORION EIFIONYDD.

Athrofa Athraw Eifior.—anerschaf,  
 Mae 'n orchwyl hyfrydlon :  
 Ar sail serch mae 'm hanerch hon,  
 Y'ngolwg, ac o nghalon.

Wele nawdd i lênyddiaeth,—lle y saif  
 Llysieufaes gwybodaeth,

A gwyr o'i fewn a gâr faeth  
Iach ei nod, a chaniadaeth.

Llawen addysg llênnyddiaeth—yw 'r eiddoch  
Er addurn dynoliaeth :  
Trwy fwynhau ei ffrydiau ffraeth,  
Daw y byd i wybodaeth.

Nef anwyl yw Eifionydd,—nef addysg  
Na feddwn ei heilfydd ;  
Perlysiau a seigiau sydd  
Yn ei maes y' Nghefn meusydd.

Llênnyddiaeth drôdd fwn-gloddiau—am emau  
Mamaeth celfyddydau :  
Deil y gwir, dëol y gau ;  
Drwy loew iaith eich darlithiau.

O lysieuardd Elis Owen,—tyfed  
Etifedd cathl awen :  
Ochened, a huled hên  
Fywysïau ar faes awen.

Coeliwch ymadrodd calon,—minau 'n fardd  
Mynwn fod yn gyson,  
Yn gwel'd cynyrch llewyrch llon,  
Yn nifyr Athen Eifion.

Un gris yn uwch (grâs a wnel)—i bawb oll  
Babellu 'n ddiogel.  
Heibio i Athen, i Bethel  
I ddal mwy o ddiliau mel.

Eu nodi 'n ychain hydyn—a didwyll  
Hyd adeg eu terfyn ;  
A choder mwy 'n uwch wed'yn,  
Hyny yw llais——

## ANNERCHIAD

I Gymdeithas Lenyddol, ymgynnullledig yng Nghefn y Meusydd,  
Rhagfyr, 1848.

Fy anerch mewn serch y sydd—i haeddawl  
Lenyddion Eifionydd:  
Dyma fan yn fuan fydd  
Yn glodus gan y gwledydd.

Y lle sy' yn Llys Awen,—hefelydd  
Ei foliant i Athen:  
Yma doniau llanciau llên  
Leshêir gan Elis Owen.

Y' min nos yma nesant,—yn weddus,  
Iawn addysg dderbyniant;  
Wedi derbyn fel hyn—âut:—  
Ac i arall y gyrrant.

Fel hyn ar edyn yr â—gwir addysg,  
A rhwydd y cyflyma:  
Do'i i'w chychwyn un dyn da,  
A hi wed'yn eheda.

Ha! gyrwch yn mlaen eich goraf,—gyrwch  
Bob gwr am y cyntaf:  
Areiliwch y rhai olaf:—  
A byddwch yn heddwech Naf.

HUGH TEGAI.

## ENGLYN

I Gefn y Meusydd, yn ei gysylltiad a'r Bardd, a'r Hynafiaethydd  
enwog, Ellis Owen, Ysw.

Dyma fan diâmeu fydd—yn enwog  
Yn hanes Eifionydd:  
Trigle dawn! tra goleu dydd,  
Sai' Paradwys y prydydd.

EISTEDDEFA.

J. T. J.



## ENGLYNION

' A ddarllenwyd yng nghyfarfod Cymdeithas Lenyddol, yng Nghefn y Meusydd, Medi 21ain, 1848, ar ei hagoriad wedi gohiriad hâf.

Cymdeithas addas ryfeddol,—ydyw  
Yr Undeb Llênnyddol ;  
I'n gwneud trwy'n hoes yn foesol ;  
Dwyn o hen ffyrdd dynion ffol.

Heblaw a enwyd, i blanu—tuedd  
At addysg a'i maethu ;  
Onid hyn sai'n fwy o'n tu  
Na chyfoeth i'n dyrchafu ?

Gwir i'n fod yn gohirio'n faith,—ei rhoi,  
Heibio'r hâf am unwaith :  
Ond uno i gyd yn y gwaith,  
Yma wnelom ni eilwaith.

Am asio y' Nghefn meusydd—yr ydym  
Fy mrodyr o newydd ;  
Y nos hon ail uno sydd  
Llênnyddion llawn o awydd.

T'wyswyd i le manteisiol—i'w chynal  
Ni chawn mae 'n debygol  
Na thŷ yn hawdd, na *Thown Hall*  
Ddim haner mor ddymunol.

Dyma iawn fraint ; y mae yn fri—hefyd  
Hyfawl ddyfod iddi :  
Gan fod hon er daioni,  
Y' more'n hoes mawrhawn hi.

Hynod yw mewn amrywiaeth—un fuddiawl  
I foddio pob archwaeth :  
Llyna fydd yn llawn o faeth ;  
Dwys gadarn ei dysgeidiaeth.

Nid haeru ar ryw faterion—a geir :

Agorir dirgelion,  
Goleuni i ni yn hon,  
Ar holl allu 'r Ellyllon.

D'we'yd yn ëang ar bob cangen—o ddysg,

Ac yn ddoeth yw 'n helfen :—  
A deuwn bawb diau 'n ben  
Areithwyr ar wyr Athen !

Ni sonir am ddawn y Senedd—mwyach

Na maint ei hyawdledd :  
Llênnyddion Eifion a fedd  
Yr enw mawr a'i rinwedd.

Nid selog enwog ganwyr—yn unig,

Na—hynod areithwyr,  
Ddeuwn ; ni fyddwn ar fyr  
Yn wythwaith well Amaethwyr.

Os nad yw hon er daioni :—os anwir

Y soniwyd am dani ;  
Anaddas fu hyn iddi  
Darfydder—na henwer hi.

BARDD TREFLYS.

### YMWELIAD A CHEFN Y MEUSYDD, 1859.

Wele ! Dŷ f' awenawl Dad,  
A'n da athraw dieithriad ;  
Elis Owen drwy genad,  
Gwr o les, yn gawr ei wlad ;  
A'i dy hael ond yw o hyd,  
Ein Hifor yw hwn hefyd :  
Hir oes i'w einioes enwog  
A'i gred yn angau y grog ;  
Aed adref yn dad oedran,  
A Naf a r'o nef i'w ran.

ALLTUD EIFION.





BRIGHAM YOUNG UNIVERSITY



3 1197 23165 1370

